

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

22/09/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)

[1. Questions to the First Minister](#)

[2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

[2. Business Statement and Announcement](#)

[3. Datganiad: Ymrwymadau yn ystod y Flwyddyn 2015-16](#)

[3. Statement: 2015-16 In-year Commitments](#)

[4. Datganiad: Creu Cymwysterau Cymru](#)

[4. Statement: Establishment of Qualifications Wales](#)

[5. Datganiad: Cynllun Gofal Sylfaenol—Diweddariad ar ôl Blwyddyn](#)

[5. Statement: Primary Care Plan—One-year Update](#)

[6. Datganiad: Diweddariad ar Gynllun Cenedlaethol Cyllid Trafnidiaeth 2015](#)

[6. Statement: Update on National Transport Finance Plan 2015](#)

[7. Datganiad: Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn ar gyfer Busnes](#)

[7. Statement: Superfast Broadband Business Exploitation](#)

[8. Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i Amrywio Trefn Ystyried Gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Llywodraeth Leol \(Cymru\)](#)

[8. Motion under Standing Order 26.36 to Vary the Order of Consideration of Stage 3 Amendments to the Local Government \(Wales\) Bill](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30 **1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog**
Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

The first item today is questions to the First Minister, and question 1 is from Kirsty Williams.

1. Questions to the First Minister **Y** [Senedd.tv Fideo Video](#)

Cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf heddiw, a daw cwestiwn 1 gan Kirsty Williams.

Bancio yng Nghymru

Banking in Wales

13:30 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad Biography](#)

1. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch bancio yng Nghymru? OAQ(4)2446(FM)

1. What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding banking in Wales? OAQ(4)2446(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We have regular discussions with the UK Government on a range of issues, including banking and financial matters. Our focus, as a Government, has been to improve access to finance for business despite continuing concerns about the provision of business finance at a UK level.

Rydym ni'n cynnal trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth y DU ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys bancio a materion ariannol. Ein pwyslais, fel Llywodraeth, fu gwella mynediad at gyllid ar gyfer busnes er gwaethaf pryderon parhaus ynghylch y ddarpariaeth o gyllid busnes ar lefel y DU.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:30

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

First Minister, many businesses in Llanwrtyd Wells and Crickhowell in my constituency are very alarmed at the prospects of closures of branches of banks in their towns. Barclays is intending on closing the last bank in Llanwrtyd Wells, and NatWest is to close its branch in Crickhowell, having an impact both on small local traders as well as those individuals perhaps who can't travel to branches further away. I have written to both the Secretary of State at the Department for Business, Innovation and Skills, and Minister of State at the Treasury, yet have had no response. Could you impress upon them that they should be doing all they can to ensure banks follow the code that was designed under the last Westminster Government to try and protect communities from such closures, and that it is really important that banks, especially those that were bailed out by the public, should see that they have a continuing role to support local communities?

Brif Weinidog, mae llawer o fusnesau yn Llanwrtyd a Chrucywel yn fy etholaeth i yn bryderus dros ben am y rhagolygon o gau canghennau banciau yn eu trefi. Mae Barclays yn bwriadu cau'r banc olaf yn Llanwrtyd, ac mae NatWest am gau ei gangen yng Nghrucywel, gan effeithio ar fasnachwyr bach lleol yn ogystal â'r unigolion hynny efallai nad ydynt yn gallu teithio i ganghennau ymhellach i ffwrdd. Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, a'r Gweinidog Gwladol yn y Trysorlys, ond nid wyf wedi cael unrhyw ymateb. A allech chi bwysleisio iddyn nhw y dylen nhw fod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod banciau'n dilyn y cod a luniwyd o dan y Llywodraeth ddiwethaf yn San Steffan i geisio amddiffyn cymunedau rhag achosion o gau o'r fath, a'i bod yn bwysig iawn bod banciau, yn enwedig y rhai a gafodd eu hachub gan y cyhoedd, yn gweld y dylai fod ganddynt swyddogaeth barhaus i gefnogi cymunedau lleol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:31

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The Member makes a very important point, and that is that banks have received assistance from the public, through their pockets, when they were in trouble. They could look to try and repay some of that assistance that they were given. I'm aware of where the Barclays bank is in Llanwrtyd; it's a hugely important part of the business community there. I understand that there are discussions to keep an ATM machine there, but it's not a bank branch at the end of the day, and I know of the similar concerns that exist in Crickhowell. She has written to the UK Government, whose responsibility it is, such as it is, for ensuring that banks keep a network of branches, and I will join with her in her view, that is correct, that the code of practice should be adhered to at all times when branch closures are being considered.

Mae'r Aelod yn gwneud pwynt pwysig iawn, sef bod banciau wedi derbyn cymorth gan y cyhoedd, trwy eu pocedi, pan roedden nhw mewn trafferthion. Gallen nhw geisio ad-dalu rhywfaint o'r cymorth hwnnw a roddwyd iddynt. Rwy'n ymwybodol o le mae banc Barclays yn Llanwrtyd; mae'n rhan hynod bwysig o'r gymuned fusnes yno. Rwy'n deall bod trafodaethau i gadw peiriant ATM yno, ond nid yw hynny'n gangen banc yn y pen draw, a gwn am y pryderon tebyg sy'n bodoli yng Nghrucywel. Mae hi wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU, sy'n gyfrifol, fel ag y mae hi, am sicrhau bod banciau'n cadw rhwydwaith o ganghennau, a byddaf yn ymuno â hi yn ei safbwynt, sy'n gywir, y dylid cydymffurfio â'r cod ymarfer bob amser pan fydd cau canghennau dan ystyriaeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:32

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, last week, the cases of Kashif Shabir and Alun Richards were raised in a UK Government Westminster Hall debate by parliamentary colleagues. Both were victims of, at best, bad banking practices. But they're not alone in Wales; others have suffered the same difficulties and have seen businesses destroyed by such practices. This clearly impacts upon local economies, employment and the opportunities for growth in small businesses here in Wales. Will the Welsh Government raise these cases with the UK Government, to ensure that such bad banking practices are looked into, and perhaps look at compensation for victims of these practices?

Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, codwyd achosion Kashif Shabir ac Alun Richards mewn dadl Neuadd San Steffan Llywodraeth y DU gan gydweithwyr seneddol. Dioddefodd y ddau, ac edrych ar bethau o'r ochr orau, arferion bancio gwael. Ond nid nhw yw'r unig rai yng Nghymru; mae eraill wedi dioddef yr un anawsterau ac wedi gweld busnesau'n cael eu dinistrio gan arferion o'r fath. Mae hyn yn amlwg yn effeithio ar economïau lleol, cyflogaeth a'r cyfleoedd ar gyfer twf ymhlith busnesau bach yma yng Nghymru. A wnaiff Llywodraeth Cymru godi'r achosion hyn gyda Llywodraeth y DU, er mwyn sicrhau yr ymchwilir i arferion bancio gwael o'r fath, ac efallai ystyried iawndal i'r rhai sy'n dioddef yn sgil yr arferion hyn?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:33

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I wonder if the Member could write to me with further detail with regard to the individuals involved, and I will then, of course, look to press the matter with the UK Government on his behalf.

Tybed a allai'r Aelod ysgrifennu ataf gyda rhagor o fanylion o ran yr unigolion dan sylw, ac yna, wrth gwrs, byddaf yn ceisio pwyso'r mater gyda Llywodraeth y DU ar ei ran.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:33

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you'll be aware that Professor Dylan Jones-Evans has recommended the establishment of a development bank following his assertion that Finance Wales is not fit for purpose. I'm sure you'll be aware of Welsh Conservative proposals for Invest Wales. Do you agree with me, First Minister, that whatever form business support finally takes in Wales, we must put the failings of Finance Wales firmly behind us and ensure that future support for businesses is firmly anchored locally and that businesses know that support exists and that they can access it easily?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod yr Athro Dylan Jones-Evans wedi argymhell sefydlu banc datblygu yn dilyn ei honiad nad yw Cyllid Cymru yn addas i'w ddiben. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol o gynigion Ceidwadwyr Cymru ar gyfer Buddsoddi Cymru. A ydych chi'n cytuno â mi, Brif Weinidog, pa bynnag ffurf y bydd cymorth busnes yn ei gymryd yn y pen draw yng Nghymru, bod yn rhaid i ni roi methiannau Cyllid Cymru y tu ôl i ni unwaith ac am byth a sicrhau bod cefnogaeth i fusnesau yn y dyfodol wedi'i angori'n gadarn yn lleol a bod busnesau'n gwybod bod cymorth yn bodoli ac y gallant gael gafael arno'n rhwydd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:33

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I have no idea what the Member means by that. I don't agree with what he says about Finance Wales, although he's right to say that the issue of a development bank is being considered, and the Minister will make further announcements on the progress with that admittedly complex area of work shortly.

Nid oes gennyf unrhyw syniad beth mae'r Aelod yn ei olygu wrth hynny. Nid wyf yn cytuno â'r hyn y mae'n ei ddweud am Cyllid Cymru, er ei fod yn iawn i ddweud bod y mater o fanc datblygu yn cael ei ystyried, a bydd y Gweinidog yn gwneud cyhoeddiadau pellach ar y cynnydd yn y maes gwaith hwnnw, yr wyf yn cyfaddef sy'n gymhleth, yn fuan.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:34

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A mynd yn ôl at y cwestiwn gwreiddiol—ac rwy'n gefnogol iawn i'r hyn a ddywedodd Kirsty Williams—yn anffodus, ein profiad ni yn Arfon oedd bod banciau yn cael eu cau yn ystod tymor y Llywodraeth diwethaf ac nid oes ganddynt ddiddordeb bellach mewn cymdogaethau na threfi, gan fod banciau'r stryd fawr, i bob pwrpas, wedi diflannu o strydoedd ein pentrefi a'n trefi bach ni ar hyd a lled Cymru. Ond, mae hynny'n golygu bod mwy o bwysau arnom ni i gynyddu'r sector undebau credyd. Mae'r Llywodraeth yma yng Nghymru wedi bod yn ariannu ymgyrch i hyrwyddo'r undebau credyd yma, ond, bellach, mae'r gefnogaeth honno wedi dod i ben. A wnech chi ein sicrhau ni y bydd y Llywodraeth yn ailafael mewn ymgyrch farchnata er lles cymunedau a theuluoedd ar hyd a lled Cymru, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig a'r rhai mwyaf difreintiedig?

To return to the original question—and I'm very supportive of what Kirsty Williams had to say—unfortunately, our experience in Arfon was that bank branches were closed during the period of the last Government and have no interest now in those communities or those towns because the high-street banks, to all intents and purposes, have disappeared from our villages and towns across Wales. But, that means that there is greater pressure on us to actually enhance the credit union sector. The Government here in Wales has been funding a campaign to promote credit unions, but the support has now come to an end. Can you give us an assurance that the Government will recommence a marketing campaign for the benefit of communities and families across Wales, particularly in our rural and more disadvantaged areas?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:35

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae yna rôl bwysig i undebau credyd, wrth gwrs, yn yr ardaloedd dros Gymru lle maen nhw wedi colli banciau dros y blynyddoedd. Rydym wedi ymrwymo £1.9 miliwn i gefnogi undebau credyd. Mae hwnna wedi adeiladu ar y gwaith da sydd wedi cael ei wneud yn y gorffennol, ac, wrth gwrs, mae'n sicrhau bod undebau credyd yn gallu cefnogi y bobl sydd ddim yn gallu cael mynediad i arian, neu fenthyciadau, dros Gymru. Ac rydym ni'n moyn sicrhau ein bod yn gweithio gyda nhw yn y pen draw, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau sydd gyda nhw, lan i nawr, yn cael eu hehangu dros y blynyddoedd.

Credit unions do have a very important role throughout the whole of Wales and in those areas where they've lost banks over the years. We have committed £1.9 million to support credit unions. That builds on the good work done in the past and, of course, it ensures that credit unions are able to support those people who can't access funds or loans throughout the whole of the country. We want to ensure that we can collaborate with them in the long term in order to ensure that their current services can be expanded over the coming years.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Lles Cyffredinol Plant yng Nghymru

The Wellbeing of Children in Wales

13:35

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella lles cyffredinol plant yng Nghymru?
OAQ(4)2454(FM)

2. What action is the Welsh Government taking to improve the overall wellbeing of children in Wales?
OAQ(4)2454(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- We are continuing to focus investment on supporting children and families with a range of programmes and initiatives across Government departments. Our aim, of course, is for every child in Wales to have the best possible start in life, and a healthy and bright future.
- Rydym ni'n parhau i ganolbwyntio buddsoddiad ar gefnogi plant a theuluoedd gydag amrywiaeth o raglenni a mentrau ar draws adrannau'r Llywodraeth. Ein nod, wrth gwrs, yw i bob plentyn yng Nghymru gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, a dyfodol iach a disglair.
- 13:36 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, First Minister. New evidence published today, by the Read On. Get On campaign, shows that children from disadvantaged backgrounds in Wales are twice as likely as better-off children to experience difficulties in language development by the time they start school, and are less likely to be able to make up that lost ground as they grow older. So, will you affirm the importance of supporting all children, particularly those living in poverty, to learn to read, and to commit the Welsh Government to signing up to the Read On. Get On campaign?
- Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae tystiolaeth newydd a gyhoeddwyd heddiw, gan ymgyrch Read On. Get On, yn dangos bod plant o gefndiroedd difreintiedig yng Nghymru ddwywaith yn fwy tebygol na phlant mwy llewyrchus o gael anawsterau o ran datblygiad iaith erbyn iddyn nhw ddechrau'r ysgol, ac maen nhw'n llai tebygol o allu dal i fyny wrth iddyn nhw fynd yn hŷn ar ôl colli'r tir hwnnw. Felly, a wnewch chi bwysleisio pwysigrwydd cefnogi pob plentyn, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi, i ddysgu darllen, ac i ymrwymo Llywodraeth Cymru i ymuno ag ymgyrch Read On. Get On?
- 13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- Yes. I'm sure the Member—as other Members—will have had the experience of going to some schools where children are not able to speak when they arrive, and that, inevitably, is an enormous disadvantage that has to be overcome within school. We have, of course, Flying Start, which reaches around a quarter of children across Wales, and we're committed to ensuring language development at the earliest possible opportunity.
- Gwnaf. Rwy'n siŵr y bydd yr Aelod—fel Aelodau eraill—wedi cael y profiad o fynd i rai ysgolion lle nad yw plant yn gallu siarad pan eu bod yn cyrraedd, ac mae hynny, yn anochel, yn anfantais enfawr y mae'n rhaid ei goresgyn yn yr ysgol. Mae gennym ni, wrth gwrs, Dechrau'n Deg, sy'n cyrraedd tua chwarter y plant ledled Cymru, ac rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau datblygiad iaith ar y cyfle cyntaf posibl.
- It's important that that support continues through school age, which is why, of course, we have schemes such as Schools Challenge Cymru, and which is why Flying Start was doubled in the lifetime of this Government. And the Member is right to point out that it's crucial—and, we would say, through the investments that we have made—to make sure that children get the best start, and that, when they arrive in school where they appear to be behind their peer group in terms of numeracy and literacy skills, those problems are addressed as quickly as possible.
- Mae'n bwysig bod y gefnogaeth honno'n parhau trwy oedran ysgol, a dyna pam, wrth gwrs, mae gennym ni gynlluniau fel Her Ysgolion Cymru, a dyna pam y dyblwyd Dechrau'n Deg yn ystod oes y Llywodraeth hon. Ac mae'r Aelod yn iawn i nodi ei bod yn hanfodol—a, byddem yn dweud, drwy'r buddsoddiadau rydym ni wedi eu gwneud—i sicrhau bod plant yn cael y cychwyn gorau, a, pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol lle mae'n ymddangos eu bod ar ôl eu grŵp cyfoedion o ran sgiliau rhifedd a llythrennedd, y rhoddir sylw i'r problemau hynny cyn gynted â phosibl.
- 13:37 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, in my constituency, there are two excellent youth projects: Dr M'z in Carmarthen, and the Tanyard in Pembroke. Both rely on volunteers as well as trained youth workers, both support some of the most disadvantaged young people in our society, both have high and successful rates of intervention for dealing with the emotional, behavioural, and psychological problems experienced by these youngsters, and both take troubled youngsters off the street and into a caring environment during what might be seen as the early evening flashpoint. There is no other provision. However, Dr M'z is faced with closure as the council has withdrawn funding, and the Tanyard has seen council support dwindle to nothing. What do you think should happen to these kids, and where should the responsibility for their safety lie?
- Brif Weinidog, yn fy etholaeth i, ceir dau brosiect ieuentid rhagorol: Dr M'z yng Nghaerfyrddin, a'r Tanyard ym Mhenfro. Mae'r ddau'n dibynnu ar wirfoddolwyr yn ogystal â gweithwyr ieuentid wedi'u hyfforddi, mae'r ddau'n cynorthwyo rhai o'r bobl ifanc mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas, mae gan y ddau gyfraddau uchel a llwyddiannus o ymyrraeth ar gyfer ymdrin â'r problemau emosiynol, ymddygiadol, a seicolegol y mae'r bobl ifanc hyn yn eu cael, ac mae'r ddau'n cymryd pobl ifanc cythryblus oddi ar y stryd ac i mewn i amgylchedd gofalgar yn ystod yr hyn y gellid ei ystyried yn fflachbwynt yn gynnar fin nos. Nid oes unrhyw ddarpariaeth arall. Fodd bynnag, mae Dr M'z yn wynebu cael ei gau gan fod y cyngor wedi tynnu cyllid yn ôl, ac mae cefnogaeth y cyngor i'r Tanyard wedi mynd i lawr i ddim. Beth yn eich barn chi ddylai ddioglydd i'r plant hyn, a phwy ddylai fod yn gyfrifol am eu diogelwch?

13:38

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

With the council. I mean, the Member's answered her own question. First of all, can I join with her in recognising the work done by these organisations? Of course, it is a matter for Pembrokeshire County Council to explain why they feel they should withdraw funding for organisations that she has said—and I've no reason to doubt what she said—provide an excellent service for young people. But, it is a matter for them to explain. We as a Government will want to ensure that local authorities do support organisations that provide services for young people, especially, of course, providing facilities for young people to keep them out of trouble at times when boredom can sometimes get the better of young people. But, it is for the council to explain.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Y cyngor. Hynny yw, mae'r Aelod wedi ateb ei chwestiwn ei hun. Yn gyntaf oll, a gaf i ymuno â hi i gydnabod y gwaith a wneir gan y sefydliadau hyn? Wrth gwrs, mater i Gyngor Sir Penfro yw esbonio pam y mae'n teimlo y dylai dynnu cyllid yn ôl oddi wrth sefydliadau y mae hi wedi dweud—ac nid oes gennyf unrhyw reswm i amau'r hyn a ddywedodd—sy'n darparu gwasanaeth ardderchog i bobl ifanc. Ond, mater iddyn nhw ei esbonio yw hwn. Byddwn ni fel Llywodraeth yn dymuno sicrhau bod awdurdodau lleol yn cefnogi sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc, yn enwedig, wrth gwrs, darparu cyfleusterau i bobl ifanc i'w cadw allan o drafferth ar adegau pan all diflastod weithiau gael y gorau ar bobl ifanc. Ond, mater i'r cyngor ei esbonio yw hwn.

Questions Without Notice from the Party Leaders

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon, the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies sydd gyntaf y prynhawn yma.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Thank you, Presiding Officer. First Minister, there was good news today for cardiac services at the University Hospital of Wales and Morriston Hospital, something that we can all celebrate, and, ultimately, actually look at the exemplary work that's going on, particularly at the University Hospital of Wales, where that unit in particular now is in the top three across the whole of the UK. The lead consultant there said that there were some serious issues though around wait times. Would you endorse her comments around the wait that people are having—to stay on the list—to go into that cardiac unit, because, ultimately, that's where the real problem is—it's not in the care that they receive in the unit, it's the wait time that they have?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, cafwyd newyddion da heddiw i wasanaethau cardiaidd yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Treforys, rhywbeth y gall pob un ohonom ni ei ddathlu, ac, yn y pen draw, edrych mewn gwirionedd ar y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud, yn enwedig yn Ysbyty Athrofaol Cymru, lle mae'r uned honno yn arbennig yn y tair uchaf ar draws y DU gyfan erbyn hyn. Fodd bynnag, dywedodd y prif feddyg ymgynghorol fod rhai problemau yno o ran amseroedd aros. A fydddech chi'n cymeradwyo ei sylwadau o ran yr amser y mae'n rhaid i bobl aros—i aros ar y rhestr—i fynd i mewn i'r uned gardiaidd honno, oherwydd, yn y pen draw, dyna lle mae'r broblem wirioneddol—nid y gofal y maen nhw'n ei dderbyn yn yr uned, ond yr amser y mae'n rhaid iddyn nhw aros?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, it's a very good unit. It has been recognised today. What the consultant said is that there's still room for improvement. That much is true; we accept that. But, we very much welcome the endorsement of that unit that has been made. Bear in mind, of course, the investment that's been made as well in the Morriston cardiac care unit and the money that is being invested in reducing waiting times in Wales. I mean, that compares, of course, with the situation where Addenbrook's, a very well-known hospital, has now just gone into special measures, which is of concern to all people, I'm sure, but it does show that we in Wales provide excellent cardiac care services, as the leader of the opposition has recognised.

Wel, mae'n uned dda iawn. Cydnabuwyd hynny heddiw. Yr hyn a ddywedodd y meddyg ymgynghorol oedd bod lle i wella. Mae cymaint â hynny'n wir; rydym ni'n derbyn hynny. Ond, rydym ni'n croesawu'n fawr y gymeradwyaeth a roddwyd i'r uned honno. Cofiwch, wrth gwrs, y buddsoddiad sydd wedi ei wneud hefyd yn uned gofal cardiaidd Treforys a'r arian sy'n cael ei fuddsoddi i leihau amseroedd aros yng Nghymru. Hynny yw, mae hynny'n cymharu, wrth gwrs, â'r sefyllfa lle mae Addenbrook's, ysbyty adnabyddus iawn, newydd gael ei wneud yn destun mesurau arbennig, sy'n peri pryder i bawb, rwy'n siŵr, ond mae'n dangos ein bod ni yng Nghymru yn darparu gwasanaethau gofal cardiaidd rhagorol, fel y mae arweinydd yr wrthblaid wedi ei gydnabod.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I said, that was a real good news story today, but, sadly, it doesn't hide the story that, obviously, a previous report identified 150 premature deaths because of the waiting times that people have to endure before they can have that brilliant surgery and care provided by the teams at UHW and Morriston Hospital. But, the lead cardiologist there was pointing out specifically about waiting times, and, week after week, we are seeing the Government's own waiting times missed, and there's a substantial increase in people waiting on those lists. Now, you said in the early part of this Assembly that your Government was going to be about delivery. We've seen today that cardiologists in Cardiff and Morriston have an exemplary record when compared internationally and nationally across the UK. So, when is your Government going to actually start hitting its own targets, whether they be for A&E, whether they be for urgent cancer times or whether they be just for the general referral times that have got 450,000 people now waiting as part of those waiting times? Will any of those lists start to come down by the end of this Assembly term?

Fel y dywedais, roedd honno'n stori newyddion da gwirioneddol heddiw, ond, yn anffodus, nid yw'n cuddio'r stori, yn amlwg, y nodwyd mewn adroddiad blaenorol y bu 150 o farwolaethau cynamserol oherwydd yr amser y mae'n rhaid i bobl ei aros cyn y gallant gael y llawdriniaeth a'r gofal gwych hynny a ddarperir gan y timau yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Treforys. Ond, roedd y prif gardiolegydd yno yn nodi amseroedd aros yn benodol, ac, wythnos ar ôl wythnos, rydym ni'n gweld amseroedd aros y Llywodraeth ei hun yn cael eu methu, a cheir cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n aros ar y rhestrau hynny. Nawr, dywedasoch yn ystod rhan gynnar y Cynulliad hwn mai cyflawni fyddai nod eich Llywodraeth. Rydym ni wedi gweld heddiw bod gan gardiolegyddion yng Nghaerdydd ac yn Nhreforys hanes rhagorol o'u cymharu'n rhyngwladol ac yn genedlaethol ar draws y DU. Felly, pryd mae eich Llywodraeth chi'n mynd i ddechrau cyrraedd ei thargedau ei hun, pa un a ydynt ar gyfer damweiniau ac achosion brys, neu ar gyfer amseroedd canser brys neu'r amseroedd atgyfeirio cyffredinol sydd â 450,000 o bobl yn aros yn rhan o'r amseroedd aros hynny erbyn hyn? A fydd unrhyw un o'r rhestrau hynny'n dechrau lleihau erbyn diwedd y tymor Cynulliad hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

[Inaudible.]—question, and we are targeting the referral-to-treatment time figures and diagnostics, and we have seen the movement in the right direction in that time. We can't ignore the fact that our budget has been cut by 10 per cent, and it has been a struggle to make sure that funding is at the level we would expect. Nevertheless, funding for health and social services in Wales is 8 per cent per head higher than is the case in England. I noticed a few weeks ago, for example, that the 'Daily Mail', which is no friend of the Welsh Government—I'm sure they would accept that as a fair judgment—was illustrating the story of somebody who wanted to move to Wales for cancer treatment because it wasn't available in England. So, we have seen some challenging times in the Welsh health service, that much is true, but the service is moving very much in the right direction. The fact that we have such an excellent cardiac care unit not just at UHW, but in other hospitals in Wales as well, like Morriston, shows that that service is continuing to improve.

[Anghlywadwy.]—cwestiwn, ac rydym ni'n targedu'r ffigurau amser atgyfeirio i driniaeth a diagnosteg, ac rydym ni wedi gweld y symudiad i'r cyfeiriad cywir yn ystod y cyfnod hwnnw. Ni allwn anwybyddu'r ffaith fod ein cyllideb wedi cael ei thorri 10 y cant, ac mae wedi bod yn anodd gwneud yn siŵr bod y cyllid ar y lefel y byddem yn ei ddisgwyl. Serch hynny, mae cyllid ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru 8 y cant y pen yn uwch nag yn Lloegr. Sylwais ychydig wythnosau yn ôl, er enghraifft, fod y 'Daily Mail', nad yw'n gyfaill i Lywodraeth Cymru—rwy'n siŵr y byddai'n derbyn hynny fel barn deg—yn dangos stori rhywun a oedd eisiau symud i Gymru i gael triniaeth ar gyfer canser gan nad oedd ar gael yn Lloegr. Felly, rydym ni wedi gweld rhai cyfnodau anodd yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, mae cymaint â hynny'n wir, ond mae'r gwasanaeth yn sicr yn symud i'r cyfeiriad cywir. Mae'r ffaith fod gennym ni uned gofal cardiaidd mor ardderchog, nid yn unig yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ond mewn ysbytai eraill yng Nghymru hefyd, fel Treforys, yn dangos bod y gwasanaeth hwnnw'n parhau i wella.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

At the start of your answer, First Minister, you said that those waiting times would, undoubtedly, be coming down by the end of this Assembly, so I'm going to hold you to that, and I'm sure that many people on those waiting lists will want to see that reduction happen. Where, given that the referral times now stand at some 442,000 people on a waiting list, do you think that those waiting times will be at the end of this Assembly term? You've got six months to do it. I commend you for coming forward and saying that you are going to reduce, as I put three direct questions to you: A&E, urgent cancer referral times and the referral times more generally coming down. Where do you see the 440,000 number being at the end of this Assembly term, which is March of next year?

Ar ddechrau eich ateb, Brif Weinidog, dywedasoch y byddai'r amseroedd aros hynny, heb os, yn lleihau erbyn diwedd y Cynulliad hwn, felly rwy'n mynd i'ch cadw chi at hynny, ac rwy'n siŵr y bydd llawer o bobl ar y rhestrau aros hynny eisiau gweld y lleihad hwnnw'n digwydd. Beth ydych chi'n ei feddwl, o gofio bod yr amseroedd atgyfeirio yn dangos tua 442,000 o bobl ar restr aros nawr, fydd y sefyllfa o ran yr amseroedd aros hynny ar ddiwedd tymor y Cynulliad hwn? Mae gennych chi chwe mis i lwyddo. Rwy'n eich canmol am ddweud eich bod yn mynd i leihau, gan y gofynnais dri chwestiwn uniongyrchol i chi: damweiniau ac achosion brys, amseroedd atgyfeirio canser brys a'r amseroedd atgyfeirio yn fwy cyffredinol yn gostwng. Ble ydych chi'n gweld y rhif o 440,000 ar ddiwedd tymor y Cynulliad hwn, sef mis Mawrth y flwyddyn nesaf?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, first of all, the figure that he refers to includes people who have just been referred by the GP. So, it's not as if people are waiting for treatment, having been seen by a consultant, necessarily. Secondly, I don't want to see the figures improve between now and March; I want to see the figures improve beyond March. It's not about an election in May; it's about providing a service for people from March to May of next year and beyond. It has been difficult to ensure that the funding is there, given the huge budget cuts that we received from the UK Government. Nevertheless, we've done that. Waiting times are moving in the right direction.

When it comes to cancer treatment, for example, we are ahead of England in terms of cancer treatment and its availability for people in Wales. We contrast that with the ending of the cancer drugs fund in England in March next year. I mean, the leader of the opposition has made great play of it, and, you know, it's something he's raised many, many times in this Chamber and now we see that it's ending in March of next year. This is something that he has advocated within this Chamber, and his own party is ending it.

It's important, of course, to ensure that the people of Wales get the service that they wish to have. We believe that is happening; we believe that it will continue to improve in the future, and what we have seen at UHW is a sign of that.

Wel, yn gyntaf oll, mae'r ffigur y mae'n cyfeirio ato yn cynnwys pobl sydd newydd gael eu hatgyfeirio gan y meddyg teulu. Felly, nid yw fel pe byddai pobl yn aros am driniaeth, ar ôl cael eu gweld gan feddyg ymgynghorol, o reidrwydd. Yn ail, nid wyf eisiau gweld y ffigurau'n gwella rhwng nawr a mis Mawrth; rwyf eisiau gweld y ffigurau'n gwella y tu hwnt i fis Mawrth. Nid yw hyn yn ymwneud ag etholiad ym mis Mai, mae'n ymwneud â darparu gwasanaeth i bobl o fis Mawrth i fis Mai y flwyddyn nesaf a thu hwnt. Mae hi wedi bod yn anodd sicrhau bod y cyllid ar gael, o ystyried y toriadau enfawr i'r gyllideb a gawsom gan Lywodraeth y DU. Serch hynny, rydym ni wedi gwneud hynny. Mae amseroedd aros yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Pan ddaw i driniaeth ar gyfer canser, er enghraifft, rydym ni ar y blaen i Loegr o ran triniaeth ar gyfer canser a sut mae hynny ar gael i bobl yng Nghymru. Rydym ni'n cyferbynnu hynny â therfynu'r gronfa cyffuriau canser yn Lloegr ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf. Hynny yw, mae arweinydd yr wrthblaid wedi gwneud môr a mynydd ohono, a, wyddoch chi, mae'n rhywbeth y mae wedi ei godi lawer, lawer gwaith yn y Siambur hon ac rydym ni'n gweld nawr ei fod yn dod i ben ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn rhywbeth y mae wedi ei hyrwyddo yn y Siambur hon, ac mae ei blaid ei hun yn rhoi terfyn arno.

Mae'n bwysig, wrth gwrs, sicrhau bod pobl Cymru yn cael y gwasanaeth y maen nhw'n dymuno ei gael. Credwn fod hynny'n digwydd; credwn y bydd yn parhau i wella yn y dyfodol, ac mae'r hyn yr ydym ni wedi ei weld yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn arwydd o hynny.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, I note the statement released by your housing Minister yesterday about the steps your Government plans to take to promote housebuilding in Wales. One glaring omission from that statement is any mention of a concrete figure on the number of new homes that we need here. What is your analysis? How many new homes do we need to build each year in Wales to meet Wales's housing need?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, nodaf y datganiad a gyhoeddwyd gan eich Gweinidog tai ddoe ar y camau y mae eich Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd i hybu adeiladu tai yng Nghymru. Un peth hynod amlwg sy'n absennol o'r datganiad hwnnw yw unrhyw sôn am ffigur pendant o ran nifer y cartrefi newydd sydd eu hangen arnom ni yma. Beth yw eich dadansoddiad chi? Faint o gartrefi newydd y mae angen i ni eu hadeiladu bob blwyddyn yng Nghymru i ddiwallu anghenion tai Cymru?

13:45

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, we have a target—as the Member will be aware—of 7,500, if I remember. I'm reminded that it's 10,000. I should know that because I know that she has pledged to double that to 20,000. She would have to explain how that's to be paid for in terms of more affordable homes. I'm sure that we share the same objective in terms of ensuring that there are more homes available, but we do notice that house building activity in Wales is increasing—and increasing rapidly—after some very difficult times. Of course, we have ensured that each local authority is able to make an analysis of how many homes are needed in each local authority area.

Wel, mae gennym ni darged—fel y bydd yr Aelod yn ymwybodol—o 7,500, os wyf yn cofio. Rwy'n cael fy atgoffa mai 10,000 yw'r ffigwr. Dylwn wybod hynny gan fy mod i'n gwybod ei bod hi wedi addo i ddyblu hynny i 20,000. Byddai'n rhaid iddi esbonio sut y bydd yn talu am hynny o ran mwy o gartrefi fforddiadwy. Rwy'n siŵr ein bod yn rhannu'r un amcan o ran sicrhau bod mwy o gartrefi ar gael, ond rydym ni yn sylwi bod gweithgarwch adeiladu tai yng Nghymru yn cynyddu—ac yn cynyddu'n gyflym—yn dilyn cyfnod anodd iawn. Wrth gwrs, rydym ni wedi sicrhau y gall pob awdurdod lleol wneud dadansoddiad o faint o dai sydd eu hangen ym mhob ardal awdurdod lleol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:45

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the last time there was a comprehensive report published by your Government was in 2010. It said that we needed over 9,000 private sector homes to be built—more for the homes available to rent in the social rented sector each year. I understand that your Government is planning to review those figures. Could you commit to publishing those new numbers before the elections next year? What we do know is that people in Wales will have to borrow nearly four times their income to be able to afford to buy a house. Now, my party have a rent-to-buy scheme, which will allow people to make monthly payments equivalent to rent to build up a share in their home without requiring a deposit. Isn't that exactly the kind of policy that we need to help first-time buyers achieve their dreams of owning their own home at some point?

Brif Weinidog, 2010 oedd y tro diwethaf y cyhoeddwyd adroddiad cynhwysfawr gan eich Llywodraeth. Roedd hwnnw'n dweud ein bod ni angen dros 9,000 o gartrefi sector preifat i gael eu hadeiladu—mwy ar gyfer y cartrefi ar gael i'w rhentu yn y sector rhentu cymdeithasol bob blwyddyn. Rwy'n deall bod eich Llywodraeth chi yn bwriadu adolygu'r ffigurau hynny. A wnewch chi ymrwymo i gyhoeddi'r rhifau newydd hynny cyn yr etholiadau y flwyddyn nesaf? Yr hyn yr ydym yn ei wybod yw y bydd yn rhaid i bobl yng Nghymru fenthylg bron i bedair gwaith eu hincwm i allu fforddio prynu tŷ. Nawr, mae gan fy mhlaidd i gynllun rhentu i brynu, a fydd yn caniatáu i bobl wneud taliadau misol sy'n cyfateb i rentu er mwyn dod yn berchen ar gyfran o'u cartref heb fod angen blaendal. Onid dyna'r union fath o bolisi sydd ei angen arnom i helpu prynwyr tro cyntaf i wireddu eu breuddwydion o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain ryw bryd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

This sounds very much like Help to Buy-Wales, the scheme that we already have in place—the scheme that has helped many first-time buyers to get onto the housing ladder. There are many ways, of course, in which people can be helped to buy their own homes: shared equity schemes, obviously, are an example of that, and community land trust schemes, where a trust owns the land and the individual owns the house, which reduces the price of the house because the land isn't within the ownership of the person. Through help to buy we have seen a significant increase in the number of first-time buyers who are able to buy a home for the first time. You can see it advertised at different sites around Wales, and that is something that, as a Government, we have done to assist first-time buyers.

Mae hyn yn swnio'n debyg iawn i Cymorth i Brynu Cymru, y cynllun sydd gennym ar waith eisoes—y cynllun sydd wedi helpu llawer o brynwyr tro cyntaf i gael eu troed ar yr ysgol dai. Mae llawer o ffyrdd, wrth gwrs, y gellir cynorthwyo pobl i brynu eu cartrefi eu hunain: mae cynlluniau ecwiti a rennir, yn amlwg, yn enghraifft o hynny, a chynlluniau ymddiriedolaeth tir cymunedol, pan fo ymddiriedolaeth yn berchen ar y tir a'r unigolyn yn berchen ar y tŷ, sy'n gostwng pris y tŷ gan nad yw'r unigolyn yn berchen ar y tir. Trwy cymorth i brynu, rydym ni wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y prynwyr tro cyntaf sy'n gallu prynu cartref am y tro cyntaf. Gallwch weld hyn yn cael ei hysbysebu ar wahanol safleoedd ledled Cymru, ac mae hynny'n rhywbeth rydym ni wedi ei wneud, fel Llywodraeth, i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:47

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, some people will choose to rent, or indeed will never be in a position to buy their own home, therefore, it's absolutely essential that we have enough homes for those people to rent. Last year, we showed figures that there were thousands of people waiting years for homes via the social housing lists. You challenged me as to how we would pay for our ambitious plans to double the number of such homes being built and therefore cutting the time people have to wait on those lists. Don't you agree with me that a better use of some of the money that you're planning to spend on your M4 relief road would be, indeed, to double the number of social houses available, putting a roof over people's heads rather than a road that will be environmentally damaging?

Brif Weinidog, bydd rhai pobl yn dewis rhentu, neu yn wir ni fyddant byth mewn sefyllfa i brynu eu cartref eu hunain, felly, mae'n gwbl hanfodol bod gennym ddigon o gartrefi i'r bobl hynny eu rhentu. Y llynedd, dangoswyd ffigurau gennym fod miloedd o bobl yn aros am flynyddoedd am gartrefi drwy'r rhestrau tai cymdeithasol. Fe wnaethoch chi fy herio ynghylch sut y byddem yn talu am ein cynlluniau uchelgeisiol i ddyblu nifer y cartrefi o'r fath sy'n cael eu hadeiladu gan leihau'r amser y mae'n rhaid i bobl aros ar y rhestrau hynny. Onid ydych chi'n cytuno â mi y byddai'n well defnyddio rhywfaint o'r arian yr ydych chi'n bwriadu ei wario ar eich ffordd liniaru'r M4, i ddyblu nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael, gan roi to uwch pennau pobl, yn hytrach na chael ffordd a fydd yn niweidiol i'r amgylchedd?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

As she knows full well, we cannot use the money for that purpose. We have been told by the UK Government—whether we agree with this or not—that the money will be made available up front for the M4 relief road and for no other purpose at the beginning. If she is saying that she doesn't think that the relief road should be built, that is something that she needs to make clear. I know that there are different views on this. There are some who take the view that the M4 relief road shouldn't be built at all and the traffic should just build forever and a day, and there are some who take the view that there should be a different route—the Member will know my view on that—but it's important, of course, that we have sufficient affordable houses. We are well on target to being able to do that. We have ensured that local authorities are able to access finance in order to be able to do that as well, and we believe that we will be on track to increase again the level of affordable housing that is available in Wales in the years to come.

Fel y mae hi'n gwybod yn iawn, ni chawn ddefnyddio'r arian at y diben hwnnw. Fe'n hysbyswyd gan Lywodraeth y DU—pa un a ydym yn cytuno â hyn ai peidio—y bydd yr arian ar gael ymlaen llaw ar gyfer ffordd liniaru'r M4 ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall i gychwyn. Os yw hi'n dweud nad yw hi'n credu y dylid adeiladu'r ffordd liniaru, mae hynny'n rhywbeth y mae angen iddi ei wneud yn eglur. Gwn fod gwahanol safbwyntiau ar hyn. Ceir rhai sydd o'r farn na ddylid adeiladu ffordd liniaru'r M4 o gwbl ac y dylai'r traffig gynyddu am byth, a cheir rhai sydd o'r farn y dylai fod gwahanol lwybr—bydd yr Aelod yn gwybod fy marn ar hynny—ond mae'n bwysig, wrth gwrs, bod gennym ni ddigon o dai fforddiadwy. Rydym ni ar y trywydd iawn i allu gwneud hynny. Rydym ni wedi sicrhau y gall awdurdodau lleol gael gafael ar gyllid er mwyn gallu gwneud hynny hefyd, a chredwn y byddwn ar y trywydd iawn i gynyddu eto lefel y tai fforddiadwy sydd ar gael yng Nghymru yn y blynyddoedd i ddod.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Diolch, Lywydd. First Minister, people in Wales with suspected cancer are already waiting substantially longer than people elsewhere for crucial diagnostic tests, such as endoscopy tests. Now, note here that I'm asking you specifically about diagnosis and not treatment. New National Institute for Health and Care Excellence guidelines, if they're adopted, will add additional pressures on diagnostics' capacity because more people will be referred by GPs for diagnosis. Can you inform the Assembly whether or not it's your intention to adopt the new NICE guidelines, please?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, mae pobl yng Nghymru yr amheuir bod ganddynt ganser eisoes yn aros yn sylweddol hwy na phobl mewn mannau eraill am brofion diagnostig hollbwysig, fel profion endosgopi. Nawr, sylwch yma fy mod i'n gofyn i chi'n benodol am ddiagnosis ac nid triniaeth. Bydd canllawiau newydd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, os cânt eu mabwysiadu, yn ychwanegu pwysau ychwanegol ar gapasiti diagnosteg gan y bydd mwy o bobl yn cael eu hatgyfeirio gan feddygon teulu am ddiagnosis. A wneuch chi hysbysu'r Cynulliad pa un a ydych chi'n bwriadu mabwysiadu'r canllawiau NICE newydd ai peidio, os gwelwch yn dda?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, first of all, it's something that we will consider, of course, but let's remind ourselves that when it comes to treatment, we are ahead of England.

Wel, yn gyntaf oll, mae'n rhywbeth y byddwn ni'n ei ystyried, wrth gwrs, ond gadewch i ni atgoffa ein hunain ein bod ni ar y blaen i Loegr pan ddaw i driniaeth.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:49 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I was asking about diagnosis, not treatment, specifically. Roeddwn i'n gofyn am ddiagnosis, nid triniaeth, yn benodol.
- 13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
What is the point of focusing on diagnosis and not treatment? I don't understand that at all. [Interruption.] We can tell you what the diagnosis says, but we're not going to have any targets—[Interruption.] You've realised the weakness in your argument now, but you're not going to have any targets with regard to treatment. That's not good enough. We have to look at the whole pathway. If we're just saying to people with cancer, 'Well, you can get the diagnosis within 28 days'—and that's not easy, clinically, actually, for some cancers, either—but actually there's no target in terms of your treatment,' then what use is that for an individual? We take the view that people should have diagnosis— [Interruption.]—and treatment within an appropriate time, and we are well ahead— [Interruption.]—of England in terms of being able to achieve that. Beth yw'r pwynt o ganolbwyntio ar ddiagnosis ac nid triniaeth? Nid wyf yn deall hynny o gwbl. [Torri ar draws.] Gallwn ddweud wrthy ch chi beth mae'r diagnosis yn ei ddweud, ond nid ydym ni'n mynd i gael unrhyw dargedau—[Torri ar draws.] Rydych chi wedi sylweddoli gwendid eich dadl nawr, ond nid ydych chi'n mynd i gael unrhyw dargedau o ran triniaeth. Nid yw hynny'n ddigon da. Mae'n rhaid i ni edrych ar y llwybr cyfan. Os ydym ni'n dweud wrth bobl â chanser, 'Wel, gallwch chi gael y diagnosis o fewn 28 diwrnod'—ac nid yw hynny'n hawdd, yn glinigol, ar gyfer rhai mathau o ganser ychwaith, a dweud y gwir—'ond nid oes unrhyw darged o ran eich triniaeth,' sut mae hynny'n helpu'r unigolyn? Rydym ni o'r farn y dylai pobl gael diagnosis—[Torri ar draws.]—a thriniaeth o fewn amser priodol, ac rydym ni ymhell ar y blaen—[Torri ar draws.]—i Loegr o ran gallu cyflawni hynny.
- 13:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Elin Jones, shush. Elin Jones, byddwch yn ddistaw.
- 13:50 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, people can't be treated unless they've had a diagnosis, and that's where your Government is falling down. If you're unwilling to give us an answer as to whether or not you'll adopt the new NICE guidelines, perhaps you'll set out the Government's position on the independent cancer task force recommendations. It recommends that, by 2020, 95 per cent of patients with suspected cancer will be referred by a GP and should receive a diagnosis or an all-clear within 28 days. Now, this has been adopted in England. Of course, the benefits of early diagnosis are clear: not only does it save money, but more crucially, it saves people's lives. So, is it your intention to adopt these recommendations in Wales too? Brif Weinidog, ni ellir trin pobl oni bai eu bod wedi cael diagnosis, a dyna lle mae eich Llywodraeth yn methu. Os nad ydych chi'n fodlon rhoi ateb i ni o ran a fyddwch chi'n mabwysiadu'r canllawiau NICE newydd ai peidio, efallai y gwnewch chi egluro safbwynt y Llywodraeth ar argymhellion y tasglu cancer annibynnol. Mae'n argymhell, erbyn 2020, y bydd 95 y cant o gleifion yr amheuir bod ganddynt ganser yn cael eu hatgyfeirio gan feddyg teulu ac y dylent dderbyn diagnosis neu gael eu hysbysu eu bod yn rhydd o ganser o fewn 28 diwrnod. Nawr, mae hyn wedi ei fabwysiadu yn Lloegr. Wrth gwrs, mae manteision diagnosis cynnar yn eglur: nid yn unig y mae'n arbed arian, ond yn fwy hollbwysig, mae'n achub bywydau pobl. Felly, a ydych chi'n bwriadu mabwysiadu'r argymhellion hyn yng Nghymru hefyd?
- 13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
First of all, anybody would agree that the earliest possible diagnosis is important. But I have to say to the leader of Plaid Cymru, not having a target in terms of treatment is pointless. Why would you say to people, 'Well, we have a target for you to be diagnosed within 28 days'—no-one's going to disagree with that, that early diagnosis is important—but then say to people, 'Actually we have no thoughts as to what happens afterwards'? How does that help people? It tells people what their diagnosis is, but you have no target for treatment. Yn gyntaf oll, byddai unrhyw un yn cytuno bod y diagnosis cynharaf posibl yn bwysig. Ond mae'n rhaid i mi ddweud wrth arweinydd Plaid Cymru, mae peidio â chael targed o ran triniaeth yn ddibwynt. Pam fyddech chi'n dweud wrth bobl, 'Wel, mae gennym ni darged i chi gael diagnosis o fewn 28 days'—nid oes unrhyw un yn mynd i anghytuno â hynny, bod diagnosis cynnar yn bwysig—ond wedyn dweud wrth bobl, 'Nid oes gennym ni unrhyw syniadau o ran yr hyn sy'n digwydd wedyn? Sut mae hynny'n helpu pobl? Mae'n dweud wrth bobl beth yw eu diagnosis, ond nid oes gennych chi darged ar gyfer triniaeth.

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You are twisting my words, First Minister. That is not what we said. I am here to hold you to account for your Government's actions, and I am asking you about diagnostic waiting tests. Now, you have already conceded —[Interruption]. You have already conceded to my colleague Elin Jones that waiting times here are worse than elsewhere. You admitted to her, in answer to a question in April, where she asked you:

'why are Scotland and England succeeding to provide scans within six weeks for over 95% of their patients, while Wales manages to provide MRI scans for only 56% of our patients within six weeks?'

You answered:

'Those figures are correct, of course. There is scope, therefore, to improve the situation.'

So, you've already conceded that point. You must accept that demand on diagnostic capacity will increase, whether the new guidelines are adopted or not, because we have an aging population. Plaid Cymru has announced plans for three new diagnostic centres to complement existing diagnostic capacity within the NHS. These centres will help to meet existing demand, but crucially will aid in meeting new increased demand in the future. You have called our proposals 'fantasy politics', but you don't seem to have any solutions of your own apart from tinkering around the edges. Perhaps you can enlighten us this afternoon: what is your solution to the diagnostic waiting times crisis that people are facing in this country, First Minister?

Rydych chi'n troi fy ngeiriau, Brif Weinidog. Nid dyna ddywedasom ni. Rwyf i yma i'ch dwyn i gyfrif am weithredoedd eich Llywodraeth, ac rwy'n gofyn i chi am amseroedd aros am brofion diagnostig. Nawr, rydych chi eisoes wedi cyfaddef— [Torri ar draws]. Rydych chi eisoes wedi cyfaddef wrth fy nghyd-Aelod, Elin Jones fod yr amseroedd aros yma yn waeth nag mewn mannau eraill. Cyfaddefoch wrthi, wrth ateb cwestiwn ym mis Ebrill, pan ofynnodd i chi:

'pam mae'r Alban a Lloegr yn llwyddo i ddarparu sganiau o fewn chwe wythnos i dros 95% o'u cleifion, tra bod Cymru yn llwyddo i ddarparu sganiau MRI i ddim ond 56% o'n cleifion ni o fewn chwe wythnos?'

Atebasoch:

'Mae'r ffigurau hynny'n gywir, wrth gwrs. Mae lle, felly, i wella'r sefyllfa.'

Felly, rydych chi eisoes wedi cyfaddef y pwynt hwnnw. Mae'n rhaid i chi dderbyn y bydd y galw am gapasiti diagnostig yn cynyddu, pa un a yw'r canllawiau newydd yn cael eu mabwysiadu ai peidio, gan fod gennym ni boblogaeth sy'n heneiddio. Mae Plaid Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer tair canolfan ddiagnostig newydd i ategu'r capasiti diagnostig sydd eisoes yn bodoli yn y GIG. Bydd y canolfannau hyn yn helpu i fodloni'r galw presennol, ond, yn hollbwysig, bydd yn helpu i fodloni galw cynyddol newydd yn y dyfodol. Rydych chi wedi galw ein cynigion yn 'wleidyddiaeth ffantasi', ond nid yw'n ymddangos bod gennych chi unrhyw atebion eich hun ac eithrio gwneud mân addasiadau o gwmpas yr ymylon. Efallai y gallwch chi ein goleuo y prynhawn yma: beth yw eich ateb i'r argyfwng amseroedd aros diagnostig y mae pobl yn ei wynebu yn y wlad hon, Brif Weinidog?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, as with all things, it is down to money. We are investing in bringing down the diagnostic waiting times for all—not just for cancer, but for all diseases. That is something that we are seeing now month after month. She's right to point out that we needed to bring those waiting times down, and that is something that we are doing. She mentioned her own policy of three diagnostic centres. Well, that's for her to argue in the course of the next few months. It will cost between £90 million and £150 million to set them up with all the equipment that would be needed and, indeed, the buildings. Now, that, in her mind, might be money that would be justifiable, but she'd have to explain how the system would actually work.

Wel, fel gyda phopeth, mae'n ymwneud ag arian. Rydym ni'n buddsoddi mewn lleihau'r amseroedd aros diagnostig i bawb—nid ar gyfer canser yn unig, ond ar gyfer pob clefyd. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n ei weld fis ar ôl mis nawr. Mae hi'n iawn i nodi bod angen i ni leihau'r amseroedd aros hynny, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n ei wneud. Soniodd am ei pholisi ei hun o gael tair canolfan ddiagnostig. Wel, mae hynny iddi hi ei ddadlau yn ystod y misoedd nesaf. Bydd yn costio rhwng £90 miliwn a £150 miliwn i'w sefydlu gyda'r holl offer byddai ei angen ac, yn wir, yr adeiladau. Nawr, efallai fod hwnnw, yn ei thyb hi, yn arian y gellid ei gyfiawnhau, ond byddai'n rhaid iddi egluro sut y byddai'r system yn gweithio mewn gwirionedd.

I come back to a point that I made earlier on. She made the point: 'I want to ask you about cancer diagnosis not treatment'. I come back to the point that I made earlier on: you cannot simply say to people, 'You'll get a diagnosis within a certain time, but actually we can't give you a time within which you receive treatment'. [Interruption.] Well, your own press releases—. Your own question this afternoon was about diagnosis. You said nothing about treatment times. [Interruption.] You said nothing about treatment times. [Interruption.] You have said that people can get a diagnosis within a certain amount of time, though clinically, it is not that easy for some people. You can't diagnose cancer within 28 days, necessarily. Secondly, you have abdicated your responsibility to say that people will get treatment within a particular time. You cannot have one without the other. We as a Government have said that we will make sure that people get appropriate treatment within an appropriate time—within the 31-day target, within the 62-day target—and in that we are ahead of England. Our cancer treatment record in Wales is certainly better than anywhere else in the UK. Simply saying to people, 'We're going to tell you what's wrong with you, but we ain't going to treat you in time', is not good enough. [Interruption.]

Dychwelaf at bwynt a wneuthum yn gynharach. Gwnaeth hi'r pwynt: 'Rwyf eisiau gofyn i chi am ddiagnosis canser nid triniaeth'. Dychwelaf at y pwynt a wneuthum i yn gynharach o ran: ni allwch chi ddweud wrth bobl, 'Byddwch chi'n cael diagnosis o fewn amser penodol, ond ni allwn roi amser i chi ar gyfer derbyn triniaeth'. [Torri ar draws.] Wel, mae eich datganiadau i'r wasg eich hun—. Roedd eich cwestiwn eich hun y prynhawn yma yn ymwneud â diagnosis. Ni ddywedasoeh chi unrhyw beth am amseroedd triniaeth. [Torri ar draws.] Ni ddywedasoeh chi unrhyw beth am driniaeth. [Torri ar draws.] Rydych chi wedi dweud y gall pobl gael diagnosis o fewn cyfnod penodol o amser er, yn glinigol, nid yw mor rhwydd â hynny i rai pobl. Ni allwch wneud diagnosis o ganser o fewn 28 diwrnod, o reidrwydd. Yn ail, rydych chi wedi esgeuluso eich cyfrifoldeb i ddweud y bydd pobl yn cael triniaeth o fewn amser penodol. Ni allwch chi gael un heb y llall. Rydym ni fel Llywodraeth wedi dweud y byddwn yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael triniaeth briodol mewn amser priodol—yn unol â'r targed o 31 diwrnod, yn unol â'r targed o 62 diwrnod—ac rydym ni ar y blaen i Loegr yn hynny o beth. Mae ein hanes o drin canser yng Nghymru yn sicr yn well nag mewn unrhyw le arall yn y DU. Nid yw dweud wrth bobl, 'Rydym ni'n mynd i ddweud wrthyhych beth sy'n bod arnoch chi, ond nid ydym ni'n mynd i roi triniaeth i chi mewn pryd', yn ddigon da. [Torri ar draws.]

13:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Right. We now move back to questions on the paper, and it is question 3 from Russell George.

lawn. Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur nawr, a chawn gwestiwn 3 gan Russell George.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Sefydliad Diogelwch ar y Ffyrdd

The Road Safety Foundation

13:55 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Diogelwch ar y Ffyrdd? OAQ(4)2450(FM)

3. Will the First Minister make a statement on the recent report published by the Road Safety Foundation? OAQ(4)2450(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. Our road safety framework for Wales sets out the measures we're taking to improve road safety and reduce the number of people killed and seriously injured on Welsh roads.

Gwnaf. Mae ein fframwaith diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer Cymru yn nodi'r camau yr ydym yn eu cymryd i wella diogelwch ar y ffyrdd a lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the report, which was published by the Road Safety Foundation, confirms that the A44 between Llangurig and Aberystwyth and the A458 between Welshpool and the A483 between Llandovery and Newtown are some of the most dangerous roads in Britain. In your response to me previously on this issue, you've denied that there are reliable data to support concerns regarding road safety in my constituency. Could I ask, First Minister, what you will do to act on this evidence provided by the Road Safety Foundation?

Brif Weinidog, mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Diogelwch ar y Ffyrdd, yn cadarnhau bod yr A44 rhwng Llangurig ac Aberystwyth a'r A458 rhwng y Trallwng a'r A483 rhwng Llanymddyfri a'r Drenewydd ymhlith rhai o'r ffyrdd mwyaf peryglus ym Mhrydain. Yn eich ymateb i mi yn y gorffennol ar y mater hwn, rydych chi wedi gwadu bod data dibynadwy ar gael i gefnogi pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd yn fy etholaeth i. A gaf i ofyn, Brif Weinidog, beth fyddwch chi'n ei wneud i gymryd camau ar sail y dystiolaeth hon a ddarparwyd gan y Sefydliad Diogelwch ar y Ffyrdd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Let's look at the A44. There's already an approach being taken to improving safety on the A44—it's already beginning to have a positive impact. Motorcyclists are by far proportionately the major casualties on the road, as they are on roads across Wales. Training has been provided to motorcyclists and other high-risk road-user groups to help awareness and behaviours. There has also been, I understand, the installation of new signage on the road, and the lining has been improved at local collision sites. So, signage is important. I'm familiar with the road; you can't engineer a straight road on the A44, but what you can do, and what is being done, is to make sure that people are aware of the hazards, that they are aware of the collision sites, and that they take steps to ensure their own safety is helped and that the possibility of an accident is minimised.

Gadewch i ni edrych ar yr A44. Mabwysiadwyd dull o wella diogelwch ar yr A44 eisoes—mae'n dechrau cael effaith gadarnhaol eisoes. Beicwyr modur yw'r gyfran fwyaf o lawer o'r rhai sy'n cael eu hanafu ar y ffordd hon, fel sy'n wir am ffyrdd ledled Cymru. Darparwyd hyfforddiant i feicwyr modur a grwpiau defnyddwyr ffyrdd risg uchel eraill i helpu ymwybyddiaeth ac ymddygiad. Rwy'n deall hefyd y gosodwyd arwyddion newydd ar y ffordd, ac mae llinell y ffordd wedi ei gwella mewn mannau gwrthdaro lleol. Felly, mae arwyddion yn bwysig. Rwy'n gyfarwydd â'r ffordd; ni allwch chi greu ffordd syth ar yr A44, ond yr hyn y gallwch chi ei wneud, a'r hyn sydd yn cael ei wneud, yw gwneud yn siŵr bod pobl yn ymwybodol o'r peryglon, eu bod yn ymwybodol o'r safleoedd gwrthdaro, a'u bod yn cymryd camau i sicrhau bod eu diogelwch eu hunain yn cael ei helpu a bod y posibilrwydd o ddamwain cyn lleied â phosibl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I stress the importance of Safe Routes in Communities and the importance of children travelling safely to school? The proposals by Trallwn and Talycopa schools in my constituency have been warmly welcomed by both parents and local residents. Will the First Minister commit to continuing such schemes, and are these the types of schemes that will be endangered by the Tory-proposed cuts to the transport budget?

A gaf i bwysleisio pwysigrwydd Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a phwysigrwydd plant yn teithio'n ddiogel i'r ysgol? Mae'r cynigion gan ysgolion Trallwn a Thalycopa yn fy etholaeth i wedi cael croeso cynnes gan rieni a thirgion lleol. A wnaiff y Prif Weinidog ymrwmo i barhau cynlluniau o'r fath, ac a'r rhain yw'r mathau o gynlluniau a fydd yn cael eu peryglu gan y toriadau a gynigir gan y Toriaid i'r gyllideb drafnidiaeth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, they would; they wouldn't happen. We know the Tories want to cut the transport budget by 20 per cent plus. We know they want to cut the education budget by 20 per cent plus. I'm delighted to see that the work that is being carried out at Trallwn and Talycopa, as part of the wider Llansamlet south scheme, and it shows that we are committed to ensuring that children are able to go to school safely through the use of Safe Routes to School, through the use of 20 mph zones and, unlike the party opposite, we won't jeopardise the funding for that.

Byddent, mi fyddent; ni fyddent yn digwydd. Rydym ni'n gwybod bod y Toriaid eisiau torri'r gyllideb drafnidiaeth gan 20 y cant a mwy. Rydym ni'n gwybod eu bod nhw eisiau torri'r gyllideb addysg gan 20 y cant a mwy. Rwy'n falch dros ben o weld y gwaith sy'n cael ei wneud yn Nhrallwn a Thalycopa, yn rhan o gynllun ehangach de Llansamlet, ac mae'n dangos ein bod wedi ymrwmo i sicrhau y gall plant fynd i'r ysgol yn ddiogel trwy ddefnyddio Llwybrau Diogel i'r Ysgol, trwy ddefnyddio parthau 20 milltir yr awr ac, yn wahanol i'r blaid gyferbyn, ni fyddwn yn peryglu'r cyllid ar gyfer hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, mae'r A44 wedi bod yn un o'r ffyrdd hynny sydd gyda'r mwyaf dansierus ers nifer o flynyddoedd nawr, ac mae ambell ddamwain angeuol sylweddol iawn wedi bod ar y ffordd yna. R?ch chi wedi cyfeirio at rywfaint o'r newidiadau arwyddion sydd wedi digwydd mewn ambell fan, ond eto nid yw'r ffordd yma yn cael ei blaenoriaethu ar gyfer gwelliant sylweddol a buddsoddiad sylweddol i wella diogelwch ac i wella cyflwr y ffordd yma er mwyn lleihau nifer y damweiniau sy'n digwydd yma.

First Minister, the A44 has been one of those roads that is among the most dangerous for a number of years now, and there have been some serious fatal accidents on that road. You've mentioned some of the changes of signage that have happened here and there, but, again, this road isn't being prioritised for significant enhancement and significant investment to improve road safety and to improve its condition in order to reduce the number of accidents that happen there.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd, a bydd asesiadau yn parhau ynglŷn ag ym mha ffyrdd y gallwn ni sicrhau bod yr hewl hon, ac unrhyw hewl yng Nghymru, yn cael ei diogelu. Mae rhai hewlydd a oedd yn fwy peryglus eto, er enghraifft Glandyfi—rydym ni wedi sôn am Landyfi sawl gwaith fel hewl beryglus dros ben, cyn, wrth gwrs, i'r gwaith gael ei wneud er mwyn lledaenu'r hewl. Ac, wrth gwrs, rwy'n gwybod bod hwnnw'n rhywbeth yr ?m ni'n ei ystyried ar yr A44 er mwyn sicrhau bod yna leihad yn nifer y damweiniau sy'n cymryd lle.

Work is being undertaken at present and assessments will continue to find out how we can ensure that this road, and any road in Wales, are made safer. Of course some roads are even more dangerous, for example, Glandyfi—we've mentioned Glandyfi many times as an extremely dangerous road, of course, before we actually widened the road there. And, of course, I know that that is something that we're considering on the A44 in order to ensure that there is a reduction in the number of accidents that occur.

13:58 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, evidence suggests that children and young people from poorer backgrounds are up to five times more likely to be seriously injured or even killed in road traffic accidents as their peers from more affluent backgrounds. What can the Welsh Government do to help tackle this appalling situation?

Brif Weinidog, mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant a phobl ifanc o gefndiroedd tlotach hyd at bum gwaith yn fwy tebygol o gael eu hanafu'n ddifrifol neu hyd yn oed eu lladd mewn damweiniau traffig ar y ffyrdd na'u cyfoedion o gefndiroedd mwy cefnog. Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i fynd i'r afael â'r sefyllfa echrudus hon?

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The road safety framework for Wales recognises the increased risk to child pedestrians who are from socially deprived areas, and their risk of injury in a road traffic collision. We do encourage local authorities to allocate greater resources to deprived communities if there are more casualties occurring in those areas, and road safety capital grant applications must include an assessment of how schemes will improve the quality of life for people in deprived communities.

Mae'r fframwaith diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer Cymru yn cydnabod y risg gynyddol i gerddwyr sy'n blant sy'n dod o ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol, a'r perygl iddynt gael eu hanafu mewn gwrthdrawiad ar y ffordd. Rydym ni yn annog awdurdodau lleol i neilltuo mwy o adnoddau i gymunedau o amddifadedd os oes mwy o anafiadau'n digwydd yn yr ardaloedd hynny, ac mae'n rhaid i geisiadau am grantiau cyfalaf diogelwch ar y ffyrdd gynnwys asesiad o sut y bydd cynlluniau'n gwella ansawdd bywyd pobl mewn cymunedau o amddifadedd.

Methiannau yn System y GIG yng Nghymru

System Failures in the Welsh NHS

13:59 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â methiannau yn system y GIG yng Nghymru? OAQ(4)2437(FM)

4. Will the First Minister make a statement on how system failures in the Welsh NHS are dealt with by the Welsh Government? OAQ(4)2437(FM)

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes. We work continuously with all NHS bodies to monitor the quality, performance and safety of service in the NHS in Wales and to drive continuous improvement, and where problems are identified, we take decisive action.

Gwnaf. Rydym ni'n gweithio'n barhaus gyda holl gyrff y GIG i fonitro ansawdd, perfformiad a diogelwch gwasanaethau yn y GIG yng Nghymru ac i ysgogi gwelliant parhaus, a lle caiff problemau eu nodi, rydym ni'n cymryd camau pendant.

14:00

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, First Minister. I have a constituent whose daughter's files were lost. When I wrote to the University Hospital of Wales to ask if there was a server crash in 2007, the local health board replied 'no', yet, when I asked South Wales Police about the same server crash, they said that it had happened, but that it was in fact a standalone PC. The force said that it took no further action because it wasn't told that any other patients' files had been lost, but they didn't investigate it to understand whether there had been any other files lost or not. I want to understand whether, as a Welsh Government, you have a protocol for understanding, if there is a server crash, or if there is a standalone PC crash, that you find out. I was advised by South Wales Police to raise this with you, because they simply do not have the time to look into wider issues like this. I'm concerned that more people would have lost their files, or lost their information, and they simply do not know about it.

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae gennyf etholwr y cafodd ffeiliau ei ferch eu colli. Pan ysgrifennai i Ysbyty Athrofaol Cymru i ofyn a fu chwalfa i'r gweinydd yn 2007, atebodd y bwrdd iechyd na fu, ac eto, pan ofynnais i Heddlu De Cymru am yr un chwalfa, dywedasant fod hyn wedi digwydd, ond mae cyfrifiadur annibynnol oedd hwnnw mewn gwirionedd. Dywedodd yr heddlu na chymerodd unrhyw gamau pellach gan na chafodd ei hysbysu bod ffeiliau unrhyw gleifion eraill wedi eu colli, ond ni ymchwiliwyd i'r mater i ddeall pa un a gollwyd unrhyw ffeiliau eraill ai peidio. Hoffwn ddeall a oes gennych chi, fel Llywodraeth Cymru, brotocol ar gyfer deall, os bydd gweinydd yn chwalu, neu os bydd cyfrifiadur annibynnol yn chwalu, eich bod yn cael gwybod. Fe'm cynghorwyd gan Heddlu De Cymru i godi hyn gyda chi, gan nad yw'r amser ganddyn nhw i ymchwilio i faterion ehangach fel hyn. Rwy'n pryderu bod mwy o bobl wedi colli eu ffeiliau, neu wedi colli eu gwybodaeth, ac nad ydynt yn gwybod am y peth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I think she and I are dealing with the same person, possibly. Anyway, she raises an important point. Perhaps if I could ask the Member to write to me with the details that she's outlined in the Chamber regarding how these issues are dealt with, I will of course ensure she gets a full reply.

Rwy'n credu ei bod hi a minnau'n ymdrin â'r un person, o bosibl. Beth bynnag, mae hi'n codi pwynt pwysig. Efallai pe gallwn i ofyn i'r Aelod ysgrifennu ataf gyda'r manylion y mae hi wedi eu hamlinellu yn y Siambor ran sut yr ymdrinnir â'r materion hyn, byddaf wrth gwrs yn sicrhau ei bod yn cael ateb llawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, one of the failures we've seen in the Welsh NHS over the past 12 months, and certainly within the past 100 days, has been that in the Betsi Cadwaladr University Local Health Board. There was an update from the Deputy Minister for Health last week on the progress towards change in that particular health board, but there were two important issues missed from that update. One was any indication as to when the follow-up work, post the awful report that was published in respect of the poor care on the Tawel Fan unit, and when that second piece of work will commence—the piece of work in which Donna Ockenden is going to be involved. And, secondly, there was another update on what has happened since the suspension of the chief executive, Trevor Purt. He's now not been doing the job for 100 days, and getting paid rather well for sitting at home. When will the public be able to determine what is happening in respect of leadership at that board, and when can we expect to see some progress on the implementation of the second piece of work in respect of Tawel Fan?

Brif Weinidog, un o'r methiannau yr ydym ni wedi ei weld yn y GIG yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac yn sicr yn ystod y 100 diwrnod diwethaf, fu hwnnw ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Weinidog lechyd yr wythnos diwethaf am y cynnydd tuag at newid yn y bwrdd iechyd penodol hwnnw, ond roedd dau fater pwysig ar goll o'r diweddariad hwnnw. Un oedd unrhyw arwydd ynghylch pryd y bydd y gwaith dilynol, ar ôl yr adroddiad trychinebus a gyhoeddwyd ar y gofal gwael yn uned Tawel Fan, a phryd y bydd yr ail ddarn hwnnw o waith yn dechrau—y darn o waith y mae Donna Ockenden yn mynd i fod yn rhan ohono. Ac, yn ail, cafwyd diweddariad arall ar yr hyn sydd wedi digwydd ers gwahardd y prif weithredwr, Trevor Purt. Nid yw wedi bod yn gwneud y swydd ers 100 diwrnod erbyn hyn, ac mae'n cael ei dalu'n dda iawn am eistedd yn ei gartref. Pryd fydd y cyhoedd yn gallu penderfynu beth sy'n digwydd o ran arweinyddiaeth yn y bwrdd hwnnw, a phryd y gallwn ni ddisgwyl gweld rhywfaint o gynnydd o ran gweithredu'r ail ddarn o waith ar Tawel Fan?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I can say that, as far as the situation of the chief executive is concerned, the acting chief executive will remain in place for as long as it takes in order to make sure that confidence can be restored in the university health board itself. There is no time limit on that. It will take as long as is needed, although he is right to point out then that there needs to be a conclusion with regard to the position of the previous chief executive. In terms of the specific question he asks me about when the next stage of the Ockenden process will take place, I will write to him on that and seek to provide him with a date.

Wel, gallaf ddweud, cyn belled ag y mae sefyllfa'r prif weithredwr yn y cwestiwn, y bydd y prif weithredwr dro dro yn aros yn ei swydd am gyhyd ag y mae'n ei gymryd i wneud yn siŵr y gellir adennill hyder yn y bwrdd iechyd prifysgol ei hun. Nid oes unrhyw gyfyngiad amser ar hynny. Bydd yn cymryd cyhyd ag y bydd angen, er ei fod yn iawn i nodi bod angen dod i gasgliad o ran sefyllfa'r prif weithredwr blaenorol. O ran y cwestiwn penodol y mae'n ei ofyn i mi am bryd y bydd cam nesaf proses Ockenden yn cael ei gymryd, byddaf yn ysgrifennu ato ynglŷn â hynny ac yn ceisio rhoi dyddiad iddo.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:03 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, one of the procedures or the systems in the NHS that I believe may be under pressure is the complaints process. I'm currently supporting constituents with three different health boards pursuing complaints through the 'Putting Things Right' process, and they complain still that the system is very slow, it drags out their pain, in many cases doesn't answer the questions they've raised when they do get a response, and it's perceived as lacking independence. The Evans review in July last year did identify an issue that the NHS didn't have the accompanying infrastructure to make this process work, and I'm wondering what progress the Welsh Government has made in making sure that each health board has the infrastructure it needs to deal with complaints and issues in a timely manner.

Brif Weinidog, un o'r gweithdrefnau neu systemau yn y GIG yr wyf yn credu y gallai fod o dan bwysau yw'r broses gwynion. Rwyf wrthi'n cynorthwyo etholwyr gyda thri gwahanol fwrdd iechyd sy'n mynd ar drywydd cwynion drwy'r broses 'Gweithio i Wella', ac maen nhw'n cwyno o hyd bod y system yn araf iawn, ei bod yn ymestyn eu poen, nad yw'n ateb y cwestiynau y maen nhw wedi eu gofyn pan fyddant yn cael ymateb mewn llawer o achosion, ac ystyrir bod diffyg annibyniaeth i'r broses. Nododd adolygiad Evans ym mis Gorffennaf y llynedd fater nad oedd gan y GIG y seilwaith cysylltiedig i wneud i'r broses hon weithio, ac roeddwn i'n meddwl tybed pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o ran gwneud yn siŵr bod gan bob bwrdd iechyd y seilwaith sydd ei angen arno i ymdrin â chwynion a phroblemau yn brydlon.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I believe that health boards are in a position to do that. Certainly, it's the case locally in my area, where the complaints process has improved dramatically from where it was a year and a half ago. That much is true, and local health boards should be in a position, as indeed ABMU is, to be able to deal with complaints quickly and in a timely manner. Part of the issue is, of course, that, historically, health boards have taken the view that, where there is a complaint, it must be treated as if it were a precursor to legal action, which is not actually what people want, in the main. People just want an apology or an explanation; they don't want money. That is an approach that is precautionary. I suppose, as an ex-lawyer, I understand it, but one of the things that we are looking at is how we can make sure that there is a more informal process where it's not automatically assumed that it must inevitably lead to a court case, which is, historically, the way that LHBs have tended, in my view, to treat complaints.

Credaf fod byrddau iechyd mewn sefyllfa i wneud hynny. Yn sicr, mae'n wir yn lleol yn fy ardal i, lle mae'r broses gwynion wedi gwella'n sylweddol o fel yr oedd pethau flwyddyn a hanner yn ôl. Mae cymaint â hynny'n wir, a dylai byrddau iechyd lleol fod mewn sefyllfa, fel y mae PABM yn wir, i allu ymdrin â chwynion yn gyflym ac yn brydlon. Rhan o'r broblem, wrth gwrs, yw, yn hanesyddol, bod byrddau iechyd wedi bod â'r safbwynt, pan dderbynnir cwyn, bod yn rhaid ei thrin fel pe byddai'n rhagflaenu camau cyfreithiol, ac nid dyna'r hyn y mae pobl ei eisiau mewn gwirionedd, ar y cyfan. Y cwbl y mae pobl ei eisiau yw ymddiheuriad neu esboniad; dydyn nhw ddim eisiau arian. Mae hwnnw'n ddull sy'n rhagofalus. Mae'n debyg, fel cyn-gyfreithiwr, fy mod i'n ei ddeall, ond un o'r pethau yr ydym ni'n ei ystyried yw sut y gallwn ni wneud yn siŵr bod proses fwy anffurfiol ar gael lle na chymerir yn ganiataol bod yn rhaid iddo arwain yn anochel at achos llys, sef, yn hanesyddol, y ffordd y mae BILlau wedi tueddu, yn fy marn i, i ymdrin â chwynion.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

The Active Travel (Wales) Act 2013

14:04 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd tuag at weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013?
OAQ(4)2455(FM)

5. Will the First Minister make a statement on the implementation of the Active Travel (Wales) Act 2013?
OAQ(4)2455(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 14:05 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes. We are continuing to take forward a variety of measures to increase levels of active travel in Wales. We consulted last year on an active travel action plan that sets out key ways in which we intend to support active travel.
Gwnaf. Rydym ni'n parhau i fwrw ymlaen ag amrywiaeth o fesurau i gynyddu lefelau teithio llesol yng Nghymru. Buom yn ymgynghori y llynedd ar gynllun gweithredu ar deithio llesol sy'n nodi ffyrdd allweddol yr ydym yn bwriadu cefnogi teithio llesol.
- 14:05 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, this legislation will produce a step change in increasing cycling and walking in Wales. Will you agree with me that the sooner we realise those health, environmental and quality-of-life benefits the better? Could you tell me what Welsh Government is doing and will do to ensure that local authorities across Wales produce timely and consistently good quality active travel route-maps?
Brif Weinidog, bydd y ddeddfwriaeth hon yn arwain at newid sylweddol o ran cynyddu beicio a cherdded yng Nghymru. A wnewch chi gytuno â mi mai gorau po gyntaf y byddwn ni'n gwireddu'r manteision iechyd, amgylcheddol ac ansawdd bywyd hynny? A allech chi ddweud wrthyf beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ac y bydd yn parhau i'w wneud i sicrhau bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn llunio trywyddion teithio llesol sy'n amserol ac o ansawdd cyson dda?
- 14:05 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We have issued clear statutory delivery guidance to assist local authorities in preparing their existing route-maps and, later on, the integrated network maps as well. We have allocated dedicated funding to each local authority, specifically to fund some of their mapping and consultation duties under the active travel Act, and we have commissioned an initial survey to cover all designated localities and an all-Wales active travel mapping system that'll ensure consistency across Wales and we've made that available to all local authorities.
Rydym ni wedi cyhoeddi canllawiau cyflenwi statudol eglur i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth baratoi eu trywyddion presennol ac, yn ddiweddarach, mapiau rhwydwaith integredig hefyd. Rydym ni wedi dyrannu cyllid penodol i bob awdurdod lleol, i ariannu'n benodol rhai o'u dyletswyddau o ran trywyddion ac ymgynghori o dan y Ddeddf teithio llesol, ac rydym ni wedi comisiynu arolwg cychwynnol i gynnwys yr holl ardaloedd dynodedig a system trywyddion teithio llesol Cymru gyfan a fydd yn sicrhau cysondeb ledled Cymru ac rydym ni wedi sicrhau bod honno ar gael i bob awdurdod lleol.
- 14:06 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The Active Travel (Wales) Act 2013, widely welcomed, not just in this Chamber, but throughout Wales, particularly has an emphasis on cycling. The First Minister will know that, this month, the first cycling Tour of Britain gets under way in Wales. My question particularly is about the Velothon. Last year, it could have been better. It was widely welcomed and a great success in many ways, but some people were seriously inconvenienced. How can we be sure that the next time it happens that won't happen?
Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, a groesawyd yn eang, nid yn unig yn y Siambr hon, ond ledled Cymru, yn rhoi pwyslais penodol ar feicio. Bydd y Prif Weinidog yn gwybod, y mis hwn, bod Taith Feicio gyntaf Prydain yn cychwyn yng Nghymru. Mae fy nghwestiwn i yn ymwneud â'r Velothon yn benodol. Y llynedd, gallai fod wedi bod yn well. Cafodd ei groesawu'n eang a bu'n llwyddiant mawr mewn nifer o ffyrdd, ond achoswyd anghyfleustra difrifol i rai pobl. Sut allwn ni fod yn sicr na fydd hynny'n digwydd y tro nesaf y caiff ei gynnal?
- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The Member is right. We know that there were difficulties with the Velothon. Lessons had to be learned very quickly by the organisers and that is something they will need to bear in mind in the future. But he is right to say that the difficulties—it was sad that it had to be that way—that were experienced at the time took some sheen off the event. It's important they never happen again.
Mae'r Aelod yn iawn. Rydym ni'n gwybod y bu anawsterau gyda'r Velothon. Bu'n rhaid i'r trefnwyr ddysgu gwersi'n gyflym iawn ac mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid iddyn nhw ei gadw mewn cof yn y dyfodol. Ond mae'n iawn i ddweud bod yr anawsterau—roedd yn drist y bu'n rhaid iddi fod felly—a gafwyd ar y pryd wedi cymryd rhywfaint o'r sglein oddi ar y digwyddiad. Mae'n bwysig nad ydynt byth yn digwydd eto.

14:07

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n edrych ymlaen at weld y mapiau diweddaraf ar gyfer teithio llesol yn cael eu cyflwyno i'r Gweinidog ym mis Ionawr. A ydy'r Prif Weinidog yn cytuno bod angen gwthio'r ffiniau o ran yr uchelgais rydym yn ei osod ar gyfer yr hyn a all gael ei gyflawni gan y Ddeddf teithio llesol? A ydy'n cytuno â mi ynglŷn â'r pwysigrwydd o gysylltu, yn fy etholaeth i, yr ardaloedd poblog yn Ynys Môn efo ardaloedd o weithgaredd economaidd ar y tir mawr? Yn hynny o beth, a ydy'n cytuno y dylid ystyried teithio llesol fel rhan o'r dadleuon dros ddatblygu trydedd bont dros y Fenai? Mae teithio o Lanfairpwll i Barc Menai yn bell iawn oherwydd nad oes modd croesi pont Britannia, tra byddai croesiad byr yn hwb economaidd i'r ardal.

I look forward to seeing the latest maps for active travel being presented to the Minister in January. Does the First Minister agree that we need to push the boundaries in terms of the ambition that we set out in terms of what can be achieved by the active travel Act? Does he agree with me on the importance of linking the more populous areas of Anglesey in my constituency with areas of economic activity on the mainland? In that regard, does he agree that active travel should be considered as part of the arguments for developing a third Menai bridge crossing? Travelling from Lanfairpwll to Parc Menai is a very long journey, because you can't cross the Britannia bridge, whereas another crossing would be an economic boost for the area.

14:08

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae hynny'n ffordd gynhwysfawr o wneud hynny, byddwn i'n dweud. Mae'n rhaid ystyried, pan fydd unrhyw fath o strwythur cludiant yn cael ei greu, yn y pen draw, mae'n bwysig dros ben fod pob math o gludiant yn cael ei ystyried fel rhan o'r datblygiad hwnnw. A gaf i ddweud y bydd ymgynghoriadau'n cymryd lle, rwy'n credu, ar ôl y Nadolig lle bydd yna gyfle i bobl fynegi unrhyw gonsŷrn i awdurdodau lleol os oes problem neu os oes bylchau yn y mapiau eu hunain? Bydd awdurdodau lleol yn gorfod newid y data ar y system mapio er mwyn sicrhau bod honno'n dangos beth yw canlyniad yr ymgynghoriad ei hunan. Felly, bydd ymgynghori'n cymryd lle a bydd yna gyfle i bobl felly roi eu barn ynglŷn â pha fath o system mapio a ddylai gael ei defnyddio.

That would be a very comprehensive way of doing it, I would say. We have to consider, when any kind of transport structure is being created, that, ultimately, it's very important that we think of all types of transport as part of that development. May I say that there will be consultation taking place, I think, after Christmas, where there will be an opportunity for people to express any concerns to the local authorities if there is an issue or if there are any gaps in the maps themselves? The local authorities will then have to amend the data on the mapping system in order to reflect the outcome of the consultation itself. So, the consultation will take place and there'll be an opportunity for people to give their opinions and views as regards what kind of mapping system should be used.

Yr Undeb Ewropeaidd

The European Union

14:09

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Cymru'n cael budd o aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd? OAQ(4)2447(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

6. Will the First Minister make a statement on the benefit to Wales of the United Kingdom's membership of the European Union? OAQ(4)2447(FM)

14:09

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We know that EU membership benefits Wales in many ways, including through access to structural funds, the CAP and the rural development programme, and through unfettered access to the single market—the world's largest market in GDP terms and our largest trade partner. We know that 150,000 jobs in Wales depend on access to this market.

Rydym ni'n gwybod bod aelodaeth o'r UE o fudd i Gymru mewn sawl ffordd, gan gynnwys trwy fynediad at gronfeydd strwythurol, y PAC a'r rhaglen datblygu gwledig, a thrwy fynediad dilyffethair at y farchnad sengl—marchnad fwyaf y byd o ran CMC a'n partner masnach mwyaf. Rydym ni'n gwybod bod 150,000 o swyddi yng Nghymru yn dibynnu ar fynediad at y farchnad hon.

14:09

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister, for that response. Last week, I hosted a reception here on behalf of the National Training Federation for Wales, whose members play a major part in delivering the apprenticeship programmes in Wales. There was overwhelming agreement amongst those present, including employers, that apprenticeships are a hugely worthwhile investment in the labour market and skills. First Minister, the Welsh Government has an excellent track record on apprenticeships and we are, of course, able to call upon, in the large part, funds and assistance from European structural funds. Would you therefore agree with me that withdrawing from the EU puts successful policies at risk in the future and that we must do all that we can to avoid losing these crucial benefits, such as the investment in apprenticeships, skills and jobs?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am yr ymateb yna. Yr wythnos diwethaf, cynhaliais dderbyniad yma ar ran Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, y mae ei aelodau'n chwarae rhan bwysig o ran darparu'r rhaglenni prentisiaeth yng Nghymru. Roedd cytundeb ysgubol ymhlith y rhai a oedd yn bresennol, gan gynnwys cyflogwyr, bod prentisiaethau yn fuddsoddiad hynod gwerth chweil yn y farchnad lafur a sgiliau. Brif Weinidog, mae gan Lywodraeth Cymru hanes rhagorol o ran prentisiaethau a gallwn, wrth gwrs, alw ar, i raddau helaeth, cyllid a chymorth o'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. A fydddech chi'n cytuno â mi felly bod gadael yr UE yn rhoi polisiau llwyddiannus mewn perygl yn y dyfodol a bod yn rhaid i ni wneud popeth a allwn i osgoi colli'r manteision hanfodol hyn, fel y buddsoddiad mewn prentisiaethau, sgiliau a swyddi?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:10

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Absolutely. For Wales to leave the EU would be economically mad. We know that we are recipients—we receive more money than we contribute. That money would not be made up by the UK Government, let's face it; it would disappear. We benefit from structural funds. I announced yesterday £150 million to aid innovation, with half of the money coming from the private sector, showing a vote of confidence in the scheme itself, and money coming from European funds. It wouldn't happen otherwise. The new campus at Swansea University would not have been built without access to European funding, and there are many other examples across the whole of Wales. We must ensure that the debate about the European Union and our membership of it is driven by economic common sense, not narrow-minded nationalism.

Yn sicr. Byddai Cymru yn gadael yr UE yn wallgof yn economaidd. Rydym ni'n gwybod mai derbynwyr ydym ni —rydym ni'n derbyn mwy o arian nag yr ydym ni'n ei gyfrannu. Ni fyddai Llywodraeth y DU yn gwneud iawn am y diffyg hwnnw, gadewch i ni wynebu ffeithiau; byddai'n diflannu. Rydym ni'n elwa ar gronfeydd strwythurol. Cyhoeddais ddoe £150 miliwn i gynorthwyo arloesedd, gyda hanner yr arian yn dod o'r sector preifat, gan ddangos ffydd yn y cynllun ei hun, ac arian yn dod o gronfeydd Ewropeaidd. Ni fyddai'n digwydd fel arall. Ni fyddai'r campws newydd ym Mhrifysgol Abertawe wedi cael ei adeiladu heb fynediad at gyllid Ewropeaidd, a cheir llawer o enghreifftiau eraill ledled Cymru gyfan. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y ddatl am yr Undeb Ewropeaidd a'n haelodaeth ohoni yn cael ei gyrru gan synnwyr cyffredin economaidd, nid cenedlaetholdeb cul.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:11

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, there are clearly a number of competing views on the issue of EU membership—yours, the trade unions', and Jeremy Corbyn's. The Federation of Small Businesses has found that many small businesses feel in the dark over the pros and cons of membership and want more impartial advice. What discussions have you had with the UK Government about best providing this impartial advice so that businesses in Wales can feel confident that they can make the right decision for them?

Brif Weinidog, mae'n amlwg bod nifer o wahanol safbwyntiau ar y mater o aelodaeth o'r UE—eich safbwynt chi, safbwynt yr undebau llafur, a safbwynt Jeremy Corbyn. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi canfod bod llawer o fusnesau bach yn teimlo eu bod yn y tywyllwch o ran manteision ac anfanteision aelodaeth ac maen nhw eisiau cyngor mwy diduedd. Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch darparu'r cyngor diduedd hwn fel y gall busnesau yng Nghymru deimlo'n hyderus y gallant wneud y penderfyniad iawn iddyn nhw?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:11

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I see that businesses in Wales are clearly in favour of staying within the European Union. It's the UK Government's referendum, not ours, and it's for the UK Government to take its view, whatever that might be, at the appropriate time, but my view has always been that to lose unfettered access to a market of 500 million people—a huge market—is crazy. I meet with investors from large countries around the world—I was with one of the Chinese vice-premiers on Friday—and one of the issues that's always raised is the issue of European Union membership and access to that large market. The UK is too small a market on its own to be of interest to investors. The interest is in the market of 500 million. To lose access to that market, to have any fetters put on access to that market, will cost jobs in Wales.

Wel, rwy'n gweld bod busnesau yng Nghymru yn amlwg o blaid aros yn yr Undeb Ewropeaidd. Refferendwm Llywodraeth y DU yw hwn, nid ein refferendwm ni, a chyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw mynegi ei barn, beth bynnag fo honno, ar yr adeg briodol, ond fy marn i erioed yw y byddai colli mynediad dilyffethair at farchnad o 500 miliwn o bobl—marchnad enfawr—yn wallgof. Rwy'n cyfarfod â buddsoddwyr o wledydd mawr o gwmpas y byd—roeddwn i gydag un o is-benaethiaid Tsieina ddydd Gwener—ac un o'r materion a godir bob amser yw'r mater yr aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd a mynediad at y farchnad fawr honno. Mae'r DU yn farchnad rhy fach ar ei phen ei hun i fod o ddiddordeb i fuddsoddwyr. Mae'r diddordeb yn y farchnad o 500 miliwn. Bydd colli mynediad at y farchnad honno, cael unrhyw lyffetheiriau ar fynediad at y farchnad honno, yn costio swyddi yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i longyfarch yn wir y Prif Weinidog ar ddarbwylio Jeremy Corbyn yr wythnos diwethaf o rinwedd y dadleuon? Rwyf o ddirif wrth ddweud fy mod yn edrych ymlaen at ymgyrchu i gadw Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd gyda'r Prif Weinidog yma yng Nghymru—a phob un arall ym mhob plaid sy'n dymuno ein gweld ni'n aros yn yr undeb hwnnw am y rhesymau rydych chi wedi gosod allan, Prif Weinidog. Ond y person sy'n negodi unrhyw newidiadau fydd yn sail i'r refferendwm yw David Cameron, Prif Weinidog y Deyrnas Gyfunol. A oes unrhyw drafodaethau wedi bod rhyngoch chi a David Cameron ynglŷn â'r hyn y mae e'n honni sy'n digwydd ar ran Prydain yn y trafodaethau hynny? A oes yna rywbeth rydych chi, ar ran Llywodraeth Cymru, wedi gofyn i David Cameron ei gyflwyno fel rhan o'r negodi yma?

May I congratulate the First Minister on convincing Jeremy Corbyn last week of the merits of the argument? I am serious in saying that I look forward to campaigning to keep Wales within the European Union alongside the First Minister here in Wales—and everyone else from all other parties who wish to see us remaining within that union for the reasons that you have already outlined, First Minister. But the person negotiating any changes that will be the basis of any referendum will be David Cameron, the Prime Minister of the United Kingdom. Have there been any negotiations between yourself and David Cameron on what he is claiming is happening on behalf of Britain in those negotiations? And is there anything that you, on behalf of the Welsh Government, have asked David Cameron to put forward as part of that negotiation?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Nid wyf yn credu ei fod ef yn gwybod ei hunan beth mae e'n moyn. Un o'r problemau yw, wrth gwrs, bod y Deyrnas Unedig wedi doddi ei hunan mewn sefyllfa lle nad oes dim ffrindiau gan y Deyrnas Unedig y tu fewn i'r Undeb Ewropeaidd. Mae yna rai gwledydd sydd o'r un farn ynglŷn â pha mor gyflym y dylai uno ddigwydd yn yr Undeb Ewropeaidd. Byddai barn wahanol gan y Deyrnas Unedig, ac efallai Cymru hefyd, na barn, efallai, yr Almaen a Ffrainc, ond y broblem yw bod y Deyrnas Unedig nawr mewn sefyllfa lle nad oes ffrindiau gan y Deyrnas Unedig, ac nid oes modd i gynnal cefnogaeth i safbwynt y Deyrnas Unedig, ac mae hynny'n dangos y broblem diplomataidd sydd gan y Deyrnas Unedig. Ond fy marn i yw—a fy marn i y bydd wastad—ei bod yn bwysig dros ben ein bod ni yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd. Yn fy marn i, rydym ni'n elwa o'r ffaith ein bod ni'n aelodau o'r undeb Brydeinig a'r Undeb Ewropeaidd. Pe bai Cymru yn colli'r aelodaeth yna o'r Undeb Ewropeaidd, o ran y sefyllfa economaidd, byddem ni'n colli swyddi, byddem ni'n colli'r cronfeydd strwythurol, a byddem ni'n colli arian i ffermwyr, achos bod y polisi amaethyddol cyffredin yn bolisi sydd wedi elwa ffermwyr dros ddegawdau. Byddai hynny i gyd yn cael ei gollu. Nid wyf wir yn deall y rheini sy'n dweud y byddai'r sefyllfa'n well pe na bai Cymru'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd.

I don't believe that he knows himself what he wants. Of course, one of the problems is that the United Kingdom has placed itself in a position where it's friendless within the European Union. There are some countries that have the same view as regards how quickly further union should take place within the European Union. The United Kingdom would have a different view, and perhaps Wales too, than that of, perhaps, Germany and France, but the problem is that the United Kingdom is now in a position where it has no friends, and it's not possible to sustain any support for the UK stance, and so the UK has a diplomatic problem. But my view is—and it will always be my view—that it's extremely important that we are members of the European Union. In my view, we benefit from the fact that we are members of the British union and the European Union. If Wales lost that membership of the European Union, as regards the economic position, we will lose jobs, we will lose structural funds, and we will lose funding for farmers, because the common agricultural policy is a policy that has benefited farmers over decades. All of that will be lost. I truly don't understand those who say that the position would be better if Wales wasn't part of the European Union.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Digwyddiadau Diweddar yng Ngogledd Iwerddon

Recent Events in Northern Ireland

- 14:14 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 7. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda llywodraethau eraill yn y DU am effaith y digwyddiadau diweddar yng Ngogledd Iwerddon ar Gymru? OAQ(4)2445(FM)*
- 7. What discussions has the First Minister had with other governments in the UK regarding the impact that recent events in Northern Ireland will have on Wales? OAQ(4)2445(FM)*
- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau mewn perthynas â hyn, ond rydym yn gwybod bod y sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon yn newid— yn datblygu, i ddefnyddio'r geiriau diplomataidd. Bydd yn rhaid i ni weld beth yw'r impact ar y dechrau ar bwyllgorau fel cydbwyllgor y Gweinidogion a hefyd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Nawr, wrth gwrs, nid yw'n glir beth fydd y canlyniad yng Ngogledd Iwerddon, ac nid yw'n glir beth fydd yr effaith, felly, ar y cyrff hynny.
- I haven't had any discussions in relation to this, but we know that the situation in Northern Ireland is changing—or developing, to use diplomatic speak. It remains to be seen what impact this will have on committees such as the joint ministerial committee and the British-Irish Council. Of course, it's not clear what the outcome will be in Northern Ireland and it's not clear what the impact will be, therefore, on those bodies.
- 14:15 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am dynnu sylw at y materion pwysig sydd yn cael eu heffeithio yn gyfansoddiadol rhwng gwledydd Prydain ac Iwerddon gan yr hyn sy'n digwydd yn y gogledd. Ond, a yw'r Prif Weinidog yn cytuno y gallai Cymru, gyda'i phrofiad a'i thraddodiadau amrywiol, gyfrannu efallai yn fwy uniongyrchol at hyrwyddo datganoli yn y gogledd ac felly at ddemocratiaeth drwy'r nnysoedd hyn? A wnaiff ailgyflwyno ar fyrder ei gais am gonfensiwn cyfansoddiadol ar gyfer y Deyrnas Unedig?
- I'm grateful to the First Minister for drawing attention to the important issues that are affected constitutionally between the nations of Britain and Ireland by what's happening in the north of Ireland. But does the First Minister agree that Wales, with its diverse traditions and experience, can contribute more directly to promoting devolution in the north of Ireland and, therefore, to democracy across these isles? Will he as a matter of urgency take forward his request for a constitutional convention for the UK?
- 14:16 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae'n rhywbeth rwyf wedi galw amdano ers amser hir, ac rwyf wedi mwynhau ei gefnogaeth e, wrth gwrs. Mae'n amlwg bod y Deyrnas Unedig yn ffaelu parhau fel y mae, a bod rhaid cael newid strwythur er mwyn sicrhau bod yna ddyfodol—ac rwy'n dweud y gair yn bwrpasol yn y fan yna—dyfodol i'r Deyrnas Unedig. Mae'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon yn un sydd yn wahanol i Gymru—rydym i gyd yn gwybod hynny, fel rhywun sydd â chysylltiadau cryf â Gogledd Iwerddon a dealltwriaeth o'r ffordd mae gwleidyddiaeth yn gweithio yn y fan yna. Mae'n hollol wahanol i fan hyn; mae bron pawb mewn Llywodraeth i ddechrau, a bach iawn yw'r rhai sydd yn rhan o unrhyw fath o wrthblaid yna.
- It's something that I've called for for some time, and I've enjoyed your support, of course, for that. It's evident that the United Kingdom can't continue as it is, and that we have to have a change of structure in order to secure a future—I say that purposely—a future for the United Kingdom. The situation in Northern Ireland is different to Wales—we all know that, as one who has strong links with Ireland and an understanding of how politics works there. It is very different to how things work here; nearly everyone is in Government, to start with, and there is very little formal opposition.

Beth sy'n bwysig dros ben yw cofio'r ffaith bod yna heddwch nawr, mwy neu lai, yng Ngogledd Iwerddon. Pan es i yna am y tro cyntaf yn 1992, roedd y fyddin ar yr hewl, roedd yr heddlu ar yr hewl â drylliau, roedd yna hofrennydd yn yr awyr drwy'r dydd ym Melffast, ac i groesi'r ffin roedd yn rhaid mynd drwy fyncer concrit ac wedyn mewn i Ogledd Iwerddon. Mae hynny i gyd wedi mynd. Wrth gwrs, datblygodd economi Gogledd Iwerddon ar ôl hynny, ac roedd pobl yn gallu gweld bod heddwch wedi dod â swyddi a sefyllfa economaidd well i'r Dalaith, os gallaf ei roi fel yna. Ond mae'n anodd ar hyn o bryd; rydym yn gwybod bod gwleidyddiaeth Gogledd Iwerddon wastad yn anodd, ond rwy'n gobeithio y bydd yna ffordd i ddatrys y sefyllfa. Nid yw'n gwneud unrhyw fath o synnwyr i gael Llundain yn rhedeg Gogledd Iwerddon yn y tymor hir; nid yw hynny yn mynd i fod yn gynaliadwy. Rwy'n gobeithio y bydd gwleidyddion Gogledd Iwerddon yn gallu dod o hyd i ffordd i symud ymlaen er mwyn heddwch yr ardal.

What is important to remember is that there is peace there now, more or less, in Northern Ireland. When I went there first of all in 1992, the army were on the streets, police were armed, there were helicopters in the air throughout the day in Belfast, and in order to cross the border you had to go through a concrete bunker and then into Northern Ireland. That has all disappeared. Of course, the Northern Ireland economy has developed since and people can see that peace has brought prosperity and a better economic position for the Province, if I can call it that. But it is difficult at the moment; we know that the politics of Northern Ireland is always difficult, but I do hope that there will be a way of resolving the situation. It doesn't make any kind of sense to have London running Northern Ireland in the long term; that is not going to be sustainable. I hope that the Northern Ireland politicians will be able to find a way forward in order to keep the peace in the area.

14:17 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I appreciate the answer you've given to Dafydd Elis-Thomas about what you can see coming down the line and the potential impacts on ministerial committees and the British-Irish Council. Obviously, the political tensions in Northern Ireland have been some time in the making, as it were, and there's been lockdown in the Stormont Assembly on agreement for the last six months at least. Given your assessment of things at the moment, do you think there's been any real impact on the ministerial committees being able to work in a devolved context, in particular the British-Irish Council, given what's gone on in the last six to eight months where the political logjam in Stormont has prevented any real decision-making taking place there?

Brif Weinidog, rwy'n gwerthfawrogi'r ateb yr ydych chi wedi ei roi i Dafydd Elis-Thomas am yr hyn y gallwch chi ei weld yn dod yn y dyfodol a'r effeithiau posibl ar bwyllgorau gweinidogol a'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Yn amlwg, mae'r tensiynau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon wedi bod yn dod ers cryn amser, fel petai, ac ni fu unrhyw gytuno yng Nghynulliad Stormont ers chwe mis o leiaf. O ystyried eich asesiad o bethau ar hyn o bryd, a ydych chi'n credu y bu unrhyw effaith wirioneddol ar allu'r pwyllgorau gweinidogol i weithio mewn cyd-destun datganoledig, yn enwedig y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, o ystyried yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y chwech i wyth mis diwethaf lle mae'r dagfa wleidyddol yn Stormont wedi atal unrhyw benderfyniadau gwirioneddol rhag cael eu gwneud yno?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:18 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

No, I haven't noticed it yet. The JMC and the BIC are two very different bodies. The JMC is a body where there is often a full and frank exchange of views amongst those that are around the table; it's a way of ensuring that viewpoints are put across. The British-Irish Council— Well, the British Government doesn't tend to attend it at a high level anyway, sadly. The Taoiseach of Ireland is always there, which we welcome, of course. I can't recall a Prime Minister attending in the time I've been First Minister, certainly outside of London, and that is something that does give me concern. I think it is important that the Prime Minister of the UK does attend the British-Irish Council in the same way as the Taoiseach of the Republic of Ireland does, but unfortunately that isn't something that happens. I think it does take away from that body, and I know it's a concern of the smaller jurisdictions that that isn't happening. But, if Northern Ireland are not around the table in a JMC, then that would undoubtedly change the dynamics of the JMC. We have to wait and see how that would work. Thus far, at meetings of the JMC and the BIC, both the First Minister and the Deputy First Minister of Northern Ireland have been there. They've put forward their viewpoints and contributions and it hasn't affected the workings of those two bodies yet.

Nac ydw, nid wyf wedi sylwi ar hyn eto. Mae'r CBG a'r BIC yn ddau gorff gwahanol iawn. Mae'r Cydbwyllgor yn gorff lle ceir dadleuon llawn ac agored yn aml rhwng y rhai sydd o amgylch y bwrdd; mae'n ffordd o sicrhau bod safbwyntiau'n cael eu mynegi. Mae'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig— Wel, nid yw Llywodraeth Prydain yn tueddu i fod yn bresennol yno ar lefel uchel beth bynnag, yn anffodus. Mae Taoiseach Iwerddon bob amser yno, a chroesawn hynny, wrth gwrs. Ni allaf gofio Prif Weinidog y DU yn bresennol yno yn yr amser yr wyf i wedi bod yn Brif Weinidog, yn sicr y tu allan i Lundain, ac mae hynny'n rhywbeth sy'n peri pryder i mi. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod Prif Weinidog y DU yn bresennol yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn yr un ffordd ag y mae Taoiseach Gweriniaeth Iwerddon, ond yn anffodus nid yw hynny'n rhywbeth sy'n digwydd. Rwy'n credu ei fod yn bychanu'r corff hwnnw, a gwn ei fod o bryder i'r awdurdodaethau llai nad yw hynny'n digwydd. Ond, os na fydd Gogledd Iwerddon o amgylch y bwrdd mewn CBG, yna nid oes amheuaeth y byddai'n newid deinameg y CBG. Mae'n rhaid i ni aros i weld sut y byddai hynny'n gweithio. Hyd yma, yng nghyfarfodydd y CBG a'r BIC, mae Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon wedi bod yno. Maen nhw wedi cyflwyno eu safbwyntiau a'u cyfraniadau ac nid yw wedi effeithio ar waith y ddau gorff hynny eto.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:19

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the next item of business, which is the business statement. I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

2. Business Statement and Announcement

Symudwn at yr eitem nesaf o fusnes nawr, sef y datganiad busnes. Galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Llywydd, there's one change to report to the business statement for this week's business. The time made available for questions to the Counsel General has been reduced to 15 minutes as only two questions have been tabled. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement found on the agenda papers and, of course, available to Members electronically.

Llywydd, ceir un newid i'w adrodd i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Mae'r amser sydd ar gael ar gyfer cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol wedi ei leihau i 15 munud gan mai dim ond dau gwestiwn sydd wedi'u cyflwyno. Mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes a geir ar y papurau agenda ac sydd, wrth gwrs, ar gael i'r Aelodau yn electronig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, could we have a statement—I have to say, I'm not quite sure which Minister it would come from; I think it could be the Minister for Economy, Science and Transport—around the transport chaos that ensued in Cardiff and in the run-up to the Rugby World Cup competition, which is going on over the next couple of weeks? On the Severn bridge, for example, there were many miles of tailbacks at the toll plaza. At Cardiff Central station, the social media pictures that were coming out of Cardiff Central station, in particular, were particularly brutal if you were one of the passengers stuck there. I appreciate that the Government itself does not have direct responsibility in this field, but, ultimately, it pulls a lot of the agencies together that offer support to hosting the Rugby World Cup here and that offer support to the organisations that are seeking to bring alternative events to Cardiff as well. Those type of images and those experiences will have a detrimental impact on the ability of south Wales in particular to host such events in the future. As I said, I'm not blaming the Government, but the Government does have a key role to play in orchestrating smooth running by bringing together all the partner agencies to make sure that transport on the day—a day that has been in the diary for at least the last four to five years—is working to the most optimum capacity and, ultimately, everyone has an enjoyable experience visiting Cardiff. That clearly wasn't the case on Saturday, and the social media pictures that came out in particular of the rail operation only cast a negative impression for the visitors here to south Wales.

Weinidog, a gawn ni ddatganiad—mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf yn siŵr iawn gan ba Weinidog y byddai'n dod; Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth efallai—ar yr anhrefn trafndiaeth a gafwyd yng Nghaerdydd ac yn y cyfnod yn arwain at gystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd, sy'n cael ei chynnal dros yr wythnos neu ddwy nesaf? Ar bont Hafren, er enghraifft, roedd milltiroedd lawer o dagfeydd yn y man casglu tollau. Yng ngorsaf Caerdydd Canolog, roedd y lluniau cyfryngau cymdeithasol a oedd yn dod allan o orsaf Caerdydd Canolog, yn arbennig, yn arbennig o erchyll os oeddech chi'n un o'r teithwyr a oedd wedi'ch dal yno. Rwy'n sylweddoli nad oes gan y Llywodraeth ei hun gyfrifoldeb uniongyrchol yn y maes hwn, ond, yn y pen draw, mae'n tynnu llawer o'r asiantaethau ynghyd sy'n cynnig cymorth i gynnal Cwpan Rygbi'r Byd yma ac sy'n cynnig cymorth i'r sefydliadau sy'n ceisio dod â digwyddiadau eraill i Gaerdydd hefyd. Bydd y mathau hynny o ddelweddau a'r profiadau hynny yn cael effaith niweidiol ar allu de Cymru yn benodol i gynnal digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol. Fel y dywedais, nid wyf yn rhoi'r bai ar y Llywodraeth, ond mae gan y Llywodraeth swyddogaeth allweddol i'w chyflawni o ran trefnu bod pethau'n rhedeg yn ddiffwdan trwy ddod â'r holl asiantaethau partner ynghyd i wneud yn siŵr bod trafndiaeth ar y diwrnod—diwrnod sydd wedi bod yn y dyddiadur ers o leiaf pedair i bum mlynedd—yn gweithio i'r graddau gorau posibl ac, yn y pen draw, bod pawb yn cael profiad pluserus yn ymweld â Chaerdydd. Mae'n amlwg na ddigwyddodd hynny ddydd Sadwrn, ac mae'r lluniau cyfryngau cymdeithasol a ddaeth allan o weithrediad y rheilffyrdd yn arbennig yn rhoi dim ond argraff negyddol i'r ymwelwyr â de Cymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:22 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm grateful that you do recognise that we don't have responsibility, particularly in terms of the rail situation. I think that's something that, obviously, I'm sure you will want to be raising with your counterparts in the UK Government in terms of responsibilities. I'm sure, across the Chamber, many of us had friends and relatives visiting and staying who really praised the response and the welcome, and, indeed, the enjoyment over the weekend was very clear. But it is clear that those who are responsible need to take note and take stock of what happened last weekend. I believe that is what's happening, and, of course, we liaise, as we would, in terms of our responsibilities.
- Rwy'n ddiolchgar eich bod yn cydnabod nad oes gennym ni gyfrifoldeb, yn enwedig o ran sefyllfa'r rheilffyrdd. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth, yn amlwg, rwy'n siŵr y byddwch eisiau ei godi gyda'ch cymheiriaid yn Llywodraeth y DU o ran cyfrifoldebau. Rwy'n siŵr, ar draws y Siambur, bod gan lawer ohonom ni ffrindiau a pherthnasau yn ymweld ac yn aros a wnaeth ganmol yr ymateb a'r croeso, ac, yn wir, roedd y mwynhad dros y penwythnos yn eglur iawn. Ond mae'n amlwg bod angen i'r rhai sy'n gyfrifol gymryd sylw a myfyrio ar yr hyn a ddigwyddodd y penwythnos diwethaf. Rwy'n credu mai dyna beth sy'n digwydd, ac, wrth gwrs, rydym ni'n trafod, fel y byddem, o ran ein cyfrifoldebau.
- 14:23 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you'll remember that the Secretary of State addressed us at the end of June. During that debate, he described the mission of the new UK Government as being to champion working people and social justice and to unite the peoples of these nations. Now, those are high ambitions indeed. I thought I would test the delivery of those ambitions in terms of the impact of the summer budget on the people of Blaenau Gwent. I asked the Research Service to analyse the measures contained in that budget and how they might impact upon the people I represent. The research shows the people of Blaenau Gwent will lose incomes up to £33 million as a direct consequence of the policies announced by the Chancellor of the Exchequer in the summer budget. Minister, I'm sure you agree with me that, far from championing social justice, this demonstrates the UK Government's total disregard for the most vulnerable people in our communities and in our country. Will the Government make a statement on the impact of the summer budget on the people of Wales? Will the Government table a debate so that we can understand the impact of the UK Government's decisions on people in constituencies across this country? Can we have a debate on how we can deliver social justice in the face of this callous UK Government?
- Weinidog, byddwch yn cofio bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi ein hannerch ni ddiwedd mis Mehefin. Yn ystod y ddadl honno, disgrifiodd genhadaeth Llywodraeth newydd y DU fel hybu pobl sy'n gweithio a chyfiawnder cymdeithasol ac uno pobl y cenedloedd hyn. Nawr, mae'r rheini'n uchelgeisiau mawr yn wir. Roeddwn i'n meddwl y byddwn i'n profi cyflawniad yr uchelgeisiau hynny o ran effaith cyllideb yr haf ar bobl Blaenau Gwent. Gofynnais i'r Gwasanaeth Ymchwil ddadansoddi'r mesurau yn y gyllideb honno a sut y gallent effeithio ar y bobl rwy'n eu cynrychioli. Mae'r ymchwil yn dangos y bydd pobl Blaenau Gwent yn colli incwm o hyd at £33 miliwn o ganlyniad uniongyrchol i'r polisiau a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys yng nghyllideb yr haf. Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn cytuno â mi, ymhell o hybu cyfiawnder cymdeithasol, bod hyn yn dangos dystyriaeth lwyr Llywodraeth y DU o'r bobl fwyaf agored i niwedd yn ein cymunedau ac yn ein gwlad. A wnaiff y Llywodraeth ddatganiad ar effaith cyllideb yr haf ar bobl Cymru? A wnaiff y Llywodraeth drefnu dadl fel y gallwn ddeall effaith penderfyniadau Llywodraeth y DU ar bobl mewn etholaethau ar draws y wlad hon? A allwn ni gael dadl ar sut y gallwn ni sicrhau cyfiawnder cymdeithasol yn wyneb Llywodraeth ddideimlad y DU?
- 14:24 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the member for Blaenau Gwent for raising this question—[Interruption.] And clearly—
- Diolch i'r Aelod dros Flaenau Gwent am godi'r cwestiwn hwn—[Torri ar draws.] Ac yn amlwg—
- 14:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Carry on.
- Ewch ymlaen.
- 14:24 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, you're raising this question on behalf of your constituents in Blaenau Gwent. It is important to again recognise that, in June, prior to the summer budget, the Chancellor announced a further cut of £50 million to our in-year budget. Despite the £4 million consequential that came in the summer budget, the Welsh Government is down £46 million on the final budget that we agreed last December, and across the UK as a whole, the Chancellor's summer budget takes £37 billion out of public spending across the UK.
- Yn amlwg, rydych chi'n codi'r cwestiwn hwn ar ran eich etholwyr ym Mlaenau Gwent. Mae'n bwysig cydnabod eto, ym mis Mehefin, cyn cyllideb yr haf, bod y Canghellor wedi cyhoeddi toriad pellach o £50 miliwn i'n cyllideb yn ystod y flwyddyn. Er gwaethaf y swm canlyniadol o £4 miliwn a ddaeth yng nghyllideb yr haf, mae gan Lywodraeth Cymru £46 miliwn yn llai na'r gyllideb derfynol a gytunwyd gennym fis Rhagfyr diwethaf, ac ar draws y DU yn ei chyfanrwydd, mae cyllideb yr haf y Canghellor yn cymryd £37 miliwn oddi wrth wariant cyhoeddus ledled y DU.

Of course, it is important to recognise that the Institute for Fiscal Studies also did their analysis of the impact of the UK Government's tax and welfare benefit reforms in Wales. It does suggest that those around the poverty line, particularly those with children, are expected to see the largest income losses, particularly affecting the most vulnerable in your constituency and across constituencies in Wales.

Wrth gwrs, mae'n bwysig cydnabod bod y Sefydliad Astudiaethau Cyllid hefyd wedi gwneud ei ddadansoddiad o effaith diwygiadau treth a budd-daliadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru. Mae'n awgrymu y disgwylir i'r rhai o gwmpas y llinell dlodi, yn enwedig y rhai â phlant, ddioddef y colledion mwyaf i incwm, gan effeithio'n benodol ar y mwyaf agored i niwed yn eich etholaeth chi ac ar draws etholaethau yng Nghymru.

14:25

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I wonder if we could have a debate in Government time on acute staffing shortages in the NHS. I took a phone call yesterday from Abertawe Bro Morgannwg University Health Board, which has had to take the difficult decision to suspend palliative care at Neath Port Talbot Hospital for at least four months until January, due to acute staffing issues. I wonder whether you can tell us if you've had any discussions with ABMU about that announcement and whether we could have a broader discussion on this matter.

Weinidog, tybed a fyddai modd i ni gael dadl yn amser y Llywodraeth ar brinderau staffio difrifol yn y GIG. Derbynias alwad ffôn ddoe gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, sydd wedi gorfod gwneud y penderfyniad anodd i ohirio gofal lliniarol yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot am o leiaf pedwar mis tan fis Ionawr, oherwydd problemau staffio difrifol. Tybed a allwch chi ddweud wrthym a ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau gyda PABM ynghylch y cyhoeddiad hwnnw ac a allem ni gael trafodaeth ehangach am y mater hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Hoffwn i hefyd ofyn am ddatganiad gan y Llywodraeth ynglŷn â'r ffaith, yr wythnos diwethaf, fod y Dirprwy Weinidog, Ken Skates, wedi dweud wrth y pwyllgor cymunedau fod yna femorandwm o ddealltwriaeth rhwng y BBC a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r hyn sy'n mynd i ddigwydd yn awr gyda'r siarter. A oes modd i ni fel Aelodau Cynulliad weld y memorandwm o ddealltwriaeth hwnnw er mwyn i ni ddeall beth sy'n mynd i ddigwydd nawr rhwng y Llywodraeth a'r BBC, pan fydd toriadau posib yn digwydd y flwyddyn nesaf?

I would also like to ask for a Government statement on the fact that, last week, the Deputy Minister, Ken Skates, told the communities committee that there was a memorandum of understanding between the BBC and the Welsh Government on what is going to be happening with the charter. Could we as Assembly Members see that memorandum of understanding so that we can understand what is now going to happen between the Government and the BBC when possible cuts occur next year?

14:26

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, as I reported back last week, we have a clear increase, not only in terms of recruitment of the NHS workforce. That increase in recruitment is across the board in terms of the opportunities that provides for the service. The ways in which we are, for example, responding to the concerns that were particularly raised around junior consultant contracts— We have a very positive and constructive relationship with BMA Wales and we're keen for this partnership to continue. But I'm sure you'll have received—as all of us will have—concerns from junior doctors where they note that the Secretary of State for Health in England intends to impose a new junior doctor contract in England. We actually believe in proceeding by dialogue and discussion; I think that's how we will also help and support in terms of recruitment and the many pressures, of course, that our health boards face in terms of our workforce issues. As I said, our workforce increases that have developed over the past few years are substantial at every level.

Yn amlwg, fel yr adroddais yn ôl yr wythnos diwethaf, mae gennym gynnydd eglur, nid yn unig o ran recriwtio gweithlu'r GIG. Mae'r cynnydd hwnnw o ran recriwtio yn gyffredinol o ran y cyfleoedd y mae hynny'n eu cynnig ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r ffyrdd yr ydym ni'n ymateb, er enghraifft, i'r pryderon a godwyd am gontractau meddygon ymgynghorol iau yn arbennig—. Mae gennym ni berthynas gadarnhaol ac adeiladol iawn gyda BMA Cymru ac rydym yn awyddus i'r bartneriaeth hon barhau. Ond rwy'n siŵr y byddwch wedi derbyn—fel y bydd pob un ohonom ni—bryderon gan feddygon iau lle maen nhw'n nodi bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Lloegr yn bwriadu gorfodi contract meddygon iau newydd yn Lloegr. Rydym ni mewn gwirionedd yn credu mewn symud ymlaen trwy ddeialog a thrafodaeth; rwy'n meddwl mai dyna sut y byddwn ni hefyd yn helpu a chynorthwyo o ran recriwtio a'r holl bwysau, wrth gwrs, y mae ein byrddau iechyd yn eu hwynebu o ran ein problemau gweithlu. Fel y dywedais, mae ein cynnydd yn y gweithlu sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf yn sylweddol ar bob lefel.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

On your second point, of course, I will ask Ken Skates to share that and make sure that you are clear—of course that's very important for all of us—in terms of understanding that agreement regarding broadcasting in Wales.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs, byddaf yn gofyn i Ken Skates rannu hynny a gwneud yn siŵr eich bod yn eglur— mae hynny'n bwysig iawn i bob un ohonom ni wrth gwrs— o ran deall y cytundeb hwnnw ynghylch darlledu yng Nghymru.

14:28

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n awyddus i ddychwelyd at yr heriau sy'n ein hwynebu ni o ran staffio'r gwasanaeth iechyd yma yng Nghymru. Rwy'n derbyn bod y Gweinidog iechyd wedi gwneud datganiad yr wythnos diwethaf ar y gefnogaeth a fydd ar gael i ddoctoriaid teuluol, ond mae yna erthyglau yn y wasg y bore yma, yn y 'Daily Post', yn sôn am gadeirydd pwyllgor y gogledd yn dweud bod mwy na hanner o'r grwpiau o ddoctoriaid teuluol ar fin gadael y gwasanaeth.

I'm eager to return to the challenges that face us as regards staffing the health service here in Wales. I accept that the health Minister made a statement last week on the support that will be available for GPs, but there are articles in the press this morning, in the 'Daily Post', alluding to the chair of the north Wales committee saying that more than half the GP groups are about to leave the service.

Hefyd, rwyf i ar ddeall bod y niferoedd o ddoctoriaid sy'n cofrestru dramor yn cynyddu'n aruthrol. Felly, a gaf i ofyn i'r Llywodraeth a ydyn nhw'n barod i wneud datganiad yngl?n â beth yn union maen nhw'n mynd i wneud yngl?n â'r ffigurau brawychus hyn yngl?n â nifer y doctoriaid teuluol a fydd yn gadael y gwasanaeth o fewn y pum mlynedd nesaf?

I am also given to understand that the number of GPs registering overseas is increasing substantially. May I ask, therefore, exactly what you're going to do about these frightening figures as regards the number of GPs that will leave the service over the next five years?

14:29

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, we now have more than 2,000 GPs working in the NHS in Wales—an increase of 10.5 per cent since 2004. Because of the concerns about GP recruitment and retention in some parts of Wales, we've been working with the profession to promote Wales as an attractive place to live and work. You will be aware, of course, of the new package of support, as you mentioned, for GP practices facing the risk of closure or cutting patient services, but also the innovative plan for primary care services, on which the Deputy Minister will be making a statement this afternoon, backed by £40 million of new funding for that purpose to support that. But, I think it is important that you look to the GP sustainability framework, which is a clear system to ensure that those at-risk GP practices can apply for support as part of the reform of primary care, and of course health boards are delivering that as part of improving services for the public.

Wel, mae gennym ni fwy na 2,000 o feddygon teulu yn gweithio yn y GIG yng Nghymru erbyn hyn—cynnydd o 10.5 y cant ers 2004. Oherwydd y pryderon ynghylch recriwtio a chadw meddygon teulu mewn rhai rhannau o Gymru, rydym ni wedi bod yn gweithio gyda'r proffesiwn i hyrwyddo Cymru fel lle deniadol i fyw a gweithio ynddo. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r pecyn newydd o gymorth, fel y soniasoch, ar gyfer meddygfeydd teulu sy'n wynebu'r perygl o gau neu dorri gwasanaethau i gleifion, ond hefyd y cynllun arloesol ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol, y bydd y Dirprwy Weinidog yn gwneud datganiad arno y prynhawn yma, a gefnogir gan £40 miliwn o gyllid newydd at y diben hwnnw i gefnogi hynny. Ond, rwy'n credu ei bod yn bwysig eich bod yn edrych ar y fframwaith cynaliadwyedd meddygon teulu, sy'n system eglur i sicrhau y gall y meddygfeydd teulu hynny sydd mewn perygl wneud cais am gymorth yn rhan o'r gwaith o ddiwygio gofal sylfaenol, ac wrth gwrs mae byrddau iechyd yn darparu hynny yn rhan o wella gwasanaethau i'r cyhoedd.

14:30

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, could I ask for a statement from the Deputy Minister for Farming and Food on the basic payment scheme? As you may be aware, Minister, the European Commissioner for Agriculture and Rural Development confirmed last week that the administrative controls which Governments need to undertake before payments can be released early have been relaxed, which means that member states are able to make advance payments of up to 70 per cent. The Deputy Minister has previously confirmed that Rural Payments Wales does not have sufficient capacity to process the required number of single application forms to utilise this provision. When I met with the National Farmers Union officials and officers yesterday at Welshpool market, this was a big discussion point, and, clearly, farming businesses will have significant cash flow issues towards the end of the year. I'm also told that banks have also written to some farming businesses raising this issue. Now that the administrative burdens have been lifted by the EU Commissioner, I'd welcome clarity on how the Government intends to amend its approach to ensure that basic payments can be made to farmers at the earliest opportunity.

Weinidog, a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar y cynllun taliadau sylfaenol? Fel y gwyddoch efallai, Weinidog, cadarnhaodd y Comisiynydd Ewropeaidd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yr wythnos diwethaf bod y rheolaethau gweinyddol y mae angen i lywodraethau ymgymryd â nhw cyn y gellir rhyddhau taliadau yn gynnar wedi cael eu llacio, sy'n golygu bod aelod-wladwriaethau yn gallu gwneud taliadau ymlaen llaw o hyd at 70 y cant. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cadarnhau yn y gorffennol nad oes gan Taliadau Gwledig Cymru ddigon o gapasiti i brosesu'r nifer ofynnol o ffurflenni cais sengl i ddefnyddio'r ddarpariaeth hon. Pan gwrdais â swyddogion Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ddoe ym marchnad y Trallwng, roedd hwn yn bwynt trafod mawr, ac, yn amlwg, bydd gan fusnesau ffermio broblemau llif arian sylweddol tuag at ddiwedd y flwyddyn. Rwyf hefyd yn clywed bod banciau hefyd wedi ysgrifennu at rai busnesau ffermio yn codi'r mater hwn. Gan fod y beichiau gweinyddol wedi eu codi gan Gomisiynydd yr UE erbyn hyn, byddwn yn croesawu eglurder ynghylch sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu newid ei dull i sicrhau y gall taliadau sylfaenol gael eu gwneud i ffermwyr ar y cyfle cyntaf.

14:31

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that the Deputy Minister for Farming and Food, of course, is taking this very seriously indeed and will make sure that she's liaising very closely, not just with spokespeople here, but obviously with those who are affected in the farming community. She will be writing to all Assembly Members to update on this position.

Gwn fod y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, wrth gwrs, yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i hyn a bydd yn gwneud yn siŵr ei bod yn cydweithio'n agos iawn, nid yn unig gyda llefarywyr yma, ond yn amlwg gyda'r rhai sy'n cael eu heffeithio yn y gymuned ffermio. Bydd yn ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa hon.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:31

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When can we have a debate about the achievements of the health service in Wales? We heard in First Minister's questions today that the University Hospital of Wales in Heath Park in my constituency of Cardiff North is in the top three hospitals in England and Wales for cardiac surgery survival rates, along with Papworth and Southampton, and I'd like to congratulate all the staff in that hospital. But in my constituency alone, we've also got the outstanding work done by Velindre hospital, widely recognised, and, of course, the additional investment now put in by the Welsh Government into the children's hospital, also at the Heath. So, doesn't she think that we should have the opportunity to discuss these achievements in the Welsh health service, and in particular to praise the staff for what they're doing?

Pryd allwn ni gael dadl am lwyddiannau'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru? Clywsom yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog heddiw bod Ysbyty Athrofaol Cymru ym Mharc y Mynydd Bychan yn fy etholaeth i yng Ngogledd Caerdydd yn un o'r tri ysbyty gorau yng Nghymru a Lloegr o ran cyfraddau goroesi llawdriniaeth gardiaidd, ynghyd â Papworth a Southampton, a hoffwn longyfarch yr holl staff yn yr ysbyty hwnnw. Ond yn fy etholaeth i yn unig, mae gennym ni'r gwaith rhagorol a wneir gan Ysbyty Felindre hefyd, a gydnabyddir yn eang, ac, wrth gwrs, y buddsoddiad ychwanegol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn yr ysbyty plant, hefyd yn y Mynydd Bychan. Felly, onid yw hi'n credu y dylem ni gael y cyfle i drafod y lwyddiannau hyn yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ac yn enwedig i ganmol y staff am yr hyn y maen nhw'n ei wneud?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:32

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Julie Morgan for that question, and clearly we are very pleased—the Welsh Government is very pleased—to see the cardiac surgery team being recognised as one of the best performing teams in the UK. It does, as you say, reflect the commitment of the staff who work in that service, and you drew attention, of course, to staff working in other services in your constituency in Cardiff North—the children's hospital, Velindre, as well as in the NHS trust. And, indeed, the Minister for Health and Social Services has congratulated the team on their achievements, and I'm sure the whole Assembly would wish to do so as well. This also means that we're talking about improved outcomes as well as the main centres in south Wales, beyond your constituency, which is important, working together to improve sustainability and resilience for cardiac surgery because of the recognition of Morriston as well. So, this is an important time, and I'm sure there will be opportunities to raise this further to give our congratulations to the staff.

Diolchaf i Julie Morgan am y cwestiwn yna, ac yn amlwg rydym ni'n falch iawn—mae Llywodraeth Cymru yn falch iawn—o weld y tîm llawdriniaeth gardiaidd yn cael ei gydnabod fel un o'r timau sy'n perfformio orau yn y DU. Fel y dywedwch, mae'n adlewyrchu ymroddiad y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth hwnnw, a thynnwyd sylw gennych, wrth gwrs, at y staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau eraill yn eich etholaeth chi yng Ngogledd Caerdydd—yr ysbyty i blant, Felindre, yn ogystal ag yn ymddiriedolaeth y GIG. Ac, yn wir, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi llongyfarch y tîm ar ei gyflawniadau, ac rwy'n siŵr y byddai'r Cynulliad cyfan yn dymuno gwneud hynny hefyd. Mae hyn hefyd yn golygu ein bod yn sôn am well canlyniadau yn ogystal â'r prif ganolfannau yn y de, y tu hwnt i'ch etholaeth chi, sy'n bwysig, yn gweithio gyda'i gilydd i wella cynaliadwyedd a chydnerthedd o ran llawdriniaeth gardiaidd oherwydd y gydnabyddiaeth i Dreforys hefyd. Felly, mae hwn yn gyfnod pwysig, ac rwy'n siŵr y bydd cyfleoedd i godi hyn ymhellach i roi ein llongyfarchiadau i'r staff.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you may have heard that Trinity Mirror plc have confirmed they're in talks to take over the Local World Ltd, which is the parent company for the 'South Wales Evening Post'. I understand that talks are at a very advanced stage. If Trinity Mirror do take over Local World, they would control three of the four dailies in south Wales, of which the 'Evening Post' is the biggest, as well as the 'Daily Post' in north Wales, and a stack of weeklies including the 'Llanelli Star' and the 'Carmarthen Journal'. Clearly, there is concern amongst staff at this prospect, particularly given that the company, in the past, has centralised all its operations in Cardiff, closing branch offices in Merthyr Tydfil, Bridgend and Pontypridd last year, forcing staff to work from home or in the Cardiff HQ. There is concern whether Trinity Mirror will keep the offices open in Swansea, Llanelli and Carmarthen if they do take over Local World, and whether there will be redundancies as a result of that. Could I ask, therefore, if we could have a written statement from the relevant Minister in terms of what discussions the Welsh Government are having with Trinity Mirror about their plans in terms of this media ownership, and what assurances we can get from them, in terms of the jobs of staff and in terms of the way they would be conducting themselves in effectively monopolising the Welsh press?

Weinidog, efallai eich bod wedi clywed bod Trinity Mirror plc wedi cadarnhau ei fod mewn trafodaethau i gymryd drosodd Local World Ltd, sef rhiant-gwmni y 'South Wales Evening Post'. Rwy'n deall bod trafodaethau ar gam datblygedig iawn. Os bydd Trinity Mirror yn cymryd Local World drosodd, byddai'n rheoli tri o'r pedwar papur dyddiol yn y de, a'r 'Evening Post' yw'r mwyaf ohonynt, yn ogystal â'r 'Daily Post' yn y gogledd, a phentwr o bapurau wythnosol gan gynnwys y 'Llanelli Star' a'r 'Carmarthen Journal'. Yn amlwg, mae pryder ymhlith staff am y posibilrwydd hwn, yn enwedig o ystyried bod y cwmni, yn y gorffennol, wedi canoli ei holl weithrediadau yng Nghaerdydd, gan gau swyddfeydd cangen ym Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr a Phontypridd y llynedd, gan orfodi staff i weithio o'u cartrefi neu yn y pencadlys yng Nghaerdydd. Ceir pryder ynghylch pa un a fydd Trinity Mirror yn cadw'r swyddfeydd ar agor yn Abertawe, Llanelli a Chaerfyrddin os bydd yn cymryd Local World drosodd, ac a fydd diswyddo o ganlyniad i hynny. A gaf i ofyn, felly, pe gallem ni gael datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog perthnasol o ran pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cael gyda Trinity Mirror ar ei gynlluniau o ran y berchnogaeth hon o gyfryngau, a pha sicrwydd allwn ni ei gael ganddynt, o ran swyddi staff ac o ran y ffordd y byddent yn ymddwyn ar ôl cael monopoli o'r wasg yng Nghymru i bob pwrpas?

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Peter Black for bringing that to the attention of the Assembly, and the Chamber, today. I was fortunate to be one of the main speakers on Friday at the 'South Wales Evening Post', celebrating the success of the 100 top companies in south-west Wales, and just hearing and seeing how the 'South Wales Evening Post' is embedded in its local community, with their business support, and all the other activities that they undertake, as a regional and local, for Swansea and surrounding areas, newspaper. But I think this is an opportunity, and I will seek ways in which the Government can take this forward, in terms of expressing those views to Trinity Mirror.

Diolchaf i Peter Black am ddod â hynny at sylw'r Cynulliad, a'r Siambr heddiw. Roeddwn i'n ffodus i fod yn un o'r prif siaradwyr ddydd Gwener yn y 'South Wales Evening Post', yn dathlu llwyddiant y 100 o gwmnïau gorau'r de-orllewin, a ddim ond yn clywed a gweld sut y mae'r 'South Wales Evening Post' wedi ei ymsefydlu yn ei gymuned leol, gyda'u cymorth busnes, a'r holl weithgareddau eraill y maen nhw'n ymgymryd â nhw, fel papur newydd rhanbarthol a lleol, ar gyfer Abertawe a'r cyffiniau. Ond rwy'n credu bod hwn yn gyfle, a byddaf yn chwilio am ffyrdd y gall y Llywodraeth fwrw ymlaen â hyn, o ran mynegi'r safbwyntiau hynny i Trinity Mirror.

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would ask the business Minister—sorry, the Leader of the house whether I might have a statement from the business Minister on the future of the Wales economic growth fund. This fund, of some £30 million, created jobs, safeguarded jobs, was well received and praised by many. The Minister kindly gave a statement in June, giving the update on that matter, but I note in the budget for next year there's no particular allocation for the Wales economic growth fund. I wonder what the Minister has in mind instead of this, particularly when many of us visited manufacturing concerns during the summer recess, and there was a plea, not only for investment, in various forms, but particularly for research and development, and this fund was one of those that helped in that way, and helped very successfully.

Rwyf am ofyn i'r Gweinidog busnes—mae'n ddrwg gennyf, Arweinydd y tŷ, a allaf i gael datganiad gan y Gweinidog busnes ar ddyfodol cronfa twf economaidd Cymru. Llwyddodd y gronfa hon, o tua £30 miliwn, i greu swyddi, diogelu swyddi a chafodd groeso da a chanmoliaeth gan lawer. Roedd y Gweinidog yn ddigon caredig i wneud datganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwnnw ym mis Mehefin, ond sylwaf yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf nad oes unrhyw ddyraniad penodol ar gyfer cronfa twf economaidd Cymru. Tybed beth sydd gan y Gweinidog mewn golwg i gymryd lle hyn, yn enwedig pan ymwelodd llawer ohonom ni â busnesau gweithgynhyrchu yn ystod toriad yr haf, ac roedd cais, nid yn unig am fuddsoddiad, mewn ffurfiau amrywiol, ond ar gyfer ymchwil a datblygu yn arbennig, ac roedd y gronfa hon yn un o'r rhai a helpodd yn y modd hwnnw, a helpu yn llwyddiannus iawn.

14:36 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, clearly, there was an update in June on this important Wales economic growth fund, and, of course, in terms of preparation for the most challenging budget settlement, and not of course having the spending review announcement until the end of November, making it even more challenging in terms of planning and preparation. But, clearly, updates in terms of the impact, which is most important, of the Wales economic growth fund will be forthcoming.

Wel, yn amlwg, bu diweddariad ym mis Mehefin ar y gronfa twf economaidd Cymru bwysig hon, ac, wrth gwrs, o ran paratoi ar gyfer setliad cyllideb hynod o heriol, a heb wrth gwrs, gael y cyhoeddiad am yr adolygiad o wariant tan ddiwedd mis Tachwedd, gan ei gwneud yn anoddach fyth o ran cynllunio a pharatoi. Ond, yn amlwg, bydd diweddariadau o ran effaith, sy'n bwysig iawn, cronfa twf economaidd Cymru yn cael eu gwneud maes o law.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:37 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the steel industry remains very important to Wales, and it's certainly very important to my constituency of Newport East. The steel industry faces considerable challenges at the moment, in terms of lack of demand in Europe, cheap Chinese imports, energy prices, and a number of other issues. And, of course, Welsh Government has a key role to play in terms of procurement, infrastructure, skills and general economic development support. Given the recent announcement by Tata Steel with regard to the mothballing of the hot strip mill at Llanwern, and the redeployment of staff, and, indeed, loss of contractor jobs, I wonder whether, in Welsh Government time, there might be a debate or a statement on the steel industry in Wales, and the support that the Welsh Government, and others, can provide to that industry.

Weinidog, mae'r diwydiant dur yn parhau i fod yn bwysig iawn i Gymru, ac mae'n sicr yn bwysig iawn i fy etholaeth i yn Nwyrain Casnewydd. Mae'r diwydiant dur yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd, o ran diffyg galw yn Ewrop, mewnfiorion rhad o Tsieina, prisiau ynni, a nifer o faterion eraill. Ac, wrth gwrs, mae gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth allweddol i'w chyflawnio o ran caffael, seilwaith, sgiliau a chymorth datblygu economaidd cyffredinol. O ystyried y cyhoeddiad diweddar gan Tata Steel ar gau'r felin sribedi poeth yn Llanwern dros dro, ac adleoli staff, ac, yn wir, colli swyddi contractwyr, tybed a ellid cael, yn amser Llywodraeth Cymru, dadl neu ddatganiad ar y diwydiant dur yng Nghymru, a'r gefnogaeth y gall Llywodraeth Cymru, ac eraill, ei rhoi i'r diwydiant hwnnw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, again, I welcome the fact that John Griffiths has brought this to our attention today, as the Member for Newport East, and of course recognising the implications of the concerns that are arising from his constituents, particularly in terms of what is happening at Llanwern, particularly the recent announcement about mothballing measures. I think it's important that we look at this in the wider context of impact of UK Government policies on, for example, high energy costs—that's disadvantaging the steel industry across the UK, against our overseas competitors. And I think that wider perspective, of course, will be welcome for Ministers to look at and consider taking forward.

Wel, unwaith eto, rwy'n croesawu'r ffaith fod John Griffiths wedi tynnu ein sylw at hyn heddiw, fel yr Aelod dros Ddwyrain Casnewydd, ac yn cydnabod wrth gwrs goblygiadau'r pryderon sy'n cael eu codi gan ei etholwyr, yn enwedig o ran yr hyn sy'n digwydd yn Llanwern, a'r cyhoeddiad diweddar o fesurau cau dros dro yn arbennig. Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn edrych ar hyn yng nghyd-destun ehangach effaith polisïau Llywodraeth y DU ar gostau ynni uchel, er enghraifft—mae hynny'n rhoi'r diwydiant dur dan anfantais ar draws y DU, yn erbyn ein cystadleuwyr o dramor. Ac rwy'n credu y bydd croeso i'r safbwynt ehangach hwnnw, wrth gwrs, i Weinidogion edrych arno ac ystyried bwrw ymlaen ag ef.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:39 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I'm sure you'll be aware that protestors from Frack-Free Wales brought a petition to the Senedd today of 1,500 signatures. While the Welsh Government have publicly supported a moratorium on fracking in Wales, that hasn't been followed up, to date, with the production of new guidance on the extraction of unconventional gas, which would help to shore up local authorities that do seek to resist applications from the companies wishing to conduct fracking. And, obviously, this is an issue that is pertinent across Wales, but particularly in my region, and, indeed, your own constituency. I wonder whether I could request a statement from the Minister for Natural Resources setting out the steps that he plans to take to implement the moratorium he has supported, and, in particular, to set out the powers at his disposal to make this happen if he doesn't plan to bring forward a new technical advice note or change the existing ones.

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol bod protestwyr o Frack-Free Wales wedi dod â deiseb â 1,500 o lofnodion i'r Senedd heddiw. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi moratoriwm ar ffracio yng Nghymru yn gyhoeddus, ni ddilynwyd hynny, hyd yma, trwy gynhyrchu canllawiau newydd ar echdynnu nwy anghonfensiynol, a fyddai'n helpu i gefnogi awdurdodau lleol sy'n ceisio gwrthsefyll ceisiadau gan gwmnïau sy'n dymuno ffracio. Ac, yn amlwg, mae hwn yn fater sy'n berthnasol ledled Cymru, ond yn enwedig yn fy rhanbarth i, ac, yn wir, yn eich etholaeth eich hun. Tybed a allwn i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i weithredu'r moratoriwm y mae wedi ei gefnogi, ac, yn arbennig, i nodi'r pwerau sydd ar gael iddo i wneud i hyn ddigwydd os nad yw'n bwriadu cyflwyno nodyn cyngor technegol newydd neu newid y rhai presennol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:40

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I thank Eluned Parrott for that question. I was also able to go out and meet constituents who were here with the petition, which, of course, will now be considered fully, I know, as the Petitions Committee takes this forward. I think also Eluned Parrott and others were here with the Minister last week when we had the short debate led by Aled Roberts on fracking. I think that, in his response to that short debate, the Minister for Natural Resources did say again that he's consistently made clear the Welsh Government's precautionary position on fracking, particularly in response to the UK Government's announcements that change the planning system to expedite shale gas exploration. But I think he also, as you will recall, and it's on the transcript now, said that he was looking very carefully, again, at the moratorium and the expectations to look at other areas and the technologies behind unconventional oil and gas extraction, consider those and, of course, come back to the Assembly.

Diolchaf i Eluned Parrott am y cwestiwn yna. Llwyddais innau hefyd i fynd allan i gyfarfod ag etholwyr a oedd yma gyda'r ddeiseb, a fydd, wrth gwrs, yn cael ei hystyried yn llawn nawr, rwy'n gwybod, wrth i'r Pwyllgor Deisebau fwrw ymlaen â hyn. Rwy'n credu hefyd bod Eluned Parrott ac eraill yma gyda'r Gweinidog yr wythnos diwethaf pan gawsom y ddadl fer a arweiniwyd gan Aled Roberts ar ffracio. Rwy'n credu, yn ei ymateb i'r ddadl fer honno, bod Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi dweud eto ei fod wedi gwneud safbwynt rhagofalus Llywodraeth Cymru ar ffracio yn eglur yn gyson, yn enwedig mewn ymateb i gyhoeddiadau Llywodraeth y DU sy'n newid y system gynllunio i hwyluso archwiliadau nwy siâl. Ond rwy'n credu ei fod hefyd wedi dweud, fel y byddwch yn cofio, ac mae ar y trawsgrifiad nawr, ei fod yn edrych yn ofalus iawn, unwaith eto, ar y moratoriwm a'r disgwiliadau i ystyried meysydd eraill a'r technolegau a ddefnyddir i echdynnu olew a nwy anghonfensiynol, ystyried y rheini ac, wrth gwrs, dod yn ôl i'r Cynulliad.

14:41

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Firstly, could I ask you to bring to the Chamber the Welsh Government's proposals for changes to the non-domestic rating of self-catering businesses in Wales before you lay your proposed Order on this, expected imminently, certainly before Christmas? You will be, no doubt, aware that the Wales Association of Self Catering Operators, the only membership body specifically representing self-catering operators in Wales, has said that any proposed measures enacted by the Welsh Government should enhance the positive contribution self-catering makes to the Welsh economy and that translating the concept of 70 days' occupancy and 140 days' availability into firm rules should allow for mitigation in those unforeseen and unforeseeable circumstances where bone fide businesses are unable to meet either criterion for reasons clearly and certifiably outside of their control. I'll quote one operator only, although I've been deluged from north Wales:

'The Welsh Government proposals have horrendous unintended consequences for truly genuine Welsh businesses that are beyond their control. It will be the death knell for small self-catering and many other businesses in the heart of rural Wales, especially north Wales.'

Yn gyntaf, a gaf i ofyn i chi ddod â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer newidiadau i ardrethi annomestig ar fusnesau llety hunanddarpar yng Nghymru i'r Siambr cyn i chi osod eich Gorchymyn arfaethedig ar hyn, a ddisgwylir yn fuan, yn sicr cyn y Nadolig? Byddwch, yn ddiau, yn ymwybodol bod y Gymdeithas Gweithredwyr Llety Hunanddarpar, yr unig gorff aelodaeth sy'n cynrychioli gweithredwyr llety hunanddarpar yn benodol yng Nghymru, wedi dweud y dylai unrhyw fesurau arfaethedig a ddeddfir gan Lywodraeth Cymru wella'r cyfraniad cadarnhaol y mae llety hunanddarpar yn ei wneud at economi Cymru, ac y dylai troi'r cysyniad o 70 diwrnod o ddeiliadaeth a 140 diwrnod o fod ar gael, yn rheolau pendant ganiatáu mesurau lliniaru dan yr amgylchiadau annisgwyl ac na ellir eu rhagweld hynny lle nad yw busnesau dilys yn gallu bodloni yr un o'r ddau faen prawf am resymau sy'n eglur ac yn sicr y tu allan i'w rheolaeth. Dyfynnaf un gweithredwr yn unig, er fy mod i wedi cael llw o sylwadau o'r gogledd:

Bydd cynigion Llywodraeth Cymru yn arwain at ganlyniadau anfwriadol erchyll i fusnesau gwirioneddol ddilys o Gymru sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Bydd yn golygu diwedd ar fusnesau llety hunanddarpar bach a llawer o fusnesau eraill yng nghanol cefn gwlad Cymru, yn enwedig yn y gogledd.

Secondly and finally, can I again raise the very important, critical matter raised by Aled Roberts where the vice-chair of the north Wales local medical committee has today raised a crisis that must be dealt with urgently, if thousands and thousands of people across north Wales are not to suffer? North Wales Members know already, although we're sworn to confidentiality, that further closures are in the pipeline that will already affect thousands and thousands more patients. We know that the chair of the north Wales local medical committee said that both GPs and out-of-hours surgeries are facing ever-growing pressure and that the closure of community hospitals and cuts to minor injuries clinics are responsible for the current crisis facing GPs and accident and emergency departments in north Wales. I've been writing to the Minister about this after meeting GPs in north Wales for nearly two years, highlighting their concerns about the inability to recruit, the British Medical Association description of the impending crisis in north Wales and, of course, the Royal College of General Practitioners' campaign highlighting this and its causes, including the shortage of beds in community hospitals. Given the imminent crisis that we've been warned about for years and years, what is your Government going to do about it? Please can we have an urgent statement?

Yn ail ac yn olaf, a gaf i godi eto y mater pwysig iawn, critigol a godwyd gan Aled Roberts lle mae is-gadeirydd pwyllgor meddygol lleol gogledd Cymru wedi tynnu sylw at argyfwng heddiw y bydd yn rhaid ymdrin ag ef ar frys, os nad yw miloedd ar filoedd o bobl ar draws y gogledd yn mynd i ddiodeff? Mae Aelodau Gogledd Cymru eisoes yn gwybod, er ein bod wedi tyngu llw i gyfrinachedd, fod achosion pellach o gau ar y gweill a fydd eisoes yn effeithio miloedd ar filoedd yn rhagor o gleifion. Rydym ni'n gwybod bod cadeirydd pwyllgor meddygol lleol gogledd Cymru wedi dweud bod meddygfeydd teulu a meddygfeydd y tu allan i oriau arferol yn wynebu pwysau cynyddol a bod cau ysbytai cymuned a thoriadau i glinigau mân anafiadau yn gyfrifol am yr argyfwng presennol sy'n wynebu meddygfeydd teulu ac adrannau damweiniau ac achosion brys yn y gogledd. Rwyf wedi bod yn ysgrifennu at y Gweinidog am hyn ar ôl cyfarfod meddygon teulu yn y gogledd ers bron i ddwy flynedd, gan dynnu sylw at eu pryderon ynghylch yr anallu i recriwtio, disgrifiad Cymdeithas Feddygol Prydain o'r argyfwng sydd ar ddod yn y gogledd ac, wrth gwrs, ymgyrch Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn tynnu sylw at hyn a'i achosion, gan gynnwys prinder gwelyau mewn ysbytai cymuned. O ystyried yr argyfwng sydd ar fin digwydd ac yr ydym wedi ein rhybuddio amdano ers blyneddau ar flynyddoedd, beth mae eich Llywodraeth chi yn mynd i'w wneud am hyn? A allwn ni gael datganiad brys os gwelwch yn dda?

14:44 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think, on your first question, it would be helpful if you wrote to the Minister about this, obviously drawing attention as a result of the representations made to you, and we would be grateful for clarification of their concerns. So, if you can write to the Minister on that point—. I mean, clearly, Mark Isherwood didn't listen to the response that I gave to Aled Roberts. We have just announced—just announced—a new package of support for GP practices and agreed a new two-year contract with GPs. I do believe also, in terms of our work, which is very important, with the General Practitioners Committee Wales and health boards, to encourage ways in which we can ensure that access to primary care has improved, that that is making a difference. But, of course, the Deputy Minister will be saying more and, of course, you've got a chance to question later on this afternoon.

Rwy'n credu, o ran eich cwestiwn cyntaf, y byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn ysgrifennu at y Gweinidog ynglŷn â hyn, gan dynnu sylw, yn amlwg, yn sgil y sylwadau a wnaed i chi, a byddem yn ddiolchgar am eglurhad o'u pryderon. Felly, pe gallech chi ysgrifennu at y Gweinidog ar y pwynt hwnnw—. Hynny yw, yn amlwg, ni wrandawodd Mark Isherwood ar yr ymateb a roddais i Aled Roberts. Rydym ni newydd gyhoeddi—newydd gyhoeddi—pecyn newydd o gymorth ar gyfer meddygfeydd teulu ac wedi cytuno ar gontract dwy flynedd newydd gyda meddygon teulu. Rwy'n credu hefyd, o ran ein gwaith, sy'n bwysig iawn, gyda Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru a byrddau iechyd, i annog ffyrdd y gallwn sicrhau bod mynediad at ofal sylfaenol wedi gwella, a bod hynny'n gwneud gwahaniaeth. Ond, wrth gwrs, bydd y Dirprwy Weinidog yn dweud mwy ac, wrth gwrs, mae gennych chi gyfle i holi yn ddiweddarach y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:45 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I call for a statement from the Minister for Health and Social Services in relation to maternity and neonatal care, please, in west Wales? Many Members and members of the public have been alarmed to read one of the reports of the Royal College of Paediatrics and Child Health, which will be discussed this week at a board meeting of the Hywel Dda Local Health Board, which concludes that the maternity ward at Glangwili hospital is:

'not fit for purpose; it is too small, with insufficient facilities and provides a poor environment for women and staff.'

A gaf i alw am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â mamolaeth a gofal newyddenedigol, os gwelwch yn dda, yn y gorllewin? Mae llawer o Aelodau ac aelodau o'r cyhoedd wedi cael eu dychryn o ddarllen un o adroddiadau'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, a fydd yn cael ei drafod yr wythnos hon yng nghyfarfod bwrdd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, sy'n dod i'r casgliad nad yw'r ward mamolaeth yn ysbyty Glangwili:

yn addas i'w diben; mae'n rhy fychan, heb ddigon o gyfleusterau ac yn cynnig amgylchedd gwael i fenywod a staff.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Now, Members will recall that it was the health Minister who made a decision that the unit down the road at Withybush hospital would close and that mothers-to-be would need to access services in Glangwili hospital. Given that the facilities are not fit for purpose, I think that Members in this Chamber and members of the public need to know and understand what on earth the Welsh Government's assurances were based on, given that a decision was made that patients would need to be transferred there. This is a serious issue, which potentially puts lives at risk. I think that we need to understand why there has been no investment in that unit and why the situation is unacceptable in the view of the Royal College of Paediatrics and Child Health. [Interruption.] I can hear the Minister saying that this is—

Nawr, bydd yr Aelodau'n cofio mai'r Gweinidog iechyd a wnaeth y penderfyniad y byddai'r uned i lawr y ffordd yn Ysbyty Llwynhelyg yn cau ac y byddai angen i ddarparu famau ddefnyddio gwasanaethau yn ysbyty Glangwili. O gofio nad yw'r cyfleusterau yno yn addas i'w diben, rwy'n meddwl bod yr Aelodau yn y Siambr hon ac aelodau o'r cyhoedd angen gwybod a deall beth ar y ddaear yr oedd sicrwydd Llywodraeth Cymru wedi'i seilio arno, o gofio y gwnaed penderfyniad y byddai angen trosglwyddo cleifion yno. Mae hwn yn fater difrifol, a allai roi bywydau mewn perygl. Rwy'n credu bod angen i ni ddeall pam na fu unrhyw fuddsoddiad yn yr uned honno a pham mae'r sefyllfa'n annerbyniol ym marn y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant. [Torri ar draws.] Gallaf glywed y Gweinidog yn dweud bod hyn yn—

14:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Order.

Trefn. Trefn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:46 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I can hear people saying that this is disgraceful. What is disgraceful is that a decision was made by a Minister to close a service in one hospital on the basis that an improved service would be provided in another, and yet the facilities in the other hospital have been completely unacceptable. We are told by an independent source—the Royal College of Paediatrics and Child Health—that they are not fit for purpose. Now, if the Minister wants to defend that position then I suggest that he makes a statement to do so.

Gallaf glywed pobl yn dweud bod hyn yn warthus. Yr hyn sy'n warthus yw y gwnaed penderfyniad gan Weinidog i gau gwasanaeth mewn un ysbyty ar y sail y byddai gwell gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn un arall, ac eto mae'r cyfleusterau yn yr ysbyty arall wedi bod yn gwbl annerbyniol. Fe'n hysbysir gan ffynhonnell annibynnol—y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant—nad ydynt yn addas i'w diben. Nawr, os yw'r Gweinidog yn dymuno amddiffyn y sefyllfa honno, yna rwy'n awgrymu ei fod yn gwneud datganiad i wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:46 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm glad that I have got the opportunity to respond to Darren Millar and put the record straight for Members today. The health board published a copy of the royal college's report on its website on Friday 18 September, in advance of its board meeting this coming Thursday. We welcome this review. It does provide further reassurance to people in Pembrokeshire and Carmarthenshire that these services are safe and have led to improved outcomes for mothers and babies. I understand that the representatives of the review panel will present the report to the board, and the Minister for Health and Social Services does intend to issue a written statement to Assembly Members on this matter later this week.

Wel, rwy'n falch bod y cyfle gennyf i ymateb i Darren Millar ac egluro'r sefyllfa i'r Aelodau heddiw. Cyhoeddodd y bwrdd iechyd gopi o adroddiad y coleg brenhinol ar ei wefan ddydd Gwener 18 Medi, cyn ei gyfarfod bwrdd ddydd Iau nesaf. Rydym ni'n croesawu'r adolygiad hwn. Mae'n rhoi rhagor o sicrwydd i bobl yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin bod y gwasanaethau hyn yn ddiogel ac wedi arwain at ganlyniadau gwell i famau a babanod. Rwy'n deall y bydd cynrychiolwyr y panel adolygu yn cyflwyno'r adroddiad i'r bwrdd, ac mae'r Gweinidog iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu cyhoeddi datganiad ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad ar y mater hwn yn ddiweddarach yr wythnos hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:47 **3. Datganiad: Ymrwymadau yn ystod y Flwyddyn 2015-16**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the next item on the agenda, which is a statement by the Minister for Finance and Government Business on the 2015-16 in-year commitments. I call on the Minister, Jane Hutt, to make the statement.

3. Statement: 2015-16 In-year Commitments

Symudwn yn awr at yr eitem nesaf ar yr agenda, sy'n ddatganiad gan y Gweinidog dros Gyllid a Busnes y Llywodraeth ar y 2015-16 ymrwymadau yn ystod y flwyddyn. Galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt, i wneud y datganiad.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Llywydd, before the summer recess, the Assembly approved the first supplementary budget for 2015-16, which set out the latest in-year financial position. The audit of the previous year's accounts is now complete and I can update Members on the latest position.

I can confirm that the accounts recorded a small underspend of £8.3 million revenue and £1.4 million capital when measured against the approved budget. This represents an underspend of less than 0.1 per cent overall. These results, when added to the reserves held at the end of 2014-15, mean that we will carry over £69 million revenue and £3.3 million capital into the current financial year. This careful financial management allows me to reiterate today the commitment that I made in July that the in-year cuts imposed on us by the UK Government can be taken in full in this financial year. This will protect the budgets approved by the Assembly for 2015-16 and avoid taking these reductions forward into future years.

We will not know the exact longer term impact of the UK Government's ongoing austerity programme until the spending review on 25 November. However, it is clear that the coming spending review will impose further budget reductions on the Welsh budget. Therefore, the impact of carrying further reductions into the 2016-17 financial year would be to worsen the impact of austerity on vital Welsh public services. Our ability to manage the UK Government's in-year cuts is testament to the robustness of our good financial management.

Our prudent financial management also allows me to confirm today a number of allocations from reserves in support of our priorities. Firstly, from our revenue reserves I will be allocating £58.8 million to the health and social services main expenditure group. This will include £45 million to drive a number of initiatives within the service, targeted at improving performance in 2015-16, and a further £13.8 million allocated to support the Welsh NHS in meeting the additional costs associated with the introduction of a number of treatments approved this year. They include sofosbuvir, which is used in the treatment of hepatitis C, and a new treatment for atypical haemolytic uraemic syndrome, also known as aHUS. These allocations build on the £90 million boost for the health service in Wales provided in our first supplementary budget.

Llywydd, cyn toriad yr haf, cymeradwyodd y Cynulliad y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2015-16, a oedd yn nodi'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf. Mae'r archwiliad o gyfrifon y flwyddyn flaenorol bellach wedi'i gwblhau a gallaf roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y sefyllfa.

Gallaf gadarnhau bod y cyfrifon yn cofnodi tanwariant bychan o £8.3 miliwn o refeniw ac £1.4 miliwn o gyfalaf o'i fesur yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd. Mae hyn yn cynrychioli tanwariant o lai na 0.1 y cant yn gyffredinol. Mae'r canlyniadau hyn, o'u hadio at y cronfeydd wrth gefn a oedd mewn llaw ar ddiwedd 2014-15, yn golygu y byddwn yn cario drosodd £69 miliwn o refeniw a £3.3 miliwn o gyfalaf i'r flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r rheoli ariannol gofalus hwn yn caniatáu imi ailadrodd heddiw yr ymrwymiad a wneuthum ym mis Gorffennaf y gallwn gymryd, yn y flwyddyn ariannol hon, yr holl doriadau yn ystod y flwyddyn y mae Llywodraeth y DU wedi eu gorfodi arnom. Bydd hyn yn diogelu'r cyllidebau a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar gyfer 2015-16 ac yn osgoi mynd â'r gostyngiadau hyn ymlaen i flynyddoedd yn y dyfodol.

Ni fyddwn yn gwybod union effaith hirdymor rhaglen cyni parhaus Llywodraeth y DU tan yr adolygiad o wariant ar 25 Tachwedd. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd yr adolygiad o wariant sydd i ddod yn lleihau cyllideb Cymru ymhellach. Felly, byddai cario gostyngiadau pellach i mewn i flwyddyn ariannol 2016-17 yn gwaethygu effaith cyni ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru. Mae ein gallu i reoli toriadau Llywodraeth y DU yn ystod y flwyddyn yn brawf o gadernid ein rheoli ariannol da.

Mae ein rheoli ariannol doeth hefyd yn caniatáu imi gadarnhau heddiw nifer o ddyraniadau o gronfeydd wrth gefn i gefnogi ein blaenoriaethau. Yn gyntaf, o'n cronfeydd refeniw wrth gefn byddaf yn dyrannu £58.8 miliwn i'r prif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys £45 miliwn i sbarduno nifer o fentrau o fewn y gwasanaeth, wedi'u targedu at wella perfformiad yn 2015-16, ac £13.8 miliwn arall a ddyrannwyd i gynorthwyo GIG Cymru i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno nifer o driniaethau a gymeradwywyd eleni. Maent yn cynnwys sofosbuvir, a ddefnyddir i drin hepatitis C, a thriniaeth newydd ar gyfer syndrom wremig hemolytig annodweddiadol, a elwir hefyd yn aHUS. Mae'r dyraniadau hyn yn adeiladu ar yr hwb o £90 miliwn i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru a ddarparwyd yn ein cyllideb atodol gyntaf.

Turning to our capital budget, protecting capital investment as far as we can in the face of falling budgets has been a distinctive feature of the approach we have taken. Our capital budgets have suffered unprecedented and severe cuts as a direct result of the UK Government's austerity measures: 30 per cent in real terms since 2010. However, we have not allowed this to constrain our ambition. We know that investment in infrastructure is one of the most important factors in driving economic growth. Despite the reductions in our budget, we have taken an economic stimulus approach to infrastructure development, investing in our priorities and maximising the economic benefits. When I published the Wales infrastructure investment plan, I committed to increasing the resources available for investing in priority strategic infrastructure. We have achieved this with over £1.2 billion of additional Welsh Government capital funding allocated towards projects that deliver against Wales infrastructure investment plan priorities. Through our targeted approach, we have improved our transport networks and supported business and enterprise. We have increased both the quality and quantity of housing available, improved schools and colleges, and invested in our NHS to make sure that patients benefit from the latest technologies in modern facilities.

Over recent months, as part of my budget tour 2015, I have visited various schemes across Wales, including housing developments, flood defences and schools. I've seen at first hand where additional capital funding has made a real difference to the quality of people's lives. This has been achieved through better education and health facilities, improving transport links and protecting homes against flooding. What I have also seen is how this money has helped the construction industry to create jobs and support local businesses. Despite the £7 million cut to our capital budget this year, I am pleased to announce today an additional allocation of over £46 million in 2015-16 to provide an infrastructure boost in support of our investment priorities. These allocations include: £33 million to provide vital investment support to businesses across Wales, such as the Wales microbusiness loan fund, which seeks to improve accessibility of finance to microbusinesses across Wales, and the business growth SME business fund, which helps realise the potential of fast-growing medium-sized companies; a £2.7 million investment in education for an Airbus and aerospace training facility, which is part of a joint project between Coleg Cambria in north-east Wales and Swansea University's College of Engineering; £2.7 million for further developments to our transport infrastructure, with specific investment in the Llangefni link road, which forms part of the north Wales joint local transport plan, and Northern Gateway highway infrastructure, which is in line with the aims of the north Wales economic ambition board and will open up the Northern Gateway site to commercial development and act as a catalyst for future investment opportunities; £3 million as part of a wider package of investment to support Cardiff Airport route development; and £5 million to double our investment in our new innovative green growth fund, providing additional support to renewable energy, resource efficiency and energy efficiency sectors.

I droi at ein cyllideb gyfalaf, mae diogelu buddsoddiad cyfalaf cyn belled ag y gallwn yn wyneb cyllidebau llai wedi bod yn un o nodweddion amlwg ein dull gweithredu. Mae ein cyllidebau cyfalaf wedi dioddef toriadau digynsail a difrifol o ganlyniad uniongyrchol i fesurau cyni Llywodraeth y DU: 30 y cant mewn termau real ers 2010. Fodd bynnag, nid ydym wedi caniatáu i hyn gyfyngu ar ein huchelgais. Rydym yn gwybod mai buddsoddi mewn seilwaith yw un o'r ffactorau pwysicaf wrth sbarduno twf economaidd. Er gwaethaf y gostyngiadau yn ein cyllideb, rydym wedi ceisio datblygu seilwaith mewn modd sy'n ysgogi'r economi, gan fuddsoddi yn ein blaenoriaethau a chael cymaint â phosib o fuddion economaidd. Pan gyhoeddais i'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, gwnes ymrwymiad i gynyddu'r adnoddau sydd ar gael i'w buddsoddi mewn seilwaith strategol â blaenoriaeth. Rydym wedi cyflawni hyn drwy ddyrannu dros £1.2 biliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru tuag at brosiectau sy'n cyflawni blaenoriaethau'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Mae ein dull wedi'i dargedu wedi gwella ein rhwydweithiau trafnidiaeth ac wedi cefnogi busnes a menter. Rydym wedi cynyddu ansawdd a nifer y tai sydd ar gael, wedi gwella ysgolion a cholegau, ac wedi buddsoddi yn ein GIG i sicrhau bod cleifion yn elwa ar y technolegau diweddaraf mewn cyfleusterau modern.

Dros y misoedd diwethaf, yn rhan o fy nhaith gyllideb 2015, rwyf wedi ymweld â nifer o gynlluniau ledled Cymru, gan gynnwys datblygiadau tai, amddiffynfeydd rhag llifogydd ac ysgolion. Rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hun lle mae cyllid cyfalaf ychwanegol wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd pobl. Cyflawnwyd hyn drwy wella cyfleusterau addysg ac iechyd, gwella cysylltiadau trafnidiaeth a diogelu cartrefi rhag llifogydd. Rwyf hefyd wedi gweld sut mae'r arian hwn wedi helpu'r diwydiant adeiladu i greu swyddi a chefnogi busnesau lleol. Er gwaethaf y toriad o £7 miliwn i'n cyllideb gyfalaf eleni, rwy'n falch o gyhoeddi heddiw dyraniad ychwanegol o dros £46 miliwn yn 2015-16 i ddarparu hwb seilwaith i gefnogi ein blaenoriaethau buddsoddi. Mae'r dyraniadau hyn yn cynnwys: £33 miliwn i ddarparu cymorth buddsoddi hollbwysig i fusnesau ledled Cymru, fel cronfa benthyciadau i ficrofusnesau Cymru, sy'n ceisio gwella hygyrchedd cyllid i ficrofusnesau ledled Cymru, a'r gronfa twf busnesau bach a chanolig, sy'n helpu i wireddu potensial cwmnïau canolig eu maint sy'n tyfu'n gyflym; buddsoddiad o £2.7 miliwn mewn addysg ar gyfer cyfleuster Airbus a hyfforddi awyrfodol, sy'n rhan o brosiect ar y cyd rhwng Coleg Cambria yn y gogledd-ddwyrain a Choleg Peirianeg Prifysgol Abertawe; £2.7 miliwn i ddatblygiadau pellach i'n seilwaith trafnidiaeth, gan fuddsoddi'n benodol yn ffordd gyswllt Llangefni, sy'n rhan o gydgyllun trafnidiaeth leol y gogledd, a seilwaith priffyrdd Porth y Gogledd, sy'n cydfynd ag amcanion bwrdd uchelgais economaidd y gogledd ac a fydd yn agor safle Porth y Gogledd i ddatblygiadau masnachol ac yn gweithredu fel catalydd ar gyfer cyfleoedd buddsoddi yn y dyfodol; £3 miliwn yn rhan o becyn ehangach o fuddsoddi i gefnogi datblygu llwybrau Maes Awyr Caerdydd; a £5 miliwn i ddyblu ein buddsoddiad yn ein cronfa twf gwyrdd arloesol newydd, sy'n darparu cymorth ychwanegol i'r sectorau ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd adnoddau ac effeithlonrwydd ynni.

Despite the reductions we have seen to our budget, we are determined to use every tool at our disposal to maximise investment in our infrastructure, creating the conditions necessary to enable businesses to create jobs and boost sustainable economic growth, while delivering real and long-lasting change for people in Wales. The extra money I am announcing today shows how we are using every Welsh pound to deliver better public services and boost jobs and growth in Wales. This is a Government that is delivering for Wales in tough financial times.

Er gwaethaf y gostyngiadau yr ydym wedi'u gweld yn ein cyllideb, rydym yn benderfynol o ddefnyddio pob dull sydd ar gael inni i gynyddu buddsoddiad yn ein seilwaith, gan greu'r amodau sydd eu hangen i alluogi busnesau i greu swyddi a hybu twf economaidd cynaliadwy, gan ddarparu hefyd newid parhaus gwirioneddol i bobl yng Nghymru. Mae'r arian ychwanegol rwy'n ei gyhoeddi heddiw yn dangos sut yr ydym yn defnyddio pob punt sydd ar gael inni yng Nghymru i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus a rhoi hwb i swyddi a thwf yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth hon yn cyflawni dros Gymru mewn cyfnod ariannol anodd.

14:54

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Minister today for her statement and the update on the current in-year financial position? I think you mentioned an underspend of 0.1 per cent earlier. I think that's probably within tolerances for the purposes of this statement, Minister, but thank you for that detail. I also appreciate that the Welsh Government is waiting for the spending review in November. We share your concerns, Minister, at the economic mess that the last UK Labour Government left its successor Governments to deal with. I think the tone you struck today, Minister, was a little unfortunate. I think you do have to recognise that it can't all simply be blamed on the UK Government. Yes, there are cuts being made, but, unfortunately, those have been made historically necessary, and I know that, in your heart of hearts, you realise that.

Could I welcome the £58.8 million allocation to the health and social services MEG? As you know, the Welsh Conservatives have long called for extra resources for the national health service in Wales. This money has to be seen, of course, in the context of the £0.5 billion or so cuts that have been made to the NHS over the last five years, but, nonetheless, additional resource is welcome. Can you give us some more detail on what form this investment—the initiatives you referred to—will take? And how are you ensuring that there is an appropriate improvement in performance? We will be reminded of the confusion of previous additional allocations to local health boards over the last year or so and a stipulation for continuous improvement that occasionally you required the health boards to achieve, but which they weren't entirely clear on. So, some clarification there would be helpful.

I agree completely with you that infrastructure is an important factor in driving economic growth. The Welsh Government may well be dealing with in-year reductions, but I do think you have to recognise as well that there is a commitment from the UK Government to infrastructure investments, such as the electrification of the Great Western line and, indeed, support for electrification of the Valleys lines of the metro lines. Have you quantified the economic benefits of UK Government investment, and are you confident that Welsh Government capital investment will complement that investment?

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog heddiw am ei datganiad ac am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ariannol bresennol yn ystod y flwyddyn? Rwy'n meddwl eich bod wedi crybwyll tanwariant o 0.1 y cant yn gynharach. Rwy'n credu bod hynny'n fwy na thebyg o fewn goddefiannau at ddibenion y datganiad hwn, Weinidog, ond diolch am y manylyn hwnnw. Rwyf hefyd yn deall bod Llywodraeth Cymru'n aros am yr adolygiad o wariant ym mis Tachwedd. Rydym yn rhannu eich pryderon, Weinidog, am y llanast economaidd a adawodd Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU i'r Llywodraethau nesaf i ymdrin ag ef. Rwy'n meddwl eich bod wedi taro tôn braidd yn anffodus heddiw, Weinidog. Rwy'n meddwl bod yn rhaid ichi gydnabod nad yw hi mor syml â beio Llywodraeth y DU am bopeth. Oes, mae toriadau'n cael eu gwneud, ond, yn anffodus, maent wedi cael eu gwneud yn hanesyddol angenrheidiol, ac rwy'n gwybod, yn eich calon, eich bod yn sylweddoli hynny.

A gaf i groesawu'r dyraniad o £58.8 miliwn i'r MEG iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? Fel y gwyddoch, mae Ceidwadwyr Cymru wedi galw ers talwm am adnoddau ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Mae'n rhaid gweld yr arian hwn, wrth gwrs, yng nghydstun yr oddeutu £0.5 biliwn o doriadau sydd wedi cael eu gwneud i'r GIG dros y pum mlynedd diwethaf, ond, er hynny, mae croeso i adnoddau ychwanegol. A allwch chi roi rhywfaint rhagor o fanylion am ffurf y buddsoddiad hwn—y mentrau y cyfeiriasoch atynt? A sut yr ydych chi'n sicrhau gwelliant priodol o ran perfformiad? Cawn ein hatgoffa o'r dryswch ynghylch dyraniadau ychwanegol blaenorol i fyrddau iechyd lleol yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf ac amod ar gyfer gwelliant parhaus y gwnaethoch ofyn i'r byrddau iechyd ei gyflawni o bryd i'w gilydd, ond nad oeddent yn eu deall yn hollol glir. Felly, byddai rhywfaint o eglurhad yn ddefnyddiol.

Cytunaf yn llwyr â chi bod seilwaith yn ffactor pwysig wrth sbarduno twf economaidd. Efallai fod Llywodraeth Cymru'n ymdrin â gostyngiadau yn ystod y flwyddyn, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid ichi gydnabod hefyd bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn seilwaith, megis trydaneiddio rheilffordd y Great Western ac, yn wir, cefnogi trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn y rheilffyrdd metro. A ydych chi wedi meintoli buddion economaidd buddsoddiad Llywodraeth y DU, ac a ydych chi'n hyderus y bydd y buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn ategu'r buddsoddiad hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I'm always pleased to hear updates of your budget tour 2015. I remember raising my local community council tour with you at previous question sessions. I know you're doing this on a slightly larger scale, covering a slightly larger area, but it's good to see that that practice is being implemented. However, doing a budget tour is one thing; listening to the questions that are raised with you is quite another, and I'm sure that people attending those venues will have raised concerns with you about investment, for instance, in Cardiff Airport. We are where we are now with the purchase of the airport, but I see you've outlined a further block of money to go towards supporting the airport and developing route services. Over the last couple of years, people have been concerned—my constituents have been concerned—that this investment may not get the bang for the buck that you've said is so important in managing public finances. What evidence do you have that the £3 million that you've announced today for route development will significantly enhance the routes that are on offer?

Thank you for your statement today; we do agree that it is necessary for the Welsh taxpayers to get the best value for money. I'd be grateful for your answers to some of these questions.

14:58

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you very much, Nick Ramsay. I think we're getting a bit tired of your rather unconvincing comments about the management of our public finances considering it's the same Chancellor that's been responsible now for the management, or mismanagement in many respects. In responding to some of the points earlier on, when I had a question from Alun Davies from Blaenau Gwent, he pointed out the impact of the unnecessary cuts in-year in this financial year of £46 million and the impact that's going to have on vulnerable people, and we have yet to see the impact of the cuts, particularly, I would say, to working tax credits—the impacts they are going to have on working people, let alone on vulnerable people in our communities. And you will see the negative impact of that, I'm sure, in your own constituency. So, I'm disappointed on that front, but I welcome the fact that there is a tick in the box for the 0.1 per cent overall in terms of the management of our finances, which is what the people of Wales want you to scrutinise me on in terms of the last five years and the management in-year—that's the important point.

I'm glad that you welcome the infrastructure investment that we are announcing today, and I think it's very important that we recognise particularly the announcements that I've made in terms of north Wales and the fact that this is going to make a huge difference in terms of the Llangefni link road and the Northern Gateway highway infrastructure works as well. And, you know, in terms of your point on Cardiff Airport, which was extremely busy last weekend—and thank goodness it was there as a route into an all-important Rugby World Cup weekend—it is important that we recognise as a pro-business Government that we are now announcing financial transactions to support an airport route development package that I recall your leader calling for in times past.

Rwyf bob amser yn falch o glywed y newyddion diweddaraf am eich taith cyllideb 2015. Rwy'n cofio sôn wrthyfych am fy nhaith cynghorau cymuned lleol mewn sesiynau cwestiynau blaenorol. Rwy'n gwybod eich bod yn gwneud hyn ar raddfa ychydig yn fwy, gan gwmpasu ardal ychydig yn fwy, ond mae'n braf eich gweld yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mae gwneud taith cyllideb yn un peth; mae gwrando ar y cwestiynau a ofynnir ichi yn rhywbeth arall, ac rwy'n siŵr y bydd y bobl a fu'n bresennol yn y lleoliadau hynny wedi mynegi pryderon wrthyfych ynghylch buddsoddi, er enghraifft, ym Maes Awyr Caerdydd. Rydym yn gwybod ein sefyllfa nawr o ran prynu'r maes awyr, ond rwy'n gweld eich bod wedi amlinellu bloc arall o arian i fynd tuag at gefnogi'r maes awyr a datblygu gwasanaethau llwybrau. Dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, mae pobl wedi bod yn bryderus—mae fy etholwyr wedi bod yn bryderus—na fydd y buddsoddiad hwn yn cael y gwerth am arian yr ydych wedi dweud sydd mor bwysig wrth reoli cyllid cyhoeddus. Pa dystiolaeth sydd gennych y bydd y £3 miliwn yr ydych wedi'i gyhoeddi heddiw ar gyfer datblygu llwybrau yn creu gwelliant sylweddol i'r llwybrau sydd ar gynnig?

Diolch am eich datganiad heddiw; rydym yn cytuno bod angen i drethdalwyr Cymru gael y gwerth gorau am arian. Byddwn yn ddiolchgar am eich atebion i rai o'r cwestiynau hyn.

Diolch yn fawr, Nick Ramsay. Rwy'n credu ein bod wedi blino braidd ar eich sylwadau eithaf anargyhoeddiadol ynglŷn â rheoli ein cyllid cyhoeddus o ystyried mai'r un Canghellor sydd wedi bod yn gyfrifol yn awr am ei reoli, neu ei gamreoli mewn sawl ffordd. Wrth ymateb i rai o'r pwyntiau yn gynharach, pan gefais gwestiwn gan Alun Davies o Flaenau Gwent, nododd ef effaith y toriadau diangen yn ystod y flwyddyn ariannol hon o £46 miliwn, a'r effaith a gaiff hynny ar bobl agored i niwed, ac rydym yn dal i aros i weld effaith y toriadau, yn enwedig, byddwn yn dweud, i gredyd treth gwaith—yr effeithiau a gânt ar bobl sy'n gweithio, heb sôn am bobl agored i niwed yn ein cymunedau. A byddwch yn gweld effaith negyddol hynny, rwy'n siŵr, yn eich etholaeth eich hun. Felly, rwy'n siomedig yn hynny o beth, ond rwy'n croesawu'r ffaith bod tic yn y blwch ar gyfer y 0.1 y cant yn gyffredinol o ran rheoli ein cyllid, sef yr hyn y mae pobl Cymru am ichi graffu arnaf ynglŷn ag ef o ran y pum mlynedd diwethaf a rheoli yn ystod y flwyddyn—dyna'r pwynt pwysig.

Rwy'n falch eich bod yn croesawu'r buddsoddiad seilwaith yr ydym yn ei gyhoeddi heddiw, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cydnabod yn arbennig y cyhoeddiadau yr wyf wedi'u gwneud ynglŷn â'r gogledd a'r ffaith bod hyn yn mynd i wneud gwahaniaeth enfawr o ran ffordd gyswllt Llangefni a gwaith seilwaith priffyrdd Porth y Gogledd hefyd. Ac, wyddoch chi, o ran eich pwynt am Faes Awyr Caerdydd, a oedd yn hynod o brysur y penwythnos diwethaf—a diolch byth ei fod yno fel llwybr i benwythnos hollbwysig yng Nghwpan Rygbi'r Byd—mae'n bwysig ein bod yn cydnabod fel Llywodraeth sydd o blaid busnes ein bod yn awr yn cyhoeddi trafodion ariannol i gefnogi pecyn datblygu llwybrau awyr yr wyf yn cofio eich arweinydd yn galw amdano yn y gorffennol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think it is important that we look at performance in terms of the NHS—the £45 million will sustain and improve performance in the Welsh NHS over the coming months and into the new year. We have seen many significant improvements over the past year and we're investing in plans to ensure that we can move forward. The fact is that Welsh hospitals are now providing some of the best care in the UK, and that's featured today, with Morrision Hospital in Swansea one of the best centres for burns and plastic surgery, as well as the University Hospital of Wales being rated one of the best three in the UK for patient outcomes following cardiac surgery. So, there are important developments and news as far as that's concerned.

So, I welcome your response, and I think you have to recognise how fortunate you are to have a Welsh Government that is delivering despite the cuts that are coming our way—unnecessary, too deep, and too fast. Of course, it is then about us being able to respond, not just to the most vulnerable, and to improve our public services, but also to support business.

15:01

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the Minister's statement. Can I congratulate the Minister on the way that the Welsh Government have managed the Welsh budget despite the unprecedented and severe cuts being brought in by the Tories at Westminster? When the choice is austerity or growth, the Tories naturally choose austerity, and the people of Wales are suffering because of it.

I'm very pleased to hear the Minister talk about the importance of housing, and how quality housing can reduce health problems. Far too many people are living in very poor housing conditions, and we need to have greater expenditure on housing, which is not happening because of those Tory cuts.

On school improvements, again, I'm very pleased with the twenty-first century schools programme, and Burlais Primary School in my constituency, which opened in September, has been a tremendous benefit to the people and the pupils, who moved from a school that was in a state, where only so many could actually go up to the top floor at any one time, to a new, purpose-built building. What I'd like to ask the Minister is: we've seen Swansea University starting work now, and almost completing work on its new engineering faculty, and you've announced today that Swansea University is working with Airbus and others to produce work and benefits to the air industry; has the building of the new university campus been of benefit to that occurring, and is that a sign of joined-up Government—when something happens on one side in terms of the university sector, and then all of a sudden it produces a benefit to the economy?

Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn edrych ar berfformiad o ran y GIG—bydd y £45 miliwn yn cynnal ac yn gwella perfformiad yn y GIG yng Nghymru dros y misoedd nesaf ac i mewn i'r flwyddyn newydd. Rydym wedi gweld llawer o welliannau sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf ac rydym yn buddsoddi mewn cynlluniau i sicrhau y gallwn symud ymlaen. Y ffaith yw bod ysbytai Cymru bellach yn darparu gofal sydd gyda'r gorau yn y DU, ac mae hynny i'w weld heddiw; mae Ysbyty Treforys yn Abertawe yn un o'r canolfannau gorau ar gyfer llosgiadau a llawfeddygaeth blastig, ac mae Ysbyty Athrofaol Cymru wedi cael un o'r tri sgôr gorau yn y DU o ran canlyniadau i gleifion ar ôl llawdriniaeth ar y galon. Felly, mae yna ddatblygiadau a newyddion pwysig yn hynny o beth.

Felly, rwy'n croesawu eich ymateb, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid ichi gydnabod pa mor ffodus yr ydych i gael Llywodraeth Cymru sy'n cyflawni er gwaethaf y toriadau sy'n dod inni—yn ddiangen, yn rhy ddwfn, ac yn rhy gyflym. Wrth gwrs, yna mae angen inni allu ymateb, nid dim ond i'r bobl fwyaf agored i niwed, a gwella ein gwasanaethau cyhoeddus, ond cefnogi busnes hefyd.

Rwy'n croesawu datganiad y Gweinidog. A gaf i longyfarch y Gweinidog am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli cyllideb Cymru er gwaethaf y toriadau digynsail a difrifol sy'n cael eu cyflwyno gan y Torïaid yn San Steffan? Pan fo dewis rhwng cyni a thwŷ, mae'r Torïaid yn naturiol yn dewis cyni, ac mae pobl Cymru'n dioddef oherwydd hynny.

Rwy'n falch iawn o glywed y Gweinidog yn sôn am bwysigrwydd tai, a sut y gall tai o ansawdd da leihau problemau iechyd. Mae llawer gormod o bobl yn byw mewn amodau tai gwael iawn, ac mae angen inni rario mwy ar dai, rhywbeth nad yw'n digwydd oherwydd y toriadau Torïaidd hynny.

O ran gwella ysgolion, unwaith eto, rwy'n falch iawn â'r rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, ac mae Ysgol Gynradd Burlais yn fy etholaeth i, a agorwyd ym mis Medi, wedi bod o fudd aruthrol i'r bobl a'r disgyblion, a symudodd o ysgol a oedd mewn cyflwr gwael, lle mai dim ond hyn a hyn o bobl a allai fynd i fyny i'r llawr uchaf ar unrhyw un adeg, i adeilad newydd, pwrpasol. Dyma'r cwestiwn yr hoffwn ei ofyn i'r Gweinidog: rydym wedi gweld Prifysgol Abertawe'n dechrau gwaith nawr, a bron yn cwblhau gwaith, ar eu cyfadrannau beirianeg newydd, ac rydych wedi cyhoeddi heddiw bod Prifysgol Abertawe'n gweithio gydag Airbus ac eraill i gynhyrchu gwaith a manteision i'r diwydiant awyry; a yw adeiladu campws newydd y brifysgol wedi bod o fudd er mwyn i hynny ddigwydd, ac a yw hynny'n arwydd o Lywodraeth gydgyssylltiedig—pan fo rhywbeth yn digwydd ar un ochr o ran y sector prifysgolion, ac yna'n sydyn mae'n creu budd i'r economi?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mike Hedges, the Member for Swansea East, for his questions and for his comments. I absolutely agree with you. This is the management of a hard-pressed budget that, as I said in my statement, is about an economic stimulus. I mean, the OECD has made it quite clear that if we want to grow and recover, we have to focus on and invest in both infrastructure and skills. That is the focus of this Welsh Government and that is reflected in the announcement that I made today. And of course, that is about taking a proactive approach to a fiscal stimulus, not to further needless austerity.

I also welcome your comments on the investments that we've made, and are continuing to make, in terms of housing and education, and I would comment on the way in which we're using innovative finance routes to achieve that. As far as Swansea University is concerned, yes, this is a collaborative training scheme; this is a collaboration with Welsh Government across the sector, a collaborative scheme run jointly by Coleg Cambria in north-east Wales and Swansea University's college of engineering, and it's vital that that enables the ongoing support of aerospace manufacturing in north-east Wales. This is bringing Wales together. This is an all-Wales, pan-Wales approach. It's important to say that over 6,000 people are employed in Airbus directly in north-east Wales, with around 3,000 further jobs in the supply chain, and each year 15-plus apprentices will enter permanent positions in high-value engineering with Airbus and partner companies, and once this scheme is fully embedded, up to 75 Airbus apprentices and aerospace employees per year will be trained through the Swansea University and Coleg Cambria partnership.

Diolch i Mike Hedges, Aelod Dwyrain Abertawe, am ei gwestiynau ac am ei sylwadau. Rwy'n cytuno'n llwyr â chi. Mae hyn yn ddull o reoli cyllideb sydd dan bwysau sydd, fel y dywedais yn fy natganiad, yn ymwneud ag ysgogi'r economi. Hynny yw, mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi ei gwneud yn gwbl glir bod yn rhaid inni ganolbwyntio ar seilwaith a sgiliau, a buddsoddi ynddynt, os ydym am dyfu a gwella. Dyna bwyslais y Llywodraeth hon yng Nghymru ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn y cyhoeddiad a wneuthum heddiw. Ac wrth gwrs, mae hynny'n golygu defnyddio dulliau rhagweithiol i greu ysgogiad ariannol, nid hybu cyni diangen pellach.

Rwyf hefyd yn croesawu eich sylwadau am y buddsoddiadau yr ydym wedi'u gwneud, ac yn parhau i'w gwneud, o ran tai ac addysg, a hoffwn wneud sylwadau am y ffordd yr ydym yn defnyddio llwybrau cyllid arloesol i gyflawni hynny. Cyn belled ag y mae Prifysgol Abertawe dan sylw, ie, cynllun hyfforddi ar y cyd yw hwn; mae'n gydweithrediad gyda Llywodraeth Cymru ar draws y sector, cynllun cydweithredol a gynhelir ar y cyd gan Goleg Cambria yn y gogledd-ddwyrain a choleg peirianeg Prifysgol Abertawe, ac mae'n hanfodol ei fod yn galluogi cefnogaeth barhaus i weithgynhyrchu awyrfod yn y gogledd-ddwyrain. Mae hyn yn dod â Chymru ynghyd. Mae hwn yn ddull Cymru gyfan. Mae'n bwysig dweud bod dros 6,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn Airbus yn uniongyrchol yn y gogledd-ddwyrain—mae tua 3,000 o swyddi pellach yn y gadwyn gyflenwi—a bob blwyddyn bydd 15 neu fwy o brentisiaid yn mynd i swyddi parhaol mewn peirianeg gwerth uchel gyda Airbus a chwmnïau partner, a chyn gynted ag y bydd y cynllun hwn wedi'i sefydlu'n llawn, bydd hyd at 75 o brentisiaid Airbus a gweithwyr awyrfod y flwyddyn yn cael eu hyfforddi drwy gyfrwng partneriaeth Prifysgol Abertawe a Choleg Cambria.

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y datganiad. A gaf i longyfarch y Llywodraeth ar wario ei harian i gyd, ond am beidio â gorwario? A gaf i ymuno efo'i sylwadau ynglŷn â'r Canghellor a'i doriadau o fewn y flwyddyn ariannol, heblaw am ei doriadau eraill? Fel arall, rwy'n credu y byddai'n beth iawn i'r Gweinidog gyfaddef bod ymgeiswyr am arweinyddiaeth y Blaid Lafur yn ystod yr ymgyrch ddiweddar yn cyfaddef na ddylai'r Llywodraeth Lafur fod wedi bod mewn diffyg yn ei chyllideb ar ddiwedd ei chyfnod mewn Llywodraeth, ac y byddai hynny'n golygu toriadau, wrth gwrs, i gyllideb Cymru.

Ta waeth, gan edrych ar y datganiad heddiw, rydych yn cyfeirio at bron i £59 miliwn yn cael ei roi i'r gwasanaeth iechyd ac i wasanaethau cymdeithasol. Mae hwn yn batrwm blynyddol, wrth gwrs, o weld arian ychwanegol yn cael ei roi i'r gwasanaethau hyn. Rwy'n siŵr ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i groesawu. Rydych yn cyfeirio at,

'a number of initiatives within the service'.

Thank you for the statement. May I congratulate the Government on spending all their money, but for not overspending? May I endorse her comments about the Chancellor and his in-year cuts, apart from his other cuts? But, on the other hand, I believe that it would be right for the Minister to admit that the candidates for the Labour Party leadership, over this recent campaign, confessed that the Labour Government shouldn't have been in deficit at the end of their time in Government, and that would entail cutbacks, of course, to Wales's budget.

However, in today's statement, you refer to almost £59 million being given to the health service and to social services. This is an annual pattern, of course, of seeing additional funding being given to these services, and I'm sure that it will be appreciated and welcomed. But you referred to

'nifer o fentrau o fewn y gwasanaeth'.

A fydddech yn gallu rhoi manylion inni heddiw neu ar bapur yn ddiweddarach am beth yw'r 'initiatives' yma a sut yn union y bydd hyn yn arwain at wella perfformiad, sef yr hyn sydd ar ddiwedd y frawddeg honno? Rwy'n credu bod llawer iawn ohonom erbyn hyn yn ddrwgdybus mai llenwi tyllau yn y gyllideb ydy'r math yma o symudiad gan y Llywodraeth. Yr hyn r?m ni eisiau ei weld ydy sut yn union mae hwn yn mynd i arwain at wella perfformiad.

I symud ymlaen at yr arian cyfalaf, rwy'n credu'n fawr fod y buddsoddiad ychwanegol y mae'r Llywodraeth wedi gwneud yn cydnabod pwysigrwydd gwariant cyfalaf—yr hyn ddaru ni ei ddweud ar ddechrau tymor y Llywodraeth. Erbyn hyn, rydych wedi mabwysiadu cynllun Adeiladu dros Gymru Plaid Cymru yn ei grynswth, heblaw'r enw, wrth gwrs.

Rwyf eisiau gofyn cwestiwn yngl?n â'r arian ychwanegol rydych wedi'i gael ar gyfer y gyllideb gyfalaf. Roedd hi'n ddiddorol iawn clywed y Prif Weinidog yn cyfaddef, wrth sôn am yr £1 biliwn ychwanegol sy'n mynd i gael ei wario ar yr M4, nad oedd gan Lywodraeth Cymru ddim rheolaeth o gwbl ar hyn, ac mewn gwirionedd blaenoriaeth y Llywodraeth yn Llundain sydd wedi arwain at y penderfyniad yma. Byddwn yn hoffi eich sylwadau ar hynny gan ei fod yn allweddol bwysig. Mae'r arian anferth yma ar gael, neu fe ddylai fod ar gael, inni wario yn ôl ein blaenoriaethau ni yma yng Nghymru.

Rydych yn cyfeirio yn eich datganiad at doriad o £7 miliwn yn y gyllideb gyfalaf eleni, ond yna'n dweud eich bod yn mynd i ddynodi £46 miliwn yn ychwanegol. A allwch chi esbonio o ble mae'r £46 miliwn yna'n dod? Ai o ariannu arloesol—yr 'innovative financing' yma—neu a yw'n dod o ryw ran arall o'r gyllideb?

Mae'r cynlluniau rydych yn cyfeirio atynt yn rhai i'w croesawu'n fawr iawn. Rwy'n falch o weld y bydd y ffordd yn Llangefni a hefyd y ganolfan hyfforddi sy'n gysylltiedig ag Airbus—mae hynny i'w groesawu'n fawr iawn. Mae gennyf un cwestiwn bach yngl?n â'r arian sydd yn cael ei glustnodi ar gyfer Maes Awyr Caerdydd: ai cymhorthdal fydd hwn i ddenu cwmnïau awyrennau i Gaerdydd, ynteu rhyw fath o ddefnydd arall fydd yn cael ei wneud o'r benthyciad yma?

Could you give us the details, either today or in writing later, about what these initiatives are and how exactly this will lead to an improvement in performance—namely, the point you make at the end of that sentence? I believe many of us by now are rather sceptical or suspect that this is just an exercise in filling the gaps in the budget on behalf of the Government. But what we want to see is exactly how this will lead to an improvement in performance.

To move on to the capital funding, I very much believe that the additional investment that the Government has made acknowledges the importance of capital expenditure, and that's something that we said at the beginning of the Government's term. By now, of course, you have adopted the Build4Wales Plaid Cymru scheme in its entirety, apart from its name, of course.

I would like to ask a question about the additional funding that you've secured for the capital budget. It was very interesting to hear the First Minister admit, in talking about the additional £1 billion that will be spent on the M4, that Welsh Government didn't have any control whatsoever over that and, in fact, that it was the London Government's priority that has led to this decision. I would like to hear your comments on that, as it is crucially important, as that huge amount of money should be available for us to spend according to our priorities here in Wales.

You make reference in your statement that there has been a cut of £7 million in this year's capital budget, and then you state that you are going to allocate an additional £46 million. Could you explain from where this £46 million comes? Is it from the innovative financing, or does it come from another part of the budget?

The plans you allude to are very much to be welcomed. I'm very pleased to see the road in Llangefni and also the training centre associated with Airbus—they are to be welcomed very much. But I have one minor question about the money allocated for Cardiff Airport: will that be a grant to attract airline companies to Cardiff, or will some alternative use be made of that loan?

15:09

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch yn fawr am eich cwestiynau.

I shall use that comment again: 'spending all the money and not overspending'. That's how I want to be as finance Minister. I want to make sure that we spend every Welsh pound that we have to good effect, but coming in, as Nick Ramsay said, absolutely on line—0.1 per cent, not bad at all.

Thank you very much for your questions.

Rwy'n mynd i ddefnyddio'r sylw hwnnw eto: 'gwario'r holl arian a pheidio â gorwario'. Dyna sut Weinidog cyllid yr hoffwn fod. Hoffwn wneud yn siŵr ein bod yn gwario pob punt Gymreig sydd gennym yn effeithiol, ond dydy dod i mewn, fel y dywedodd Nick Ramsay, yn hollol ar y llinell—0.1 y cant, ddim yn ddrwg o gwbl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think it is very important that £59 million is being allocated to health and social services. We recognise the importance of the way in which that's going to be spent to improve health funding. Part of that, as you know, the £13.8 million, is for new medicines and treatments, and I know that everyone will welcome that we are delivering on those important new medicines and treatments—four new hepatitis C medicines appraised by the National Institute of Health and Care Excellence, or even our own appraisal body, the All Wales Medicines Strategy Group. Of course, that is using an accredited, rigorous process that assesses clinical benefits against cost. And that is in-year; this is an in-year statement about how we are managing this year. Of course, when those approvals come through, we may have to make difficult decisions in terms of finding the finance to meet those important opportunities and, I think, responsibilities that we have. Of course, the Minister will be explaining more about how those treatments will be made available and, indeed, the importance of those in terms of the impact.

I think, in terms of the new funding targeted at improving performance, of course we recognise that performance isn't where we would like it to be, but the majority of patients are seen within target times. Whether that's in an accident and emergency department, for cancer diagnosis and treatment, or for normal surgery, such as hip surgery, we expect all patients to be seen in order of clinical priority and all health boards to have plans in place to improve performance, and there are signs, of course, that they are delivering improvement. So, this additional funding will help maintain and secure continuous improvement—all important in terms of enabling and supporting the health service to make those changes and deliver on those expectations. I think it is important to recognise that this is going to make a difference in terms of delivering.

I think it's very important as well that we recognise that the allocations that I am making are from our reserves, and that's what reserves are there for, in terms of in-year management, so that we can meet the expectations and needs that emerge, and also our priorities. The majority of our reserves are for financial transactions, which is more restrictive, as you are aware, in use than traditional capital grants. It does mean that we can get a maximum benefit from our resources by making these announcements today. I'm going to continue to monitor our capital position very closely during the financial years.

We're looking to maximise all available funding in support of our priorities. We've taken steps to allocate all of the limited capital that we've got available to us to maximise our investment opportunities, and I know you recognise that our innovative financing routes have enabled us to move forward, particularly in relation to those areas of education and housing, as well as transport, of course, in terms of the local government borrowing initiative. It is important that we make sure that the allocation of this funding now is transparent and that we can now assure the services that are going to benefit, and indeed the businesses and the transport infrastructure, which will, of course, make a huge impact.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn bod £59 miliwn yn cael ei ddyrannu i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y ffordd y caiff yr arian hwnnw ei wario i wella cyllid iechyd. Mae rhan o hynny, fel y gwyddoch, yr £13.8 miliwn, ar gyfer meddyginiaethau a thriniaethau newydd, ac rwy'n gwybod y bydd pawb yn croesawu'r ffaith ein bod yn cyflenwi'r meddyginiaethau a'r triniaethau newydd pwysig hynny—pedair meddyginiaeth hepatitis C newydd wedi'u harfarnu gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, neu hyd yn oed ein corff arfarnu eu hunain, y Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan. Wrth gwrs, mae hwnnw'n defnyddio proses achrededig, drylwyr sy'n asesu buddion clinigol yn erbyn cost. Ac yn ystod y flwyddyn yw hynny; datganiad yn ystod y flwyddyn yw hwn ynghylch sut yr ydym yn rheoli eleni. Wrth gwrs, pan ddaw'r cymeradwyaethau hynny, efallai y bydd yn rhaid inni wneud penderfyniadau anodd o ran dod o hyd i'r cyllid i gymryd mantais ar y cyfleoedd pwysig hynny ac, rwy'n meddwl, y cyfrifoldebau sydd gennym. Wrth gwrs, bydd y Gweinidog yn esbonio mwy am sut y bydd y triniaethau hynny ar gael ac, yn wir, pa mor bwysig ydynt o ran eu heffaith.

Rwy'n meddwl, o ran y cyllid newydd sydd wedi'i dargedu at wella perfformiad, wrth gwrs, rydym yn cydnabod nad yw'r perfformiad cystal ag yr hoffem iddo fod, ond mae'r rhan fwyaf o gleifion yn cael eu gweld o fewn amseroedd targed. Boed hynny mewn adran damweiniau ac achosion brys, ar gyfer diagnosis a thriniaeth canser, neu ar gyfer llawdriniaeth arferol, fel llawdriniaeth clun, rydym yn disgwyl i bob claf gael ei weld yn nhrefn blaenoriaeth glinigol ac i bob bwrdd iechyd fod wedi sefydlu cynlluniau i wella perfformiad, ac rydym yn gweld arwyddion, wrth gwrs, eu bod yn cyflawni gwelliant. Felly, bydd y cyllid ychwanegol hwn yn helpu i gynnal a sicrhau gwelliant parhaus—sy'n hollbwysig o ran galluogi a chefnogi'r gwasanaeth iechyd i wneud y newidiadau hynny a bodloni'r disgwyliadau hynny. Credaf ei bod yn bwysig cydnabod bod hyn yn mynd i wneud gwahaniaeth o ran cyflawni.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn hefyd ein bod yn cydnabod bod y dyraniadau yr wyf yn eu gwneud yn dod o'n cronfeydd wrth gefn, a dyna yw diben y cronfeydd wrth gefn, o ran rheoli yn ystod y flwyddyn, fel y gallwn fodloni'r disgwyliadau a'r anghenion sy'n dod i'r amlwg, a hefyd ein blaenoriaethau. Mae'r rhan fwyaf o'n cronfeydd wrth gefn ar gyfer trafodion ariannol, sy'n fwy cyfyngol, fel y gwyddoch, o ran eu defnydd na grantiau cyfalaf traddodiadol. Mae yn golygu y gallwn gael y budd mwyaf o'n hadnoddau drwy wneud y cyhoeddiadau hyn heddiw. Rwy'n mynd i barhau i fonitro ein sefyllfa gyfalaf yn agos iawn yn ystod y blynyddoedd ariannol.

Rydym yn bwriadu gwneud y mwyaf o'r holl gyllid sydd ar gael i gefnogi ein blaenoriaethau. Rydym wedi cymryd camau i ddyrannu'r holl gyfalaf cyfyngedig sydd ar gael inni i wneud y gorau o'n cyfleoedd buddsoddi, ac rwy'n gwybod eich bod yn cydnabod bod ein llwybrau ariannu arloesol wedi ein galluogi i symud ymlaen, yn enwedig ym meysydd addysg a thai, yn ogystal â thrafnidiaeth, wrth gwrs, o ran y fenter benthycu llywodraeth leol. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud yn siŵr bod dyraniad y cyllid hwn nawr yn dryloyw ac y gallwn nawr sicrhau'r gwasanaethau a fydd yn elwa, ac yn wir y busnesau a'r seilwaith trafnidiaeth, a fydd, wrth gwrs, yn cael effaith enfawr.

As far as Cardiff Airport is concerned, it is about the route development, as I've already said, and of course, as far as the allocation and the statement today, it's about the in-year allocation this year, and that's what I'm focusing on.

Cyn belled ag y mae Maes Awyr Caerdydd dan sylw, mae'n fater o ddatblygu'r llwybrau, fel yr wyf wedi'i ddweud yn barod, ac wrth gwrs, o ran y dyraniad a'r datganiad heddiw, mae'n ymwneud â dyraniad yn ystod y flwyddyn eleni, a dyna beth yr wyf yn canolbwyntio arno.

15:14

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I start by agreeing with both Mike Hedges and you about the importance of quality housing, particularly in the social sector, and also that we have a sufficient quantity of that available? You'll know, of course, that the Holmans report, which the Welsh Government published in 2010, suggested that, if we are to meet the demand for affordable homes, then in this Assembly term you should be building 25,500 of them, and yet your target is only 10,000. Can I ask, therefore, given your commitment to this particular agenda, why none of this capital was allocated to providing additional affordable housing to try to make up the deficit in terms of what you're delivering and what that report actually demanded of you and of the Welsh Government?

Minister, in terms of the issues on the health and social services main expenditure group, a number of the questions I wanted to ask have already been asked, but I am concerned, of course, and you will know this, that a large number of the health boards around Wales are in deficit situations and are struggling to come in on budget, even with the three-year funding regime, in the current year. What assurances can you give me that the extra money you're allocating to health boards now in this particular statement will not be used to plug that gap, but will instead be used for the purposes that you are seeking it to be spent on? How are you monitoring that and how are you ensuring that outcomes are going to be delivered in regards to your expectations from that particular additional expenditure?

And, finally, Minister, I think we've all talked over the last few years or so about the importance of the preventative agenda in terms of health, and in particular making sure we get a joined-up approach in terms of health and social services to keep people out of hospital, and to ensure that they're able to access services within the community and, if necessary, to be treated in their own home. Why, therefore, have you not put additional money into social services to complement this extra money in health in advance of that particular agenda?

A gaf i ddechrau drwy gytuno â Mike Hedges a chithau am bwysigrwydd tai o ansawdd da, yn enwedig yn y sector cymdeithasol, a hefyd bod gennym gyflenwad digonol ohonynt ar gael? Byddwch yn gwybod, wrth gwrs, bod adroddiad Holmans, a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn 2010, yn awgrymu, os ydym am ateb y galw am dai fforddiadwy, y dylech yn y tymor Cynulliad hwn fod yn adeiladu 25,500 ohonynt, ac eto dim ond 10,000 yw eich targed. A gaf i ofyn, felly, ac ystyried eich ymrwymiad i'r agenda benodol hon, pam na chafodd dim o'r cyfalaf hwn ei ddyrannu i ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol i geisio gwneud iawn am y diffyg o ran yr hyn yr ydych yn ei ddarparu a'r hyn yr oedd yr adroddiad hwnnw mewn gwirionedd yn ei fynnu gennych chi a Llywodraeth Cymru?

Weinidog, o ran y materion yn ymwneud â'r prif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, mae nifer o'r cwestiynau yr oeddwn am eu gofyn eisoes wedi cael eu gofyn, ond rwyf yn bryderus, wrth gwrs, a byddwch yn gwybod hyn, bod nifer mawr o'r byrddau iechyd ledled Cymru mewn diffyg ariannol ac yn cael trafferth i aros o fewn y gyllideb, hyd yn oed gyda'r drefn ariannu tair blynedd, yn y flwyddyn bresennol. Pa sicrwydd y gallwch ei roi imi na fydd yr arian ychwanegol yr ydych yn ei ddyrannu i fyrdau iechyd nawr yn y datganiad penodol hwn yn cael ei ddefnyddio i gau'r bwloch hwnnw, ond yn lle hynny y caiff ei ddefnyddio at y dibenion yr ydych yn bwriadu iddo gael ei wario? Sut yr ydych yn monitro hynny a sut yr ydych yn sicrhau bod y canlyniadau'n mynd i gael eu cyflawni o ran eich disgwyliadau o'r gwariant ychwanegol penodol hwnnw?

Ac, yn olaf, Weinidog, rwy'n meddwl ein bod i gyd wedi siarad dros y blynyddoedd diwethaf am bwysigrwydd yr agenda ataliol o ran iechyd, ac yn enwedig am wneud yn siŵr bod gennym ddull cydgysylltiedig o ran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i gadw pobl allan o'r ysbyty, ac i sicrhau bod gwasanaethau ar gael iddynt o fewn y gymuned ac, os oes angen, i gael eu trin yn eu cartrefi eu hunain. Pam, felly, nad ydych wedi rhoi arian ychwanegol i wasanaethau cymdeithasol i ategu'r arian ychwanegol hwn i iechyd cyn yr agenda benodol honno?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I thank Peter Black for his questions, and also acknowledge his strong support for moving forward in terms of our ambitions—shared ambitions, I believe—for affordable housing in Wales. Of course, this is an in-year statement at this time of the year, when I'm able to take stock and make announcements in terms of those proposals that have come before me that can help meet our priorities and needs and pressures, and, of course, housing forms part of a very clear strategic ambition of this Government. Yesterday, we received the statement from the housing Minister in terms of the commitments made by the private house builders sector, but, of course, in terms of our work to double the housing finance grant, which, of course, is delivering 1,000 affordable homes, I went to the European Investment Bank to say we would like to use housing finance grant as part of the European fund for strategic investment, and I think we may progress on that. So, I'm sure there is more to come back on to you, and I certainly would want to, in terms of developments in housing.

On your points about the extra funding for the health service, for the health and social services MEG, I know you would welcome—and, of course, the additional funding is targeted at the NHS organisations so that they can go beyond the service levels they assumed in their 2015-16 plans. The NHS organisations are expected to deliver to the plans that the Minister for Health and Social Services has approved for 2015-16, but recognising that we have as a Welsh Government invested over £1 billion in the NHS over the last two years, and we are delivering the funding the independent Nuffield Trust said was required. But I think it is important that we recognise that this is not just about the NHS—it is about how we focus on health and social services in the round—and we have said continuously that we cannot focus just on health in isolation, not just in terms of links to social services, but links to housing. And recognising that, in fact, the intermediate care grant—and we commented on this last week in debate—has made an impact, and, of course, that our spend on health and social care is higher per head than spend on health and social care in England. But, of course, this announcement is about how we are seeking to address performance in the NHS specifically, which will also have a bearing on social services, but also on the importance of these new drugs. So, it is a joined-up approach, and I do believe that answers your point about the preventative approach of our budget and our budget setting—made much more difficult, I would have to say, by the unprecedented lateness of the spending review, which makes it extremely difficult in budget setting. But, on that preventative fund, I know you would join with me, as opposition spokesman for the Welsh Liberal Democrats, in decrying the fact that £200 million was cut to the public health grant paid to local authorities in England, and that, of course, has an adverse impact on preventative services.

Diolch i Peter Black am ei gwestiynau; rwyf hefyd yn cydnabod ei gefnogaeth gref i symud ymlaen o ran ein huchelgeisiau—uchelgeisiau a rennir, mi gredaf—ar gyfer tai fforddiadwy yng Nghymru. Wrth gwrs, datganiad yn ystod y flwyddyn yw hwn ar yr adeg hon o'r flwyddyn, pryd yr wyf yn gallu ystyried pethau a gwneud cyhoeddiadau o ran y cynigion hynny sydd wedi dod ger fy mron a all helpu i fodloni ein blaenoriaethau a'n hanghenion a'n pwysau, ac, wrth gwrs, mae tai yn rhan o uchelgais strategol dir iawn gan y Llywodraeth hon. Ddoe, cawsom y datganiad gan y Gweinidog tai ynglŷn â'r ymrwymadau a wnaethpwyd gan y sector adeiladwyr tai preifat, ond, wrth gwrs, o ran ein gwaith i ddyblu'r grant cyllid tai, sydd, wrth gwrs, yn darparu 1,000 o gartrefi fforddiadwy, es i i Fanc Buddsoddi Ewrop i ddweud y byddem yn hoffi defnyddio grant cyllid tai yn rhan o'r gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddi strategol, ac rwy'n meddwl efallai y byddwn yn symud ymlaen ar hynny. Felly, rwy'n siŵr bod mwy i ddod yn ôl atoch chi amdano, ac yn sicr hoffwn i wneud hynny, o ran datblygiadau ym maes tai.

O ran eich pwyntiau am y cyllid ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd, i'r prif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, rwy'n gwybod y byddech yn croesawu—ac, wrth gwrs, mae'r arian ychwanegol yn cael ei dargedu at y sefydliadau GIG fel y gallant fynd y tu hwnt i'r lefelau gwasanaeth a dybiwyd ganddynt yn eu cynlluniau 2015-16. Disgwylir i'r sefydliadau GIG gyflawni'r cynlluniau a gymeradwywyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2015-16, ond gan gydnabod ein bod ni fel Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £1 biliwn yn y GIG dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a'n bod yn darparu'r cyllid y dywedodd yr Ymddiriedolaeth Nuffield annibynnol ei fod yn ofynnol. Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod bod hyn yn ymwneud â mwy na'r GIG—mae'n ymwneud â sut yr ydym yn canolbwyntio ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn ei gyfarwydd—ac rydym wedi dweud yn barhaus na allwn ganolbwyntio ar iechyd ar wahân yn unig, nid yn unig o ran cysylltiadau a gwasanaethau cymdeithasol, ond o ran cysylltiadau â thai. A chydabod bod y grant gofal canolraddol, mewn gwirionedd—a gwnaethom sylwadau am hyn yr wythnos diwethaf yn y ddadl—wedi cael effaith, ac, wrth gwrs, bod ein gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol yn uwch fesul pen na gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Ond, wrth gwrs, mae'r cyhoeddiad hwn yn ymwneud â sut yr ydym yn ceisio ymdrin â pherfformiad yn y GIG yn benodol, a fydd hefyd yn effeithio ar wasanaethau cymdeithasol, ond hefyd ar bwysigrwydd y cyffuriau newydd hyn. Felly, mae'n ddull cydgyssylltiedig, ac rwy'n credu bod hynny'n ateb eich pwynt am ymagwedd ataliol ein cyllideb a gosod ein cyllideb—sydd wedi'u gwneud yn llawer anoddach, byddai'n rhaid imi ddweud, gan hwyрни digynsail yr adolygiad o wariant, sy'n ei gwneud yn hynod o anodd gosod y gyllideb. Ond, ar y gronfa ataliol honno, rwy'n gwybod y byddech yn ymuno â mi, fel llefarydd yr wrthblaid dros Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, i ddilornir ffaith bod £200 miliwn wedi'i dorri o'r grant iechyd cyhoeddus a dalwyd i awdurdodau lleol yn Lloegr, a bod hynny, wrth gwrs, yn cael effaith andwyol ar wasanaethau ataliol.

- 15:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I have more speakers, so, if we could have more concise contributions and responses, that would be helpful. Julie Morgan.
- Mae gen i fwy o siaradwyr, felly, pe gallem gael cyfraniadau ac ymatebion mwy cryno, byddai hynny'n ddefnyddiol. Julie Morgan.
- 15:19 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Thank you, Minister, for your statement, and I particularly welcome the announcement about the drug sofosbuvir, which the Minister will enable to be made available to people suffering from hepatitis C. I chair the cross-party group on haemophilia and contaminated blood, and I particularly welcome this announcement as many people with haemophilia have contracted hepatitis C through contaminated blood. I know that they will be so pleased with this announcement today, so I'd like to thank the Minister for her support and to thank the health Minister for recognising the importance of this drug for all people with hepatitis C and to ask when this finance is actually going to be available for patients to get access to the drugs.
- Diolch, Lywydd. Diolch, Weinidog, am eich datganiad, ac rwy'n croesawu'n arbennig y cyhoeddiad am y cyffur sofosbuvir, y bydd y Gweinidog yn sicrhau ei fod ar gael i bobl sy'n dioddef o hepatitis C. Fi yw cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar hemoffilia a halogi gwaed, ac rwy'n croesau'r cyhoeddiad hwn yn arbennig gan fod llawer o bobl â hemoffilia wedi cael eu heintio gyda Hepatitis C drwy waed halogedig. Rwy'n gwybod y byddant mor falch â'r cyhoeddiad hwn heddiw, felly hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei chefnogaeth a diolch i'r Gweinidog iechyd am gydnabod pwysigrwydd y cyffur hwn i'r holl bobl sydd â hepatitis C, a gofyn pryd bydd y cyllid hwn ar gael mewn gwirionedd er mwyn i gleifion allu defnyddio'r cyffuriau.
- 15:20 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Julie Morgan for that question, and, of course, I also acknowledge and thank her for the role she's played in terms of leading this in terms of concerns about hepatitis C. Just very quickly in response, the four new medicines that we're announcing represent a significant step forward in the treatment of HCV, and, of course, it does bring a wider public health benefit through a reduction in the transmission of HCV. The health boards are now preparing an implementation plan to treat affected patients to eradicate HCV. So, in terms of the money being available, it's available now.
- Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn yna; wrth gwrs, rwyf hefyd yn cydnabod ac yn diolch iddi am y rhan y mae hi wedi'i chwarae o ran arwain hyn o ran pryderon ynghylch hepatitis C. Dim ond ymateb cyflym iawn, mae'r pedair meddyginiaeth newydd yr ydym yn eu cyhoeddi yn gam sylweddol ymlaen wrth drin HCV, ac, wrth gwrs, mae'n dod â budd ehangach i iechyd y cyhoedd drwy ostwng trosglwyddiadau HCV. Mae'r byrddau iechyd nawr yn paratoui cynllun gweithredu i drin cleifion yr effeithir arnynt i ddileu HCV. Felly, o ran bod yr arian ar gael, mae ar gael nawr.
- 15:21 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, an announcement about extra resources for the NHS at this time of year is as seasonal as flu, but I really wanted to ask you about the £5 million that you say in your statement is there to double the Green Growth fund, with particular reference to renewable energy. I'm very concerned about what's happening in mid Wales at the moment—the decision not to allow any of the new applications under the conjoined inquiry, which could lead to a lack of investment in a growth industry in Wales. I visited five apprentices who were being taken on by RWE on Friday. The key apprentice who won an award last year in that company has had to work now in Kent because the work on-stream is not happening in renewable investment in Wales. That's as a result of the Westminster Government withdrawing tariffs and support for certain industries. Is this a response from Welsh Government to try and support some of those industries? How can you ensure that the £5 million is committed and spent, as you said, in-year?
- Weinidog, mae cyhoeddiad am adnoddau ychwanegol i'r GIG ar yr adeg hon o'r fwyddyn mor dymhorol â'r fflw, ond rwyf wir eisiau gofyn ichi am y £5 miliwn yr ydych yn dweud yn eich datganiad ei fod ar gael i ddyblu'r gronfa Twf Gwyrdd, gan gyfeirio'n benodol at ynni adnewyddadwy. Rwy'n bryderus iawn am yr hyn sy'n digwydd yn y canolbarth ar hyn o bryd—y penderfyniad i beidio â chaniatáu dim un o'r ceisiadau newydd o dan yr ymchwiliad cyfunol, a allai arwain at ddiffyg buddsoddi mewn diwydiant sy'n tyfu yng Nghymru. Ymwelais â phum prentis a gafodd eu cyflogi gan RWE ddydd Gwener. Mae'r prentis allweddol a enillodd wobwr llynedd yn y cwmni hwnnw wedi gorfod gweithio yn awr yng Nghaint am nad yw'r gwaith ar-ffrwd yn digwydd o fewn buddsoddi adnewyddadwy yng Nghymru. Mae hynny o ganlyniad i Lywodraeth San Steffan yn tynnu'n ôl tariffau a chymorth i ddiwydiannau penodol. Ai ymateb yw hwn gan Lywodraeth Cymru i geisio cefnogi rhai o'r diwydiannau hynny? Sut y gallwch sicrhau bod y £5 miliwn yn cael ei ymrwymo a'i wario, fel y dywedaso, yn ystod y fwyddyn?

- 15:22 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Simon Thomas. Green Growth Wales is our brand for a range of interventions, as you know, to increase and accelerate green investment in Wales. We want to lead the world in green growth. In fact, Green Growth Wales has been allocated an additional £5 million, as you say, in this financial year, so it'll double support to £10 million in-year, and it is going to support the development of those measures to encourage the development of a green infrastructure, encourage investment that reduces carbon emissions and offset the regrettable and regressive steps made by the UK Government in recent weeks in renewable energy.
- Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair.*
- Diolch, Simon Thomas. Twf Gwyrdd Cymru yw ein brand ar gyfer ystod o ymyriadau, fel y gwyddoch, i gynyddu a chyflymu buddsoddiad gwyrdd yng Nghymru. Hoffem arwain y byd o ran twf gwyrdd. Yn wir, mae £5 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu i Twf Gwyrdd Cymru, fel y dywedwch, yn y flwyddyn ariannol hon, felly bydd yn dyblu cymorth i £10 miliwn yn ystod y flwyddyn, a bydd yn cefnogi datblygu'r mesurau hynny i annog datblygiad seilwaith gwyrdd, annog buddsoddiad sy'n lleihau allyriadau carbon a gwneud iawn am y camau anffodus tuag yn ôl a gymerodd Llywodraeth y DU yn yr wythnosau diwethaf o ran ynni adnewyddadwy.
- The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair.*
- 15:23 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You referred to the Airbus training facility. Of course, I welcome investment very much in the region. How will that work with the Airbus training facility of Airbus itself, which is a joint project with Glyndŵr University? Regarding your comments regarding economics, why will you not recognise that 'austerity' is defined as not having enough money and that, as such, it's an inheritance, not a choice? At the time of credit crunch within the EU, deficits were only exceeded beyond the UK by Ireland and Greece. The Irish, who followed a path of what you refer to as 'austerity' have now established or re-established growth, whereas the Greeks, as you know, are facing far bigger externally imposed cuts because they follow the policies that you repeatedly advocate.
- Cyfeiriasoch at y cyfleuster hyfforddi Airbus. Wrth gwrs, rwy'n croesawu buddsoddiad yn fawr iawn yn y rhanbarth. Sut y bydd hwnnw'n gweithio gyda chyfleuster hyfforddi Airbus ei hun, sy'n brosiect ar y cyd gyda Phrifysgol Glyndŵr? O ran eich sylwadau ynghylch economeg, pam na wnewch chi gydnabod mai diffiniad 'cyni' yw bod heb ddigon o arian ac, fel y cyfryw, etifeddiaeth ydyw, nid dewis? Ar yr adeg pan oedd gwasgfa greddyd o fewn yr UE, dim ond Iwerddon a Gwlad Groeg oedd â diffygion uwch na'r DU. Mae'r Gwyddelod, a ddilynodd lwybr yr ydych yn cyfeirio ato fel 'cyni', bellach wedi sefydlu neu ailsefydlu twf, tra bo'r Groegwyr, fel y gwyddoch, yn wynebu toriadau llawer mwy a osodwyd yn allanol am eu bod yn dilyn y polisiau yr ydych chi'n eu hargymell dro ar ôl tro.
- 15:24 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I've realised that the Welsh Conservatives are getting uncomfortable when they start making points and asking questions like that. You are obviously uncomfortable that we, the Welsh Government—the Welsh Labour Government—are managing this budget against the cuts by your Government in Westminster and that we are proud to be spending all the money responsibly and not overspending. That's how we are managing the Welsh budget in order to make announcements, Mark Isherwood, which I'm sure you do welcome about Airbus and the aerospace training facility. Of course, in terms of the relationships and working partnerships in north-east Wales, including Glyndŵr University, those will continue.
- Rwyf wedi sylweddoli bod Ceidwadwyr Cymru'n mynd yn anghyfforddus pan fyddant yn dechrau gwneud pwyntiau a gofyn cwestiynau fel yna. Rydych yn amlwg yn anghyfforddus mai ni, Llywodraeth Cymru—Llywodraeth Lafur Cymru—sy'n rheoli'r gyllideb hon yn erbyn y toriadau gan eich Llywodraeth yn San Steffan a'n bod yn falch ein bod yn gwario'r holl arian yn gyfrifol heb orwario. Dyna sut yr ydym yn rheoli cyllideb Cymru er mwyn gwneud cyhoeddiadau, Mark Isherwood, yr wyf yn siŵr eich bod yn eu croesawu ynglŷn ag Airbus a'r cyfleuster hyfforddi awyrfod. Wrth gwrs, o ran y berthynas a'r partneriaethau gwaith yn y gogledd-ddwyrain, gan gynnwys Prifysgol Glyndŵr, bydd y rheini'n parhau.
- 15:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister.
- Diolch, Weinidog.
- 15:24 **4. Datganiad: Creu Cymwysterau Cymru** Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Item 4 is a statement by the Minister for Education and Skills on the establishment of Qualifications Wales and I call the Minister, Huw Lewis.
- 4. Statement: Establishment of Qualifications Wales**
- Item 4 yw datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar sefydlu Cymwysterau Cymru a galwaf ar y Gweinidog, Huw Lewis.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am delighted that the Welsh Government has now fulfilled its commitment to establish an independent regulator for qualifications in Wales following the establishment of Qualifications Wales on 6 August this year.

I have now formally appointed Ann Evans as chair, Philip Blaker as its chief executive officer, and appointed five members of the shadow body to become full members of the new Qualifications Wales board. Three additional members will be appointed to the board in due course.

Yesterday, on 21 September, the remaining provisions of the Act came into force, including Qualifications Wales's functions related to the regulation of qualifications, and simultaneously, of course, the Welsh Ministers' functions under the Education Act 1997 related to the regulation of qualifications in Wales were repealed. The practical arrangements associated with the body's establishment, such as staff, office location, and IT, are complete and the transitional provisions generally enable Qualifications Wales to take over the regulation of the award of qualifications in Wales from the Welsh Ministers.

So, for example, awarding bodies that were recognised by the Welsh Ministers are recognised generally now by Qualifications Wales. Those qualifications that were developed specifically for Wales following the review of qualifications, and subsequently accredited by the Welsh Ministers, such as the new GCSEs for teaching from 2015 and Essential Skills Wales, are to be treated as having been approved under the Act. The other qualifications listed on the database of qualifications in Wales are to be treated as designated under the Act. This enables continuity of public funding for learners under the age of 19.

The recognition criteria and conditions issued by the Welsh Ministers have effect with appropriate amendments to reflect the Act as, respectively, the general recognition criteria and the standard conditions of recognition under the Act. Qualifications Wales may, of course, revise those criteria and conditions in accordance with the provisions of the Act.

The first grant allocation letter and framework document has now been issued and published on the Welsh Government website. The grant allocation letter specifies those areas of education policy to which Qualifications Wales should have regard and on which the Welsh Ministers would want Qualifications Wales to advise in the first year. But, in line with the Act and our intention that Qualifications Wales will act independently, the grant allocation letter does not set out the work or objectives of the body.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wrth fy modd bod Llywodraeth Cymru bellach wedi cyflawni ei hymrwymiad i sefydlu rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau yng Nghymru ar ôl sefydlu Cymwysterau Cymru ar 6 Awst eleni.

Rwyf bellach wedi penodi yn ffurfiol Ann Evans yn gadeirydd a Philip Blaker yn brif swyddog gweithredol ar ei gyfer, ac wedi penodi pum aelod o'r corff cysgodol i fod yn aelodau llawn o'r bwrdd Cymwysterau Cymru newydd. Penodir tri aelod ychwanegol i'r bwrdd yn y man.

Ddoe, ar 21 Medi, daeth gweddill darpariaethau'r Ddeddf i rym, gan gynnwys swyddogaethau Cymwysterau Cymru sy'n ymwneud â rheoleiddio cymwysterau, ac ar yr un pryd, wrth gwrs, cafodd swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Addysg 1997 sy'n ymwneud â rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru eu diddymu. Mae'r trefniadau ymarferol sy'n gysylltiedig â sefydlu'r corff, megis staff, lleoliad swyddfa, a TG, wedi'u cwblhau ac mae'r darpariaethau trosiannol yn gyffredinol yn galluogi Cymwysterau Cymru i gymryd yr awenau ar gyfer rheoleiddio dyfarnu cymwysterau yng Nghymru oddi wrth Weinidogion Cymru.

Felly, er enghraifft, mae cyrff dyfarnu a gafodd eu cydnabod gan Weinidogion Cymru yn cael eu cydnabod yn gyffredinol nawr gan Cymwysterau Cymru. Bydd y cymwysterau hynny a gafodd eu datblygu'n benodol ar gyfer Cymru yn dilyn yr adolygiad o gymwysterau, ac a achredwyd wedi hynny gan Weinidogion Cymru, megis y TGAU newydd i'w haddysgu o 2015 ymlaen a Sgiliau Hanfodol Cymru, yn cael eu trin fel pe byddent wedi'u cymeradwyo o dan y Ddeddf. Bydd y cymwysterau eraill a restrir ar y gronfa ddata o gymwysterau yng Nghymru yn cael eu trin fel a ddynodir o dan y Ddeddf. Mae hyn yn galluogi parhad cyllid cyhoeddus i ddysgwyr o dan 19 oed.

Mae'r meini prawf a'r amodau cydnabod a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru mewn grym gyda newidiadau priodol i adlewyrchu'r Ddeddf fel meini prawf cydnabod cyffredinol ac amodau safonol cydnabyddiaeth o dan y Ddeddf, yn y drefn honno. Gall Cymwysterau Cymru, wrth gwrs, ddiwygio'r meini prawf a'r amodau hynny yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Mae'r ddogfen fframwaith a'r llythyr dyraniad grant cyntaf bellach wedi eu cyflwyno a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r llythyr dyraniad grant yn nodi'r meysydd polisi addysg hynny y dylai Cymwysterau Cymru roi sylw iddynt ac yr hoffai Gweinidogion Cymru i Cymwysterau Cymru gynghori amdanynt yn y flwyddyn gyntaf. Ond, yn unol â'r Ddeddf a'n bwriad i Cymwysterau Cymru weithredu'n annibynnol, nid yw'r llythyr dyraniad grant yn amlinellu gwaith nac amcanion y corff.

We could not have done all this without the support and constructive engagement from Members of this Assembly and our stakeholders over the last two years. I would like, particularly, to thank Ann Jones—and incidentally, I would like to add my best wishes to Ann for a quick recovery after her recent accident—and, through Ann, the members of the Children, Young People and Education Committee, and those who gave evidence to the committee, for their detailed and constructive scrutiny of the Bill. I believe the scrutiny of the Bill has been robust and resulted in a number of positive improvements. The legislation we have created is the better for it.

Qualifications Wales is based on a sound evidence base that was initiated and explored through the work of the review of qualifications and then the Qualifications Wales advisory board, both of which were led by Huw Evans, whom I expressly thank today for the excellent advice and support that he provided throughout this process.

You may recall Qualifications Wales has two principal aims that it must strive to meet in the exercise of all its functions: firstly, ensuring that qualifications, and the Welsh qualification system, are effective for meeting the reasonable needs of learners in Wales, and, secondly, promoting public confidence in qualifications and in the Welsh qualification system. In this way, we have placed learners at the heart of the qualification system and at the heart of Qualifications Wales's role and remit, while the needs of employers, of higher education providers, and of the professions, are also to be taken into account, as referenced in the eight matters to which Qualifications Wales must have regard when considering what is appropriate to achieve those principal aims.

During scrutiny, Members voiced concern that Qualifications Wales should ensure parity for all qualifications, including vocational qualifications, and I've always agreed with this principle. The legislation makes no distinction between vocational and academic qualifications and, importantly, provides Qualifications Wales with the full toolkit it needs in respect of any regulated qualification.

I would like to reassure Members that I intend to consult on proposals for regulations on the calculation of monetary penalties that Qualifications Wales will be able to impose, with a view to ensuring that the amount of such penalties is both proportionate and fair. Following, and in light of that consultation, future legislation will be brought forward.

Ni allem fod wedi gwneud hyn i gyd heb gefnogaeth ac ymgysylltiad adeiladol gan Aelodau'r Cynulliad hwn a'n rhanddeiliaid dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Hoffwn, yn arbennig, ddiolch i Ann Jones—a gyda llaw, hoffwn ychwanegu fy nymuniadau gorau i Ann am wellhad cyflym ar ôl ei damwain ddiweddar—a, thrwy Ann, i aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r rheini a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, am eu gwaith craffu manwl ac adeiladol ar y Bil. Rwy'n credu bod y craffu ar y Bil wedi bod yn gadarn ac wedi arwain at nifer o welliannau cadarnhaol. Mae'r ddeddfwriaeth yr ydym wedi'i chreu yn well o'r herwydd.

Mae Cymwysterau Cymru yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a ddechreuwyd ac a archwiliwyd drwy waith yr adolygiad o gymwysterau ac yna fwrdd cynghori Cymwysterau Cymru, y naill a'r llall dan arweiniad Huw Evans; hoffwn ddiolch yn benodol iddo ef heddiw am y cyngor a'r gefnogaeth ragorol a ddarparodd drwy gydol y broses hon.

Efallai y cofiwch fod gan Cymwysterau Cymru ddau brif nod y mae'n rhaid iddo ymdrechu i'w cyflawni wrth arfer ei holl swyddogaethau: yn gyntaf, sicrhau bod cymwysterau, a system cymwysterau Cymru, yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru mewn modd effeithiol, ac yn ail, hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system cymwysterau Cymru. Yn y modd hwn, rydym wedi rhoi dysgwyr wrth galon y system cymwysterau ac wrth wraidd swyddogaeth a chylch gwaith Cymwysterau Cymru, gan roi ystyriaeth hefyd i anghenion cyflogwyr, darparwyr addysg uwch, a'r proffesiynau, fel y cyfeirir ato yn yr wyth mater y mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru roi sylw iddynt wrth ystyried beth sy'n briodol ar gyfer cyflawni'r prif amcanion hynny.

Yn ystod y gwaith craffu, lleisiodd Aelodau bryder y dylai Cymwysterau Cymru sicrhau cydraddoldeb i bob cymhwyster, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol, ac rwyf bob amser wedi cytuno â'r egwyddor hon. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn gwahaniaethu o gwbl rhwng cymwysterau galwedigaethol ac academiaidd ac, yn bwysig, mae'n darparu'r pecyn cymorth llawn i Cymwysterau Cymru sydd ei angen arno ar gyfer unrhyw gymhwyster a reoleiddir.

Hoffwn dawelu meddyliau Aelodau fy mod yn bwriadu ymgynghori ar gynigion ar gyfer rheoliadau ar gyfrifo'r cosbau ariannol y bydd Cymwysterau Cymru'n gallu eu gosod, gyda'r bwriad o sicrhau bod swm cosbau o'r fath yn gymesur ac yn deg. Ar ôl yr ymgynghoriad hwnnw, ac yn ei oleuni, caiff deddfwriaeth y dyfodol ei chyflwyno.

Looking to the future, it is very much my intention that Qualifications Wales should become an awarding body, in line with the model that we see in Scotland. But I see the value in allowing Qualifications Wales to develop expertise and a clear understanding of the features of effective awarding bodies and qualifications before considering proceeding to the next stage of reform. Qualifications Wales is now up and running and this Government very much looks forward to engaging with Wales' newest independent body over the coming months. This is an important step for Wales that will lead to increasing confidence in our qualifications and our qualifications system for learners in Wales and for all those who teach or employ them in the future. I wish the Chair of Qualifications Wales, Ann Evans, her fellow board members, the chief executive, Philip Blaker and all his staff all the very best for the future.

And finally, I would like to place on record again that I welcomed the support of Members throughout the scrutiny process and I am pleased that we have an independent body that will benefit our young people in Wales. We must have total confidence in our qualifications in Wales. We must know that our young people are appropriately qualified and skilled, and that the needs of employers and the Welsh economy are met. I have no doubt Qualifications Wales will help us achieve this.

15:32

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to thank the Minister today for his statement. Going through it, I find I have five quick questions for you, Minister. Like yourself, I'd like to join you in saying a massive thank you to Huw Evans for the work that he did in bringing forward the establishment of Qualifications Wales, or the run-up to Qualifications Wales, and I'd also like to welcome Ann Evans, in her role as Chair, and also the new chief executive, Mr Philip Blaker. Minister, the question I'd like to ask about the appointments process of both the chair and the chief executive is: just for the record, and as a matter of transparency, could you explain to us how that came about and what the process was that those individuals went through?

My second question, reading your statement, is that we note that the practical arrangements associated with the body's establishment have now gone through and that staff have been transferred from Welsh Government to the new qualifications board. I'd like to ask if it is possible to have a breakdown, either now or separately, of how many of the former officials have transferred to the new body, and what departments within Qualifications Wales they undertook. I believe both my first and second questions are marginally linked, because I think it goes to the heart of ensuring that this is truly an arm's-length operation, like I know you are very keen for it to be, and truly independent. But it is staffed by an awful lot of people who used to work for Welsh Government.

Gan edrych i'r dyfodol, yn bendant fy mwriad yw y dylai Cymwysterau Cymru ddod yn gorff dyfarnu, yn unol â'r model a welwn yn yr Alban. Ond rwy'n gweld gwerth mewn caniatáu i Cymwysterau Cymru ddatblygu arbenigedd a dealltwriaeth glir o nodweddion cyrff dyfarnu a chymwysterau effeithiol cyn ystyried symud ymlaen i'r cam diwygio nesaf. Mae Cymwysterau Cymru bellach yn gweithredu ac mae'r Llywodraeth hon yn edrych ymlaen yn fawr iawn at ymgysylltu â chorff annibynnol diweddaraf Cymru dros y misoedd nesaf. Mae hwn yn gam pwysig i Gymru a fydd yn arwain at fwy o hyder yn ein cymwysterau a'n system cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru ac i bawb sy'n eu haddysgu neu fydd yn eu cyflogi yn y dyfodol. Rwy'n dymuno'n dda i Gadeirydd Cymwysterau Cymru, Ann Evans, ei chyd-aelodau ar y bwrdd, y prif weithredwr, Philip Blaker a'i holl staff ar gyfer y dyfodol.

Ac yn olaf, hoffwn gofnodi unwaith eto fy mod wedi croesawu cefnogaeth yr Aelodau drwy gydol y broses graffu ac rwy'n falch bod gennym gorff annibynnol a fydd o fudd i'n pobl ifanc yng Nghymru. Mae'n rhaid inni fod yn llawn ffydd yn ein cymwysterau yng Nghymru. Mae'n rhaid inni wybod bod gan ein pobl ifanc gymwysterau a sgiliau priodol, a bod anghenion cyflogwyr ac economi Cymru'n cael eu diwallu. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd Cymwysterau Cymru yn ein helpu i gyflawni hyn.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog heddiw am ei ddatganiad. Wrth fynd drwyddo, rwy'n gweld bod gennyf bum cwestiwn cyflym ichi, Weinidog. Fel chithau, hoffwn ymuno â chi i ddweud diolch enfawr wrth Huw Evans am y gwaith a wnaeth tuag at sefydlu Cymwysterau Cymru, neu yn y cyfnod hyd at Cymwysterau Cymru, a hoffwn hefyd groesawu Ann Evans, yn ei swydd fel Cadeirydd, a hefyd y prif weithredwr newydd, Mr Philip Blaker. Weinidog, y cwestiwn yr hoffwn ei ofyn am broses penodi'r cadeirydd a'r prif weithredwr yw: dim ond ar gyfer y cofnod, ac fel mater o dryloywder, a allech chi egluro inni sut y digwyddodd hynny a pha broses yr aeth yr unigolion hynny drwyddi?

Fy ail gwestiwn, wrth ddarllen eich datganiad, yw ein bod yn nodi bod y trefniadau ymarferol sy'n gysylltiedig â sefydlu'r corff bellach wedi'u cadarnhau a bod y staff wedi cael eu trosglwyddo o Lywodraeth Cymru i'r bwrdd cymwysterau newydd. Hoffwn ofyn a yw'n bosibl cael dadansoddiad, naill ai nawr neu ar wahân, o faint o'r cyn-swyddogion sydd wedi trosglwyddo i'r corff newydd, ac i ba adrannau o fewn Cymwysterau Cymru yr aethant. Rwy'n credu bod rhywfaint o gysylltiad rhwng fy nghwestiwn cyntaf a fy ail gwestiwn, oherwydd rwy'n meddwl ei fod yn mynd at wraidd sicrhau bod hwn yn wirioneddol yn sefydliad hyd braich, fel yr wyf yn gwybod eich bod yn awyddus iawn iddo fod, ac yn wirioneddol annibynnol. Ond roedd llawer iawn o'i staff yn arfer gweithio i Lywodraeth Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The third point that I'd like to raise is that we still have a degree of scepticism about the designated qualifications aspect of the Act. We will, of course, work with you in any way that we can to ensure that this goes through well, but there are still concerns about the designated qualifications and I'd like to see those resolved over time and any thoughts that you may be able to let us have as to how you see that side of it working.

My fourth question, Minister, is a bit more technical, in that I have hunted, as have the Research Service, for the grant allocation letter and the framework document. I can't find them on the website or anywhere else and I'd be very grateful if you could forward them to me at your earliest convenience.

Finally, Minister, you will know that this party here has a great deal of reluctance in granting Qualifications Wales powers to award qualifications in the future. We'll not stand in your way—I know that that is your stated intent—but we will be watching that space, and I do hope that the independence and growth of this new body will become such that we will be able to feel that we can support that principle in the years to come. But we are very keen to see truly independent-of-Government bodies, such as Estyn, such as the Wales Audit Office, and now such as Qualifications Wales, and that's what we seek before we could support you in that final aim for the body. And I wish it well. Thank you.

Y trydydd pwynt yr hoffwn ei godi yw bod gennym o hyd rhywfaint o amheuaeth am yr agwedd cymwysterau dynodedig ar y Ddeddf. Gwnawn, wrth gwrs, weithio gyda chi mewn unrhyw ffordd y gallwn i sicrhau bod hyn yn digwydd mewn ffordd dda, ond mae pryderon am y cymwysterau dynodedig o hyd a hoffwn weld y rheini'n cael eu datrys dros amser ac unrhyw syniadau y gallech eu rhannu â ni ynghylch sut yr ydych yn gweld yr ochr honno'n gweithio.

Mae fy mhedwerydd cwestiwn, Weinidog, ychydig yn fwy technegol; rwyf wedi bod yn chwilota, fel y Gwasanaeth Ymchwil, am y llythyr dyraniad grant a'r ddogfen fframwaith. Ni allaf ddod o hyd iddynt ar y wefan nac yn unman arall a byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech eu hanfon ymlaen ataf cyn gynted ag y bo'n gyfleus.

Yn olaf, Weinidog, byddwch yn gwybod bod y blaid hon yn gyndyn iawn i roi pwerau i Cymwysterau Cymru i ddyfarnu cymwysterau yn y dyfodol. Ni wnawn sefyll yn eich ffordd—gwn mai dyna yw'r bwriad yr ydych wedi'i ddatgan—ond byddwn yn cadw llygad ar hynny, ac rwy'n gobeithio y bydd annibyniaeth a thwf y corff newydd hwn yn dod yn ddigon inni allu teimlo y gallwn gefnogi'r egwyddor honno yn y blynyddoedd i ddod. Ond rydym yn awyddus iawn i weld cyrff gwirioneddol annibynnol ar Lywodraeth, fel Estyn, fel Swyddfa Archwilio Cymru, ac nawr fel Cymwysterau Cymru, a dyna'r hyn yr hoffem ei weld cyn y gallem eich cefnogi yn y nod terfynol ar gyfer y corff. A dymunaf yn dda iddo. Diolch.

15:35

Huw Lewis [Bywgraffiad Biography](#)

Deputy Presiding Officer, could I thank Angela Burns for those positive comments, and for her questions? First of all, concerning the staffing around Qualifications Wales, the principal appointments—well, indeed, all appointments—were carried out according to the usual public appointments procedures. I can tell her that Qualifications Wales is now fully staffed, with around 60 staff appointed, and that was the number that was originally envisaged. Around 10 of those, as I understand it, have transferred from Welsh Government to the new body, but I can give a full breakdown of officials who were transferred, by writing to her.

In terms of the designated qualifications, I fully understand the Member's continuing wish to scrutinise this issue very carefully. And I'd be more than willing, of course, to be completely open, and to work alongside Members from all sides in the Chamber, to ensure that any fears or worries are allayed.

Your fourth question, I believe, was on the framework document. Once again, I think that's probably best done in writing. On the grant allocation that you've mentioned, I do not anticipate that we will have any problems exceeding the envelope of funding that was originally planned, and the grant allocation letter sets out the budget for Qualifications Wales for 2015-16 to be £5.6 million, and then ongoing from 2016-17 to be £7.9 million, as was originally indicated.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ddirprwy Lywydd, a gaf i ddiolch i Angela Burns am y sylwadau cadarnhaol yna, ac am ei chwestiynau? Yn gyntaf oll, ynglŷn â staff Cymwysterau Cymru, gwnaethpwyd y prif benodiadau—wel, yn wir, pob penodiad—yn unol â'r gweithdrefnau penodiadau cyhoeddus arferol. Gallaf ddweud wrthi bod Cymwysterau Cymru bellach wedi'i staffio'n llawn, gydag oddeutu 60 o staff wedi'u penodi, sef y nifer a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae tua 10 o'r rheini, yn ôl a ddeallaf, wedi trosglwyddo o Lywodraeth Cymru i'r corff newydd, ond gallaf roi dadansoddiad llawn o'r swyddogion a drosglwyddwyd, drwy ysgrifennu ati.

O ran y cymwysterau dynodedig, rwyf yn deall yn llwyr bod yr Aelod yn dal i ddymuno craffu ar y mater hwn yn ofalus iawn. A byddwn yn fwy na pharod, wrth gwrs, i fod yn gwbl agored, ac i weithio ochr yn ochr ag Aelodau o bob ochr yn y Siambr, er mwyn sicrhau bod unrhyw ofnau neu bryderon yn cael eu tawelu.

Roedd eich pedwerydd cwestiwn, rwy'n credu, ynglŷn â'r ddogfen fframwaith. Unwaith eto, rwy'n meddwl yn ôl pob tebyg y byddai'n well gwneud hynny'n ysgrifenedig. O ran y dyraniad grant y soniasoch amdano, nid wyf yn rhagweld y cawn unrhyw broblemau o ran mynd y tu hwnt i'r amlen o gyllid a friadwyd yn wreiddiol, ac mae'r llythyr dyraniad grant yn nodi y bydd cyllideb Cymwysterau Cymru ar gyfer 2015-16 yn £5.6 miliwn, ac yna'n barhaus o 2016-17 ymlaen yn £7.9 miliwn, fel y nodwyd yn wreiddiol.

I understand Angela Burns's—and her party's—scepticism surrounding the debate that is yet to come around awarding status eventually being bestowed upon Qualifications Wales, which would, of course, entail further primary legislation, if it were to come about. I remain convinced, however, that we will, by necessity, have to work towards that kind of status for Qualifications Wales, because we are developing now a curriculum for Wales, which will be designed by us, and unique to us, and that will have implications for the qualifications that flow from it. That, in turn, means, I believe, that we need to be, within Wales, self-sustaining, and have complete security around the administration, awarding, and quality control of our qualifications, as a nation. It is a national need, in my view. But that debate will be had in full, I'm sure, and is yet to come.

Rwyf yn deall amheuaeth Angela Burns—a'i phlaid—ynglŷn â'r ddatl sydd i ddod am roi statws dyfarnu yn y pen draw i Cymwysterau Cymru, a fyddai, wrth gwrs, yn golygu deddfwriaeth sylfaenol bellach, pe byddai hynny'n digwydd. Rwy'n dal yn argyhoeddedig, fodd bynnag, y byddwn, o reidrydd, yn gorfod gweithio tuag at y math hwnnw o statws i Cymwysterau Cymru, gan ein bod nawr yn datblygu cwricwlwm ar gyfer Cymru, a fydd wedi'i gynllunio gennym ni, ac a fydd yn unigryw i ni, a bydd hynny'n creu goblygiadau i'r cymwysterau sy'n deillio ohono. Mae hynny, yn ei dro, yn golygu, rwy'n credu, bod angen inni fod, o fewn Cymru, yn hunangynhaliol, a bod â diogelwch llwyr o gwmpas gweinyddu, dyfarnu, a rheoli ansawdd ein cymwysterau, fel cenedl. Mae'n angen cenedlaethol, yn fy marn i. Ond cawn y ddatl honno'n llawn, rwy'n siŵr, yn y dyfodol.

15:39 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Minister for his statement today? I too am delighted that the Qualifications Wales Act was granted Royal Assent over the summer recess, and I was very pleased to join both the Minister and the First Minister for the ceremony to mark the occasion, at Cathays park. The establishment of Qualifications Wales, of course, as an independent regulator of qualifications in Wales, was a key recommendation of the review of 14 to 19 qualifications that I commissioned during my time as Deputy Minister for Skills. Can I too add my thanks to Huw Evans for all his outstanding work?

Another key recommendation, Minister, was to introduce a grading system into the Welsh baccalaureate to ensure more clarity and rigour for our flagship qualification and to help establish its quality in and outside of Wales. This week, we heard that the University of Cambridge is now recognising the graded Welsh baccalaureate as equivalent to a fourth A-level, which will be of great benefit to Welsh learners.

Minister, in your statement, you refer to the importance of parity of esteem between general or academic and vocational qualifications. Will you tell us a little bit more about how Qualifications Wales as a regulator will help to ensure that there is indeed parity of esteem between those two types of qualifications?

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw? Rwyf innau hefyd wrth fy modd bod y Ddeddf Cymwysterau Cymru wedi cael Cydsyniad Brenhinol yn ystod toriad yr haf, ac roeddwn yn falch iawn o ymuno â'r Gweinidog a'r Prif Weinidog yn y seremoni i nodi'r achlysur, ym mharc Cathays. Roedd sefydlu Cymwysterau Cymru, wrth gwrs, fel rheoleiddiwr annibynnol i gymwysterau yng Nghymru, yn un o argymhellion allweddol yr adolygiad o gymwysterau 14 i 19 a gomisiynais yn ystod fy nghyfnod fel Dirprwy Weinidog Sgiliau. A gaf innau hefyd ychwanegu fy niolch i Huw Evans am ei holl waith rhagorol?

Argymhelliad allweddol arall, Weinidog, oedd cyflwyno system raddio i mewn i fagloraeth Cymru i sicrhau mwy o eglurder a manwl gywirdeb yn ein cymhwyster blaenllaw a helpu i sefydlu ei ansawdd yng Nghymru a thu hwnt. Yr wythnos hon, clywsom fod Prifysgol Caergrawnt bellach yn cydnabod bagloraeth Cymru wedi'i graddio fel bod yn gyfwerth â phedwerydd cymhwyster Safon Uwch, a fydd o fudd mawr i ddysgwyr Cymru.

Weinidog, yn eich datganiad, rydych yn cyfeirio at bwysigrwydd parch cydradd rhwng cymwysterau cyffredinol neu academiaidd a galwedigaethol. A wnewch chi ddweud ychydig mwy wrthym am sut y bydd Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr yn helpu i sicrhau bod parch cydradd mewn gwirionedd rhwng y ddau fath o gymwyster?

15:40 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, could I first of all pay tribute to the Member for Caerphilly for his work as Deputy Minister, there at the genesis, really, of the review of qualifications? It was that work, of course, which led towards the successful establishment of Qualifications Wales and, indeed, the body would likely not exist without the work that the Member for Caerphilly accomplished back at the beginning of the process. So, my compliments to him; we've finally finished the job that he began.

Wel, a gaf i'n gyntaf oll dalu teyrnged i Aelod Caerffili am ei waith fel Dirprwy Weinidog, yno ar y dechrau, mewn gwirionedd, yr adolygiad o gymwysterau? Y gwaith hwnnw, wrth gwrs, a arweiniodd at sefydlu Cymwysterau Cymru yn llyyddiannus ac, yn wir, mae'n debygol na fyddai'r corff yn bodoli heb y gwaith a wnaeth Aelod Caerffili yn ôl ar ddechrau'r broses. Felly, fy nghanmoliaeth iddo; rydym o'r diwedd wedi gorffen y gwaith a ddechreuodd ef.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I, too, very warmly welcome the comments that we have heard this week from Cambridge university with regard to the graded, now, advanced Welsh baccalaureate. It has been the case for some while, of course, that the great majority of UK higher education institutions have recognised and, indeed, been enthused by the Welsh baccalaureate, but there we have the cherry on the cake, if you like: one of the most prestigious higher education establishments in the world giving recognition, as a fourth A-level, to the Welsh baccalaureate. I can tell Members that when I met with and spoke with admissions tutors at Cambridge university—before this announcement was made, incidentally, earlier in the summer—they were effusive in terms of their praise for the very idea—the philosophy behind the Welsh baccalaureate and, of course, the quality of it as a qualification. One of them, indeed, illustrated this by explaining to me that, during an interview, when there was not much to choose in terms of academic qualifications between two candidates, he would know that a public school-educated candidate would have a welter of extra and supra-curricular activity to talk about and that he knew that, now, a candidate from Wales, no matter what their background, could counter that by talking about their Welsh baccalaureate experience, and, most particularly, the personal project within it. In other words, it cuts through the barriers of privilege by giving our candidates evidence of that rounded individual that those top HEIs are on the lookout for.

In terms of the parity of esteem, of course, well, it's written into the warp and weft of the legislation. As I've explained, there's no distinction between vocational and academic qualifications within the legislation. That does not mean to say, however, that vigilance just goes by the by. Of course, we will have the annual report, for the Assembly to debate, of Qualifications Wales each year and their report to the auditor general will be there too. This is an independent body, but it is also a public body and will be scrutinised by us all.

15:44

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae Plaid Cymru wedi bod yn gofyn yn gyson am reolydd annibynnol ar gyfer y system gymwysterau yng Nghymru i leddfu un o sgil-ffeithiau marchnadeiddio gormod ar arholiadau, sef y dybiaeth neu'r posibilid y bydd safonau'n cwmpo'n is, a hefyd i wneud yn si?r nad yw'r Gweinidog yn gyfrifol am raddau, bellach, yng Nghymru. Mae'r nodyn heddiw yn cydnabod na fydd y Gweinidog yn gwneud llawer mwy am gymwysterau yn y Siambr hon o hyn ymlaen, ac y byddwn ni ond yn gallu holi Cymwysterau Cymru drwy eu hadroddiad blynyddol nhw, mewn dadleuon ac, wrth gwrs, drwy'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn; mae'n si?r bod y Gweinidog yn edrych ymlaen yn fawr iawn at gael rhyddhad o hynny yn ogystal. Mae'n golygu mai dyma'r cyfle olaf, efallai, a gawn ni i gwneud cwestiwn i'r Gweinidog yngl?n â gwaith y corff newydd, a ddaeth i fodolaeth dim ond heddiw, neu ddoe—nid wyf cweit yn si?r pa ddiwrnod—ond rwy'n nodi bod y gymhwyster gyntaf wedi'i chymeradwyo gan Gymwysterau Cymru, sef TGAU mewn daearyddiaeth, yn ôl beth rwy'n ei ddeall. Felly, mae'n bwysig nodi y cam bach ond hynod bwysig hynny.

Rwyf finnau'n croesawu'n fawr iawn y sylwadau yr ydym wedi'u clywed yr wythnos hon gan brifysgol Caergrawnt yngl?n â'r fagloriaeth Cymru uwch, sydd erbyn hyn wedi'i graddio. Mae wedi bod yn wir ers cryn amser, wrth gwrs, bod y mwyafrif helaeth o sefydliadau addysg uwch yn y DU wedi cydnabod bagloriaeth Cymru ac, yn wir, wedi dangos brwdfrydedd tuag ati, ond dyna'r geiriosen ar y gacen, os dymunwch: un o sefydliadau addysg uwch mwyaf uchel ei barch yn y byd yn rhoi cydnabyddiaeth, fel pedwerydd cymhwyster Safon Uwch, i fagloriaeth Cymru. Gallaf ddweud wrth yr Aelodau, pan gyfarfûm â thiworiaid derbyn ym mhrifysgol Caergrawnt i siarad â hwy—cyn i'r cyhoeddiad hwn gael ei wneud, gyda llaw, yn gynharach yn yr haf—roeddent yn canmol y syniad i'r cymylau—yr athroniaeth y tu ôl i fagloriaeth Cymru ac, wrth gwrs, ei ansawdd fel cymhwyster. Yn wir, dangosodd un ohonynt hyn drwy egluro imi, yn ystod cyfweiliad, pan nad oedd llawer i'w ddeuis o ran cymwysterau academaidd rhwng dau ymgeisydd, y byddai'n gwybod y byddai gan ymgeisydd ag addysg ysgol fonedd lu o weithgarwch allgyrsiol ac uwch-gwricwlaidd i sôn amdano a'i fod yn gwybod, erbyn hyn, y gallai ymgeisydd o Gymru, ni waeth beth yw ei gefndir, daro'n ôl drwy siarad am ei brofiad o fagloriaeth Cymru, ac, yn fwyaf arbennig, y prosiect personol oddi mewn iddo. Mewn geiriau eraill, mae'n torri drwy rwystrau braint drwy roi tystiolaeth i'n hymgeisywr o'r unigolyn cyflawn hwnnw y mae'r sefydliadau addysg uwch gorau hynny yn chwilio amdano.

O ran parch cydradd, wrth gwrs, wel, mae hynny wedi'i ysgrifennu yn ystod ac anwe'r ddeddfwriaeth. Fel yr wyf wedi'i egluro, nid oes gwahaniaeth rhwng cymwysterau galwedigaethol ac academaidd o fewn y ddeddfwriaeth. Nid yw hynny'n golygu, fodd bynnag, ein bod yn anghofio bod yn wyliaidwrus. Wrth gwrs, bydd gennym adroddiad blynyddol Cymwysterau Cymru bob blwyddyn, i'r Cynulliad ei drafod, a bydd eu hadroddiad i'r archwilydd cyffredinol ar gael hefyd. Mae hwn yn gorff annibynnol, ond mae hefyd yn gorff cyhoeddus a byddwn i gyd yn craffu arno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Plaid Cymru has consistently asked for an independent regulator for the qualifications system in Wales to alleviate one of the implications of overly marketising examinations, namely the presumption, or the possibility, that standards would fall, and to ensure that the Minister is no longer responsible for grades in Wales. The statement today acknowledges that the Minister won't be doing much on qualifications in this Chamber from here on in, and we will only be able to question Qualifications Wales through their annual report, in various debates and, of course, through the Children, Young People and Education Committee. I look forward very much to that, as I'm sure the Minister does to being released from those duties. It does mean that this may be the last opportunity that we have to raise questions with the Minister on the work of the new body that only came into existence today or yesterday—I'm not quite sure when—but I do note that the first qualification has been accredited by Qualifications Wales, namely a GCSE in geography, as I understand it. So, it's important that we mark that small but very important step.

Y cwestiwn cyntaf yr hoffwn i ei ofyn, felly, yw: beth sydd wedi'i gosod yn ei lle hyd yma gan Gymwysterau Cymru fel corff newydd i sicrhau bod y meincnodi rhyngwladol yna, sydd yn rhan o'r Ddeddf, yn parhau, a bod y gwaith hwnnw'n sicrhau, fel yr oedd Jeff Cuthbert yn gofyn hefyd, y cysondeb a'r cydbwysedd rhwng yr ochr alwedigaethol a'r ochr academiaidd?

Rydych chi wedi sôn, Weinidog, wrth ateb ambell gwestiwn, am y ffaith bod cwricwlwm newydd yn cael ei greu yng Nghymru, ac rwy'n croesawu hynny'n fawr iawn. Byddai rhai'n dadlau y dylech chi greu cwricwlwm yn gyntaf ac wedyn edrych ar gymwysterau, ond, am wahanol resymau, rydym ni wedi gorfod edrych ar bethau y ffordd arall rownd yng Nghymru. Ym mha ffordd y byddwch chi nawr gwneud yn siŵr, felly, gan fod Cymwysterau Cymru'n gwbl annibynnol, fod cydlyniant rhwng gwaith Cymwysterau Cymru a'r gwaith rydych chi'n dal i fod yn gyfrifol amdano, sef gosod yn eu lle argymhellion yr Athro Donaldson?

Rydych chi eisoes wedi ateb cwestiynau ynglŷn â'r staff a'r adnoddau sydd wedi cael eu symud ar draws, ond beth yw rôl y staff hynny'n benodol wrth hyrwyddo Cymwysterau Cymru a'r system gymwysterau yng Nghymru, nid jest yng Nghymru ond i gyflogwyr a phrifysgolion y tu hwnt i Gymru ac, yn wir, yn rhyngwladol hefyd? Rwy'n croesawu'r hyn rydym ni wedi'i glywed yr wythnos yma ynglŷn â Phrifysgol Caergrawnt a'r fagloriaeth, ond mae pawb yn cydnabod mai dyna sut y bydd Cymwysterau Cymru a'r system gymwysterau yn llwyddo ai peidio—os gallwn ni gadw safonau, darbwyllo pobl eraill fod safonau'n gadarn yng Nghymru, a bod gennym ni system synhwyrol a bod hygredd yn y system yna. Tan heddiw, y Llywodraeth sydd wedi bod yn gyfrifol am hynny, ond mae'n trosglwyddo i gorff newydd. Beth fydd y corff newydd yn gwneud yn ei gyloch, a beth yw'r paratoi a'r cynllunio sydd wedi digwydd hyd yma?

Mae'r cwestiwn olaf sydd gen i—wel, sylw yn hytrach na chwestiwn—am ddyfodol Cymwysterau Cymru. Rydych chi wedi'i gwneud yn glir—ac rwyf i wedi cytuno â chi, hyd yma, yn llwyr—mai cam wrth gam y mae datblygu Cymwysterau Cymru. Rwyf i eisiau gweld, yn y pen draw, lai o rychwant, llai o ystod, llai o ddewis cymhleth, a dyrys weithiau, ym maes cymwysterau—nid llai o safon, ond llai o'r dyblygu sy'n digwydd. Mae hynny'n golygu yn fy marn i, fel r?ch chi newydd grybwyll, fod yna ddatblygiad yng Nghymru o ryw fath o gyd-destun Cymraeg i edrych ar y materion hyn. Nid yw'n golygu, yn fy marn i, fod yn rhaid i Gymwysterau Cymru ddod yn gorff dyrannu. Mae'n dal i fod gennym ni CBAC, ac efallai y byddai'n briodol yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf—ac yn y Cynulliad newydd nesaf—i edrych ar CBAC ac ar waith CBAC, er mwyn gweld ym mha ffordd y mae CBAC a Chymwysterau Cymru yn gallu cydweithio yn y maes yma, cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynglŷn â throi Cymwysterau Cymru yn gorff sy'n dyrannu cymwysterau yn ogystal â'u rheoli nhw.

The first question that I would like to ask, therefore, is: what has been put in place, to date, by Qualifications Wales as a new body to ensure that that international benchmarking, which is part of the Act, does continue, and that that work does ensure, as Jeff Cuthbert also alluded to, that consistency and balance between the vocational and the academic qualifications?

You mentioned, Minister, in answering a few questions, that a curriculum is being created anew in Wales, and I welcome that very warmly. Some would argue that you should create a curriculum first and then look at qualifications, but, for various different reasons, we've had to look at things the other way around in Wales. How will you now ensure, therefore, given that Qualifications Wales is entirely independent, that there is co-ordination between the work of Qualifications Wales and the work that you remain responsible for, namely putting in place the recommendations made by Professor Donaldson?

You've already answered questions on staffing and resources that have been shifted across, but what is the role specifically of those staff in promoting Qualifications Wales and the qualification system in Wales, not only in Wales but to employers and universities outwith Wales, and also on the international stage? I welcome what we've heard this week on University of Cambridge and the Welsh baccalaureate, but everyone recognises that that is how Qualifications Wales and the qualification system in Wales will succeed or otherwise—if we can maintain standards, convince others that standards are robust here in Wales, and that we do have a sensible and credible system. Until today, the Government has been responsible for that, but it is now transferred to a new body. What will the new body do about that, and what preparations and plans have been put in place to ensure that that is done effectively?

The final question from me—well, a comment rather than a question—is on the future of Qualifications Wales. You've made it clear—and I have, to date, agreed with you entirely—that Qualifications Wales's development will be on a phased basis. Ultimately, I want to see that there will be a smaller range, or less complexity, in terms of qualifications—not reduced standards but reduced duplication in the system. That means, as you have just suggested, in my view, that there is a development in Wales of some sort of Welsh context to look at all of these issues. It doesn't, in my view, mean that Qualifications Wales necessarily has to become an awarding body. We still have the WJEC, and it may be appropriate over the next year or two—and in the next Assembly—that we should look at the WJEC and its work, in order to see how the WJEC and Qualifications Wales can collaborate in this area, before making any decision on turning Qualifications Wales into an awarding body as well as a regulator.

Deputy Presiding Officer, can I thank Simon Thomas for those comments and questions? He is right to talk about—and I suppose this is one of the underlying motivations for moving towards an independent body—the marketisation of qualifications, which is something that I think we should all approach with some unease. There is a conflict of interest if you are really trying to promote the rigour of a qualification alongside trying to flog that qualification to as many candidates as possible in a competitive market. The potential conflict of interest is obvious in that regard. Young people in Wales—those seeking vocational and academic qualifications in Wales—from now on will not have that shadow hanging over them. There will be no question that the key purpose of Qualifications Wales is to uphold rigour and, as Simon Thomas has mentioned, also to work to promote the reputation of Welsh qualifications throughout Wales and beyond. A case in point is that response of Cambridge university, I think, to the dialogue between my officials and their admissions staff. That dialogue was rigorous, quite intensive and went on for quite some while. But it was aimed, amongst other things, at ensuring that the reality behind the Welsh Baccalaureate was fully grasped by that very prestigious university. Of course, we see the response. Now, I would expect that kind of work in terms of making sure that the qualifications passports that we hand our young people—or that they earn—in coming years, are seen as bullet-proof and as very high-quality passports that enable our young people to go where they may across the world without anyone gainsaying the quality of the qualifications that they have won. International benchmarking will, of course, be a part of the day-to-day business of how Qualifications Wales will conduct itself. As was discussed during scrutiny, one of the important aspects of the work of those 60 staff there at Qualifications Wales is now to become a repository of expertise in terms of what is happening across the world at the standard of the very best when it comes to the quality of qualifications, whether they be vocational or academic. We will be looking to Qualifications Wales to grow its expertise as to what is happening across the world and to deliver qualifications that stand scrutiny anywhere across the world.

Ddirprwy Lywydd, a gaf i ddiolch i Simon Thomas am y sylwadau a'r cwestiynau yna? Mae'n iawn i siarad am—ac am wn i mai dyma un o'r cymhellion sy'n sail i symud tuag at gorff annibynnol—marchnadeiddio cymwysterau, sy'n rhywbeth yr wyf yn meddwl y dylem i gyd fod ychydig yn anghyfforddus ynglŷn ag ef. Ceir gwrthdaro buddiannau os ydych wir yn ceisio hyrwyddo trylwyredd cymhwyster ochr yn ochr â cheisio gwerthu'r cymhwyster hwnnw i gynifer o ymgeiswyr â phosibl mewn marchnad gystadleuol. Mae gwrthdaro buddiannau posibl yn amlwg yn hynny o beth. O hyn ymlaen, ni fydd y cysgod hwnnw'n hongian dros bobl ifanc yng Nghymru sy'n ceisio ennill cymwysterau galwedigaethol ac academaidd yng Nghymru. Ni fydd unrhyw amheuaeth mai pwrpas allweddol Cymwysterau Cymru yw cynnal trylwyredd ac, fel y mae Simon Thomas wedi'i grybwyll, hefyd gweithio i hyrwyddo enw da cymwysterau o Gymru ledled Cymru a thu hwnt. Un enghraifft o hyn yw ymateb prifysgol Caergrawnt, rwy'n meddwl, i'r ddeialog rhwng fy swyddogion i a'u staff derbyniadau. Roedd y ddeialog honno'n drwyadl ac yn eithaf dwys, ac aeth ymlaen am gryn amser. Ond y nod, ymhlith pethau eraill, oedd sicrhau bod y brifysgol uchel iawn ei pharch honno'n deall yn llawn y gwirionedd y tu ôl i Fagloriaeth Cymru. Wrth gwrs, rydym yn gweld yr ymateb. Nawr, byddwn yn disgwyl y math hwnnw o waith o ran gwneud yn siŵr bod y pasbortau cymwysterau yr ydym yn eu rhoi i'n pobl ifanc—neu y maent yn eu hennill—yn y blynyddoedd i ddod, yn cael eu hystyried yn gwbl gadarn ac yn basbortau o ansawdd uchel iawn sy'n galluogi ein pobl ifanc i fynd i le y mynnant ledled y byd heb i neb wadu ansawdd y cymwysterau y maent wedi'u hennill. Bydd meincnodi rhyngwladol, wrth gwrs, yn rhan o'r busnes o ddydd i ddydd o sut y bydd Cymwysterau Cymru yn gweithredu. Fel y trafodwyd yn ystod craffu, un agwedd bwysig ar waith yr oddeutu 60 o staff hynny yno yn Cymwysterau Cymru nawr yw dod yn ystorfa o arbenigedd o ran yr hyn sy'n digwydd ledled y byd ar y safon uchaf yn o ran ansawdd cymwysterau, boed hynny'n alwedigaethol neu'n academaidd. Byddwn yn disgwyl i Cymwysterau Cymru dyfu eu harbenigedd o ran yr hyn sy'n digwydd ledled y byd ac i ddarparu cymwysterau a all wrthsefyll craffu yn unrhyw le ledled y byd.

I take his point around awarding bodies and the existence, of course, of the WJEC. I don't for a moment wish to envisage a future where we simply wish away the WJEC. It's an important feature of our qualifications landscape. Perhaps it's the most important feature. It also has very successful operations beyond Wales, which we would not want to compromise in any way. So, of course, the WJEC has to be a part of that conversation, moving forward, about how we become, as I say, self-sufficient in terms of awarding of qualifications within Wales. We will have to take account, to my mind, of the fact that our curriculum will be for Wales and of Wales and unique to Wales. So, we will need to be self-sufficient in terms of how examinations are delivered, and that includes awarding. We need a system that cannot, under any circumstances, let us down. I would be very nervous if one or two private organisations, if you like, in a market were supplying Wales with its qualifications. That is, inherently in my view, unstable. Organisations like that can cease to exist. They can get into bother. They can become unstable—whatever. I'm not suggesting the WJEC is quite like that because it does have a unique status. It is not a private company as such. But we do need to figure out how we move to something that is a permanent feature of the Welsh examinations landscape and is completely stable under all conceivable circumstances going into the future, because no-one is going to do this for us. Wales has to shift for itself.

Rwyf yn derbyn ei bwynt ynglŷn â chyrrff dyfarnu a bodolaeth, wrth gwrs, CBAC. Nid wyf am eiliad yn dymuno rhagweld dyfodol lle yr ydym yn syml yn dymuno cael gwared ar CBAC. Mae'n nodwedd bwysig o'n tirwedd cymwysterau. Efallai mai dyna'r nodwedd bwysicaf. Mae ganddo hefyd weithrediadau llwyddiannus iawn y tu hwnt i Gymru, ac ni fyddem am beryglu'r rheini mewn unrhyw ffordd. Felly, wrth gwrs, mae'n rhaid i CBAC fod yn rhan o'r sgwrs honno, wrth symud ymlaen, am y ffordd yr ydym yn dod, fel y dywedais, yn hunangynhaliol o ran dyfarnu cymwysterau yng Nghymru. Bydd yn rhaid inni ystyried, yn fy marn i, y ffaith y bydd ein cwricwlwm ar gyfer Cymru ac o Gymru ac yn unigryw i Gymru. Felly, bydd angen inni fod yn hunangynhaliol o ran sut y caiff arholiadau eu darparu, ac mae hynny'n cynnwys dyfarnu. Mae arnom angen system na all, dan unrhyw amgylchiadau, ein siomi. Byddwn yn nerfus iawn pe byddai un neu ddau o sefydliadau preifat, os mynnwch chi, mewn marchnad yn cyflenwi cymwysterau i Gymru. Mae hynny, yn ei hanfod yn fy marn i, yn ansefydlog. Gall sefydliadau felly ddod i ben. Gallant fynd i drafferthion. Gallant fynd yn ansefydlog—beth bynnag. Dydw i ddim yn awgrymu bod CBAC yn union fel yna oherwydd mae ganddo statws unigryw. Nid yw'n gwmni preifat fel y cyfryw. Ond mae angen inni benderfynu sut i symud at rywbeth sy'n nodwedd barhaol o dirwedd arholiadau Cymru ac sy'n gwbl sefydlog o dan yr holl amgylchiadau posibl wrth fynd ymlaen i'r dyfodol, oherwydd nid oes unrhyw un yn mynd i wneud hyn drosom. Mae'n rhaid i Gymru weithredu drosti ei hun.

15:54

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i hefyd ddweud ein bod ni'n nodi'r achlysur arbennig yma heddiw, wrth inni symud ymlaen ym myd addysg yng Nghymru? Rwy'n meddwl bod y mwyafrif ohonom yn y Siambr yma, rwy'n credu, o'r farn, hwyrach, nad yw creu marchnad ymhlith y cyrrff arholi wedi creu sefyllfa iach yn y pen draw. Ond, rwy'n cytuno gyda Simon Thomas, ac nid wyf i'n argyhoeddedig ar hyn o bryd mai'r cam nesaf ymlaen yw cael gwared ar CBAC. Rwy'n meddwl bod angen inni feddwl yn gadarn iawn ynghylch sut yr ydym ni'n mynd i fynd ymlaen â'r drafodaeth yma dros y flwyddyn nesaf, achos rwy'n meddwl bod yr holl graffu a gafodd ei wneud—rwy'n meddwl bod eich datganiad chi heddiw yn cydnabod hynny—wedi creu sefyllfa lle mae gennym ni well gyfundrefn heddiw na beth oedd gennym ni pan ddechreuwyd y drafodaeth yma gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Rwyf wedi darganfod y llythyr grant ar wefan y Llywodraeth, ond nid ydy'r fframwaith—rwy'n cytuno ag Angela Burns—ar gael. Felly, os ydych chi mewn sefyllfa i ryddhau hynny, mi fuasai hynny'n dderbyniol iawn.

A gaf i ofyn hyn i chi? Rydych chi wedi dweud mai rhan o waith pob dydd y corff newydd yma fydd creu hyder, ar draws Prydain ac yn rhanbarthol, yn y cymwysterau newydd sy'n cael eu creu, ond rwyf eisiau deall yn union sut mae'r strategaeth gyfathrebu, sydd wedi cael ei dechrau gan y Llywodraeth wrth iddyn nhw drosglwyddo cyfrifoldeb i Gymwysterau Cymru—. A fydd Cymwysterau Cymru'n parhau efo'r strategaeth yna, ac a fydd yna ryw fath o adolygiad o'r ffordd y mae'r strategaeth wedi gweithio tra bu'r Llywodraeth wedi bod yn gyfrifol amdani?

May I also say that we note this special occasion as we move forward in the education world in Wales? I think that the majority of us in this Chamber, I think, believe that creating this market within examination bodies hasn't created a healthy situation ultimately. But, I agree with Simon Thomas, and I am not convinced at the moment that the next step forward is to get rid of the WJEC. I think that we need to think robustly about how we are going to continue with this discussion over the next year, because I think that the scrutiny that was undertaken—I think your statement today acknowledges that—means that we have a better system today than we had when this discussion was begun by the Children, Young People and Education Committee.

I have discovered the grant letter on the Government's website, but the framework—I agree with Angela Burns—isn't available. So, if you are in a position to release that, it would be very acceptable.

May I ask you this? You have said that part of the everyday work of this new body will be to create confidence, across Britain and regionally, in the new qualifications that are to be created, but I want to understand exactly how the communication strategy begun by the Government as they transfer responsibilities to Qualifications Wales—. Will Qualifications Wales continue with that strategy, and will there be some sort of review on how the strategy has worked during the time the Government has been responsible for it?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Hefyd, rwyf wedi nodi bod eich llythyr grant chi'n dweud bod yna gyllideb o £5.6 miliwn eleni ar gyfer y corff newydd. A fydd hynny'n gyllideb dros bum mis? Rydych chi wedi dweud heddiw mai £7.9 miliwn fydd ar gael yn flynyddol i'r corff, er, yn yr asesiad ariannol y tu cefn i'r Bil, fe amcangyfrifwyd bod y gost gychwynnol yn £9.4 miliwn, a'r gost flynyddol yn £8.2 miliwn. Felly, mae'n ymddangos bod yna ostyngiad o ryw £300,000 yn y ffigwr a roddwyd gan y Llywodraeth yn y lle cyntaf, a gostyngiad hefyd yn nifer y staff, achos, yn y Senedd yma ym mis Rhagfyr, fe ddywedoch chi fod yna 75 o staff yn mynd i gael eu cyflogi, ac eto heddiw rydych chi wedi dweud mai 60 o staff fydd ar ôl.

Yn olaf, a gaf i jest gofyn hyn? Mae'r llythyr hefyd yn dweud eich bod chi'n awyddus iawn i glywed ganddyn nhw ynglŷn â Chymraeg ail iaith, ac astudiaethau crefyddol. Wrth gofio bod y corff newydd yma'n gyfrifol am ddarparu cymwysterau newydd yn y Gymraeg a'r Saesneg, rwyf ar fin ysgrifennu atoch chi o ran methiant eleni yn y cwrs seicoleg i ddarparu gwerslyfrau ar gyfer athrawon yn y Gymraeg yr un pryd ag yn y Saesneg. Felly, nid oes yna ddim sôn am gyfrifoldeb y corff newydd i ddarparu adnodd yn y Gymraeg ar yr un pryd. A fydd hynny, o'ch rhan chi, yn fater y bydd yn rhaid iddyn nhw ei gyrraedd wrth gofio bod yna broblemau eleni? Mae'n debyg bod gan yr athrawon dasg enfawr o'u blaenau nhw hefyd wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Also, I have noted that your grant letter gives a budget of £5.6 million this year for the new body. Will it be a budget over five months? You have said today that £7.9 million will be available to the body on an annual basis, but in the financial assessment behind the Bill, the initial cost was estimated at £9.5 million, while the annual cost was estimated at £8.2 million. So, there appears to have been a reduction of about £300,000 in the figure provided by the Government in the first place, as well as a reduction in the number of staff, because, here in the Senedd, in December, you said that 75 members of staff would be employed, and yet today you have said that 60 members of staff are employed.

Finally, may I just ask this? The letter also states that you're very keen to hear from them about Welsh second language and religious studies. Given that this new body is responsible for providing new qualifications in Welsh and English, I'm about to write to you about the failure this year in the psychology course to provide Welsh-medium textbooks for teachers at the same time as English-medium textbooks. There is no mention of responsibility on the new body to provide Welsh-language resources at the same time as English resources. For your part, will that be a matter for them to address, given that there are problems this year? It seems that teachers have an enormous task before them in presenting the new curriculum.

15:58

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I thank Aled Roberts for those considered points? Yes, I don't doubt that, as we move forward, and in terms of discussing the future as regards awarding in Wales, there will be a great deal of scrutiny of the overall ambition I've laid out for Qualifications Wales to become an awarding body in time. I don't doubt that the quality of that scrutiny will be every bit as good as the scrutiny of the original legislation, and I don't doubt that I will learn something along the way. I don't pretend to have a monopoly on wisdom here, and it's certainly not my intention—and I hope I haven't given the impression—that it's my ambition to get rid of the WJEC. I think we need to envisage a landscape where we're taking the best aspects of what the WJEC has to offer, and that we're learning from them, but that we do have delivery of a truly national organisation that can rely on the security of governmental backing to ensure that there is never any instability when it comes to the awarding of qualifications. That's my contention. There's a great deal of debate to follow before we get to any kind of decision, or even before we've drawn a rough outline of what such a set-up might look like.

I will, of course, release the framework. I take that on board as a point that at least two Members have made here this afternoon. In terms of the communications strategy for this new body, well, this is an independent body. I don't doubt that there will be a corporate memory, if you like, of how the Welsh Government has conducted itself through the promotion and communication of Welsh qualifications throughout the UK and beyond. Indeed, we do have some inheritor staff joining the new organisation, but it will be for Qualifications Wales to build its expertise and find its own way. It is an independent body, and it will be for us to scrutinise them as they find their way through that and other duties.

A gaf i ddiolch i Aled Roberts am y pwyntiau ystyriol yna? Nid wyf yn amau, wrth inni symud ymlaen, ac o ran trafod y dyfodol ar gyfer dyfarnu yng Nghymru, y bydd llawer iawn o graffu ar yr uchelgais cyffredinol yr wyf wedi'i amlinellu ar gyfer Cymwysterau Cymru i ddod yn gorff dyfarnu mewn amser. Nid wyf yn amau na fydd ansawdd y craffu hwnnw lawn cystal â'r craffu ar y ddeddfwriaeth wreiddiol, ac nid wyf yn amau na wnaff ddydsu rhywbeth ar y ffordd. Nid wyf yn esgus bod gen i fonopoli ar ddoethineb yn y fan yma, ac yn sicr nid yw'n fwriad gennyf—ac rwy'n gobeithio nad wyf wedi rhoi'r argraff—fy mod yn gobeithio cael gwared ar CBAC. Rwy'n meddwl bod angen inni ragweld tirwedd lle'r ydym yn cymryd yr agweddau gorau ar yr hyn sydd gan CBAC i'w gynnis, a lle'r ydym yn dysgu oddi wrtho, ond ein bod yn cyflwyno sefydliad gwirioneddol genedlaethol sy'n gallu dibynnu ar sicrwydd cefnogaeth y Llywodraeth i sicrhau nad oes byth unrhyw ansefydlogrwydd o ran dyfarnu cymwysterau. Dyna fy nadl i. Mae 'na lawer iawn o ddadlau i ddod cyn inni gyrraedd unrhyw fath o benderfyniad, neu hyd yn oed cyn inni dynnu amlinelliad bras o sut y gallai'r fath drefniant edrych.

Byddaf, wrth gwrs, yn rhyddhau'r fframwaith. Rwyf yn derbyn hynny fel pwynt y mae o leiaf ddau Aelod wedi'i wneud yma y prynhawn yma. O ran strategaeth gyfathrebu'r corff newydd hwn, wel, mae hwn yn gorff annibynnol. Nid wyf yn amau y bydd cof corfforaethol, os mynnwch, o'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymddwyn drwy hyrwyddo cymwysterau o Gymru a chyfathrebu amdanynt ledled y DU a thu hwnt. Yn wir, mae gennym rai staff etifedd yn ymuno â'r sefydliad newydd, ond lle Cymwysterau Cymru fydd datblygu ei arbenigedd a dod o hyd i'w ffordd ei hunan. Mae'n gorff annibynnol, a'n lle ni fydd craffu arno wrth iddo ddod o hyd i'w ffordd drwy'r ddyletswydd honno ac eraill.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I take on board Aled Roberts's points about the £300,000, which is perhaps not part of the figures that were originally published. I'm afraid I'll have to write to you, Aled, with a breakdown of exactly how the expenditure has gone as compared to the original numbers, which I have to say I can't quite fully recall here on my feet this afternoon.

I think Aled Roberts raises a very important point surrounding the importance of texts and support materials, not just for Welsh as a second language, and psychology, but right across the curriculum. In fact, it was just yesterday that I tasked my officials with taking a long, hard look at the implications for this area that Donaldson now holds up to us. Again, a curriculum for Wales made in Wales is marking a departure with the national curriculum, and many of our schools use printed materials and online materials that are connected to the national curriculum of 1988, and the amendments that have happened along the way. Well, that will no longer be valid. We need to think about how we provide for our young people and our professionals, teachers and students alike—both on paper and by electronic means—the full range of support materials, texts and revision guides and so on and so forth that are available to pupils in other parts of the United Kingdom. I have a worry here, in that Wales being a very small part of the United Kingdom, we would not necessarily be able to rely upon the private sector to step up and deliver this because they see it as a profit-making venture. Of course, in England that is the case. To some extent, that's already happened in Scotland through the curriculum for excellence, but we are half the size of Scotland. So, I think we will have to think very carefully in the coming months about exactly what needs to be delivered, what advantage we can take of new technology, but also what we need to deliver in terms of good old-fashioned printed word.

Derbyniaf bwyntiau Aled Roberts am y £300,000, nad oedd o bosibl yn rhan o'r ffigurau a gyhoeddwyd yn wreiddiol. Mae arnaf ofn y bydd yn rhaid imi ysgrifennu atoch, Aled, gyda dadansoddiad o sut yn union y mae'r gwariant wedi mynd o'i gymharu â'r ffigurau gwreiddiol; mae'n rhaid imi ddweud na allaf eu cofio i gyd yma ar fy nhraed y prynhawn yma.

Rwy'n meddwl bod Aled Roberts yn codi pwynt pwysig iawn ynglŷn â phwysigrwydd testunau a deunyddiau cefnogi, nid dim ond ar gyfer Cymraeg fel ail iaith, a seicoleg, ond ar draws y cwricwlwm i gyd. Yn wir, dim ond ddoe rhoddais y dasg i fy swyddogion o edrych yn hir ac yn ofalus ar y goblygiadau i'r maes hwn y mae Donaldson nawr yn ei gynnig inni. Unwaith eto, mae cwricwlwm i Gymru wedi'i wneud yng Nghymru yn nodi gwyrriad oddi wrth y cwricwlwm cenedlaethol, ac mae llawer o'n hysgolion yn defnyddio deunyddiau printiedig a deunyddiau ar-lein sy'n gysylltiedig â chwricwlwm cenedlaethol 1988, a'r gwelliannau sydd wedi digwydd ar hyd y ffordd. Wel, ni fydd hwnnw bellach yn ddilys. Mae angen inni feddwl sut yr ydym yn darparu ar gyfer ein pobl ifanc a'n gweithwyr proffesiynol, ein hathrawon a'n myfyrwyr fel ei gilydd—ar bapur a thrwy gyfrwng electronig—ystod lawn o ddeunyddiau cefnogi, testunau a chanllawiau adolygu ac ati ac yn y blaen sydd ar gael i ddisgyblion mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Mae gen i bryder yma, gan fod Cymru'n rhan fach iawn o'r Deyrnas Unedig, na fyddem o reidrwydd yn gallu dibynnu ar y sector preifat i gamu i'r bwlch a chyflawni hyn oherwydd eu bod yn ei gweld fel menter sy'n gwneud elw. Wrth gwrs, yn Lloegr dyna sy'n digwydd. I ryw raddau, mae hynny eisoes wedi digwydd yn yr Alban drwy'r cwricwlwm rhagoriaeth, ond hanner maint yr Alban ydym ni. Felly, rwy'n credu y bydd yn rhaid inni feddwl yn ofalus iawn yn y misoedd nesaf am beth yn union sydd angen ei gyflawni, sut y gallwn fanteisio ar dechnoleg newydd, ond hefyd beth mae angen inni ei ddarparu o ran deunydd printiedig hen ffasiwn.

16:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Minister.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Weinidog.

16:03 **5. Datganiad: Cynllun Gofal Sylfaenol—Diweddariad ar ôl Blwyddyn**

Eitem 5, datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd: cynllun gofal sylfaenol—diweddariad ar ôl blwyddyn. Vaughan Gething.

5. Statement: Primary Care Plan— Y One-year Update

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 5, statement by the Deputy Minister for Health: primary care plan—one-year update. Vaughan Gething.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Primary care is at the heart of our national health service. It is where the vast majority of people receive their care and where tens of thousands of contacts with health and social care professionals take place every day. A strong primary care service, integrated with social care, is the basis of a prudent health and care system. We need a long-term commitment to primary care to ensure it develops and responds to local needs.

Despite the wide diversity of care provided in GP surgeries, health centres, dental practices, pharmacies, optometrists and in people's homes from community teams across Wales, we know that there is scope for more care and for more services to be provided in local communities, preventing the need for people to travel to hospital or to be admitted to a hospital bed. Our ambition is that people will receive the right care, at the right time, by the right person, as close to home as possible. That is why we are investing in primary care services in Wales.

Last summer we created a £3.5 million fund to lay the foundations for this year's much larger, and more ambitious, £40 million national primary care fund. Today, almost a year after launching our national plan for primary care, I am pleased to be able to outline some of the key achievements to date. As part of our drive to strengthen primary care and move more services out of hospitals, we have created 64 primary care clusters—they masquerade under slightly different names in different parts of Wales. But, these are groups of GP practices working together with other primary care services and professionals, including the third sector and housing, for example. They meet together to plan local services to meet the needs of their populations. In March this year, we gave £6 million directly to the clusters to invest in their local priorities for this year. In Powys, for example, the three clusters have used their share to recruit GPs, to develop online patient consultations and to improve the number of healthcare assistants available to support their care-of-the-elderly service.

As well as supporting local clusters, we are investing in a strategic programme of Pathfinder schemes, one of which has already led to the appointment of four new salaried GPs in north Wales. There are two new diagnostic and treatment centres for eye problems being set up in the Aneurin Bevan university health board area, so people with wet, age-related macular degeneration can be assessed and treated in the community. Cwm Taf health board is employing pharmacists to work more closely with communities to improve medicines management. The learning from the Pathfinder programme will, of course, be shared across Wales.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae gofal sylfaenol wrth wraidd ein gwasanaeth iechyd gwladol. Dyma lle mae'r mwyafrif helaeth o bobl yn derbyn eu gofal a lle mae degau o filoedd o gysylltiadau gyda gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynnal bob dydd. Mae gwasanaeth gofal sylfaenol cryf, integredig gyda gofal cymdeithasol, yn sail i system iechyd a gofal doeth. Mae arnom angen ymrwymiad hirdymor i ofal sylfaenol er mwyn sicrhau ei fod yn datblygu ac yn ymateb i anghenion lleol.

Er gwaethaf yr amrywiaeth eang o ofal a ddarperir mewn meddygyfeydd, canolfannau iechyd, deintyddfeydd, fferyllfeydd, optometryddion ac yng nghartrefi pobl gan dimau cymunedol ledled Cymru, rydym yn gwybod bod lle i fwy o ofal ac i fwy o wasanaethau gael eu darparu mewn cymunedau lleol, gan atal yr angen i bobl deithio i'r ysbyty neu gael eu derbyn i wely mewn ysbyty. Ein huchelgais yw y bydd pobl yn cael y gofal iawn, ar yr adeg iawn, gan yr unigolyn iawn, mor agos i'w cartrefi â phosibl. Dyna pam yr ydym yn buddsoddi mewn gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru.

Yr haf diwethaf, crëwyd cronfa £ 3.5 miliwn gennym i osod y sylfeini ar gyfer cronfa gofal genedlaethol sylfaenol gwerth £40 miliwn, sy'n llawer mwy, ac yn fwy uchelgeisiol eleni. Heddiw, bron i flwyddyn ar ôl lansio ein cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol, rwyf yn falch o allu amlinellu rhai o'r llwyddiannau allweddol hyd yn hyn. Yn rhan o'n hymgyrch i gryfhau gofal sylfaenol a symud mwy o wasanaethau allan o ysbytai, rydym wedi creu 64 o glystyrau gofal sylfaenol—mae eu henwau yn gallu amrywio rhywfaint mewn gwahanol rannau o Gymru. Ond, grwpiau o feddygyfeydd meddygon teulu ydynt, sy'n cydweithio â gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol eraill, gan gynnwys y trydydd sector a sefydliadau tai, er enghraifft. Maent yn cyfarfod â'i gilydd i gynllunio gwasanaethau lleol i ddiwallu anghenion eu poblogaethau. Ym mis Mawrth eleni, rhoesom £6 miliwn yn uniongyrchol i'r clystyrau i fuddsoddi yn eu blaenoriaethau lleol ar gyfer eleni. Ym Mhowys, er enghraifft, mae'r tri chlwstwr wedi defnyddio eu cyfran nhw i recriwtio meddygon teulu, er mwyn datblygu ymgynghoriadau cleifion ar-lein ac i wella nifer y cynorthwyyr gofal iechyd sydd ar gael i gefnogi eu gwasanaeth gofal yr henoed.

Yn ogystal â chefnogi clystyrau lleol, rydym yn buddsoddi mewn rhaglen strategol o gynlluniau Braenaru, ac mae un ohonynt eisoes wedi arwain at benodi pedwar o feddygon teulu cyflogedig newydd yn y gogledd. Mae dwy ganolfan diagnostig a thriniaeth newydd ar gyfer problemau'r llygaid yn cael eu sefydlu yn ardal bwrdd iechyd prifysgol Aneurin Bevan, fel y gall pobl sydd â dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig ag oedran gael eu hasesu a'u trin yn y gymuned. Mae bwrdd iechyd Cwm Taf yn cyflogi fferyllwyr i weithio'n agosach gyda chymunedau i wella rheolaeth meddyginiaethau. Bydd yr hyn a ddysgir o'r rhaglen Braenaru, wrth gwrs, yn cael ei rannu ledled Cymru.

Improving access to and the quality of primary care services is driving how health boards are using their share of the £40 million national primary care fund. Cardiff and Vale university health board, with its clusters, is investing in access to 24/7 care by developing community resource teams to deliver care at night and at weekends. This will help to prevent people being admitted to hospital unnecessarily. Hywel Dda university health board is increasing the capacity and the skills of its primary care workforce, including, for example, training pharmacists to prescribe. And, it is proactively engaging with the public about how to access the right care at the right time. In Powys, the clusters in the mid and north of the county have rolled out the award-winning virtual ward service.

We are supporting Aneurin Bevan and Cwm Taf university health boards to provide generally proactive primary care to help tackle the inverse care law, which continues and persists in our most deprived communities. Members in this Chamber will of course know the inverse care law, first described by Julian Tudor Hart, which confirms that people with the most need tend to have the poorest access to services and the poorest health outcomes.

Aneurin Bevan university health board's Living Well, Living Longer programme last year identified more than 220 people at risk of heart disease, who were referred to their GP for further investigation and risk management. In neighbouring Cwm Taf, targeted work with eight GP practices saw more than 600 people attend a first assessment and receive lifestyle advice between January and March this year. That scheme has resulted in people being diagnosed and starting treatment for high blood pressure, type 2 diabetes and hyperlipidaemia.

We've taken national action to use modern technology to improve access. My Health Online, which allows people to book GP appointments and order repeat prescriptions, is being improved. GP practices are introducing text messages as reminders about appointments, which will help to reduce did-not-attend rates, making it easier for people to make an appointment to see a primary care clinician. We have negotiated a new two-year GP contract with the General Practitioners Committee Wales, which reduces red tape and frees up GPs and other healthcare professionals to focus on delivering patient care. And, the first set of national quality and delivery measures for primary care have been agreed. All health boards will publish their performance against these measures to help drive continuous improvement.

Gwella mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol a'u hansawdd sy'n sbarduno sut mae byrddau iechyd yn defnyddio eu cyfran o'r gronfa gofal sylfaenol cenedlaethol £40 miliwn. Mae bwrdd iechyd prifysgol Caerdydd a'r Fro, gyda'i glystyrau ef, yn buddsoddi mewn mynediad at ofal 24/7 drwy ddatblygu timau adnoddau cymunedol i ddarparu gofal yn ystod y nos ac ar benwythnosau. Bydd hyn yn helpu i atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ystyby yn ddiangen. Mae bwrdd iechyd prifysgol Hywel Dda yn cynyddu niferoedd a sgiliau ei weithlu gofal sylfaenol, gan gynnwys, er enghraifft, hyfforddi fferyllwyr i ragnodi. Ac, mae'n ymgysylltu'n rhagweithiol gyda'r cyhoedd ynghylch sut i gael gafael ar y gofal iawn ar yr adeg iawn. Ym Mhowys, mae'r clystyrau yng nghanol a gogledd y sir wedi cyflwyno gwasanaeth ward rithwir sydd wedi ennill gwobrau.

Rydym yn cefnogi byrddau iechyd prifysgol Aneurin Bevan a Chwm Taf i ddarparu gofal sylfaenol rhagweithiol cyffredinol i helpu i fynd i'r afael â'r ddeddf gofal wrthgyfartal, sy'n dal ati ac yn parhau yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Bydd aelodau'r Siambr hon, wrth gwrs, yn gyfarwydd â'r ddeddf gofal wrthgyfartal, a ddisgrifiwyd yn gyntaf gan Julian Tudor Hart, sy'n cadarnhau bod pobl sydd fwyaf mewn angen yn tueddu i gael y mynediad gwaethaf i wasanaethau a'r canlyniadau iechyd gwaelaf.

Y llynedd, canfu rhaglen Byw Yn Iachus, Byw Am Hirach bwrdd iechyd prifysgol Aneurin Bevan fod dros 220 o bobl mewn perygl o gael clefyd y galon, a chawsant eu cyfeirio at eu meddyg teulu ar gyfer ymchwiliad pellach a rheoli risg. Yng Nghwm Taf cyfagos, roedd gwaith wedi'i dargedu gydag wyth meddygfa wedi gweld mwy na 600 o bobl wedi cael asesiad cyntaf ac yn derbyn cyngor ar eu ffordd o fyw rhwng mis Ionawr a mis Mawrth eleni. Mae'r cynllun hwnnw wedi arwain at bobl yn cael diagnosis ac yn dechrau triniaeth ar gyfer pwysedd gwaed uchel, diabetes math 2 a hyperlipidaemia.

Rydym wedi cymryd camau cenedlaethol i ddefnyddio technoleg fodern i wella mynediad. Mae Fy Iechyd Ar-lein, sy'n galluogi pobl i drefnu apwyntiadau meddygon teulu ac archebu presgripsiynau amlroddadwy, wrthi'n cael ei wella. Mae practisiau meddygon teulu yn cyflwyno negeseuon testun fel modd o atgoffa pobl am apwyntiadau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl nad ydynt yn mynd i apwyntiadau, ac a fydd yn hwyluso eu gallu i wneud apwyntiad i weld clinigydd gofal sylfaenol. Rydym wedi trafod contract meddygon teulu dwy flynedd newydd gyda Phwyllgor Meddygon Teulu Cymru, sy'n lleihau biwrocratiaeth ac yn rhyddhau amser meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd amfesiynol eraill i ganolbwyntio ar ddarparu gofal i gleifion. Cytunwyd ar y gyfres gyntaf o fesurau ansawdd a darpariaeth cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol. Bydd pob bwrdd iechyd yn cyhoeddi eu perfformiad yn erbyn y mesurau hyn er mwyn helpu i ysgogi gwelliant parhaus.

Our greatest asset in the health service is the workforce. That is particularly true in primary care. If we are to achieve our ambition of primary care being the engine of the health service in Wales, we must have a skilled primary care workforce. We must also be able to draw on the experience of the wider primary care team, rather than relying solely on our GP colleagues. In July, we launched our national primary care workforce plan. That sets out a number of very specific short and medium-term actions to develop and diversify the workforce, including addressing some of the immediate challenges facing GP and nurse recruitment and retention. This year, we will invest a further £3.5 million to diversify and expand the skills of our primary workforce team.

There are examples throughout Wales of this in practice. In the Amman valley, a partnership has been set up with the merger of three small GP practices and many patient consultations are now with a nurse practitioner, pharmacist or advanced paramedic. That frees up the GPs' time so they can deal with more complex cases. In Cardiff and the Vale of Glamorgan, a dedicated nurse-led continence service has been set up, releasing district nurses to focus on housebound patients, especially those who are frail and elderly or who need end-of-life care. And, in north Wales, advanced musculoskeletal physiotherapy practitioners now work across a number of GP practices. We understand around a third of GP appointments are about musculoskeletal problems. This has released GPs to concentrate on patients with other and more complex chronic conditions.

I am very pleased that Dr Richard Lewis, previously the Welsh secretary of the British Medical Association, will become Wales's first national primary care professional lead. He will help to drive and oversee progress against the primary care and workforce plans when he takes up the post this October.

The development of primary care clusters so they can plan prudent services for local populations and pull more care out of hospitals remains one of our main priorities. Health boards will support their clusters to draw in more local sources of help and to take on more responsibility, including, for example, spending on prescribing. Where clusters can make savings through better prescribing and making more use of appropriate alternatives, I am keen that they should be able to reinvest those savings in their local plans and priorities for improving primary care and the health and wellbeing of their communities.

Our ambition is for primary care to be the mainstay of healthcare in Wales; to tackle the causes of ill health; to prevent people being admitted to hospital unnecessarily; to help those who have been admitted to get home quickly with the right support; and to motivate and support people with chronic conditions to better manage their health at home. A year after launching our national primary care plan, we have achieved a great deal. However, we recognise there is still much more that needs to be done.

Ein hased mwyaf yn y gwasanaeth iechyd yw'r gweithlu. Mae hynny'n arbennig o wir ym maes gofal sylfaenol. Os ydym am gyflawni ein huchelgais i sefydlu gofal sylfaenol yn beiriant y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, mae'n rhaid i ni gael gweithlu gofal sylfaenol medrus. Rhaid i ni hefyd allu defnyddio profiad y tîm gofal sylfaenol ehangach, yn hytrach na dibynnu yn unig ar ein cydweithwyr sy'n Feddygon Teulu. Ym mis Gorffennaf, lansiwyd ein cynllun gweithlu gofal sylfaenol cenedlaethol. Mae hynny'n nodi nifer o gamau gweithredu tymor canolig a thymor byr penodol iawn i ddatblygu ac arallgyfeirio'r gweithlu, gan gynnwys mynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf cyfredol sy'n wynebu prosesau recriwtio a chadw meddygon teulu a nyrsus. Eleni, byddwn yn buddsoddi £ 3.5 miliwn arall i arallgyfeirio ac ehangu sgiliau ein tîm gweithlu sylfaenol.

Mae enghreifftiau o hyn ar waith ledled Cymru. Yn nyffryn Aman, sefydlwyd partneriaeth sy'n uno tri phractis meddygon teulu bach ac mae llawer o ymgynghoriadau cleifion bellach yn cynnwys ymarferydd nyrsio, fferylllydd neu barafeddyg uwch. Mae hynny yn rhyddhau amser y meddygon teulu fel y gallant ymdrin ag achosion mwy cymhleth. Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, mae gwasanaeth ymataliaeth dan arweiniad nyrsys penodedig wedi cael ei sefydlu, sy'n rhyddhau amser nyrsys ardal i ganolbwyntio ar gleifion sy'n gaeth i'w cartrefi, yn enwedig y rhai sy'n fregus ac yn hen, neu sydd angen gofal diwedd oes. Ac, yn y Gogledd, mae ymarferwyr ffsiotherapi cyhyrsgerbydol datblygedig yn awr yn gweithio ar draws nifer o bractisau meddygon teulu. Rydym yn deall bod tua thraean o apwyntiadau meddygon teulu yn ymwneud â phroblemau cyhyrsgerbydol. Mae hyn wedi rhyddhau meddygon teulu i ganolbwyntio ar gleifion sydd â chyflyrau cronig eraill a mwy cymhleth.

Rwyf yn falch iawn y bydd Dr Richard Lewis, a oedd gynt yn ysgrifennydd Cymru o Gymdeithas Feddygol Prydain, yn dod yn arweinydd gofal sylfaenol cenedlaethol proffesiynol cyntaf Cymru. Bydd ef yn helpu i ysgogi a goruchwylio'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau gofal sylfaenol a'r gweithlu pan fydd yn dechrau yn y swydd ym mis Hydref.

Mae datblygu dystyrau gofal sylfaenol fel y gallant gynllunio gwasanaethau darbodus ar gyfer poblogaethau lleol a thynnu mwy o ofal allan o ysbytai yn parhau i fod yn un o'n prif flaenoriaethau. Bydd byrddau iechyd yn cefnogi eu dystyrau i ddenu mwy o gymorth o ffynonellau lleol a chymryd mwy o gyfrifoldeb, gan gynnwys, er enghraifft, gwariant ar ragnodi. Lle y gall dystyrau wneud arbedion drwy ragnodi gwell a gwneud mwy o ddefnydd o ddewisiadau amgen priodol, rwyf yn awyddus y dylent allu ail-fuddsoddi'r arbedion hynny yn eu cynlluniau a'u blaenoriaethau lleol ar gyfer gwella gofal sylfaenol ac iechyd a lles eu cymunedau lleol.

Ein huchelgais yw sefydlu gofal sylfaenol yn brif ofal iechyd yng Nghymru; mynd i'r afael ag achosion afiechyd; atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen; helpu'r rhai sydd wedi cael eu derbyn i fynd adref yn gyflym, gyda'r gefnogaeth iawn; ac ysgogi a chefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig i reoli eu hiechyd yn well yn eu cartrefi. Flwyddyn ar ôl lansio ein cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol, rydym wedi cyflawni llawer iawn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud llawer mwy eto.

Thank you, Deputy Minister, for your statement. I am pleased that some progress is being made, and you're quite right that things are inching in the right direction, but, of course, the pace is not nearly quick enough, particularly for those parts of the country where the GP crisis is beginning to loom. I note that you're making this statement on the very same day that the vice-chair of the local medical committee in north Wales has warned that they are just three years from collapse in terms of the GP situation in north Wales—and these are her words, not mine—and that half of the surgeries in the region are at risk of closure. So, quite clearly, much more action needs to be taken.

I'm very pleased to note the development of clusters and that that is continuing apace. I think that that is the right way forward, and I think, certainly, for practices to be able to share their human and other resources is a very, very positive development. I wonder, Minister, whether you'll be able to tell us exactly what the shape of those clusters are in every part of Wales, so that patients can actually see which GP practices are being clustered together.

I'm pleased also to see that there is innovation in the way that other healthcare professionals are now being used within the GP practice workforce. I note the reference to physiotherapy practitioners, for example, in north Wales and, of course, to nurse-prescribers in other GP practices, and I wonder, Minister, whether you'll be able to publish the precise numbers of practices with access to those facilities in the future.

I also notice, Minister, that, of course, many people have alluded to the pressures on primary care, perhaps coming from the very long waiting times for some treatment in the national health service. Of course, when people are on a waiting list for a complaint, waiting for an operation, perhaps, or treatment, they're far more likely, then, to present at their local GP surgery because of a potential complication arising as a result of their wait. I wonder to what extent you've considered that in the way that you're approaching the management of primary care in the future.

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Rwyf yn falch bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud, ac rydych yn llygad eich lle bod pethau'n symud yn raddol i'r cyfeiriad iawn, ond, wrth gwrs, nid yw'r cyflymder yn hanner digon, yn enwedig ar gyfer y rhannau hynny o'r wlad lle mae'r argyfwng meddygon teulu yn dechrau dod i'r golwg. Sylwaf eich bod yn gwneud y datganiad hwn ar yr union ddiwrnod y mae is-gadeirydd y pwyllgor meddygol lleol yn y gogledd wedi rhybuddio y bydd sefyllfa meddygon teulu yn y gogledd yn mynd i'r wal o fewn dim ond tair blynedd—a dyma ei geiriau hi, nid fy ngeiriau i—a bod hanner y meddygfeydd yn y rhanbarth mewn perygl o gau. Felly, yn ddigon amlwg, mae angen gwneud mwy.

Rwyf yn falch iawn o nodi datblygiad clystyrau a bod hynny yn parhau ar frys. Rwyf yn meddwl mai dyna'r ffordd iawn ymlaen, ac rwyf yn meddwl, yn sicr, bod galluogi meddygfeydd i rannu eu hadnoddau dynol ac adnoddau eraill yn ddatblygiad cadarnhaol iawn. Tybed, Weinidog, a fyddwch yn gallu dweud wrthym yn union beth yw siâp y clystyrau hynny ym mhob rhan o Gymru, fel y gall cleifion weld mewn gwirionedd pa bractisau meddygon teulu sy'n cael eu clystyru gyda'i gilydd.

Rwyf yn falch hefyd o weld bod arloesedd yn y ffordd y mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill bellach yn cael eu defnyddio o fewn y gweithlu practis meddyg teulu. Nodaf y cyfeiriad at ymarferwyr ffisiotherapi, er enghraifft, yn y gogledd ac, wrth gwrs, i nyrs-ragnodwyr mewn practisiau meddygon teulu eraill. Tybed, Weinidog, a fyddwch yn gallu cyhoeddi union nifer y meddygfeydd sydd â mynediad i'r cyfleusterau hynny yn y dyfodol.

Rwyf hefyd yn sylwi, Weinidog, fod llawer o bobl, wrth gwrs, wedi cyfeirio at y pwysau sydd ar ofal sylfaenol, efallai oherwydd yr amseroedd aros hir iawn i ambell driniaeth yn y gwasanaeth iechyd gwladol. Wrth gwrs, pan fydd pobl ar restr aros ar gyfer cwyn, yn aros am lawdriniaeth, efallai, neu driniaeth, maen nhw'n llawer mwy tebygol, felly, i fynd i'w meddygfa leol oherwydd cymhlethdod posibl sy'n codi o ganlyniad i'w haros. Tybed i ba raddau yr ydych wedi ystyried hynny o ran y ffordd yr ydych yn mynd i'r afael â'r gwaith o reoli gofal sylfaenol yn y dyfodol.

You're quite right to refer to the need for patients to choose well in terms of the healthcare provider that they look to when they have an unscheduled care need, but you'll also be familiar with the fact that, when minor injuries units are being closed, particularly across north Wales and mid and west Wales, people don't often have a choice about where they can present themselves, particularly if their GP surgery is jam-packed and they can't get a timely appointment when they actually need one. I was pleased to note that the roll-out of My Health Online is continuing as well; I think that's, again, a positive development, but you haven't been able to tell us what proportion of practices are offering online booking facilities at the moment, or indeed what proportion of practices are offering prescription services online. And, of course, we know that those are two components of the My Health Online system which are not required to be implemented under the new GP contract, and I think it's a regrettable step, actually, that that hasn't been included, because I think lots of patients would benefit from being able to book an appointment in the evenings, for example, if they're at work during the day.

You've also made no reference—or no detailed reference, anyway—to the availability of appointments during the evenings and at weekends, which was a firm manifesto commitment by your Government. I know that those weekend appointments are not available—certainly not anywhere in my locality for my constituents, and I suspect that that is the case for many other people as well. And I wonder again whether you can tell us the precise numbers of practices—not clusters, the precise numbers of practices—actually offering weekend appointments and appointments after 6.30 p.m. These were commitments that your Labour Government made prior to the election, and I want to see you held to account for their implementation.

You've mentioned or revealed the fact that struggling practices will be able to approach their health boards in the future for support on a case-by-case basis if they are having difficulties in maintaining a service in a locality. Again, I think that there's some merit in what has been proposed. But, of course, you haven't told us how you're going to distribute the £40 million extra funding that is attached to that for the development of primary care in each area. And I am concerned that that distribution may not be on the local needs basis and that it might be on more of a population basis, and that, therefore, those areas that might be having more difficulty recruiting, for example, or sustaining a service are not those areas where the cash will be focused. Perhaps, Minister, if you can tell us how that cash is going to be distributed, you'll be able to put my fears to rest.

Rydych chi'n hollol iawn i gyfeirio at yr angen i gleifion wneud dewisiadau doeth wrth edrych am ddarparwr gofal iechyd pan fydd arnynt angen gofal heb ei drefnu. Ond byddwch hefyd yn gyfarwydd â'r ffaith, pan fydd unedau mân anafiadau yn cael eu cau, yn arbennig ar draws y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin, nad yw pobl yn aml yn cael dewis ynghylch ble i fynd, yn enwedig os yw eu meddygfa yn llawn i'r ymylon ac na allant gael apwyntiad mewn da bryd pan fo'i angen arnynt. Roeddwn yn falch o nodi bod y broses o gyflwyno Fy Iechyd Ar-lein hefyd yn parhau; rwyf yn credu bod hynny, unwaith eto, yn ddatblygiad cadarnhaol, ond nid ydych wedi gallu dweud wrthym pa gyfran o bractisau sy'n cynnig cyfleusterau archebu ar-lein ar hyn o bryd, neu yn wir pa gyfran o bractisau sy'n cynnig gwasanaethau presgripsiwn ar-lein. Ac, wrth gwrs, rydym yn gwybod bod y rhain yn ddwy elfen o'r system Fy Iechyd Ar-lein nad oes angen eu rhoi ar waith o dan y contract meddygon teulu newydd, ac rwyf yn credu ei fod yn gam anffodus, mewn gwirionedd, nad yw hynny wedi cael ei gynnwys, gan fy mod yn credu y byddai llawer o gleifion yn elwa o'r gallu i drefnu apwyntiad fin nos, er enghraifft, os ydyn nhw yn gweithio yn ystod y dydd.

Nid ydych wedi cyfeirio o gwbl—nac wedi gwneud unrhyw gyfeiriad manwl, beth bynnag—i'r apwyntiadau sydd ar gael fin nos ac ar benwythnosau, a oedd yn ymrwymiad manifffesto cadarn gan eich Llywodraeth chi. Gwn nad oes modd cael apwyntiadau ar benwythnosau—yn sicr yn unrhyw le yn ardal fy etholwyr i, ac rwyf yn amau bod hynny'n wir i lawer o bobl eraill hefyd. Ac rwyf yn meddwl eto tybed a oes modd ichi ddweud wrthym beth yw union nifer y practisiau—nid clystyrau, union nifer y practisiau—sydd mewn gwirionedd yn cynnig apwyntiadau ar benwythnosau ac apwyntiadau ar ôl 6:30 p.m. Roedd y rhain yn ymrwymadau a wnaeth eich Llywodraeth Lafur chi cyn yr etholiad, ac rwyf am eich gweld chi yn cael eich dal yn atebol am eu gweithredu.

Rydych chi wedi crybwyll neu ddatgelu y ffaith y bydd practisiau sy'n cael trafferth yn gallu mynd at eu byrddau iechyd yn y dyfodol i gael cymorth ar sail fesul achos os ydynt yn cael anawsterau i gynnal gwasanaeth o fewn ardal. Unwaith eto, rwyf yn meddwl bod rhywfaint o werth i'r hyn a gynigiwyd. Ond, wrth gwrs, nid ydych wedi dweud wrthym sut yr ydych yn mynd i ddosbarthu'r cyllid ychwanegol o £ 40 miliwn sydd ynghlwm i hynny ar gyfer y gwaith o ddatblygu gofal sylfaenol ym mhob ardal. Ac rwyf yn pryderu efallai nad yw'r dosbarthu yn digwydd ar sail anghenion lleol ac y gallai fod yn fwy ar sail y boblogaeth. Felly mae'n bosibl na fydd yr arian yn cael ei ganolbwyntio ar yr ardaloedd hynny sy'n cael mwy o anhawster wrth recriwtio, er enghraifft, neu wrth gynnal gwasanaeth. Efallai, os gallwch ddweud wrthym, Weinidog, sut fydd yr arian hwnnw yn cael ei ddosbarthu, byddwch yn gallu tawelu fy mhryderon.

You have alluded to the fact that there is quite a high level of 'do not attend' in our surgeries across Wales at the moment. Of course, my party has suggested that there needs to be much more emphasis on patients accepting responsibility for not attending when an appointment is made. Can I just ask, in addition to My Health Online, which you referred to in relation to that subject, what other action you are taking as a Government to support the message that patients need to be more responsible about the way that they use the national health service?

And, finally, you made no reference to GP out-of-hours services in your statement. There's a great deal of concern in many parts of Wales about the fragility of GP out-of-hours services, not least in north Wales, where we know that many people who work in the service do not feel that it is always safe. And I want to know what progress is being made in developing GP out-of-hour services in order to ensure that there are no gaps in rotas, and that patients don't suffer as a result.

16:18 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for the long list of questions, and you'll appreciate that I won't be able to answer all of those questions, otherwise I'll take up the next 20 minutes responding to you and no-one else will get to ask questions. I will deal with a range of the points that you put, though. You start off on the point about recruitment, which I'm sure will come up again in other contributions. We recognise that there is a recruitment challenge for the primary care workforce, in particular for GPs, right across the UK, and some of this is regional. Some parts of England, for example, do much, much worse than the Welsh average and other parts of England find it easier to recruit. The challenge is how we're able to adapt and to recognise how we use the resource of GPs, how we deal with the difficulties and challenges, and how we help people to do that. That's why I was pleased to make reference to the action that had already been taken in north Wales, with those four extra salaried GPs being introduced. There are more GPs being introduced across Cwm Taf and, of course, we want to see more of that. In addition, though, this is the point about the primary care team, because there is a different model that could and should be used across each of the communities in Wales. It's about making the best use of each of those different healthcare professionals—the therapists, the pharmacists and others. And I'm pleased to note that, in that respect, you support the creation of clusters. Every GP practice in Wales is part of a cluster and we're pleased to say that there aren't, therefore, GP practices that are hanging and left on their own.

The shape of those will differ, because their locality areas to plan won't be exactly uniform across Wales. We're not trying to impose a single footprint of the same either geographical size or population size. So, the shape of those will differ in different parts of Wales and the nature of the partnerships will differ as well.

Rydych wedi cyfeirio at y ffaith bod cyfradd gweddol uchel o bobl 'nad ydynt yn mynd i'w hapwyntiadau' yn ein meddygyfeydd ar draws Cymru ar hyn o bryd. Wrth gwrs, mae fy mhlaid wedi awgrymu bod angen rhoi llawer mwy o bwyslais ar gleifion yn derbyn cyfrifoldeb am beidio â mynd i apwyntiad pan fyddant yn gwneud apwyntiad. A gaf i ofyn, yn ychwanegol at Fy Iechyd Ar-lein, y gwnaethoch chi gyfeirio ato mewn cysylltiad â'r pwnc hwnnw, pa gamau eraill yr ydych yn eu cymryd fel Llywodraeth i gefnogi'r neges bod angen i gleifion fod yn fwy cyfrifol am y ffordd y maent yn defnyddio'r gwasanaeth iechyd cenedlaethol?

Ac, yn olaf, nid ydych wedi gwneud unrhyw gyfeiriad at wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yn eich datganiad. Mae llawer iawn o bryder mewn sawl rhan o Gymru am freuder gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau, yn enwedig yn y gogledd, lle y gwyddom nad yw llawer o bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn teimlo ei bod bob amser yn ddiogel. Ac rwyf am wybod pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran datblygu gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fylchau mewn rotâu, ac nad yw'r cleifion yn dioddef o ganlyniad i hyn.

Diolch i chi am y rhestr hir o gwestiynau, a byddwch yn gwerthfawrogi na allaf ateb pob un o'r cwestiynau hynny, neu fel arall byddwn yn cymryd yr ugain munud nesaf yn eich ateb chi ac ni fyddai cyfle i unrhyw un arall ofyn cwestiynau. Serch hynny, byddaf yn ymdrin ag ystod o'r pwyntiau a godwyd gennych. Rydych yn dechrau gyda'r pwynt am recriwtio, ac rwyf yn siŵr y bydd hyn yn codi eto mewn cyfraniadau eraill. Rydym yn cydnabod bod her recriwtio i'r gweithlu gofal sylfaenol, yn arbennig i'r meddygon teulu, ar hyd a lled y DU, ac mae rhywfaint o hyn yn rhanbarthol. Mae rhai rhannau o Loegr, er enghraifft, yn gwneud yn llawer, llawer gwaeth na'r cyfartaledd yng Nghymru ac mae rhannau eraill o Loegr yn cael llai o drafferth wrth recriwtio. Yr her yw sut yr ydym yn gallu addasu a chydabod sut rydym yn defnyddio'r adnodd meddygon teulu, sut yr ydym yn ymdrin â'r anawsterau a heriau, a sut yr ydym yn helpu pobl i wneud hynny. Dyna pam yr oeddwn yn falch o gyfeirio at y camau a gafodd eu cymryd eisoes yn y gogledd, wrth i bedwar o Feddygon Teulu ychwanegol gael eu cyflwyno. Mae mwy o feddygon teulu yn cael eu cyflwyno ar draws Cwm Taf ac, wrth gwrs, rydym am weld mwy o hynny. Yn ogystal â hyn, fodd bynnag, y mae'r pwynt am y tîm gofal sylfaenol, oherwydd mae model gwahanol y gellid ac y dylid ei ddefnyddio ar draws pob un o'r cymunedau yng Nghymru. Mae'n ymwneud â gwneud y defnydd gorau o bob un o'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gwahanol hynny—y therapyddion, y fferyllwyr ac eraill. Ac rwyf yn falch o nodi, yn hynny o beth, eich bod yn cefnogi creu clystyrau. Mae pob practis meddyg teulu yng Nghymru yn rhan o glwstwr, ac rydym yn falch o ddweud nad oes, felly, bractisiau meddygon teulu sy'n gwegian ac yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain.

Bydd siâp y rhain yn wahanol, gan na fydd eu meysydd ardal, sy'n cael eu cynllunio, yn unffurf ledled Cymru. Nid ydym yn ceisio gosod un ôl-troed sydd o'r un maint yn ddaearyddol neu o'r un maint o ran poblogaeth. Felly, bydd siâp y rhain yn gwahaniaethu mewn gwahanol rannau o Gymru, a bydd natur y partneriaethau yn wahanol hefyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The point about each cluster, though, is that they need to be responsive to, and help to plan for, their local health needs, and that's a conversation with other people engaged in their local area and with the health board too. For example, in some areas, there is much greater engagement already from housing and social services and the third sector. So, this is also about how we re-engineer local relationships to appreciate what each of them does. I've said before in the Chamber, as an example, that, on one of my early visits to a cluster in Swansea, the GP there recognised that, until that point, until they'd started in the cluster, with some reluctance and caution—they weren't sure what they'd get—. They recognised that there was not only an improved relationship with other GPs and sharing of the challenges they faced locally, but, actually, he properly understood the range of the challenges and the services available from social services. I think most people would have thought that GPs and social services would understand what each other did, but that hasn't always been the case. So, there's been a real benefit in the understanding of what's available and then how that resource from different parts of the whole team is used. That's why we've created the clusters, and we want to see that move forward more proactively. We'll help clusters to share information about what works as well.

You made a point about physiotherapists across north Wales as well. They've already appointed three physiotherapists to help support the 117 GP practices in north Wales, and they plan to appoint more, including some additional pharmacists to help support the team right across the north. So, it's about how we use that resource of extra physios to try and deal with need right across the north of Wales, and that must, of course, respond to the understanding, and often the planning, of what the local healthcare needs are in each particular part of north Wales.

On Choose Well, I'm pleased, again, to note that you support the Choose Well concept about encouraging people to make the best use of the healthcare resource available—so, the right care at the right time in the right place—and there is a responsibility about how we help people to make the right choice and how informed that position is. So, there is a range of points there. For example, I'm very interested in seeing the evaluation of the common ailments schemes we've been running in Cwm Taf about the use of pharmacies, because there is a much greater use and a potential for us to see how access to the healthcare system is used and how people get sent to the most appropriate part of it.

Y pwynt am bob clwstwr, fodd bynnag, yw bod angen iddynt fod yn ymatebol i'w hanghenion iechyd lleol, a helpu i gynllunio ar eu cyfer, eu hanghenion iechyd lleol. Mae honno'n sgwrs gyda phobl eraill sy'n gweithredu yn eu hardal leol ac â'r bwrdd iechyd hefyd. Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd, mae llawer mwy o ymgysylltu eisoes gan dai a gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector. Felly, mae hyn hefyd yn ymwneud â sut yr ydym yn ail-gynllunio perthnasoedd lleol i werthfawrogi beth y mae pob un ohonynt yn ei wneud. Rwyf wedi dweud o'r blaen yn y Siambr, fel enghraifft, yn ystod un o fy ymweliadau cynnar â chlwtwr yn Abertawe, bod y meddyg teulu yno yn cydnabod, tan hynny, nes iddynt ddechrau yn y clwstwr, gyda rhywfaint o amharodrwydd a rhybudd—nad oeddent yn siŵr beth yr oeddent yn mynd i'w gael—. Roeddent yn cydnabod, nid yn unig fod perthynas well gyda'r meddygon teulu a'u bod yn rhannu'r heriau lleol yr oeddent yn eu hwynebu, ond, mewn gwirionedd, roeddent yn deall yn iawn yr amrywiaeth o heriau a'r gwasanaethau a oedd ar gael o'r gwasanaethau cymdeithasol. Rwyf yn credu y byddai'r rhan fwyaf o bobl wedi meddwl y byddai meddygon teulu a gwasanaethau cymdeithasol yn deall beth oedd y naill a'r llall yn ei wneud, ond nid oedd hynny bob amser yn wir. Felly, mae mantais wirioneddol wedi bod o ran deall beth sydd ar gael ac yna sut y caiff yr adnodd hwnnw gan wahanol rannau o'r tîm cyfan ei ddefnyddio. Dyna pam rydym wedi creu clystyrau, ac rydym am weld hynny'n symud ymlaen yn fwy rhagweithiol. Byddwn yn helpu clystyrau i rannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio hefyd.

Gwnaethoch bwynt am ffisiotherapyddion ar draws y gogledd hefyd. Maent eisoes wedi penodi tri o ffisiotherapyddion i helpu i gefnogi'r 117 practis meddygon teulu yn y gogledd, ac maent yn bwriadu penodi mwy, gan gynnwys rhai fferyllwyr ychwanegol i helpu i gefnogi'r tîm ar draws y gogledd. Felly, mae'n ymwneud â sut yr ydym yn defnyddio'r adnodd hwnnw o ffisiotherapyddion ychwanegol i geisio ymdrin â'r angen ledled y gogledd, a rhaid i hynny, wrth gwrs, ymateb i'r ddealltwriaeth, ac yn aml y cynllunio, o'r anghenion gofal iechyd lleol ym mhob rhan benodol o'r gogledd.

O ran Dewis Doeth, rwyf yn falch, unwaith eto, i nodi eich bod yn cefnogi'r cysyniad yn Dewis Doeth o annog pobl i wneud y defnydd gorau o'r adnodd gofal iechyd sydd ar gael gofal iechyd—felly, y gofal cywir ar yr adeg gywir yn y lle cywir—ac mae yna gyfrifoldeb am sut rydym yn helpu pobl i wneud y dewis cywir a pha mor gytbwys yw'r sefyllfa honno. Felly, mae yno amrywiaeth o bwyntiau. Er enghraifft, mae gennyf ddiddordeb mawr mewn gweld y gwerthusiad o'r cynlluniau anhwylderau cyffredin yr ydym wedi bod yn eu cynnal yng Nghwm Taf ynghylch y defnydd o fferyllfeydd, oherwydd mae llawer mwy o ddefnydd a photensial i ni weld sut y mae mynediad i'r system gofal iechyd yn cael ei ddefnyddio a sut mae pobl yn cael eu hanfon i'r rhan fwyaf priodol o'r system.

In terms of your point about timely appointments with GPs, which you sort of repeated later on, I'm happy to confirm that one of the key figures that we had is that 79 per cent of GP practices now offer appointments after 5 o'clock every day of the week, and that's a 16 per cent increase from the start of this term, so there has been real and significant progress. But there's no complacency in the Government about the road we still need to travel to make sure that people have timely access to GP appointments when they need them. It is one of the big issues that comes out in the national survey for Wales. People are very happy with the quality of primary care, but there is sometimes a challenge about receiving an appropriate appointment.

Just on the point about funding that you made, £23 million of the £40 million fund went direct to health boards and Public Health Wales, and £6 million has gone direct to clusters to direct to local need as they identify it. So, the money's being used to try and make the best use possible, to try and respond as reflectively as possible to local need as those practitioners and professionals see it.

16:23

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y datganiad y prynhawn yma, ac rwy'n rhannu eich ymrwymiad chi, Ddirprwy Weinidog, i weld gofal sylfaenol yn rhan ganolog o wasanaeth yr NHS. Y prynhawn yma, rydych chi wedi cyflwyno i ni restr hir o enghreifftiau o'r hyn sy'n digwydd o un ardal i'r llall. Fel cynlluniau peilot unigol, mae'r cyfan yn swnio'n ddiddorol a defnyddiol iawn, ond yr hyn sy'n methu ag argyhoeddi y prynhawn yma, mae'n rhaid i mi ddweud, yw bod yna unrhyw gysondeb yn y gwasanaeth sylfaenol trwy'r wlad a bod yna unrhyw gynllunio perfformiad a buddsoddiad sydd yn gyson yn y sector sylfaenol. Os caf i dynnu eich sylw at y ffaith eich bod chi heb ateb rhai o'r cwestiynau a wnaeth Darren Millar eu codi o ran y wybodaeth ar wella perfformiad nad yw yn y datganiad yma, mae'n annerbyniol i roi datganiad ger ein bron ni sydd jest yn dweud:

'We have taken national action to use modern technology to improve access. My Health Online... allows people to book GP appointments...GP practices are introducing text messages'.

Diddorol iawn—ond gall hynny fod yn digwydd mewn un neu ddau bractis yng Nghymru, neu gall fod yn digwydd mewn 200 o bractisys. Felly, byddwn i'n dweud, Weinidog, fod angen i chi roi gwell syniad i ni, fel Aelodau'r Cynulliad, o beth yw perfformiad y gwasanaethau sylfaenol.

Efallai y gallech chi ateb y cwestiwn a ofynnodd Darren i chi, ac rwyf i'n ei ofyn i chi hefyd, felly, o ran My Health Online a'r 'access' pwysig yna i ddefnyddio o dechnoleg gwybodaeth yn y sector gofal sylfaenol. Pa ganrannau o bractisys meddygon teulu sydd nawr yn defnyddio My Health Online?

O ran eich pwynt am apwyntiadau prydlon gyda meddygon teulu, a wnaethoch chi ailadrodd i ryw raddau yn nes ymlaen, rwyf yn hapus i gadarnhau mai un o'r ffigurau allweddol a gafwyd yw bod 79 y cant o feddygfeydd bellach yn cynnig apwyntiadau ar ôl 5 o'r gloch bob diwrnod o'r wythnos, ac mae hynny'n gynydd o 16 y cant ers dechrau'r tymor hwn, felly cafwyd cynnydd gwirioneddol a sylweddol. Ond does dim hunanfodddhad yn y Llywodraeth am y ffordd y mae angen i ni ei ddilyn o hyd i wneud yn siŵr bod pobl yn cael mynediad amserol i apwyntiadau meddygon teulu pan fydd arnynt eu hangen. Mae'n un o'r materion mawr sy'n dod allan yn arolwg cenedlaethol Cymru. Mae pobl yn hapus iawn ag ansawdd y gofal sylfaenol, ond ambell waith mae trafferthion ynghylch derbyn yr apwyntiad priodol.

O ran y pwynt ynghylch cyllid a wnaethoch, aeth £23 miliwn o'r gronfa £40 miliwn yn uniongyrchol i fyrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac mae £ 6 miliwn wedi mynd yn uniongyrchol i glystyrau i'w dosbarthu yn ôl anghenion lleol wrth iddynt ganfod hynny. Felly, mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i geisio gwneud y defnydd gorau posibl, er mwyn ceisio ymateb mewn modd mor ystyriol ag y gellid i'r angen lleol fel y mae'r ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol hynny yn ei weld.

Thank you for your statement this afternoon, and I share your commitment, Deputy Minister, to see primary care becoming a central part of the NHS service. This afternoon, you presented a lengthy list of examples of what's happening from one area to another. As individual pilot schemes, they all sound very interesting and very useful indeed, but what fails to convince this afternoon, I have to say, is that there is any consistency in the primary care service throughout the country and that there is any performance and investment planning that is consistent in the primary care sector. If I could draw your attention to the fact that you didn't answer some of the questions posed by Darren Millar in terms of the information on performance improvement that isn't included in this statement, it is unacceptable to put a statement before us that simply says:

'Rydym wedi cymryd camau cenedlaethol i ddefnyddio technoleg fodern i wella mynediad. Mae Fy Iechyd Ar-lein ... yn galluogi pobl i drefnu apwyntiadau meddygon teulu ... mae practisiau meddygon teulu yn cyflwyno negeseuon testun '.

It's all very interesting, but that could be happening in one or two practices in Wales or it could be happening in 200 practices. So, I would say, Minister, that you need to give us a more comprehensive idea as Assembly Members of what the performance of the primary care service is.

Perhaps you could answer the question that Darren ask you, and which I am also asking you, in terms of My Health Online and that important access to ICT use in the primary care sector. What percentage of GP practices are now using My Health Online?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n cytuno, fel y mae Darren Millar wedi cyfeirio ato, ac fel r?ch chi wedi cyfeirio ato, am bwysigrwydd datblygiad y model o 'clusters' o feddygon teulu. Rwyf hefyd yn gweld pwysigrwydd mawr, wrth gwrs, y timau amlddisgyblaethol o fewn gofal sylfaenol, ond a gaf i ofyn ambell i gwestiwn i chi ar rai o'r gwendidau o fewn y datganiad y prynhawn yma?

R?m ni'n gwybod bod canran y gyllideb ar ofal sylfaenol mewn cymhariaeth â'r gyllideb gyfan ar yr NHS wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf yma. Sut ?ch chi'n mynd i sicrhau bod y gostyngiad yna'n dod i ben, ac, yn wir, ein bod ni'n gweld cynnydd yn y gyllideb o fewn y byrddau iechyd ar gyfer gofal sylfaenol, os ydy hynny i fod i adlewyrchu'r flaenoriaeth bolisi r?ch chi, fel Llywodraeth, yn ei rhoi i'r byrddau iechyd?

Yn eich paragraff cyntaf y prynhawn yma, r?ch chi'n sôn am y pwysigrwydd sydd yna i wasanaeth sylfaenol weithio mewn ffordd integredig gyda gofal cymdeithasol, er, nid oes llawer o gyfeiriad at sut mae'r camau hynny i sicrhau'r integreiddiad yma yn cael eu datblygu, naill ai'n strategol neu ar lawr gwlad. Felly, beth ?ch chi, fel Llywodraeth, yn ei wneud i ofyn i'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol sicrhau bod yna integreiddiad o fewn practisys meddygon teulu o weithwyr gofal cymdeithasol i weithio gyda'r timau meddygol a nyrsio, yn enwedig pan ?m ni'n sôn, wrth gwrs, am ofal henoed?

Ar goll hefyd o'ch datganiad chi'r prynhawn yma yw'r rôl bwysig yna y mae gofal sylfaenol angen ei chwarae i drin afiechyd meddwl. Mae angen fwy o fynediad at therapi a gwasanaethau therapi o fewn gofal sylfaenol yn y practisys meddygon teulu. Sut ydych chi'n bwriadu, felly, gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl o fewn gofal sylfaenol?

Yn olaf, o ran y gweithlu meddygon teulu, y doctoriaid—ac, fel r?m ni'n gyfan gwbl yn ymwybodol erbyn hyn, mae yna ganran uchel iawn sydd o fewn cyrraedd oedran ymdddeol yn y gweithlu yna—r?ch chi yn cyfeirio at eich datganiad chi'ch hunan ym mis Gorffennaf eleni ar y gweithlu gofal sylfaenol, ac mae nifer o'r elfennau a oedd yn y datganiad hwnnw'n faterion y mae Plaid Cymru'n eu cefnogi, ac, yn wir, wedi cyflwyno'r syniadau ein hunain arnynt dros y blynyddoedd diwethaf yma. Yr un pwynt, rwy'n meddwl, y mae angen ffocysu arno yw'r angen i sicrhau bod meddygon teulu'n mynd i hyfforddi yn yr ardaloedd hynny lle mae'n anodd recriwtio a chadw meddygon teulu. Rwy'n meddwl am y gorllewin gwledig, yn enwedig, a hefyd y Cymoedd. Felly, pa gamau ?ch chi'n credu sydd angen eu cymryd ymhellach nawr i sicrhau bod meddygon teulu o dan hyfforddiant yn mynd i hyfforddi yn rhai o'r llefydd lle mae'r problemau'n fwy aciwt o ran recriwtio?

I do agree, as Darren Millar has already referred, and as have you, with the importance of the development of the GP cluster model. I also see the significant importance of the multidisciplinary teams within primary care, but may I just ask a few questions on some of the weaknesses within this afternoon's statement?

We know that the percentage of the primary care budget in comparison with the entire NHS budget has been falling over the past few years. How are you going to ensure that that reduction comes to an end, and, indeed, that we actually see an increase in the health board budgets for primary care, if that is to reflect your Government's policy priority in terms of health boards?

In your first paragraph this afternoon, you mention the importance of primary care working in an integrated way with social care, but there is not much reference to how steps to ensure this integration are being developed, either strategically or on the ground. So, what are you, as a Government, doing to ask the health boards and the local authorities to ensure that there is integration within GP practices, so that social care workers work with the medical and nursing teams, particularly when we are talking about elder care, of course?

Also missing from your statement this afternoon is that important role that primary care should play in treating mental ill health. We need greater access to therapy and therapy services within primary care, in GP practices. How do you therefore intend to improve access to mental health services within the primary care sector?

Finally, in terms of the GP workforce, or the doctors—and, as we all know, a high percentage are approaching retirement age—you refer to the statement that you made in July of this year on the primary care workforce, and many of the elements of that statement are issues that Plaid Cymru would support, and, indeed, we have put forward our own ideas over the past few years in this area. I think that the one point that needs to be looked at in detail is the need to ensure that general practitioners undertake training in those areas where it is difficult to recruit and retain GPs. I am thinking about rural west Wales in particular and the Valleys areas. So, what steps do you believe need to be taken now to ensure that trainee general practitioners do train in some of the areas where the recruitment and retention problems are most acute?

Un cwestiwn olaf i orffen: 'physician associates'. Nawr, mae'n debyg bod y ddisgyblaeth newydd yma yn mynd i fod o ddefnydd hyblyg mawr o bosib yn y dyfodol i'r gwasanaeth iechyd yn gyffredinol, ond yn benodol iawn i ofal sylfaenol. Fe glywais i amdano ddoe'n gyntaf, yng nghyfarfod o'r 'mid Wales collaborative'. Felly, a ydych chi'n gallu rhoi unrhyw fath o arweiniad i ni ar sut ?ch chi, fel Llywodraeth, yn edrych i weithio gyda chynllunio gweithlu'r dyfodol yr NHS, ac edrych yn benodol ar y potensial sydd yna i ddefnyddio 'physician associates'? Nid wyf i eto wedi dod rownd i feddwl beth y gallai 'physician associates' fod yn Gymraeg.

One final question to conclude: physician associates. Now, it appears that this new discipline will be of great use in terms of future flexibility in the health service generally, but very specifically in primary care. I first heard of this yesterday in a meeting of the mid Wales collaborative. Therefore, can you give us any sort of indication as to how you, as a Government, are looking to work on future NHS workforce planning, and looking in particular at the potential that exists in using physician associates? I haven't yet come up with a Welsh term for 'physician associates'.

16:29 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you again for the list of questions. I'm pleased that you, too, recognise the central importance of primary care to the present day and the future of the national health service here in Wales. In terms of dealing with the questions, I wasn't able to deal with all of Darren Millar's questions and I won't be able to deal with all of yours, because I spent three or four minutes answering Darren Millar and, if I deal with all of the dozen questions you've asked, then, again, I'll be on my feet for the rest of the day, when I suspect there is other business that Members will want to get to.

Turning to the issue that you raise again, in terms of the take-up of My Health Online, I am pleased to say that about 60 per cent of GP practices now use My Health Online, so it is a significant part of the primary care landscape—

Diolch i chi unwaith eto am y rhestr o gwestiynau. Rwyf yn falch eich bod chi, hefyd, yn cydnabod pwysigrwydd canolog gofal sylfaenol hyd heddiw a dyfodol y gwasanaeth iechyd gwladol yma yng Nghymru. O ran ymdrin â'r cwestiynau, nid oeddwn yn gallu ymdrin â phob un o gwestiynau Darren Millar, ac ni fyddaf yn gallu ymdrin â phob un o'ch rhai chi, oherwydd treuliais dri neu bedwar munud yn ateb Darren Millar, ac, os wyf yn ymdrin â phob un o'r dwsin o gwestiynau rydych wedi eu gofyn, yna, unwaith eto, byddaf ar fy nhraed am weddill y dydd, ac rwyf yn amau bod materion eraill y bydd Aelodau eisiau rhannu.

Gan droi at y mater a godwch eto, o ran y nifer sy'n manteisio ar Fy Iechyd Ar-lein, rwyf yn falch i ddweud bod tua 60 y cant o bractisau meddygon teulu bellach yn defnyddio Fy Iechyd Ar-lein, felly mae'n rhan sylweddol o'r tirlun gofal sylfaenol—

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:30 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Did you say 16 or 60?

A wnaethoch chi ddweud 16 neu 60?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:30 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Six zero. So, the majority of practices now make use of it, and we want to see more practices take that up. Not only that, we want to see more patients actually make use of it, because once a GP practice offers it, of course, it is then offered to patients, but not everyone is necessarily engaging and making best use of the service. Perhaps some AMs might want to take a lead and engage with and use My Health Online if their practice offers it, in any event.

Chwe sero. Felly, mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd bellach yn gwneud defnydd ohono, ac rydym am weld mwy o feddygfeydd yn dewis mabwysiadu hynny. Nid yn unig hynny, rydym am weld mwy o gleifion yn gwneud gwir ddefnydd ohono, oherwydd unwaith y caiff ei gynnis gan bractis meddyg teulu, wrth gwrs, byddai'n cael ei gynnis i gleifion, ond nid yw pawb o reidrwydd yn gweithredu a gwneud y defnydd gorau o'r gwasanaeth. Efallai y gallai rhai ACau gymryd yr awenau ac ymgysylltu a defnyddio Fy Iechyd Ar-lein os yw eu practis yn ei gynnis, beth bynnag.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

You make a point about the primary care budget, and this, in many ways, comes back to why we want to keep on talking about primary care, because, on so many occasions, when we talk about health and healthcare in Wales, we end up talking about hospitals. The questions that Members ask us, whether it's to the First Minister or ourselves as well—invariably, the overwhelming majority of the questions are about hospital-based care and the pressure is always about spending more money on hospital-based care. We are making a determined effort to prioritise primary care to ensure that it's part of the debate that we have, not only every now and again, where people give it a fig leaf of attention, but to say, 'This is an area where we're investing significant Government resource, not just in terms of cash, but in terms of the time and attention we're spending and in our ambitions for the future of the healthcare system here in Wales.' Having a sustainable, high-quality service relies on more interactions taking place in primary care, and the money following that as well. It's about how we take a range of services, including current secondary care services, out of the hospital and into primary care.

For example, eye health care is a very, very good example, where people who are on a consultant waiting list who don't need to be can be properly and appropriately managed with skill and care in local opticians, or optometrists as we should all learn to say; perhaps it's a sign of how old I was when I first got my glasses. There are a range of different conditions where we're used to seeing people go to hospital: wet age-related macular degeneration, for example. When it first came up, it was to a hospital that you went for the treatment, for the injections. That service can now be provided in a community setting by nurse injectors. So, there's a range of different parts to what we need to see happen. In trying to talk simply about the budget, we need to be a little more clear about not just the budget, but about where those interactions take place and make sure that the resource is there to enable us to deliver on that ambition.

Rydych yn gwneud pwynt am y gyllideb gofal sylfaenol, ac mae hyn, mewn sawl ffordd, yn dod yn ôl at pam yr ydym yn dal i siarad am ofal sylfaenol, oherwydd, ar nifer o achlysuron, pan fyddwn yn sôn am iechyd a gofal iechyd yng Nghymru, rydym yn y pen draw yn siarad am ysbytai. Mae'r cwestiynau a ofynnir inni gan yr Aelodau, boed hynny i'r Prif Weinidog neu i ni ein hunain hefyd—, yn ddiethriad, mae'r mwyafrif llethol o'r cwestiynau yn ymwneud â gofal yn yr ysbyty ac mae'r pwysau bob amser ar wario mwy o arian ar ofal yn yr ysbyty. Rydym yn gwneud ymdrech benderfynol i flaenoriaethu gofal sylfaenol er mwyn sicrhau ei fod yn rhan o'r drafodaeth sydd gennym, nid yn unig bob hyn a hyn, lle mae pobl yn talu bron dim sylw, ond i ddweud, 'Mae hwn yn faes lle rydym yn buddsoddi adnoddau sylweddol y Llywodraeth, nid dim ond yn nhermau arian parod, ond o ran yr amser a'r sylw rydym yn ei dalu o ran ein huchelgeisiau ar gyfer dyfodol y system gofal iechyd yma yng Nghymru. Mae cael gwasanaeth cynaliadwy, o ansawdd uchel yn dibynnu ar gael fwy o ryngweithio mewn gofal sylfaenol, a'r arian sy'n dilyn hynny hefyd. Mae'n ymwneud â sut yr ydym yn cymryd amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau gofal eilaidd cyfredol, allan o'r ysbyty ac i mewn i ofal sylfaenol.

Er enghraifft, mae gofal iechyd llygaid yn enghraifft dda iawn, iawn, lle gall pobl sydd ar restr aros ymgynghorol nad oes angen iddynt fod arni, yn cael eu rheoli'n iawn ac yn briodol gyda medr a gofal yn optegwyr lleol, neu optometryddion fel y dylem ni ddysgu ei ddweud; efallai ei fod yn arwydd o ba mor hen yr oeddwn i pan gefais fy sbectol gyntaf. Mae amrywiaeth o wahanol gyflyrau lle rydym ni'n arfer gweld pobl yn mynd i'r ysbyty: dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig ag oedran, er enghraifft. Pan ddaeth i fyny am y tro cyntaf, yr arfer oedd mynd i'r ysbyty i gael triniaeth, ar gyfer y pigadau. Mae modd darparu'r gwasanaeth hwnnw bellach yn y gymuned gan nyrsys sy'n chwistrellwyr. Felly, mae amrywiaeth o wahanol rannau i'r hyn y mae angen i ni ei weld yn digwydd. Wrth geisio siarad yn syml am y gyllideb, mae angen i ni fod ychydig yn gliriach ynghylch nid yn unig y gyllideb, ond ynghylch ble y mae'r rhyngweithiadau hynny'n cael eu cynnal a sicrhau bod yr adnodd yno er mwyn ein galluogi i gyflawni'r uchelgais hwnnw.

That goes also to your point about the interaction and integration between health and social care. I know you've got a particular view on the organisation of the service. I'm interested in practical integration and how we use the ability with the new social care and wellbeing Act to ensure that we have more genuine joint work, that we look at the opportunities, not just for pooled budgets, but, actually, for pooled understandings and shared performance management objectives so that we can have people from different organisations working more closely together. A good example is in the locality next door, in the Vale of Glamorgan, where they have social workers, housing professionals and people from the NHS all together in the same contact centre, receiving referrals in from primary care and helping to direct them to the most appropriate point of access, with the third sector as well. That sort of partnership and integration has not taken a reorganisation of the structure; it's taken a reorganisation in terms of the way that people have an attitude to the way the service is run and then making sure that the money follows those people to ensure they can deliver on their shared ambitions and shared objectives. That's what we need to see an awful lot more of, that we're a lot quicker and, frankly, a lot more effective for the citizen, if we see more of that across Wales.

That's why we have a primary care plan. That's also why we have clusters to try and speed that process along. I look forward to this Assembly having more debates about what clusters are doing, to see if they're meeting—that very real progress that is made, not just down the road but in other parts of Wales as well.

On your point about the quality of primary care, I mentioned in my initial remarks the fact that there will be national quality and performance measures for primary care. So, we will be able to see what is being delivered. We'll be able to see the quality of care in a way that is useful, not simply to have a target based around time or a different way of talking about the length of time that you wait, but the quality of care, the performance of that and to understand not just the impact on the patient in terms of experience, but their outcomes, and how people are appropriately managed in primary care. That puts us in a very good place to have a more grown-up and informed debate about the work that people do in primary care. We often hear about the pressure that GPs are under, and we recognise they're incredibly busy. If we don't have different ways of looking at what they're doing and the quality of what they're doing and, at the same time, the work that other primary care professionals are taking with them, I don't think we will be able to have a sensible debate about whether we are investing the right amount of money to get the right return for primary care and the citizens that need to use it.

Mae hynny hefyd yn mynd at eich pwynt am y rhyngweithio ac integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Gwn fod gennych farn benodol ar drefniadaeth y gwasanaeth. Mae gen i ddi-ddordeb mewn integreiddio ymarferol a sut y defnyddiwn y gallu gyda'r Ddeddf gofal cymdeithasol a llesiant newydd i sicrhau bod gennym fwy o waith ar y cyd dilys, ein bod yn edrych ar y cyfleoedd, nid yn unig am gyllidebau cyfun, ond, mewn gwirionedd, am gyfuno dealltwriaethau ac amcanion rheoli perfformiad ar y cyd fel y gallwn gael pobl o wahanol sefydliadau i gydweithio'n agosach. Enghraifft dda yw'r ardal leol drws nesaf, ym Mro Morgannwg, lle mae ganddynt weithwyr cymdeithasol, gweithwyr tai proffesiynol a phobl o'r GIG i gyd gyda'i gilydd yn yr un ganolfan gyswllt, yn derbyn cyfeiriadau o ofal sylfaenol ac yn helpu i'w cyfeirio at y man mwyaf priodol o fynediad, gyda'r trydydd sector hefyd. Nid yw'r math hwnnw o bartneriaeth ac integreiddio wedi gofyn am ad-drefnu'r strwythur; mae wedi gofyn am ad-drefnu o ran agwedd pobl tuag at y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg ac yna gwneud yn siŵr bod yr arian yn dilyn y bobl hynny i sicrhau y gallant gyflawni eu huchelgais ac amcanion a rennir. Dyna beth y mae angen i ni weld llawer mwy ohono, ein bod yn llawer cyflymach ac, a dweud y gwir, yn llawer mwy effeithiol o blaid y dinesydd, os ydym yn gweld mwy o hynny ar draws Cymru.

Dyna pam mae gennym gynllun gofal sylfaenol. Dyna hefyd pam mae gennym glystyrau i geisio cyflymu'r broses honno ar ei hyd. Edrychaf ymlaen at weld y Cynulliad hwn yn cael mwy o ddadleuon am yr hyn y mae'r dystyrau yn ei wneud, i weld a ydynt yn bodloni—y cynnydd go iawn sy'n cael ei wneud, nid dim ond i lawr y ffordd, ond mewn rhannau eraill o Gymru hefyd.

O ran eich pwynt am ansawdd y gofal sylfaenol, soniais yn fy sylwadau cychwynnol am y ffaith y bydd mesurau ansawdd a pherfformiad cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol. Felly, byddwn yn gallu gweld yr hyn sy'n cael ei gyflawni. Byddwn yn gallu gweld ansawdd y gofal mewn ffordd sy'n ddefnyddiol, ac nid yn unig i gael targed sy'n seiliedig ar amser neu ffordd wahanol o siarad am faint o amser yr ydych yn aros, ond ansawdd y gofal, y perfformiad a deall nid yn unig yr effaith ar y claf o ran profiad, ond eu canlyniadau hwy, a sut mae pobl yn cael eu rheoli'n briodol mewn gofal sylfaenol. Mae hynny'n ein rhoi mewn lle da iawn i gael trafodaeth fwy aeddfed a gwybodus am y gwaith y mae pobl yn ei wneud ym maes gofal sylfaenol. Rydym yn aml yn clywed am y pwysau sydd ar feddygon teulu, ac rydym yn cydnabod eu bod yn brysur iawn. Os nad oes gennym ffyrdd gwahanol o edrych ar yr hyn maen nhw'n ei wneud ac ansawdd yr hyn maen nhw'n ei wneud ac, ar yr un pryd, y gwaith y mae gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol eraill yn cymryd gyda hwy, nid wyf yn credu y byddwn yn gallu cael dadl synhwyrol ynghylch a ydym yn buddsoddi swm cywir o arian i gael yr enillion cywir ar gyfer gofal sylfaenol a'r dinasyddion sydd angen ei ddefnyddio.

I'll finally deal with your point around mental health. I think we have a good story to tell in Wales on mental health. We've had debates in the Chamber in the past about improved access and improving the speed of time it takes. There's been a significant improvement in people having treatment within 20 days of diagnosis—that includes diagnosis through primary care. It's in stark contrast to the position in England where they've got real challenges around access to mental health services, including the initial interface in primary care. So, there is a good story to tell, in large part because of the constructive relationship we have with all partners, including the Royal College of General Practitioners and their interaction with us on training for GPs as well. We do have additional associates as part of the future going forward. I'll hopefully provide more information on that at another time.

Yn olaf rwyf am ymdrin â'ch pwynt ynghylch iechyd meddwl. Rwyf yn credu bod gennym stori dda i'w hadrodd yng Nghymru ynghylch iechyd meddwl. Rydym wedi cael dadleuon yn y Siambr yn y gorffennol am wella mynediad a gwella'r amser a gymerir. Cafwyd gwelliant sylweddol o ran pobl sy'n cael triniaeth o fewn 20 diwrnod ar ôl derbyn diagnosis—mae hynny'n cynnwys diagnosis drwy ofal sylfaenol. Mae hynny mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r sefyllfa yn Lloegr lle mae ganddyn nhw heriau gwirioneddol ynghylch mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys y rhyngwyneb cychwynnol mewn gofal sylfaenol. Felly, mae yna stori dda i'w hadrodd, i raddau helaeth oherwydd y berthynas adeiladol sydd rhyngom â'r holl bartneriaid, gan gynnwys Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol a'r rhyngweithio a fu gyda ni ar hyfforddiant i feddygon teulu hefyd. Mae gennym gymdeithion ychwanegol fel rhan o'r dyfodol wrth fynd ymlaen. Rwyf yn gobeithio rhoi mwy o wybodaeth am hynny ar adeg arall.

16:35

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I ask my questions I need to declare that my husband is a GP and a partner in a medical practice.

Can I thank you for your statement, Deputy Minister? I think that there is certainly a lot to be welcomed with the information that you've given us on the progress. Obviously, there's still much to do, but I am very, very heartened by the progress that is being made.

On the GP workforce recruitment issue, obviously, I do welcome the measures set out around stabilising the workforce; however, I am concerned that there may still be some regional disparities in recruitment. Again, I know you've touched on some of the progress there, but I want to see what more we can do to recruit GPs to work in those areas of Wales, such as my own in Cynon Valley, where they are most needed. You mentioned the inverse care law; I think it's a very relevant point that you make in your statement. Just a fortnight ago, we did have the statement from Cwm Taf Local Health Board that they're not able to recruit enough GPs to cover four out-of-hours centres. I can understand the caution that they have to take with that because of safety, but the removal of this service from, for example, Ysbyty Cwm Cynon is a concern to my constituents. I just wonder how, in particular, the Welsh Government is looking to address this shortfall in its future model for the primary care workforce in Wales.

Now, we know that part of this challenge is around deploying the expertise of other NHS professionals and signposting people to the right service. Could you provide further information, Deputy Minister, on the way in which the Choose Pharmacy initiative, which was piloted at 14 pharmacies in my constituency, has helped to reduce demand on GP services?

Cyn imi ofyn fy nghwestiynau bydd angen i mi ddatgan bod fy ngŵr yn feddyg teulu ac yn bartner mewn practis meddygol.

Hoffwn ddiolch i chi am eich datganiad, Ddirprwy Weinidog. Credaf yn siŵr fod yna lawer i'w groesawu gyda'r wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni ar y cynnydd. Yn amlwg, mae llawer i'w wneud eto, ond rwyf yn wir wedi fy nghalonogi gan y cynnydd sy'n cael ei wneud.

O ran mater recriwtio gweithlu meddygon teulu, yn amlwg, rwyf yn croesawu'r mesurau a nodir ynghylch sefydlogi'r gweithlu; fodd bynnag, rwyf yn pryderu y gall fod rhai gwahaniaethau rhanbarthol o ran recriwtio. Unwaith eto, rwyf yn gwybod eich bod wedi sôn am rywfaint o'r cynnydd yno, ond rwyf am weld beth arall y gallwn ei wneud i recriwtio meddygon teulu i weithio yn yr ardaloedd hynny o Gymru, megis fy ardal i yng Nghwm Cynon, lle y mae eu hangen fwyaf. Soniasoch am y ddeddf gofal gwrthgyfartal; rwyf yn credu ei fod yn bwynt perthnasol iawn a wnaed gennych yn eich datganiad. Dim ond bythefnos yn ôl, fe gawsom y datganiad gan Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf yn egluro nad fyddant yn gallu recriwtio digon o feddygon teulu i dalu am bedair canolfan y tu allan i oriau. Gallaf ddeall y gofal sydd rhaid iddynt ei gymryd gyda hynny oherwydd diogelwch, ond mae cael gwared ar y gwasanaeth hwn, er enghraifft, o Ysbyty Cwm Cynon, yn bryder i fy etholwyr. Rwyf yn meddwl, yn benodol, sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r diffyg hwn yn ei fodel ar gyfer y gweithlu gofal sylfaenol yng Nghymru yn y dyfodol.

Nawr, rydym yn gwybod bod rhan o'r her hon yn ymwneud â threfnu arbenigedd gweithwyr proffesiynol eraill y GIG a chyfeirio pobl at y gwasanaeth iawn. Allech chi ddarparu mwy o wybodaeth, Ddirprwy Weinidog, am y ffordd y mae'r fenter Dewis Fferyllfa, a gafodd ei threalu mewn 14 fferyllfa yn fy etholaeth, wedi helpu i leihau'r galw ar wasanaethau meddygon teulu?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Finally, the way in which health boards have used the Welsh Government's primary care fund to offer innovative community-based services or challenge health inequalities is to be welcomed—and again, for example, Cwm Taf's work around eye services—but could you tell me what plans the Welsh Government has to further develop this radical investment in community treatment? I've recently dealt with lots of constituents' concerns around waiting times for accessing ophthalmology services. What role do you think the primary care fund could take in tackling these delays and enabling Cynon Valley residents to receive the treatment that they need in an appropriate time frame? Thank you.

Yn olaf, mae'r ffordd y mae byrddau iechyd wedi defnyddio cronfa gofal sylfaenol Llywodraeth Cymru i gynnal gwasanaethau arloesol yn y gymuned neu i herio anghydraddoldebau iechyd i'w groesawu—ac eto, er enghraifft, gwaith Cwm Taf ynghylch gwasanaethau llygaid — ond a allech ddweud wrthyf pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r buddsoddiad radical hwn ymhellach mewn triniaeth gymunedol? Rydw i wedi ymdrin â llawer o bryderon gan etholwyr ynghylch amseroedd aros ar gyfer cael mynediad at wasanaethau offthalmoleg yn ddiweddar. Pa swyddogaeth ydych chi'n meddwl y gallai'r gronfa gofal sylfaenol ei chymryd wrth fynd i'r afael â'r oedi hwn a galluogi trigolion Cwm Cynon i gael y driniaeth sydd ei hangen arnynt o fewn ffrâm amser briodol? Diolch yn fawr.

16:38

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for those questions. Again, as I expected, GP recruitment is a significant challenge that Members will want to raise. It's not simply a challenge for parts of rural Wales. There are significant spots around Wales where there is a difficulty about getting more GPs to work to meet the right number. But we have actually got more GPs than ever before working across the NHS in Wales. In fact, as many as 80 per cent of those working in the Welsh NHS today will still be here in 10 years' time. So, many of the people already here will still be here, delivering services and care in the future. Our challenge is how we not just recognise where there are shortages, but what we do about them. The points about having some salaried GPs are part of the answer. It is also about how we make Wales a more attractive place to work and to live. Some of that is about sustaining GP practices that exist already; some of it is about new models of care, because there is, if you like, a generational difference between the way that some older GPs want to carry on working and the way that newer entrants to GPs perhaps don't want to buy into a building as part of being in a traditional practice. So, the model of care has changed from the GPs' perspective, not simply the public.

Diolch i chi am y cwestiynau hynny. Unwaith eto, fel yr oeddwn yn ei ddisgwyl, mae recriwtio meddygon teulu yn her sylweddol y bydd Aelodau yn dymuno ei godi. Nid mater sy'n unigryw i rannau o Gymru wledig ydyw. Mae manau sylweddol o amgylch Cymru lle y ceir anawsterau o ran cael mwy o feddygon teulu i weithio i gyrraedd y nifer gywir. Ond rydym mewn gwirionedd wedi cael mwy o feddygon teulu nag erioed o'r blaen yn gweithio ledled y GIG yng Nghymru. Yn wir, bydd cymaint â 80 y cant o'r rhai sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru heddiw yn dal i fod yma ymhen 10 mlynedd. Felly, bydd llawer o'r bobl sydd eisoes yma yn dal i fod yma, yn cyflwyno gwasanaethau a gofal yn y dyfodol. Ein her yw nid yn unig sut rydym yn cydnabod lle mae prinderau, ond yr hyn rydym yn ei wneud amdanynt. Mae'r pwyntiau am gael rhai meddygon teulu cyflogedig yn rhan o'r ateb. Mae hefyd yn ymwneud â sut rydym yn gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i weithio ac i fyw. Mae rhan o hynny yn ymwneud â chynnal bractisau meddygon teulu sydd eisoes yn bodoli. Mae peth ohono yn ymwneud â modelau gofal newydd, oherwydd mae yna, os mynnwch, wahaniaeth cenedlaethau rhwng y ffordd y mae rhai meddygon teulu hŷn eisiau parhau i weithio a'r ffordd nad yw meddygon teulu newydd efallai yn dymuno prynu i mewn i adeilad fel rhan o fod mewn practis traddodiadol. Felly, mae'r model gofal wedi newid o safbwynt y meddygon teulu, ac nid yn unig i'r cyhoedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

So, we do understand that, but I think the reason why there's some more cause for optimism is that we have constructive relationships with the GP workforce here already, and there's some recognition about the need to change and about the need for their time to be used more effectively. I said earlier that they regularly tell us about the pressure they're under and how hard they work. Some of this has to be about making sure that they're not seeing people that they don't need to and that they spend more time with the right patients to use their own expertise. It goes well into the final point that you made around the Choose Pharmacy campaign, because we do need to see more people making use of different services. We need to help them to choose well. That may well be about the way that primary care practices are structured—so, about the use of nurses, the use of therapists and the pharmacists as well. I've always been particularly keen on a greater role for community pharmacies, and the Pathfinder model that's taking place within your constituency and within the Cwm Taf area. I'm looking forward to the evaluation that will take place in October and seeing what it tells us. My understanding is that it will tell us some positive messages about diverting demand appropriately, so that people aren't being given second-class care, they are not being given care to save money, but they are being given more appropriate care and easier access to that care. So, when we have the full evaluation, we will then see what lessons we learn and how those lessons are spread across Wales.

I will deal with the point about ophthalmology as well, because it's a really good example of where we do need to make better use of the quality—and it's high quality—of care that optometrists deliver in almost every community across Wales. There's much easier access to a high-street optician than there is in terms of going to see a consultant—the time it takes to get there, to park, to stay somewhere—for pretty much a short consultation. So, we've made available, specifically, £600,000 to help ensure that more appointments can take place within primary care to ensure that people have more rapid access to high-quality care. That's what we want to see: the right care, at the right time, in the right place. It's better for the citizen and better for the service. We need to see that remodelling of the whole system to ensure that primary care continues to deliver on its mission, as we want it to now and in the future.

Felly, rydym yn deall hynny, ond rwyf yn meddwl fod yna fwy o reswm dros fod yn optimistaidd oherwydd bod gennym berthynas adeiladol gyda'r gweithlu meddygon teulu yma yn barod, ac mae rhywfaint o gydnabyddiaeth am yr angen i newid ac am yr angen i'w hamser gael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol. Dywedais yn gynharach eu bod nhw'n dweud wrthym yn gyson am y pwysau sydd arnynt a pha mor galed y maent yn gweithio. Mae'n rhaid i rywfaint o hyn ymwneud â sicrhau nad ydynt yn gweld pobl nad oes arnynt angen eu gweld a'u bod yn treulio mwy o amser gyda'r cleifion cywir er mwyn defnyddio eu harbenigedd hwy eu hunain. Mae hynny'n arwain yn dda i mewn i'r pwynt olaf a wnaethoch am yr ymgyrch Dewis Fferylliaeth, oherwydd mae angen i ni weld mwy o bobl yn gwneud defnydd o wahanol wasanaethau. Mae angen i ni eu helpu i wneud dewisiadau da. Efallai y byddai hyn yn ymwneud â sut y mae practisiau gofal sylfaenol yn cael eu strwythuro—felly, o ran defnyddio nyrsys, therapyddion a'r fferyllwyr hefyd. Rwyf bob amser wedi bod yn arbennig o awyddus i fferyllfeydd cymunedol gael fwy o swyddogaeth, a'r model Braenaru sy'n digwydd o fewn eich etholaeth ac o fewn ardal Cwm Taf. Rwyf yn edrych ymlaen at y gwerthusiad a fydd yn digwydd ym mis Hydref a gweld beth y mae'n dweud wrthym. Fy nealltwriaeth i yw y bydd yn dweud rhai negeseuon cadarnhaol wrthym am ddargyfeirio galw mewn modd priodol, fel nad yw pobl yn derbyn gofal ail ddsbarth ac nid ydynt yn derbyn gofal er mwyn arbed arian, ond maent yn derbyn gofal sy'n fwy priodol a mynediad haws at y gofal hwnnw. Felly, pan fydd gennym y gwerthusiad llawn, byddwn yn gweld wedyn pa wersi yr ydym yn eu dysgu a sut bydd y wersi hynny yn cael eu lledaenu ar draws Cymru.

Byddaf yn ymdrin â'r pwynt am offthalmoleg hefyd, am ei fod yn enghraifft dda iawn o lle mae angen i ni wneud defnydd gwell o'r ansawdd—ac mae'n ansawdd gofal uchel—y mae optometryddion yn ei gyflwyno ym mhob cymuned bron ledled Cymru. Mae mynediad haws o lawer at optegydd stryd fawr nag sydd o ran mynd i weld ymgyngorydd—yr amser a gymerir i gyrraedd yno, i barcio, i aros yn rhywle—dim ond ar gyfer ymgyngoriad byr. Felly, rydym wedi sicrhau, yn benodol, £600,000 i helpu i sicrhau y gall mwy o apwyntiadau ddigwydd o fewn gofal sylfaenol i sicrhau bod pobl yn cael mynediad mwy cyflym i ofal o ansawdd uchel. Dyna beth yr ydym am ei weld: y gofal cywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir. Mae'n well ar gyfer y dinesydd ac yn well ar gyfer y gwasanaeth. Mae angen i ni weld ailfodelu'r system gyfan er mwyn sicrhau bod gofal sylfaenol yn parhau i gyflawni ei genhadaeth, oherwydd yr ydym am ei gael yn awr ac yn y dyfodol.

Rwy'n derbyn mai rôl unrhyw Lywodraeth yw cloriannu ei llwyddiannau, ond rwy'n meddwl mai'r hyn yr ydym yn ei ofyn ichi y prynhawn yma yw: wrth groesawu'r arian ychwanegol sydd wedi cael ei gyhoeddi, a'r datganiad yr wythnos diwethaf, rydym yn cwestiynu a yw'r adnoddau ychwanegol hynny'n ddigonol ar gyfer yr argyfwng sy'n ein hwynebu ni. Hwyrach bod y sefyllfa'n waeth yn y gogledd nag ydyw mewn rhanbarthau eraill. Ond, yn amlwg, mae erthyglau yn y wasg y bore yma sy'n sôn bod hanner y meddygfeydd yn y gogledd yn cyrraedd y trothwy o ran y gronfa newydd hon. Mae angen inni ddeall sut yn union y mae'r £23 miliwn hwn yr ydych chi wedi dweud ei fod wedi cael ei ddosbarthu i'r byrddau iechyd wedi cael ei ddosbarthu. Os oes yna achosion lle mae hanner y meddygfeydd mewn un rhanbarth hwyrach yn gallu gwneud cais ar gyfer yr arian, beth sy'n digwydd i'r rhanbarthau eraill lle does yna ddim gymaint o alw? Felly, a gaf i ofyn ichi ddweud yn union sut y mae'r arian hwnnw wedi cael ei ddosbarthu?

Hefyd, hoffwn ofyn a yw'r ffaith eich bod chi wedi cyflogi pedwar doctor cyflogedig yn y gogledd yn adlewyrchu nifer y doctoriaid sy'n awyddus i gael eu cyflogi, neu a yw'n adlewyrchu'r arian sydd ar gael. Rwy'n ymwybodol o un feddygfa yn Wrecsam, er enghraifft, lle mae doctoriaid dros dro r?an wedi bod yn cael eu cyflogi gan y gwasanaeth iechyd am dros ddwy flynedd, a hynny ar gost aruthrol i'r bwrdd iechyd yn y gogledd. Wrth ddweud hynny, a gaf i hefyd ofyn ichi a yw'r rhan o'r cynllunio hwn ar gyfer y gweithlu yn cynnwys trafodaethau efo'r ddeoniaeth yngl?n â nifer y myfyrwyr sy'n cael eu hyfforddi, o gofio, wrth gwrs, bod yna dasg ychwanegol ar ôl hynny i'w denu nhw i fod yn ddoctoriaid teulu?

Hefyd, mae'n rhaid imi ddweud bod nifer yr henoed sy'n gaeth yn yr ysbytai yn aros i gael eu cymryd allan o'r ysbytai yn cynyddu. Mae eich ffigurau chi ers mis Gorffennaf yn dweud bod yna gynnydd o ryw 10 y cant ers yr un cyfnod y llynedd. Rwy'n gweld, yn y rhanbarth yr wyf i'n ei gynrychioli, diffyg cydweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r bwrdd iechyd. Mae diffyg hefyd—ac nid wyf yn gwybod os yw hyn oherwydd bod y bwrdd iechyd o dan fesurau arbennig—o ran y penderfyniadau sy'n cael eu cymryd gan y bwrdd iechyd yngl?n â darparu adnoddau ychwanegol. Er enghraifft, mae achosion yn y gogledd-ddwyrain lle mae'r bwrdd iechyd wedi bod yn trafod efo'r cyngorau am 'step-up' a 'step-down beds' am dros chwe mis, ond nid oes penderfyniad wedi'i wneud. Felly, er fy mod i'n deall mai rôl y Llywodraeth yw cloriannu ei llwyddiannau, rwy'n meddwl bod angen hefyd cydnabyddiaeth o faint y broblem. Er hynny, rwyf yn croesawu nifer fawr o'r materion yr ydych chi wedi cyfeirio atyn nhw yn y datganiad heddiw.

I accept that the role of any Government is to evaluate its successes, but what I want to ask you this afternoon is: while welcoming this additional funding that's been announced, and the statement last week, we question whether those additional resources are sufficient for the crises that faces us. Perhaps the situation is worse in north Wales than it is in other regions. But clearly, articles in the press this morning talk about the fact that half of the surgeries in north Wales are meeting the threshold in terms of this new fund. What I think we need to understand is how exactly this £23 million that you say has been allocated to the health boards is being distributed. If there are cases where half the surgeries in one region can make an application for this funding, what will happen in those other regions where there the demand is not so great? Can you please tell us how exactly that money is being distributed?

Also, I want to ask whether the fact that you have employed four GPs in north Wales reflects the number of doctors that are keen to be employed, or whether that reflects the money that is available. I'm aware of one surgery in Wrexham, for example, where there are temporary doctors, now, who have been employed by the NHS for over two years at an enormous cost to the health board in north Wales. In saying that, may I also ask you whether part of this workforce planning also includes discussion with the deanery regarding the number of students that are trained, given, of course, that there is an additional task after that to attract them into being GPs?

Also, I have to say that the number of elderly people who are in hospitals waiting to be discharged is increasing. Your own figures since July say that there's been an increase of about 10 per cent since the same time last year. I see, in the region that I represent, a lack of co-operation between social services and the health board. There is also a deficiency—I don't know whether this is because the health board is under special measures—in terms of decisions being made by the health board in terms of providing additional resources. For example, there have been cases in north-east Wales where the health board has been in discussion with councils about step-up and step-down beds for over six months and no decision has been made. So, while I understand that the role of the Government is to evaluate the successes, there also needs to be an acknowledgement of the size of the problem. However, I do welcome a large number of the issues that you refer to in the statement today.

Thank you for those comments and questions. In terms of the point about the allocation share of the £23.5 million that's gone to health boards and Public Health Wales, I'm sure we can make the information available. I want to be clear about the difference between that, which is to support primary care development in each health board area and how that money is going to be used, and the new framework that we've recently agreed with the General Practitioners Committee Wales on how we support practices that appear to be vulnerable to closure over the next 12 months. That's about trying to identify potentially fragile GP practices, for them to actually have an honest conversation with their health board, and therefore for them to have an honest discussion about how they can try and sustain those practices moving forward into the future, rather than simply waiting until they give notice to say that they going to quit. So, it's trying to have a more open and proactive conversation between those people running the service and the health board, and it's then about working with their cluster to try and support each other, because neighbouring GP practices recognise that it's in their interest to see healthy practices around them as well, rather than those where there's pressure coming into their own practices as well. So, there is some appropriate self-interest amongst the primary care community in making sure they help each other, but that health boards do that as well. We've concluded what I think is a very positive agreement with GPC Wales to try and take that forward.

Diolch am y sylwadau a'r cwestiynau hynny. O ran y pwynt am y gyfran ddyrannu o £23.5 miliwn sydd wedi mynd i fyrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, rwyf yn siŵr y gallwn sicrhau bod yr wybodaeth ar gael. Rwyf am fod yn glir am y gwahaniaeth rhwng hynny, sef cefnogi datblygu gofal sylfaenol yn ardal pob bwrdd iechyd, a sut fydd yr arian hynny'n cael ei ddefnyddio, a'r fframwaith newydd yr ydym wedi cytuno arno'n ddiweddar gyda Phwyllgor Meddygon Teulu Cymru ar sut yr ydym yn cefnogi arferion sy'n ymddangos mewn perygl o gau dros y 12 mis nesaf. Mae hyn yn ymwneud â cheisio adnabod meddygfeydd teulu a allai fod yn fregus, er mwyn iddynt gael sgwrs onest gyda'u bwrdd iechyd, ac felly byddant yn gallu cael trafodaeth onest am sut y gallant geisio cynnal yr arferion hynny sy'n symud ymlaen i'r dyfodol, yn hytrach na dim ond aros nes eu bod yn rhoi rhybudd i ddweud eu bod yn mynd i roi'r gorau iddi. Felly, mae'n ceisio cael sgwrs fwy agored a rhagweithiol rhwng y bobl hynny sy'n rhedeg y gwasanaeth a'r bwrdd iechyd, ac wedyn mae'n ymwneud â gweithio gyda'u clwstwr nhw i geisio cefnogi ei gilydd, gan fod practisiau meddygon teulu cyfagos yn cydnabod ei fod yn fuddiol iddynt weld practisiau iach o'u cwmpas hefyd, yn hytrach na rhai lle mae pwysau yn ymledu i'w practisiau hwy eu hunain hefyd. Felly, mae rhywfaint o hunan-les priodol ymysg y gymuned gofal sylfaenol wrth wneud yn siŵr eu bod yn helpu ei gilydd, ond mae'n bwysig fod byrddau iechyd yn gwneud hynny hefyd. Rydym wedi dod i gasgliad sydd yn fy marn i yn gytundeb cadarnhaol iawn gyda GPC Cymru i geisio bwrw ymlaen â hynny.

On your points about new GPs in north Wales and new members of staff, there is no suggestion, and no complacency, that the additional physiotherapist resource that I've spoken about, the additional GPs that I've spoken about, and the plans to try and recruit more, in and of themselves are going to be enough. This is part of the contribution, and it's recognition that there is a need to try and do something about recruitment—to recruit more GPs? Yes. To recruit more therapists in other parts of the team? Yes as well. But with all those staff, it's still about how they work together and how they actually deal with and manage the patients, and how the patients themselves manage themselves. So, I'm not suggesting that the progress we have made means that everything is perfect; I do not say that, and I did not say that in my statement. It's recognition of progress made, though, and more that we need to do, and understanding what is working now and bringing more people into the service in a very competitive market. Let's be honest, because, as I said earlier as well, there are significant problems with GP recruitment in every one of the four nations of the UK. It is very regional or localised where there are problems—it makes it easier to recruit as well across a range of these particular specialities. So, working smarter is essential. It's not a nice add-on; it's essential for the future of primary care here in Wales, and I'm sure we'll have more debate and discussion about the figures on GP recruitment, about not just the amount that we want to recruit, but how successful we are in recruiting people to those posts, and where that training takes place, because I do recognise that where people undertake their training does have a bearing on whether they are likely to want to work and stay on in the future, whether that's in primary care or secondary care as well.

O ran eich pwyntiau am feddygon teulu newydd yn y gogledd ac aelodau newydd o staff, nid oes unrhyw awgrym, a dim hunanfodhad, bod yr adnodd ffisiotherapydd ychwanegol yr wyf wedi sôn amdano, y meddygon teulu ychwanegol yr wyf wedi sôn amdanynt, a'r cynlluniau i geisio recriwtio mwy, i mewn ac ohonynt hwy eu hunain yn mynd i fod yn ddigon. Mae hyn yn rhan o'r cyfraniad, ac mae'n cydnabod bod angen i ni geisio gwneud rhywbeth am recriwtio—recriwtio mwy o feddygon teulu? Ie. Recriwtio mwy o therapyddion mewn rhannau eraill o'r tîm? Ie unwaith eto. Ond gyda'r holl staff yna, mae'n dal i ymwneud â'r ffordd y maent yn gweithio gyda'i gilydd a sut y maent mewn gwirionedd yn ymdrin â rheoli'r cleifion, a sut y mae'r cleifion yn rheoli eu hunain. Felly, nid wyf yn awgrymu bod y cynnydd a wnaed gennym yn golygu bod popeth yn berffaith; nid wyf yn dweud hynny, a doeddw'n i ddim yn dweud hynny yn fy natganiad. Mae'n cydnabod y cynnydd a wnaed, fodd bynnag, a'r cynnydd sydd rhaid i ni ie wneud, a deall beth sy'n gweithio ar hyn o bryd ac yn denu mwy o bobl i'r gwasanaeth mewn marchnad gystadleuol iawn. Gadewch i ni fod yn onest, oherwydd, fel y dywedais yn gynharach hefyd, mae problemau sylweddol o ran recriwtio meddygon teulu ym mhob un o'r pedair gwlad yn y DU. Mae'r problemau yn rhai rhanbarthol neu'n lleol iawn—mae'n hwyluso'r broses recriwtio hefyd ar draws ystod eang o'r arbenigeddau penodol hyn. Felly, mae gweithio yn gallach yn hanfodol. Dyw hi ddim yn elfen ychwanegol braf, mae'n hanfodol ar gyfer dyfodol gofal sylfaenol yma yng Nghymru, ac rwyf yn siŵr y bydd gennym fwy o ddadlau a thrafod am y ffigurau ynghylch recriwtio meddygon teulu, ac nid yn unig ynghylch y swm yr ydym am recriwtio, ond pa mor llwyddiannus yr ydym wrth recriwtio pobl i'r swyddi hynny, a lle bydd yr hyfforddiant yn digwydd, gan fy mod yn cydnabod bod y lle y mae pobl yn ymgymryd â'u hyfforddiant yn effeithio ar p'un a ydynt yn debygol o eisiau gweithio ac aros yno yn y dyfodol, boed hynny mewn gofal sylfaenol neu ofal eilaidd hefyd.

And I want to finish by dealing with your point about social care collaboration and the effectiveness of it as well. I've recently met with Betsi and with health board partners in north-east Wales to look at the state of their collaboration and, in particular, their work around delayed transfers of care, but more particularly, of course, to think about their state of readiness for winter, which I understand will happen at some point this year, and to ensure that they are talking to each other about what happens now, and that they're talking to each other about the challenges they have now, recognising where, within the whole system, current delays exist. Is it about capacity in social care? Is it about the model they have? Is it about how they're commissioning in social care? And I'm pleased to note that there was a healthy conversation about a more joined-up commissioning process from amongst local authorities, together with health boards as well, because, if they don't get that right, they'll make all of their jobs much more difficult. So, it's about keeping people out of hospital in the first place, but then, when they're ready to return, it is to ensure that the package of care and support that is available between social care and primary care is joined up and that it makes sense. It's very much the heart of what we want to see happen, not just in north Wales, but right across Wales, because these challenges exist in every single part of the country. So, I recognise that things are not perfect in terms of the nature of the relationship and how constructive it is and the understanding that exists. That's why I've been meeting health boards and their local authority partners across Wales. That's why we have an expectation of greater progress on integration between health and social care. This isn't about saying we have now reached a point where clusters will resolve everything on their own; we need to see pace injected into the system to ensure that where things work, and they work well, in one part of Wales, it'll probably work somewhere else. It's about the nature of those personal and professional relationships to see what works and how you deliver a greater benefit for the citizen in access to care and in the quality of care delivered. So, I think there's good reason for optimism and, at the same time, no reason to try and hide from, or avoid, the challenge that all of us face in trying to have the sort of delivery that all of us want in each and every one of our communities.

Ac rwyf am orffen drwy ymdrin â'ch pwynt am gydweithredu gofal cymdeithasol a'i effeithiolrwydd hefyd. Rwyf wedi cyfarfod yn ddiweddar â Betsi a chyda phartneriaid bwrdd iechyd yn y gogledd-ddwyrain i edrych ar gyflwr eu cydweithrediad ac, yn benodol, ar eu gwaith sy'n ymwneud ag oedi wrth drosglwyddo gofal, ond yn fwy penodol, wrth gwrs, i feddwl am eu parodrwydd ar gyfer y gaeaf. Rwyf yn deall y bydd hyn yn digwydd ar ryw adeg y flwyddyn hon, ac er mwyn sicrhau eu bod yn siarad â'i gilydd am yr hyn sy'n digwydd yn awr, a'u bod yn siarad â'i gilydd am yr heriau sydd ganddynt yn awr, gan gydnabod lle, o fewn y system gyfan, y ceir oedi ar hyn o bryd. A yw'n ymwneud â chapasiti mewn gofal cymdeithasol? Ai am y model sydd ganddynt? A yw'n ymwneud â sut y maent yn comisiynu ym maes gofal cymdeithasol? Ac rwyf yn falch o nodi y cafwyd sgwrs iach am greu proses gomisiynu sy'n fwy cydgyssylltiedig ymhlith yr awdurdodau lleol, ynghyd â byrddau iechyd hefyd, oherwydd, os nad ydynt yn cael yr hawl honno, byddant yn gwneud pob un o'u swyddi yn llawer mwy anodd. Felly, mae'n ymwneud â chadw pobl allan o'r ysbyty yn y lle cyntaf, ond yna, pan fyddant yn barod i ddychweilyd, mae yno i sicrhau bod y pecyn gofal a chymorth sydd ar gael rhwng gofal cymdeithasol a gofal sylfaenol wedi'i gysylltu a'i fod yn gwneud synnwyr. Mae hynny'n wirioneddol wrth wraidd yr hyn yr ydym am ei weld yn digwydd, nid yn unig yn y gogledd, ond ledled Cymru, gan fod yr heriau hyn yn bodoli ym mhob un rhan o'r wlad. Felly, rwyf yn cydnabod nad yw pethau yn berffaith o ran natur y berthynas a pha mor adeiladol yw hi a'r ddealltwriaeth sy'n bodoli. Dyna pam rwyf wedi bod yn cyfarfod â byrddau iechyd a'u partneriaid awdurdod lleol ledled Cymru. Dyna pam rydym yn disgwyl gweld mwy o gynnydd o ran integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Nid yw hyn yn ymwneud â dweud ein bod ni bellach wedi cyrraedd pwynt lle bydd clystyrau yn datrys popeth ar eu pennau eu hunain; mae angen i ni weld cyflymder yn cael ei chwistrellu i mewn i'r system er mwyn sicrhau, lle mae pethau'n gweithio, ac maent yn gweithio'n dda, yn un rhan o Gymru, fwy na thebyg byddant yn gweithio yn rhywle arall. Mae'n ymwneud â natur y cysylltiadau personol a phroffesiynol hynny i weld beth sy'n gweithio a sut yr ydych yn cyflwyno mwy o fudd i'r dinesydd mewn mynediad i ofal ac yn ansawdd y gofal a ddarperir. Felly, rwyf yn credu bod rheswm da i ni fod yn optimistaidd, ac ar yr un pryd, nid oes unrhyw reswm i geisio cuddio rhag, nac osgoi, yr her y mae pob un ohonom ni'n ei hwynebu wrth geisio cael y math o ddarpariaeth y mae pob un ohonom ni eisiau ym mhob un o'n cymunedau.

16:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Diolch yn fawr.

Thank you.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:49 **6. Datganiad: Diweddariad ar Gynllun Cenedlaethol Cyllid Trafnidiaeth 2015**

Eitem 6 yw datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth—diweddariad ar gynllun cenedlaethol Cyllid Trafnidiaeth 2015—Edwina Hart.

6. Statement: Update on National Y Transport Finance Plan 2015

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 6 is a statement by the Minister for Economy, Science and Transport—an update on the national transport finance plan 2015—Edwina Hart.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

I issued a written statement in July about the publication of the national transport finance plan. My statement included a commitment to provide a further update for Members in an oral statement after the summer recess. I hope that over the summer you will have had the opportunity to consider the plan, and I look forward to hearing your comments today. Transport has a vital role to play in improving Wales's economic competitiveness and access to jobs and services. The plan sets out the investment in transport infrastructure and services to help business prosper and ensure people can benefit from the wellbeing opportunities.

The plan targets five key areas: economic growth; tackling poverty; sustainable travel and safety; and improving access to employment and to services. It is not a policy document. It sets out a timetable of delivery, estimated expenditure and sources of funding for key interventions. This is an ambitious programme and will be challenging in the current financial climate and requiring funding beyond the transport budget directly available to me. I'm already making progress to secure additional sources of funding. The European Commission has confirmed that the plan satisfies the conditionality relating to the 2014-20 European regional development fund structural fund programme. This allows the Welsh European Funding Office to begin committing and spending the allocation on improvements to the trans-European transport network road corridors and the metro.

We have continued to make progress in delivering the plan's key areas. Under the Active Travel (Wales) Act 2013, the first set of local authority maps showing existing routes will be submitted to me for approval in January. I am making investments to secure rail projects including a number of station improvements. A total of 16 stations benefit from this investment, which includes improved access for the disabled. Many of these have already been completed. The remainder are scheduled for completion early next year.

The metro-phase-1-funded Ebbw Vale frequency enhancement project is progressing well. Improvements will provide a half-hourly service to Ebbw Vale town station, track capacity for services to Abertillery and new platforms at Llanhilleth and Newbridge stations. In north and mid Wales, work to redouble the line between Saltney and Rossett and increase the line speeds between Gobowen and Shrewsbury will be commissioned this year. I've also commissioned Network Rail to investigate options to run additional services from Wrexham to Chester and beyond. Since May this year, I've provided subsidy for new railway services on the Cambrian main line and Heart of Wales line, providing improved services for passengers. I'm working closely with the north Wales economic ambition board to undertake further work to strengthen the strategic business case for north Wales main line electrification.

Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ym mis Gorffennaf am gyhoeddi'r cynllun cyllid trafniadaeth cenedlaethol. Mae fy natganiad yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu diweddariad pellach i'r Aelodau mewn datganiad llafar ar ôl toriad yr haf. Rwyf yn gobeithio y byddwch wedi cael cyfle dros yr haf i ystyried y cynllun, ac edrychaf ymlaen at glywedd eich sylwadau chi heddiw. Mae gan drafnidiaeth swyddogaeth hanfodol i'w chwarae o ran gwella cystadleurwydd economaidd Cymru a mynediad i swyddi a gwasanaethau. Mae'r cynllun yn nodi'r buddsoddiad mewn seilwaith trafniadaeth a gwasanaethau i helpu i ffynnu busnes a sicrhau y gall pobl fanteisio ar y cyfleoedd lles.

Mae'r cynllun yn targedu pum maes allweddol: twf economaidd; trechu tlodi; teithio a diogelwch cynaliadwy; a gwella mynediad i gyflogaeth ac i wasanaethau. Nid yw'n ddogfen bolisi. Mae'n gosod amserlen ar gyfer cyflwyno, amcangyfrif o'r gwariant a ffynonellau cyllid ar gyfer ymyriadau allweddol. Mae hon yn rhaglen uchelgeisiol a fydd yn heriol yn yr hinsawdd ariannol bresennol a bydd angen arian y tu hwnt i'r gyllideb cludiant sydd ar gael yn uniongyrchol i mi. Rwyf eisoes yn gwneud cynnydd i sicrhau ffynonellau ychwanegol o gyllid. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cadarnhau bod y cynllun yn bodloni'r amodoldeb sy'n ymwneud â rhaglen cronfeydd strwythurod cronfa ddatblygu rhanbarthol Ewrop 2014-20. Mae hyn yn caniatáu i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ddechrau ymrwymo a gwario'r dyraniad ar welliannau i'r coridorau ffyrdd rhwydwaith trafniadaeth traws-Ewropeaidd a'r metro.

Rydym wedi parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni meysydd allweddol y cynllun. O dan Ddeddf Teithio Byw (Cymru) 2013, bydd y gyfres gyntaf o fapiau awdurdod lleol sy'n dangos llwybrau presennol yn cael eu cyflwyno i mi am gymeradwyaeth ym mis Ionawr. Rwyf yn buddsoddi i sicrhau prosiectau rheilffyrdd gan gynnwys nifer o welliannau mewn gorsafoedd. Mae cyfanswm o 16 o orsafoedd yn elwa o'r buddsoddiad hwn, sy'n cynnwys gwell mynediad ar gyfer yr anabl. Mae llawer o'r rhain eisoes wedi eu cwblhau. Bwriedir i'r gweddill gael eu cwblhau yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Mae'r prosiect gwella amllder Glynebwy a ariennir gan metro-gam-1 yn mynd rhagddi'n dda. Bydd gwelliannau yn darparu gwasanaeth bob hanner awr i orsaf tref Glynebwy, olrhain capasiti ar gyfer gwasanaethau i Abertyleri a phlatfformau newydd yng ngorsafoedd Llanhilledd a Threcelyn. Yn y gogledd a'r canolbarth, bydd y gwaith i ailddyblu'r rheilffordd rhwng Saltney a'r Orsedd a chynyddu cyflymder y llinellau rhwng Gobowen a'r Amwythig yn cael ei gomisiynu eleni. Rwyf hefyd wedi comisiynu Network Rail i ymchwilio opsiynau i redeg gwasanaethau ychwanegol o Wrecsam i Gaer a thu hwnt. Ers mis Mai eleni, rwyf wedi darparu cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau rheilffordd newydd ar brif linell y Cambrian a linell Calon Cymru, gan ddarparu gwasanaethau gwell i deithwyr. Rwyf yn gweithio'n agos gyda'r bwrdd uchelgais economaidd yn y gogledd i ymgymryd â gwaith pellach i gryfhau'r achos busnes strategol ar gyfer trydaneiddio prif linell y gogledd.

Investment in the road network is continuing. In north Wales, the £42 million improvements to safety and resilience of the A55 tunnels will be completed by March 2016. The A487 Caernarfon and Bontnewydd bypass is well advanced, and good progress is being made on the £200 million investment to improve the road network in the Deeside area. I'm also committing funding to develop a business case for a third crossing over the Menai straits.

In mid Wales, the £87 million Newtown bypass project, which has just gone through a public inquiry, is programmed for completion in 2017, and a contractor has been appointed to push forward with the design of the improvement at Dyfi bridge.

In south Wales, the employer's agent for the A40 Llanddewi Velfrey to Penblewin improvement scheme will be appointed within the next few weeks, and a contractor before the end of the year. Public information exhibitions are being held this month on the M4 corridor around Newport. Development remains on programme to publish draft Orders and an environmental statement next spring. Work is scheduled to begin in spring 2018 and the new section of the M4 could be open in autumn 2021. The £800 million A465 Heads of the Valleys road dualling scheme will be completed in 2020. The Gilwern to Brynmawr section is planned for completion in September 2018, and I will be officially opening the Brynmawr to Tredegar section next week.

Delivering on major road improvements is important and so is delivering smaller, targeted improvements to tackle pinch points and improve efficiency of the road network. I have already delivered on the commitments made two years ago and I plan to continue with further investments as well as redefining the trunk network to improve connectivity and resilience. Road safety improvements will continue. I have agreed funding of £3.95 million for 31 schemes to be delivered this year. I've also made £2 million available for interventions directed at motorcyclists and young people, and to provide children with essential road safety skills.

I'm continuing to press the UK Government to deliver further devolution for transport. While the St David's Day command paper proposes that the National Assembly will gain legislative competence over ports, speed limits, bus registration, taxi and private-hire vehicle regulation, the devolution of rail infrastructure remains essential to support the efficient delivery of an integrated transport system for Wales. I'm also seeking the devolution of road traffic signs, so that we can better meet our aspirations for both active travel and the Welsh language. This ambitious plan will improve links between communities, enhance connectivity across Wales and beyond, and support our economy and improve social prospects and help to meet our wellbeing outcomes.

Mae buddsoddi yn y rhwydwaith ffyrdd yn parhau. Yn y gogledd, bydd y £42 miliwn i wella diogelwch a gwydnwch twneli'r A55 yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2016. Mae gwaith ar y ffordd osgoi A487 Caernarfon i Bontnewydd yn mynd rhagddo'n dda, ac mae cynnydd da yn cael ei wneud ar y buddsoddiad £200 miliwn i wella'r rhwydwaith ffyrdd yn ardal Glannau Dyfrdwy. Rwyf hefyd yn rhoi cyllid i ddatblygu achos busnes dros sefydlu'r drydedd bont dros Afon Menai.

Yn y canolbarth, mae prosiect ffordd osgoi £87 miliwn y Drenewydd, sydd newydd gael ymchwiliad cyhoeddus, yn cael ei raglennu ar gyfer ei gwblhau yn 2017, ac mae contractwr wedi'i benodi i fwrw ymlaen â dylunio'r cynllun gwelliant ym mhont Dyfi.

Yn y de, bydd asiant y cyflogwr ar gyfer cynllun gwelliant yr A40 yn Llanddewi Felfrey i Benblewin yn cael ei benodi o fewn yr wythnosau nesaf, a chontractwr cyn diwedd y flwyddyn. Mae arddangosfeydd gwybodaeth i'r cyhoedd yn cael eu cynnal y mis hwn ar goridor yr M4 o amgylch Casnewydd. Mae datblygu yn parhau i fod ar y rhaglen i gyhoeddi Gorchmynion drafft a datganiad amgylcheddol y gwanwyn nesaf. Mae gwaith i fod i ddechrau yng ngwanwyn 2018 a gallai'r rhan newydd o'r M4 fod ar agor yn ystod hydref 2021. Bydd cynllun deuoli ffordd £800 miliwn A465 Blaenau'r Cymoedd yn cael ei gwblhau yn 2020. Disgwylir i'r adran o Gilwern i Frynmawr gael ei chwblhau ym mis Medi 2018, a byddaf yn agor yr adran o Frynmawr i Dredegar yn swyddogol yr wythnos nesaf.

Mae cyflawni gwelliannau ffyrdd mawr yn bwysig yn ogystal â chyflawni gwelliannau llai sydd wedi eu targedu i fynd i'r afael â manau cyfyng a gwella effeithlonrwydd y rhwydwaith ffyrdd. Rwyf eisoes wedi llwyddo i gyflawni'r ymrwymadau a wnaed ddwy flynedd yn ôl ac rwyf yn bwriadu parhau â buddsoddiadau pellach yn ogystal ag ailddiffinio'r rhwydwaith cefnffyrdd er mwyn gwella cysylltedd a gwydnwch. Bydd gwelliannau diogelwch ar y ffyrdd yn parhau. Rwyf wedi cytuno i roi swm o £3.95 miliwn ar gyfer 31 o gynlluniau sydd i'w cyflwyno eleni. Rwyf hefyd wedi darparu £2 filiwn ar gyfer ymyriadau wedi'u hanelu at feicwyr modur a phobl ifanc, ac i ddarparu sgiliau diogelwch ffyrdd hanfodol i blant.

Rwyf yn parhau i bwysio ar Lywodraeth y DU i gyflwyno datganoli pellach ar gyfer trafndiaeth. Er bod y papur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi yn cynnig bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cael cymhwysedd deddfwriaethol dros borthladdoedd, cyfyngiadau cyflymder, cofrestrau bws, rheoleiddio hurio-preifat tacsis a cherbydau, mae datganoli seilwaith rheilffyrdd yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn darparu system drafnidiaeth integredig effeithiol i Gymru. Rwyf hefyd yn ceisio datganoli arwyddion traffig ffyrdd, fel y gallwn ddiwallu ein dyheadau yn well er mwyn teithio actif a'r iaith Gymraeg hefyd. Bydd y cynllun uchelgeisiol hwn yn gwella cysylltiadau rhwng cymunedau, gwella cysylltedd ledled Cymru a thu hwnt, cefnogi ein heconomi, gwella rhagolygon cymdeithasol a helpu i fodloni ein canlyniadau lles.

I'm most grateful to the Minister for her statement this afternoon, which was wide-ranging. She says it is not a policy document, but certainly I would offer support for the key areas that she itemises in her statement today. It's clear it is a very ambitious programme and I'm grateful to hear that she hopes to secure additional resources of funding. In a time of fiscal restraint, any money, particularly from the European Union, is to be welcomed.

I have specific questions, if I may, of the Minister. You talk about Network Rail and an additional service from Wrexham to Chester and beyond. May I ask specifically: have you been able to commission any particular links in creating a direct link to Manchester Airport and to Liverpool with the improvement of the Halton curve? The Minister will not be surprised if I ask her, in terms of the Ebbw Vale route, when connection will be made to Newport. The major road improvements, clearly, are very welcome and also perhaps sometimes overlooked are the road safety improvements—a very, very important way in which we can look at intervention directly aimed at motorcyclists and young people.

Minister, in terms of the TEN-T regulations, can I ask you again to look closely at this designation, particularly for the port of Holyhead? Members will know that, by 2030, the regulations actually require electrification of the north Wales route. I know that's a long way ahead in terms of capital investment and major projects, but it means that we need definite plans to be argued and consulted upon much closer to the time. Can I also ask the Minister, who will also be aware of the recent announcement by the Great Western Railway, as they now call themselves, that, in May 2017, new super-express trains will be provided—? Looking at the route, the Minister will forgive me, as a regional Member, it doesn't include Newport. Can I ask the Minister to comment, either at this time or at a later date?

In terms of the business case for the third crossing over the Menai straits, might I ask the Minister whether she had looked at the possibility of at least partial funding from the energy distribution programme, which is so vital to the future of Anglesey?

The public information exhibition about the M4 corridor around Newport, may I say, Minister, was particularly well presented? A great deal of money has been spent on that. Having been to that exhibition, it was not only well conducted and an innovative method—both in terms of the cartoon and the way in which new drivers could see how the route could be provided—but also gave the opportunity for people to question your officials, which was greatly welcomed.

Rwyf yn hynod ddiolchgar i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma, a oedd yn eang yn ei gwmpas. Mae hi'n dweud nad yw'n ddogfen bolisi, ond yn sicr byddwn yn cynnig cefnogaeth ar gyfer y meysydd allweddol a restrir yn ei datganiad heddiw. Mae'n amlwg ei bod yn rhaglen uchelgeisiol iawn ac rwyf yn falch o glywed ei bod hi'n gobeithio sicrhau adnoddau cyllid ychwanegol. Mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol, croesawir unrhyw arian, yn enwedig gan yr Undeb Ewropeaidd.

Mae gennyf gwestiynau penodol i'w gofyn i'r Gweinidog, os caf. Rydych yn siarad am Network Rail a gwasanaeth ychwanegol o Wrecsam i Gaer a thu hwnt. A gaf fi ofyn yn benodol: ydych chi wedi gallu comisiynu unrhyw gysylltiadau penodol wrth greu cyswllt uniongyrchol â Maes Awyr Manceinion ac â Lerpwl gyda gwelliant i gromlin Halton? Ni fydd y Gweinidog yn synnu os byddaf yn gofyn iddi, o ran llwybr Glynebwy, pryd fydd y cysylltiad yn cael ei wneud i Gasnewydd. Mae'r prif welliannau ffyrdd, yn amlwg, i'w croesawu'n fawr iawn ac mae'n ddigon posibl bod y gwelliannau diogelwch ffyrdd yn cael eu hesgeuluso—mae hwn yn ddull pwysig iawn o edrych ar ymyrraeth sydd wedi'i hanelu'n uniongyrchol at feicwyr modur a phobl ifainc.

Weinidog, o ran y rheoliadau TEN-T, a gaf i ofyn i chi unwaith eto i edrych yn ofalus ar y dynodiad hwn, yn enwedig ar gyfer porthladd Caergybi? Bydd yr Aelodau yn gwybod y bydd y rheoliadau, erbyn 2030, mewn gwirionedd yn ei gwneud yn ofynnol i drydaneiddio llwybr y gogledd erbyn 2030. Gwn fod hynny yn y dyfodol o ran buddsoddi cyfalaf a phrosiectau mawr, ond mae'n golygu bod angen inni drafod ac ymgynghori ar gynlluniau pendant yn llawer nes at yr amser. A gaf i hefyd ofyn i'r Gweinidog, a fydd hefyd yn ymwybodol o'r cyhoeddiad diweddar gan y Great Western Railway, fel y maent bellach yn galw eu hunain, a fydd trenau chwim newydd yn cael eu darparu ym mis Mai 2017—? O edrych ar y llwybr, bydd y Gweinidog yn maddau i mi, fel Aelod rhanbarthol, nid yw'n cynnwys Casnewydd. A gaf i ofyn i'r Gweinidog roi ei sylwadau, naill ai ar hyn o bryd neu yn y dyfodol?

O ran yr achos busnes ar gyfer y drydedd bont dros yr Afon Menai, a gaf i ofyn i'r Gweinidog a oedd wedi edrych ar y posibilrwydd o gael cyllid o leiaf yn rhannol o'r rhaglen dosbarthu ynni, sydd mor hanfodol i ddyfodol Ynys Môn?

Cafodd yr arddangosfa gwybodaeth i'r cyhoedd am goridor yr M4 o amgylch Casnewydd, os caf ddweud, Weinidog, ei chyflwyno yn arbennig o dda. Mae llawer iawn o arian wedi cael ei wario ar hynny. Ar ôl bod i'r arddangosfa honno, nid yn unig yr oedd yn ddull arloesol a gafodd ei gynnal yn dda—o ran y cartŵn a'r modd y gallai gyrrwyr newydd weld sut y gallai'r llwybr gael ei ddarparu—ond roedd yn gyfle hefyd i bobl holi eich swyddogion, ac roedd croeso mawr i hynny.

Minister, this is, as you say, a very wide-ranging statement. We look forward to your answers and I particularly ask you to comment on the St David's Day command paper. Finally, I commend you in terms of the devolution of road traffic signs. Many of us have worked long and hard for the de-cluttering of roads, particularly as it improves safety and reduces congestion.

Weinidog, fel y dywedoch, mae hwn yn, ddatganiad eang iawn. Rydym yn edrych ymlaen at eich atebion ac rwyf yn gofyn yn arbennig i chi roi sylwadau ynglŷn â phapur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi. Yn olaf, rwyf yn eich cymeradwyo o ran datganoli arwyddion traffig ar y ffyrdd. Mae nifer ohonom wedi gweithio'n hir ac yn galed er mwyn cael gwared ar annibendod ar y ffyrdd, yn enwedig gan ei fod yn gwella diogelwch ac yn lleihau tagfeydd.

16:58

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. In terms of the issues around Network Rail, it is not an easy relationship with Network Rail. Of course, as you are aware, the UK Government is now doing a total review of Network Rail and what their role and function is. I'm not certain what's going to emerge from that particular review. Some of the problems we've had have been north-Wales based. You've asked me about the Halton curve and some of the issues around what we're going to have to do about redoubling everything. These are issues that we are looking at with Network Rail and I have further work undergoing with Network Rail, because I think we will miss an opportunity if we do not link into the northern powerhouse in anything we do in terms of electrification in north Wales and what we do on the routes.

I was very fortunate to have had a meeting yesterday with the chair of the north Wales economic ambition board, which has been taking those issues forward. We're now contemplating having a rail summit in October up in north Wales where we'll bring partners from across our border across for discussions about how we can influence this particular agenda and how we can influence Network Rail with regard to that. But, I'm absolutely with you. We've got to have these improvements if we're to see north Wales reaping the benefits of that northern powerhouse. I think it's absolutely essential. We've also got to look at the links to go the other way, and what's going to happen in terms of the developments particularly on Ynys Môn.

In terms of the TEN-T, this is a key issue. There's no doubt in my mind that the Commission have actually been helpful in their discussions with us, but I think there's further work that needs to be undertaken there. Holyhead is one of the major ports of Europe, it's a major link to Ireland, and we've got to ensure that we carry on working and get what we require from that particular area.

Diolch yn fawr. O ran y materion sy'n ymwneud â Network Rail, nid yw'r berthynas â Network Rail yn un hawdd. Wrth gwrs, fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y DU yn awr yn gwneud adolygiad cyflawn o Network Rail a beth yw eu rôl a'u swyddogaeth. Nid wyf yn sicr beth sy'n mynd i ddod allan o'r adolygiad penodol hwnnw. Mae rhai o'r problemau a gawsom wedi bod yn y gogledd. Rydych chi wedi gofyn i mi am y gromlin Halton a rhai o'r materion sy'n gysylltiedig â'r hyn y bydd rhaid i ni ei wneud ynghylch ailddyblu popeth. Mae'r rhain yn faterion yr ydym yn eu hystyried gyda Network Rail ac mae gennyf waith pellach gyda Network Rail, oherwydd credaf y byddwn yn colli cyfle os na chysylltwm â phwerdy y gogledd ynghylch unrhyw beth yr ydym yn ei wneud o ran trydaneiddio yn y gogledd a'r hyn rydym yn ei wneud ar y llwybrau.

Roeddwn yn ffodus iawn o gael cyfarfod ddoe gyda chadeirydd bwrdd uchelgais economaidd y gogledd, sydd wedi bod yn datblygu'r materion hynny ymhellach. Rydym yn awr yn ystyried cynnal uwchgynhadledd rheiffordd ym mis Hydref yn y gogledd lle byddwn yn dod â phartneriaid ar draws ein ffin am drafodaethau ynglŷn â sut y gallwn ddylanwadu ar yr agenda benodol hon a sut y gallwn ddylanwadu ar Network Rail o ran hynny. Ond, rwyf yn cytuno'n llwyr â chi. Mae'n rhaid i ni gael y gwelliannau hyn os ydym am weld y gogledd yn elwa o'r pwerdy gogleddol hwnnw. Rwyf yn credu ei fod yn hollol hanfodol. Mae'n rhaid i ni hefyd edrych ar y cysylltiadau i fynd y ffordd arall, a beth sy'n mynd i ddigwydd o ran y datblygiadau yn enwedig ar Ynys Môn.

O ran y TEN-T, mae hwn yn fater allweddol. Does dim amheuaeth yn fy meddwl i fod y Comisiwn wedi bod o gymorth inni yn eu trafodaethau gyda ni, ond rwyf yn meddwl bod yna waith pellach sydd angen ei wneud yno. Mae Caergybi yn un o brif borthladdoedd Ewrop, mae'n gyswllt pwysig ag Iwerddon, ac mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn parhau i weithio a chael yr hyn y mae arnom ei angen o'r ardal benodol honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Can I also say as well that we're looking at a feasibility study on the third crossing and, like you, we're saying that the benefit of a third crossing will be a benefit to the construction at Wylfa? So, it's not a financial commitment from us we might look for, it might be a financial commitment from the UK Government and private money to look at whether there could be a third crossing, where it would be, what it would be used for initially, and then what it could be used for in the future. So, I think those are all things that are really up for discussion in the future, but I think we've got to be ambitious in terms of what we want. After all, the people of Ynys Môn might be having a large investment there, but they're also going to have a lot of people working there who are going to change their lives, and we want to see a permanent benefit to the economy, not just something else.

In terms of the Great Western line, like you, I'm quite amused by the omission of Newport. I think it might just be an omission, but we are having meetings with all the companies, and I will certainly raise it. Sometimes when you see an omission from a publication, you wonder about the long-term intent on these matters, and that it isn't just a mistake. So, I think we do have to raise that, and I'll be delighted to report back to Plenary on it. In terms of Ebbw Vale, this is part of the ongoing work on the wider metro system and the electrification. In the long term, we would hope that this could be done.

The other issue you raised with me was the St David's Day command paper, and I welcome the stuff on the role of traffic signs, but the one thing I don't like about the command paper is I don't have bus regulation. I need to have bus regulation to get proper integration, and I need to get that quite quickly if we're to make some things stack up in terms of the controls that we have.

I went to the public information exhibition—I went to Caerleon to have a look around. I thought it was very good, people were asking all the questions, and I think it's important to have that type of discussion with the public on what would be a very major project, if it goes ahead.

17:02

Mike Hedges [Bywgraffiad Biography](#)

I also welcome the Minister's statement. I'm pleased to see the additional investment being made, and I agree with the Minister regarding the importance of transport. I welcome the continuation of the dualling of the A465. I believe this could reduce traffic on the M4. I have previously asked the Minister if the A465 could be signposted 'Swansea and west Wales' as people come down it, rather than everybody coming down, joining the M4 and managing to queue through the Brynglas tunnels. Has there been any modelling done on the fully dualled A465 taking traffic off the M4? I can see no reason why anybody travelling from west Wales really does need to use the M4 when they can use the A465, but I know I, and many other people, do.

Gallaf hefyd ddweud ein bod yn edrych ar astudiaeth ddichonoldeb ynghylch y drydedd bont ac, fel chi, rydym yn dweud y bydd sefydlu trydedd bont yn fuddiol i'r gwaith adeiladu yn y Wylfa. Felly, efallai nad ydym yn edrych am ymrwymiad ariannol gennym ni, yn hytrach gallai fod yn ymrwymiad ariannol gan Lywodraeth y DU ac arian preifat i edrych i weld a oes modd creu trydedd bont, lle y byddai'n cael ei lleoli, sut y byddai'n cael ei defnyddio yn y dechrau, ac yna sut y gellid ei defnyddio yn y dyfodol. Felly, rwyf yn meddwl bod y rhain i gyd yn bethau sydd wir angen eu trafod yn y dyfodol, ond rwyf yn meddwl bod yn rhaid i ni fod yn uchelgeisiol o ran yr hyn yr ydym eisiau. Wedi'r cyfan, efallai y bydd pobl Ynys Môn yn buddsoddi'n fawr yno, ond byddant hefyd yn cael llawer o bobl yn gweithio yno a fydd yn newid eu bywydau, ac rydym am weld buddiannau parhaol yn yr economi, ac nid yn unig rhywbeth arall.

O ran llinell y Great Western, fel chi, rwyf yn ei ystyried yn ddifyr bod Casnewydd wedi'i hepgor. Rwyf yn credu o bosibl mai dim ond hepgoriad ydyw, ond rydym yn cael cyfarfodydd gyda'r holl gwmnïau, a byddaf yn sicr yn codi'r mater. Weithiau, pan fyddwch yn gweld rhywbeth yn cael ei hepgor o gyhoeddiad, rydych yn meddwl am friaid tymor hir y materion hyn, ac nad camgymeriad yn unig ydyw. Felly, rwyf yn meddwl y bydd yn rhaid i ni godi hynny, a byddaf yn falch o adrodd yn ôl yn ei glych i'r Cyfarfod Llawn. O ran Glynebwy, mae hyn yn rhan o'r gwaith sy'n parhau ar y system metro ehangach a'r trydaneiddio. Yn y tymor hir, byddem yn gobeithio y gellid gwneud hyn.

Y mater arall yr oeddech wedi ei godi gyda mi oedd papur gorchymyn Dydd Gŵyl Ddewi, a chroesawaf y materion am swyddogaeth arwyddion traffig, ond yr un peth nad wyf yn ei hoffi am y papur gorchymyn yw diffyg rheoleiddio bysiau. Mae angen sicrhau rheoleiddio bysiau i gael integreiddio priodol, ac mae angen hynny yn eithaf cyflym os ydym yn mynd i wneud synnwyr o ran y rheolaethau sydd gennym.

Es i i'r arddangosfa wybodaeth gyhoeddus -es i i Gaerllion i edrych o gwmpas. Roeddwn yn meddwl ei fod yn dda iawn, roedd pobl yn gofyn yr holl gwestiynau, ac rwyf yn credu ei fod yn bwysig i ni gael trafodaeth fel hyn gyda'r cyhoedd ynglŷn â'r hyn a fyddai'n brosiect mawr iawn, os bydd yn mynd yn ei flaen.

Rwyf hefyd yn croesawu datganiad y Gweinidog. Rwyf yn falch o weld y buddsoddiad ychwanegol sy'n cael ei wneud, ac rwyf yn cytuno â'r Gweinidog ynglŷn â phwysigrwydd trafniadaeth. Rwyf yn croesawu parhau â'r gwaith deuli ar yr A465. Credaf y gallai hyn leihau traffig ar yr M4. Rwyf wedi gofyn o'r blaen i'r Gweinidog a fyddai modd i'r A465 gael arwydd sy'n nodi 'Abertawe a gorllewin Cymru' wrth i bobl ddod i lawr, yn hytrach na chael pawb yn dod i lawr, ymuno â'r M4 ac yna'n ciwio drwy dwneli Brynglas. A oes unrhyw fodelu wedi'i gwneud ar y A465 wedi ei deuli'n llawn sy'n cymryd traffig oddi ar yr M4? Ni allaf weld unrhyw reswm pam y byddai angen i unrhyw un sy'n teithio o'r gorllewin ddefnyddio'r M4 pan allant ddefnyddio'r A465, ond rwyf yn gwybod fy mod i, a llawer o bobl eraill, yn gwneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I also welcome the rail improvements in north Wales and Blaenau Gwent. What consideration is being given to improving the rail infrastructure around Swansea? Will the Minister consider the reopening of Landore station, which, amongst other benefits, would make it easier for people to get to the Liberty Stadium in order to see premier league football?

And, on bus regulation, I agree entirely with the Minister: we desperately need bus regulation. London didn't have bus deregulation and look at how their transport compares to ours. Bus regulation was ill thought out, ill timed, and has caused chaos everywhere it's been done. We need bus regulation, and we need it now.

Croesawaf hefyd y gwelliannau rheilffyrdd yn y gogledd a Blaenau Gwent. Pa ystyriaeth a roddir i wella'r seilwaith rheilffyrdd o amgylch Abertawe? Tybed a wnaiff y Gweinidog ystyried ailagor gorsaf Landore, a fydd, ymhlith buddiannau eraill, yn ei gwneud hi'n haws i bobl gyrraedd Stadiwm Liberty i wylïo pêl-droed yr uwchgynghrair?

Ac, o ran rheoleiddio bysiau, cytunaf yn llwyr â'r Gweinidog: mae wir angen rheoleiddio bysiau. Ni chafwyd dadreoleiddio bysiau yn Llundain ac edrychwch ar sut y mae trafndiaeth Llundain yn cymharu â'n trafndiaeth ni. Roedd rheoleiddio bysiau wedi ei gynllunio'n wael, ac wedi ei amseru'n wael, ac fe achosodd anhrefn ymhob man lle y cafodd ei weithredu. Mae arnom angen rheoleiddio bysiau, ac mae ei angen yn awr.

17:03

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, my officials do quite a lot of modelling about people's travel patterns and what they require. I'm not aware of any specific modelling on the issues that you raised with me, but it's obviously something I'll have a word with my officials about.

In terms of rail investment, obviously, we've got the good news that the rail investment has continued to Swansea in terms of the electrification, and then after that we've got to look at what improvements there need to be further west, but this will be certainly in the long term, because we don't have a surfeit of cash available to necessarily undertake all this work, so we've got to really look at what we're able to do within the budgets that are available.

Can I say, in terms of Landore, that is something that is being currently discussed—and not just because we've got a premiership club? I wish Leighton Andrews was here as we're discussing this issue, but he's not. [Laughter.] I think it's important for us to recognise, with these small stations that have opened all the way on the line up to Cardiff, it's amazing the number of people who do use them and therefore do take cars off the road.

Yn amlwg, mae fy swyddogion yn gwneud cryn dipyn o fodelu am batrymau teithio pobl a'r hyn sydd ei angen arnynt. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw fodelu penodol ar y materion a wnaethoch godi gyda fi, ond yn amlwg, mae'n rhywbeth y byddaf yn cael gair â'm swyddogion amdano.

O ran buddsoddi mewn rheilffyrdd, yn amlwg, rydym wedi cael y newyddion da bod buddsoddi mewn rheilffyrdd wedi parhau i Abertawe o ran trydaneiddio, ac yna ar ôl hynny mae'n rhaid i ni edrych ar y gwelliannau sydd eu hangen ymhellach i'r gorllewin, ond bydd hyn yn sicr yn y tymor hir, gan nad oes gennym ormod o arian a fydd o reidrydd ar gael er mwyn ymgymryd â'r holl waith hwn, felly bydd rhaid i ni edrych yn wirioneddol ar yr hyn rydym yn gallu ei wneud o fewn y cyllidebau sydd ar gael.

A gaf i ddweud, o ran Glandŵr, mae hynny'n rhywbeth sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd—ac nid dim ond oherwydd bod gennym glwb yn yr uwch gynghrair. Byddai'n well gennyf pe byddai Leighton Andrews yn bresennol gan ein bod yn trafod y mater hwn, ond nid yw wedi dod yma. [Chwerthin.] Rwyf yn credu ei fod yn bwysig i ni gydnabod, gyda'r gorsafoedd bach sydd wedi agor ar hyd yr holl linell i Gaerdydd, bod nifer y bobl sy'n eu defnyddio yn anhygoel, ac felly maent yn cymryd ceir oddi ar y ffyrdd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:05

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i'r Gweinidog am y datganiad—llawer ohono fo, wrth gwrs, rwy'n ei groesawu. Rwy'n cytuno'n sicr fod trafndiaeth yn gorfod cael ei gweld fel un o'n prif arfau ni yn economaidd. Y cwestiwn canolog wastad ydy: a ydy'r hyn mae'r Llywodraeth yn ei wneud o ran ffocws ac o ran amserlen yn mynd â ni i'r cyfeiriad iawn ac yn mynd â ni yn yn ddiagon cyflym?

I thank the Minister for the statement—much of it, of course, I welcome. I agree certainly that transport has to be seen as one of our main tools in an economic sense. The central question every time is: is what the Government going in terms of focus and timetable taking us in the right direction and taking us there quickly enough?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n nodi'r sylw gan y Gweinidog fod hon yn rhaglen uchelgeisiol, ond hyd yn oed o gytuno efo'r Gweinidog am y cyfyngiadau cyllidol mae'n gorfod gweithio o'u mewn ar hyn o bryd, mae'n rhaid imi godi cwestiwn ynglŷn â faint o uchelgais sydd yna mewn un cyd-destun yn benodol, a chyfeirio ydw i at y cynllunio ar gyfer y metro yn y de-ddwyrain. Ym mis Gorffennaf, mi amlinellodd y Gweinidog gynllun gwariant ar gymal 2 y metro o ryw £600 miliwn i gael ei gwblhau erbyn 2023—newyddion da iawn ar yr wyneb, tan i ymchwil pellach ddangos bod mwyafrif helaeth yr arian hwnnw ynghlwm â thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Wrth gwrs, rwyf 100 y cant o blaid trydaneiddio y Cymoedd, ond mae yna lawer iawn mwy i'r metro na hynny ac mae'n rhaid gweithredu yn gynharach na hynny os am gael metro sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn. A all y Gweinidog gadarnhau mai trydaneiddio'r Cymoedd ydy craidd y £600 miliwn yna? A allaf ofyn hefyd pryd gawn ni ymrwymiad ar yr elfennau yna o'r metro sydd wirioneddol yn mynd i fod yn drawsnewidiol?

Wrth gwrs, rwy'n croesawu'r newyddion am fuddsoddiadau mewn rheilffyrdd yn rhannau eraill o Gymru. O ran trydaneiddio, rwy'n croesawu hefyd yr hyn y cyfeirioch chi ato fo, sef y gynhadledd arbennig ar reilffyrdd yn y gogledd yn yr hydref. Tybed a yw'r Gweinidog yn gallu dweud wrthym ni pa bryd mae'n debyg o allu pwyntio at amserlen y byddai hi'n dymuno ei gweld yn cael ei gweithredu ar gyfer trydaneiddio y gogledd, oherwydd mae yna gyffro'n amlwg o ran yr hyn sy'n digwydd yn y de ar hyn o bryd, gan ein bod ni'n agosáu at gael yr arf pwysig yna o drydaneiddio ar draws y de.

Yn troi at ffyrdd, rwy'n croesawu'r addewid ynglŷn â nifer o ddatblygiadau ar draws Cymru. Rwy'n croesawu'n arbennig y cyllid ar gyfer datblygu cynllun busnes ar gyfer trydedd bont ar draws y Fenai. Yr wythnos diwethaf, mi oedd cyfarwyddwr llwybrau môr Iwerddon Stena Line yn sôn am y posibilrwydd, oherwydd twf diweddar mewn traffig, y gallan nhw gyflwyno llongau mwy a llongau ychwanegol, ond bod hynny yn cael ei fygwth gan y cyfyngiadau yma sydd ar yr A55. Ac o ystyried hynny, a ydy'r Gweinidog yn cytuno bod yr angen am drydedd bont, fel rhan o raglen ehangach ar yr A55, yn dod yn fwy a mwy anochel a'i bod hi'n ddadl sy'n mynd yn amhosibl i'w hanwybyddu?

Mae'n rhaid i mi ddatgan eto fy mod i'n teimlo bod y datganiad yn llawer llai uchelgeisiol nag y gallai fo fod pe bai'r Llywodraeth yn bod ychydig yn llai pengaled ynglŷn â chynlluniau ar gyfer yr M4 yn ardal Casnewydd, ac yn mynnu gwario dros £1 biliwn ar y llwybr du pan fyddai cynllun amgen llawn cystal yn rhyddhau cannoedd o filiynau o bunnau ar gyfer prosiectau ledled Cymru. Mi ddywedodd y Prif Weinidog heddiw:

'We have been told by the UK Government—whether we agree with this or not—that the money will be made available up front for the M4 relief road and for no other purpose.'

I note the comment made by the Minister that this is an ambitious programme, but even in agreeing with the Minister about the financial restrictions she has to work within at the moment, I have to raise a question in terms of how much ambition there is in one context in particular, and I'm referring to the planning for the metro in the south-east. In July, the Minister outlined a spending plan for phase 2 of the metro of about £600 for it to be completed by 2023—very good news on the face of it, until further research showed that a large majority of that funding was linked with the electrification of the Valleys lines. Of course, I'm 100 per cent in favour of the electrification of the Valleys, but there is much more to the metro than that and there is a need to act much earlier than that if we're going to have a metro that's going to make a real difference. Can the Minister confirm that electrification of the Valleys is the core of that £600 million? May I also ask when we will have a commitment on those elements of the metro that are really going to be transformational?

Of course, I welcome the news about investments in railways in other parts of Wales. In terms of electrification, I welcome also what you referred to earlier, namely the rail summit in north Wales in October. I wonder if the Minister can tell us when exactly she'll be able to point at a timetable that she would wish to see being acted upon with regard to electrification in north Wales, because there is an excitement in terms of what's happening in south Wales at the moment, because we are nearing towards getting that important tool of electrification across south Wales.

Turning to the roads, I welcome the promise regarding a number of developments across Wales. I especially welcome the funding for developing a business plan for a third bridge across the Menai. Last week, Stena Line's director of Irish sea routes was talking about the possibility, as a result of the recent growth in traffic, that they could introduce bigger ships and additional ships, but that was being threatened by these restrictions that are on the A55. Given that, does the Minister agree that the need for a third bridge, as part of a wider programme on the A55, becomes more and more inevitable and that it's a debate that is becoming impossible to ignore?

I have to state again that I feel that the statement is much less ambitious than it could be, if the Government was a little less hard-headed with regard to its plans for the M4 in the Newport area, in insisting on spending over £1 billion on the black route when an alternative route would be as good and would release hundreds of millions of pounds for projects across Wales. The First Minister said today:

'Rydym wedi cael gwybod gan Lywodraeth y DU—os ydym yn cytuno â hyn neu beidio—y bydd yr arian ar gael o flaen llaw ar gyfer ffordd liniaru'r M4 ac na fydd ar gael at unrhyw ddiben arall.'

'Whether we like it or not', he says. I'm wondering if the Minister is getting close to saying or feeling able to say that she regrets the fact that the First Minister did sign up to this handcuffing of the Government on such a crucial issue, in that it sets a dangerous precedent and also in that it limits her ability to genuinely set the agenda and priorities for transport in Wales.

In finishing, though, I certainly applaud the Minister for highlighting again the inadequacies and shortcomings of the offer in terms of further devolution in transport. Certainly, we can speak with one voice on pushing this agenda forward. In particular, I was pleased to hear her mentioning the need for the devolution of rail infrastructure.

17:09

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I don't regret anything the First Minister says on this matter; I obviously stand behind the First Minister's statement with regard to this. You're all aware of the discussions that took place with the UK Government and the decision of the Chancellor about how this money would be allocated. The trouble is you do have to—. You say I have no ambition; I think this is quite ambitious, but you do have to temper some ambition because we actually haven't got the money to deal with some things. So, we've got to get something that's fair, I think, and strategic for all parts of Wales. I think this is what we're trying to do with this current plan.

Can I say I very much agree with your contribution about the ports and the contribution of Holyhead? I think, in terms of Holyhead, we do have to do a lot more with regard to that port. They've got some very interesting ideas for how they're going to develop the port themselves. It is a strategic port, a strategic link to Ireland, and that's why we are commissioning this study into the third crossing—because we think it won't only help the nuclear development in the long run; it will help the development of the island and the port of Holyhead. So, I think it's important.

With regard to the summit we're going to have, I think that's quite important. I'm hoping to host that on the Thursday, so I will obviously extend an invitation to Assembly Members in north Wales who might come, because I think it's important we've got a broad consensus with support. Excellent work has been done by the north Wales economic ambition board, but now we've got to make sure that we get other parties from across the border who do support us to actually support us on the electrification. This will be a missed opportunity if we don't go for this and make the case to the Department for Transport, and DFT have to have a strong case to make a good case to Treasury. I think we've all got to be united across the piece in how we deal with this particular issue within north Wales.

'Os ydym yn dymuno hynny neu beidio', meddai ef. Rwyf yn meddwl tybed a yw'r Gweinidog yn mynd yn agos at ddweud neu deimlo ei bod yn gallu dweud ei bod yn gresynu'r ffaith bod y Prif Weinidog wedi cytuno i lyffetheirio'r Llywodraeth ar fater mor hollbwysig, gan ei fod yn gosod cynsail peryglus a hefyd gan ei fod yn cyfyngu ar ei gallu i osod yr agenda a'r blaenoriaethau i drafnidiaeth yng Nghymru.

Wrth orffen, fodd bynnag, rwyf yn sicr yn cymeradwyo'r Gweinidog am dynnu sylw eto at ddiffygion a gwendidau'r cynnig o ran datganoli pellach mewn cyswllt â thrafnidiaeth. Yn sicr, gallwn siarad ag un llais am wthio'r agenda hon yn ei blaen. Yn benodol, roeddwn yn falch o'i chlywed yn crybwyll yr angen am ddatganoli seilwaith y rheilffyrdd.

Nid wyf yn edifar gennyf am unrhyw beth y mae'r Prif Weinidog yn dweud am y mater hwn; mae'n amlwg fy mod yn cefnogi datganiad y Prif Weinidog mewn cysylltiad â hyn. Rydych chi gyd yn ymwybodol o'r trafodaethau a gynhaliwyd â Llywodraeth y DU a phenderfyniad y Canghellor ynghylch sut y byddai'r arian hwn yn cael ei ddyrannu. Y broblem yw bod rhaid i chi—. Rydych yn dweud nad oes gennyf unrhyw uchelgais; rwyf yn credu bod hyn yn eithaf uchelgeisiol, ond mae'n rhaid i chi reoli rhywfaint o uchelgais oherwydd mewn gwirionedd nid oes gennym yr arian i ymdrin â rhai pethau. Felly, mae'n rhaid i ni gael rhywbeth sy'n deg, rwyf yn credu, ac yn strategol i bob rhan o Gymru. Credaf mai dyma yw'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud gyda'r cynllun cyfredol hwn.

A gaf i ddweud fy mod yn cytuno'n llwyr â'ch cyfraniad ynglŷn â'r porthladdoedd a chyfraniad Caergybi? Rwyf yn meddwl, o ran Caergybi, bod yn rhaid i ni wneud llawer mwy ynghylch y porthladd hwnnw. Mae ganddyn nhw rai syniadau diddorol iawn ar gyfer sut y maent yn mynd i ddatblygu'r porthladd eu hunain. Mae'n borthladd strategol, â chyswllt strategol ag Iwerddon, a dyna pam yr ydym yn comisiynu'r astudiaeth hon i mewn i'r drydedd bont—am ein bod yn credu nid yn unig y bydd yn helpu datblygiad niwclear yn y tymor hir; bydd yn helpu datblygiadau ar yr ynys ac ym mhorthladd Caergybi. Felly, rwyf yn credu ei fod yn bwysig.

O ran yr uwchgynhadledd rydym yn mynd i'w chynnal, wyf yn credu bod hynny'n eithaf pwysig. Rwyf yn gobeithio ei chynnal ar y dydd Iau, felly byddaf yn amlwg yn estyn gwahoddiad i Aelodau'r Cynulliad yn y gogledd sydd am ddo, oherwydd credaf ei bod yn bwysig bod gennym gonsensws eang gyda chymorth. Gwnaeth bwrdd uchelgais economaidd y gogledd waith ardderchog, ond erbyn hyn mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn cael pleidiau eraill o ochr draw i'r ffin sy'n ein cefnogi ni i'n cefnogi ni hefyd o ran y trydaneiddio. Bydd hwn yn gyfle a gollwyd os na fyddwn yn mynd amdano a pharatoi achos i'r Adran Drafnidiaeth, a bydd rhaid i'r DFT gael achos cryf i'w gyflwyno i'r Trysorlys. Rwyf yn credu bod rhaid i ni gyd uno o ran y ffordd yr ydym yn ymdrin â'r mater penodol hwn yn y gogledd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of the roads generally, when I go along the A55, I'm always mindful of Members' questions about the A55 and what further work can be done. It is something that we constantly assess about what we can and cannot do on the A55, because I realise it is the lifeline that goes across north Wales in terms of delivery in terms of the economy. So, obviously, there will be further issues around that. Can I say, in terms of rail, there is a lot more that we could do in terms of rail if we had a few more powers in terms of rail? You also asked me about the metro. It's going to be a good project. The contribution of the UK Government is part of the money that we've put into it. It's going to be an electrified heavy and light rail system; there are going to be new bus routes in it and the development of park and ride. As I indicated in July, we're now going out to the market, and I'll be in a better position at the end of the year to indicate what we can do within that possible cost envelope. I am coming to the committee for scrutiny on the metro, and I'll be delighted to deal with some of the detailed issues around that during that particular scrutiny session.

O ran y ffyrdd yn gyffredinol, pan fyddaf yn mynd ar hyd yr A55, wyf yn ymwybodol bob amser o gwestiynau'r Aelodau ynghylch yr A55 a pha waith pellach y gellir ei wneud. Mae'n rhywbeth yr ydym yn ei asesu'n gyson am yr hyn y gallwn a'r hyn na allwn ei wneud ar yr A55, gan fy mod yn sylweddoli ei bod yn ffordd hanfodol sy'n mynd ar draws y gogledd o ran darparu mewn cysylltiad â'r economi. Felly, yn amlwg, bydd materion pellach ynghylch hynny. A gaf i ddweud, o ran y rheilffyrdd, mae llawer mwy y gallwn ei wneud o ran rheilffyrdd pe byddai gennym ychydig mwy o bwerau o ran y rheilffyrdd? Fe wnaethoch chi ofyn i mi hefyd am y metro. Mae'n mynd i fod yn brosiect da. Mae cyfraniad Llywodraeth y DU yn rhan o'r arian yr ydym wedi ei roi tuag ato. Mae'n mynd i fod yn system reilffyrdd trwm ac ysgafn sydd wedi'i thrydaneiddio; bydd yn cynnwys llwybrau bysiau newydd a datblygiad parcio a theithio. Fel y nodais ym mis Gorffennaf, rydym yn awr yn mynd allan i'r farchnad, a byddaf mewn sefyllfa well ar ddiwedd y flwyddyn i ddangos yr hyn y gallwn ei wneud o fewn trothwy'r gost. Rwyf yn dod i'r pwyllgor i graffu ar y metro, a byddaf yn falch iawn o ymdrin â rhai o'r materion manwl sy'n gysylltiedig â hynny yn ystod y sesiwn graffu benodol honno.

17:12

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll look forward to that scrutiny session because I have lots of questions. So, I'll dispense with the pleasantries, but thank you for the statement and for the very detailed plan that you published at the end of last session. You said in response to Rhun ap Iorwerth that your ambition is tempered by the fact that you have a lack of money, and that's really the first thing that jumps out at you from the transport plan.

There is a big gap between the funding already identified and firmly secured and the planned expenditure. If we look, for example, at 2019-20 for the capital expenditure, we have £741 million-worth of spend and £190 million identified funding—only a quarter of what is needed to deliver the plan. Now, I recognise that, if you take that quarter, you double it by match funding it with structural funds, you can double it again by seeking, perhaps, borrowing from the European Investment Bank, for example, but that would need to mean that every single project in this transport plan could be matched funded in that way. Actually, in your statement, you've only suggested that it was the TEN-T project and the metro that had been cleared in that way, so I wonder if you can give us some idea of how much you will be reliant on structural funds, how much on the European Investment Bank and what is the gap that's going to need filling from other sources?

Similarly, on revenue spending, if we look at that, 2015-16 is the only year where the budget matches the expenditure. The gap rises to £51 million in 2018-19 and, obviously, as we can't borrow for revenue, I wonder if you can give us some idea of where you'll anticipate you'll be able to fill that gap.

Edrychaf ymlaen at y sesiwn honno oherwydd bod gennyf lawer o gwestiynau. Felly, byddaf yn hepgor y cyfarchion, ond diolch ichi am y datganiad ac am y cynllun manwl iawn y cyhoeddasoch ar ddiwedd y sesiwn ddiwethaf. Dywedasoch mewn ymateb i Rhun ap Iorwerth yr amherir ar eich uchelgais oherwydd diffyg arian, ac mewn gwirionedd dyma'r peth cyntaf sy'n tynnu eich sylw yn y cynllun trafniadaeth.

Mae bwlch mawr rhwng y cyllid a glustnodwyd ac a sicrhawyd yn gadarn eisoes a'r gwariant arfaethedig. Os edrychwn, er enghraifft, ar y gwariant cyfalaf yn 2019-20, mae gennym werth £741 miliwn a gafodd ei wario a £190 miliwn o gyllid a nodwyd—dim ond chwarter o'r hyn sydd ei angen i gyflawni'r cynllun. Nawr, rwyf yn cydnabod, os ydych yn cymryd y chwarter hwnnw, ac yn ei ddyblu gydag arian cyfatebol cronfeydd strwythurol, gallwch ei ddyblu eto trwy ymchwilio, efallai, i mewn i'w fenthycu oddi wrth Fanc Buddsoddi Ewrop, er enghraifft, ond byddai angen i hynny olygu y gallai pob un prosiect yn y cynllun trafniadaeth hwn gael ei ariannu'n gyfatebol yn y modd hwnnw. Mewn gwirionedd, yn eich datganiad, rydych chi wedi awgrymu mai'r prosiect TEN-T a'r metro a oedd wedi cael eu clirio yn y ffordd honno, felly tybed a allwch chi roi rhyw syniad o faint y byddwch yn dibynnu ar gronfeydd strwythurol, faint ar Fanc Buddsoddi Ewrop a beth yw'r bwlch y bydd angen ei lenwi o ffynonellau eraill?

Yn yr un modd, ynghylch gwariant refeniw, os edrychwn ar hynny, 2015-16 yw'r unig flwyddyn lle mae'r gyllideb yn cyfateb i'r gwariant. Mae'r bwlch yn codi i £ 51 miliwn yn 2018-19 ac, yn amlwg, gan na allwn fenthycu ar gyfer refeniw, tybed a oes modd i chi roi rhyw syniad inni o ble y byddwch yn rhagweld y gallwch lenwi'r bwlch hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

A third issue is around funding for the national transport company for Wales. It isn't clear where that is coming from, and it is not clear either in this plan which actions will be completed by that company and which will be completed by your department. For example, if specifying the franchise is going to the transport company, it will require quite a significant investment in terms of the staff capacity that you have in that company to be able to do that work. Is that included within your finance plan here or is that off balance sheet for the Welsh Government's budget on the basis that it's an arm's-length company? I wonder if you can confirm for me whether that transport company has borrowing powers of its own outside of whatever might be available to the Welsh Government in future.

Turning to a few specific projects, the Valleys lines electrification projects are detailed in list 1(b), to be delivered within the metro phase 2, according to that. I note that neither the Vale of Glamorgan line nor the Maesteg line are listed in any of the lists described as being for electrification. I wonder if you can confirm for me whether that is because they're not going to be electrified, or whether, perhaps, they're being electrified by the UK Government—the Vale of Glamorgan line is obviously the relief route for the Great Western main line to Swansea—or is it that it is out of the scope of the current plan? The current plan, obviously, is a five-year plan, but the final column in that delivery plan is '2020 and beyond'. To see that these two railway lines are not included even in '2020 and beyond' is going to cause significant concern for people trying to drive economic development in places like Maesteg and along the Vale of Glamorgan line who had obviously anticipated that, when we talked about the Valleys lines, we were talking about them as well.

In terms of timing, if we look at some of the actions within the plan, RI10 and RI11, for example, are about developing assessment criteria for new stations that we might look at, and I really do welcome the very broad list of stations that will be looked at. Also, RI11 is about capacity improvements on specific lines as well, but what you've outlined there is five years for planning an assessment and no time to implement—again, not even in '2020 and beyond'—any such identified stations. So, can you confirm that there will be no new stations at least within the next five years, because that's what the transport plan says at the moment?

Similarly, if we look at RS5, which is to do with modernising the rolling stock, it says:

'investigate opportunities to modernise the rail rolling stock'

Mae trydydd mater yn ymwneud â chyllid ar gyfer cwmni trafndiaeth cenedlaethol Cymru. Nid yw'n glir o ble ddaw'r arian, ac nid yw'n glir ychwaith yn y cynllun hwn pa gamau gweithredu fydd yn cael eu cwblhau gan y cwmni hwnnw, ac a fydd yn cael eu cwblhau gan eich adran chi. Er enghraifft, os bydd pennu'r fasnachfrait yn gyfrifoldeb y cwmni cludiant, bydd angen buddsoddiant eithaf sylweddol o ran capasiti'r staff sydd gennych yn y cwmni hwnnw i allu gwneud y gwaith hwnnw. A yw hynny wedi ei gynnwys o fewn eich cynllun cyllid chi fan hyn neu a yw hynny wedi ei hepgor o fantolen gyllideb Llywodraeth Cymru ar y sail ei fod yn gwmni hyd braich? Tybed a allwch gadarnhau i mi a oes gan y cwmni trafndiaeth bwerau benthyca ar wahân i'r hyn sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Gan droi at rai prosiectau penodol, mae prosiectau trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd wedi eu manylu yn rhestr 1 (b), a byddant yn cael eu cyflwyno o fewn y cyfnod metro 2, yn unol â hynny. Nodaf nad yw llinell Bro Morgannwg na linell Maesteg wedi eu rhestru yn unrhyw un o'r rhestrau a ddisgrifir fel rhai sydd i'w trydaneiddio. Tybed a oes modd i chi gadarnhau i mi pa un a yw hynny oherwydd nad ydynt yn mynd i gael eu trydaneiddio, neu a fyddant, efallai, yn cael eu trydaneiddio gan Lywodraeth y DU—mae'n amlwg mai llinell Bro Morgannwg yw'r llwybr ryddhad ar gyfer brif lein y Great Western i Abertawe—neu a yw'n cael ei gadael allan o sgôp y cynllun ar hyn o bryd? Mae'r cynllun ar hyn o bryd, yn amlwg, yn gynllun pum mlynedd, ond mae'r golofn olaf yn y cynllun cyflenwi hwnnw yn '2020 a thu hwnt'. Mae gweld nad yw'r ddwy linell rheilffordd hyn yn cael eu cynnwys hyd yn oed yn '2020 a thu hwnt' yn mynd i achosi pryder sylweddol i bobl sy'n ceisio ysgogi datblygiad economaidd mewn ardaloedd megis Maesteg ac ar hyd llinell Bro Morgannwg, a oedd yn amlwg wedi rhagweld hynny, pan oeddem yn siarad am reilffyrdd y Cymoedd, ein bod yn sôn amdanynt hwy hefyd.

O ran amseru, os edrychwn ar rai o'r camau gweithredu yn y cynllun, RI10 a RI11, er enghraifft, maent yn ymwneud â datblygu meini prawf asesu ar gyfer gorsafoedd newydd y gallwn eu hystyried, ac yr wyf wir yn croesawu'r rhestr eang iawn o orsafoedd a fydd yn cael eu hystyried. Hefyd, mae'r RI11 yn ymwneud â gwelliannau capasiti ar linellau penodol hefyd, ond yr hyn yr ydych wedi'i amlinelli yno yw pum mlynedd ar gyfer cynllunio asesiad heb unrhyw amser i weithredu—unwaith eto, hyd yn oed yn '2020 a thu hwnt'—ni nodwyd unrhyw orsafoedd o'r fath. Felly, a allwch gadarnhau na fydd unrhyw orsafoedd newydd o leiaf yn ystod y pum mlynedd nesaf, oherwydd dyna beth mae'r cynllun trafndiaeth yn ei ddweud ar hyn o bryd?

Yn yr un modd, os edrychwn ar RS5, sydd yn ymwneud â moderneiddio'r cerbydau, mae'n dweud:

'Ymchwilio i gyfleoedd i foderneiddio'r stoc rheilffordd dreigl'

and that action covers the entire of the period into 2020 and beyond. Now, five years to investigate is probably about four years too long, because, obviously, within that five-year time, we're going to have a new rail franchise, we're going to have new accessibility rules from the EU, and we know that much of the rolling stock that we have in Wales will need at least to be converted, but some of it is not possible to convert, to EU accessibility standards. So, we will run out of time and it takes about two years to build a fleet of trains. We will run out of time before we've finished investigating it.

Finally, just on buses, there weren't any actions mentioned specifically in the statement, although I recognise that they are covered in the finance plan. But it transports 0.25 million people a day in Wales, and to not have it mentioned in the statement— It hasn't got a headline of its own in the delivery plan either; that seems to have been missed off. It is just as critical a part of an integrated transport plan, and many needs are revenue needs as opposed to capital needs, so I query how that's going to be met, given the revenue problems that we have. But, similarly, like many of the rail projects I've just mentioned, a full five years is given to developing targeted funding for bus and community transport, and, whilst of course I welcome that work, if it's going to take five years to develop funding for bus and community transport and bus services in rural Wales, you won't have any bus services in rural Wales, and you won't have any community transport to find a funding solution for.

ac mae'r cam hwnnw yn cwmpasu'r holl gyfnod hyd 2020 a thu hwnt. Nawr, mae pum mlynedd i ymchwilio yn bedair blynedd yn rhy hir yn ôl pob tebyg, oherwydd, yn amlwg, o fewn y cyfnod hwnnw o bum mlynedd, byddwn yn cael masnachfrait rheilffyrdd newydd, rydym yn mynd i gael rheolau hygyrchedd newydd gan yr UE, ac rydym yn gwybod bod angen i lawer o'r cerbydau sydd gennym yng Nghymru, gael eu trosi o leiaf, ond nid oes modd newid rhai ohonynt, i safonau hygyrchedd yr UE. Felly, byddwn yn rhedeg allan o amser ac mae'n cymryd tua dwy flynedd i adeiladu fflyd o drenau. Byddwn yn rhedeg allan o amser cyn i ni orffen ymchwilio i hyn.

Yn olaf, ar fysiau'n unig, nid oedd unrhyw gamau gweithredu wedi eu crybwyll yn benodol yn y datganiad, er fy mod yn cydnabod eu bod yn cael eu cynnwys yn y cynllun cyllid. Ond mae'n cludo 0.25 miliwn o bobl bob dydd yng Nghymru, ac mae ei eithrio o'r datganiad—. Nid yw wedi cael pennawd ei hun yn y cynllun darparu ychwaith; mae'n ymddangos bod hynny wedi ei gollu. Mae'n rhan sydd yr un mor allweddol o gynllun trafndiaeth integredig, ac mae llawer o anghenion yn anghenion refeniw yn hytrach nag anghenion cyfalaf, felly rwyf yn cwestiynu sut fydd hyn yn cael ei fodloni, o ystyried y problemau refeniw sydd gennym. Ond, yn yr un modd, fel llawer o'r prosiectau rheilffyrdd rwyf newydd eu crybwyll, mae pum mlynedd lawn yn cael eu rhoi i ddatblygu cyllid sydd wedi'i dargedu ar gyfer trafndiaeth gymunedol a bysiau, ac er fy mod wrth gwrs yn croesawu'r gwaith hwnnw, os yw'n mynd i gymryd pum mlynedd i ddatblygu cyllid ar gyfer gwasanaeth bysiau a thrafnidiaeth gymunedol a gwasanaethau bws yng Nghymru wledig, ni fydd gennych unrhyw wasanaethau bws yng Nghymru wledig, ac ni fydd gennych unrhyw gludiant cymunedol i geisio datrys ateb iddo o ran cyllid.

17:18

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. If I can deal with some of the funding issues, I think the funding does provide a better understanding for Members of the affordability and deliverability of the transport commitments over the next few years—I think that's quite important. Many of the schemes will be funded from existing budgets. However, the programme will require funding beyond the £2.6 billion available to me in the transport budget over the next five years.

The estimated five-year programme cost is, as you say, about £4.5 billion. The plan includes budget over-profiling, which is around 14 per cent of the total cost planned, and this means there are some projects that can be implemented to compensate for schemes that may not be taken further forward due to a lack of a viable business case, which does sometimes occur on transport schemes. The delivery of the schemes that are planned will be shaped, I think, to fit the available budget and I think that's common sense in terms of using resources.

Diolch yn fawr. Os byddaf yn gallu ymdrin â rhai o'r materion cyllido, rwyf yn meddwl bod y cyllid yn rhoi gwell dealltwriaeth i Aelodau ynglŷn â fforddiadwyedd a chyflenwadwyedd ymrwymadau trafndiaeth dros y blynyddoedd nesaf—Rwyf yn credu bod hynny'n eithaf pwysig. Bydd llawer o'r cynlluniau yn cael eu hariannu o gyllidebau sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, bydd angen cyllid y tu hwnt i'r £ 26 biliwn sydd ar gael i mi yn y gyllideb drafndiaeth ar y rhaglen dros y pum mlynedd nesaf.

Amcangyfrifir bod cost rhaglen bum mlynedd, fel y dywedaso, tua £45 biliwn. Mae'r cynllun yn cynnwys gor-broffilio cyllideb, sef tua 14 y cant o gyfanswm y gost a gynlluniwyd, ac mae hyn yn golygu bod rhai prosiectau y gellid eu rhoi ar waith i wneud yn iawn am gynlluniau nad oes modd eu symud ymhellach ymlaen oherwydd diffyg achos busnes hyfyw, sy'n digwydd ar adegau mewn cynlluniau trafndiaeth. Bydd y gwaith o gyflawni'r cynlluniau sydd wedi'u cynllunio yn cael ei siapio, rwyf yn meddwl, i gyd-fynd â'r gyllideb sydd ar gael ac rwyf yn credu bod hynny'n synnwyr cyffredin o ran defnyddio adnoddau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We will bid for external funding and look for innovative sources of funding to bridge the funding gap. Now, projects currently under contract will be delivered as planned, with adjustments to the profile of the spend in future years as required to enable the priorities to be progressed. That's normal budgeting in terms of how Government works. I've already succeeded with securing external funding sources.

As you indicated, the Commission's confirmed the national transport finance plan satisfies conditionality related to the 2014-20 ERDF structural fund programme, and that now allows us to work with WEFO on the allocations there. The plan's already identified a programme of capital improvements on the A55 and A40 TEN-T corridors and for phases 1 and 2 of the metro. We'd be able to draw down £220 million of this European funding, which is quite substantial when you look at the package. The complete package of transport improvement costs, because we've got all the costs on the various improvements—. We've got national station improvement phase 2, which will be £24 million. We've got the metro, we've got the Maesteg line improvements—£15 million here. The Ebbw Vale line improvements and Abertillery spur—£55 million. If we look at Newport rapid transport, we're looking at £70 million. Additionally, there's been £141 million awarded from the Department for Transport in support, including £125 million for the Valleys modernisation and £16.2 million for the Access for All programmes. So, we've had that money from DfT.

I'm also looking at further funding opportunities for schemes such as the A465—innovative. We could use a non-profit distributing investment model—Welsh Government central capital in support of the infrastructure plan. So, in terms of what we're doing, central finance have also been engaged in terms of what money, and it's also assumed the metro phase 2 costs will be met from outside the Welsh Government's transport. So, in terms of the funding, I think we've dealt comprehensively with the funding issues that are arising, and I appreciate there is an issue around the money.

You also alluded to the issues around the arm's-length company. In terms of the arm's-length company, it is an arm's-length company. It is structured as such, like we have other arm's-length companies, and, of course, eventually, it will be employing people as an arm's-length company so it can actually do the work that's required.

Byddwn yn gwneud cais am gyllid allanol a chwilio am ffynonellau arloesol o gyllid i bontio'r bwlch cyllido. Nawr, bydd y prosiectau sydd o dan gontract ar hyn o bryd yn cael eu cyflwyno fel y cynlluniwyd, gydag addasiadau i broffil y gwariant yn y blynyddoedd nesaf yn ôl yr angen er mwyn i'r blaenoriaethau gael eu symud ymlaen. Dyna gyllidebu arferol o ran sut y mae'r Llywodraeth yn gweithio. Rwyf eisoes wedi llwyddo i sicrhau ffynonellau cyllid allanol.

Fel y dywedaso, mae cynllun cyllid trafndiaeth cenedlaethol y Comisiwn, y cytunwyd arni, yn bodloni amodoldeb sy'n gysylltiedig â rhaglen cronfeydd strwythurol ERDF 2014-20, ac sydd bellach yn ein galluogi i weithio gyda WEFO ar y dyraniadau yno. Mae'r cynllun eisoes wedi nodi rhaglen o welliannau cyfalaf ar goridorau'r A55 a choridorau'r A40 TEN-T ac i gamau 1 a 2 y metro. Byddem yn gallu tynnu £ 220 miliwn o'r arian Ewropeaidd hwn, sy'n eithaf sylweddol pan rydych yn edrych ar y pecyn. Mae'r pecyn cyflawn o gostau gwella trafndiaeth, gan ein bod wedi cael yr holl gostau ar y gwelliannau amrywiol—. Mae gennym gam gwella gorsafodded cenedlaethol 2 , a fydd yn costio £ 24 miliwn. Mae gennym y metro, mae gennym welliannau llinell Maesteg —£ 55 miliwn yma. Mae gennym welliannau llinell Glynebwy a sbardun Abertyleri —£ 55 miliwn. Os edrychwn ar gludiant cyflym Casnewydd, rydym yn edrych ar werth £ 70 miliwn. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd £ 141 miliwn a roddwyd gan yr Adran Drafndiaeth yn gymorth, gan gynnwys £ 125 miliwn ar gyfer moderneiddio'r Cymoedd a £ 16.2 miliwn ar gyfer y rhaglen Mynediad i Bawb. Felly, rydym wedi cael yr arian hwnnw gan yr Adran Drafndiaeth.

Rwyf hefyd yn edrych ar gyfleoedd ariannu pellach ar gyfer cynlluniau megis yr A465—arloesedd. Gallem ddefnyddio model buddsoddi dosbarthu cyfalaf di-elw— cyfalaf canolog Llywodraeth Cymru i gefnogi'r cynllun seilwaith. Felly, o ran yr hyn rydym yn ei wneud, mae cyllid canolog hefyd wedi bod yn cymryd rhan o safbwynt pa arian, a rhagdybir hefyd y bydd costau'r cam metro 2 yn cael eu talu o'r tu allan i drafndiaeth Llywodraeth Cymru. Felly, o ran y cyllid, rwyf yn meddwl ein bod wedi ymdrin yn gynhwysfawr â'r materion cyllido sy'n cael eu codi, ac rwyf yn gwerthfawrogi bod problem ynghylch yr arian.

Roeddech hefyd wedi cyfeirio at y materion sy'n ymwneud â'r cwmni hyd braich. O ran y cwmni hyd braich, mae'n gwmni hyd braich. Mae wedi ei strwythuro fel y cyfryw, fel yn achos cwmniau hyd braich eraill, ac, wrth gwrs, yn y pen draw, bydd yn cyflogi pobl fel cwmni hyd braich fel y gallai mewn gwirionedd wneud y gwaith sydd ei angen.

You also alluded to some of the rolling stock issues. You might say that's in the plan, which it does, of course, say, but the important thing is that we recognise it and we've gone out to the market in terms of what's available, and there are a lot of people interested in providing new rolling stock as part of the franchise and as part of the metro, and also looking at whether they could bring that business to Wales in terms of actually building the rolling stock. So, I think you can be assured we're well aware of the European requirements and we're well aware of what we need to do. That's why this is such a critical phase now before Christmas, because we've gone to the market to look at what, overall, can be delivered in terms of what I outlined in July.

Buses are also very critical to this particular agenda. The local authorities in south-east Wales have been particularly helpful, looking at strategic bus routes and how that links into the metro. But I think we're all agreed, on bus routes, that we need to have control of buses in a very real sense to get them totally integrated into what we're doing.

I appreciate that this transport plan will not answer all the questions there are about transport, but I think it does indicate, as I said, the direction of travel and the funds that are available.

Roeddech hefyd wedi cyfeirio at rai o'r materion ynghylch cerbydau. Efallai y byddwch yn dweud bod hynny yn y cynllun, a dyna yw'r hyn y mae'n ei ddweud, wrth gwrs, ond y peth pwysig yw ein bod yn ei adnabod ac rydym wedi mynd y tu allan i'r farchnad o ran yr hyn sydd ar gael, ac mae llawer o bobl sydd â diddordeb mewn darparu cerbydau newydd fel rhan o'r fasnachfaint ac fel rhan o'r metro, ac mae hefyd yn ystyried a allent ddod a'r busnes hwnnw i Gymru o ran adeiladu'r cerbydau mewn gwirionedd. Felly, rwyf yn meddwl y gallwch chi fod yn sicr ein bod yn ymwybodol iawn o'r gofynion Ewropeaidd ac rydym yn ymwybodol iawn o'r hyn sydd angen inni ei wneud. Dyna pam mae hyn yn gam mor bwysig yn awr cyn y Nadolig, oherwydd ein bod wedi mynd i'r farchnad i edrych ar yr hyn, yn gyffredinol, y gellid eu cyflwyno o ran yr hyn a amlinellais ym mis Gorffennaf.

Mae bysiau hefyd yn bwysig iawn i'r agenda benodol hon. Mae'r awdurdodau lleol yn y de-ddwyrain wedi bod yn hynod ddefnyddiol, gan edrych ar lwybrau bysiau strategol a sut mae hynny'n cysylltu â'r metro. Ond rwyf yn credu ein bod i gyd yn cytuno, ynghylch llwybrau bysiau, mae angen i ni reoli bysiau gydag ymdeimlad real iawn er mwyn eu hintegreiddio'n llwyr â'r hyn rydym yn ei wneud.

Rwyf yn gwerthfawrogi na fydd y cynllun trafniadaeth hwn yn ateb yr holl gwestiynau am drafniadaeth, ond rwyf yn meddwl ei fod yn dynodi, fel y dywedais, gyfeiriad y teithio a'r arian sydd ar gael.

17:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think it was always optimistic to get this statement done in 30 minutes, so I will allow time to run on, but I still have five Members who wish to be called, so, please, crisp contributions only now. Julie Morgan.

Rwyf yn credu ei fod yn optimistaidd i orffen y datganiad hwn o fewn 30 munud, felly byddaf yn caniatáu mwy o amser, ond mae gennyf bum Aelod o hyd sy'n dymuno cael eu galw, felly, os gwelwch yn dda, cyfraniadau clir yn awr. Julie Morgan.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:23 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Very swiftly, I'm pleased that the statement does mention the active travel Act. That Act's aim is to get us all thinking about walking and cycling more for everyday journeys. Would it be possible for the Minister to give any more details within the national transport finance plan to show what the planned investment strategy is that will underpin the delivery of the Act?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yn gyflym iawn, rwyf yn falch bod y datganiad yn crybwyll y Ddeddf teithio byw. Nod y Ddeddf honno yw gwneud i ni gyd feddwl am gerdded a beicio mwy yn ystod ein teithio o ddydd i ddydd. A fyddai'n bosibl i'r Gweinidog roi mwy o fanylion o fewn y cynllun cyllid trafniadaeth cenedlaethol i ddangos beth yw'r strategaeth fuddsoddi arfaethedig a fydd yn sail i'r gwaith o gyflawni'r Ddeddf?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:23 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, can I say it might be more helpful if I actually did a statement on progress on active travel and the budgetary issues so Members could get an understanding? Because, as we plan the delivery of new roads, and even new bridges, we've got to look at the feasibility of cycling, walking and other issues as we do it, as part of that. So, I'll try and schedule something for later this term.

Wel, gallaf ddweud y gallai fod yn fwy defnyddiol pe byddwn yn gwneud datganiad am gynnydd ynghylch teithio actif a'r materion cyllidebol fel y gallai'r Aelodau gael dealltwriaeth o'r sefyllfa. Oherwydd, wrth i ni gynllunio cyflwyno ffyrdd newydd, a hyd yn oed bontydd newydd, mae'n rhaid i ni edrych ar y posibilrwydd o feicio, cerdded a materion eraill wrth i ni ei wneud, fel rhan o hynny. Felly, byddaf yn ceisio trefnu rhywbeth yn hwyrach y tymor hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Now that was very crisp. Let's keep it up. Russell George.

Roedd hynny'n glir iawn. Gadewch i ni barhau felly. Russell George.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:24

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, you've confirmed that the Newtown bypass will be completed in 2017, or it's programmed to be completed. I am delighted with that. It will, of course, take two years to build, so can you confirm that it's still your understanding that construction should start later this year, subject, of course, to the public inquiry? Then, with the public inquiry, can you also confirm when you expect the inspector to report to you and are you confident that the contractors are ready to start straight away? Finally, regarding the Dyfi bridge, can you also confirm that construction will start in 2016?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, rydych wedi cadarnhau y bydd ffordd osgoi'r Drenewydd yn cael ei chwblhau yn 2017, neu disgwylir iddi gael ei chwblhau. Rwyf wrth fy modd â hynny. Bydd, wrth gwrs, yn cymryd dwy flynedd i adeiladu, felly a allwch gadarnhau, hyd y gwyddoch, y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn hwyrach eleni, yn amodol, wrth gwrs, ar yr ymchwiliad cyhoeddus? Yna, gyda'r ymchwiliad cyhoeddus, a allwch gadarnhau hefyd pryd yr ydych yn disgwyl i'r arolygydd roi gwybod i chi ac a ydych yn hyderus bod y contractwyr yn barod i ddechrau ar unwaith? Yn olaf, ynghylch pont Dyfi, a allwch hefyd gadarnhau y bydd y gwaith adeiladu yn cychwyn yn 2016?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:24

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm happy to confirm 2017. I haven't got the dates on the inspector's stuff with me; I'd have to get back to the Member. The Dyfi bridge is also on schedule. Can I say that these will be two amazing projects, I think, within mid Wales? They will make a tremendous difference to the travelling public.

Rwyf yn hapus i gadarnhau 2017. Nid oes gennyf y dyddiadau ar bethau'r arolygydd gyda mi; byddai'n rhaid i mi fynd yn ôl at yr Aelod. Mae'r gwaith ar bont Dyfi hefyd ar amser. Gallaf ddweud y bydd y rhain yn ddau brosiect anhygoel, yn fy marn i, yn y canolbarth. Byddant yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r cyhoedd sy'n teithio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:24

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As traffic on both road and rail is due to increase substantially over the next few years, I'm not clear that this plan really delivers on the modal shift that we need if we're going to meet our climate change obligations. I'm pleased, of course, that phase 1 of the metro is going to be around improving the Ebbw Vale line, but I'm unclear as to how quickly we are planning to deliver on all the other lines that we need to improve, particularly around electrification, which is the key to speeding up the lines, which is therefore the key to getting people to get out of their cars and, instead, go on the railway. It still takes twice as long to get to Merthyr from Cardiff by rail as by car. That obviously encourages people to use their car.

Wrth i draffig ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd gynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf, nid yw'n glir imi bod y cynllun hwn yn cyflawni ar y newid moddol sydd ei angen arnom os ydym yn mynd i gyflawni ein rhwymedigaethau newid hinsawdd. Rwyf yn falch, wrth gwrs, bod cam 1 y metro yn mynd i ymwneud â gwella llinell Glyn Ebwy, ond rwyf yn ansicr ynghylch pa mor gyflym rydym yn bwriadu cyflawni ar yr holl linellau eraill y mae angen i ni eu gwella, yn enwedig o ran trydaneiddio, sy'n allweddol i gyflymu'r llinellau, sydd felly yn allweddol i gael pobl i fynd allan o'u ceir ac, yn lle hynny, ddefnyddio'r rheilffyrdd. Mae'n dal i gymryd dwywaith yr amser i fynd i Ferthyr o Gaerdydd ar y trê'n o'i gymharu â char. Mae hynny'n amlwg yn annog pobl i ddefnyddio eu ceir.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We only have to see the chaos that took place last weekend on the railways, where First Great Western simply failed to acknowledge the numbers of tickets that they had sold and to lay on the trains that were needed. That, in turn, then led to the further chaos on the M4 toll bridge. People will go by car if they can't go by train efficiently. I'm keen to understand how we are going to make that transformation that is needed.

Does ond rhaid i ni weld yr anhrefn a ddigwyddodd y penwythnos diwethaf ar y rheilffyrdd, lle mae'r First Great Western, yn syml, wedi methu â chydabod nifer y tocynnau a werthwyd ac wedi methu â darparu'r trenau yr oedd eu hangen. Roedd hynny, yn ei dro, wedi arwain at anhrefn pellach ar dollbont yr M4. Bydd pobl yn mynd mewn car os nad ydynt yn gallu mynd ar y trê'n mewn modd effeithlon. Rwyf yn awyddus i ddeall sut yr ydym yn mynd i wneud y trawsnewid sydd ei angen.

I'm very pleased to see that you talk about the need for the devolution of rail infrastructure, which is an essential part of the efficient delivery of an integrated transport system. Absolutely; I completely agree with that. It was clear from the conversation that was had with—

Rwyf yn falch iawn o weld eich bod yn siarad am yr angen i ddatganoli seilwaith rheilffyrdd, sy'n rhan hanfodol o gyflenwi effeithlon o system drafnidiaeth integredig. Yn hollol; cytunaf yn llwyr â hynny. Roedd yn amlwg o'r sgwrs a gafwyd gyda—

17:26

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is getting soggy, not crisp. Quickly, please.

Mae hyn yn mynd yn soeglyd, ac yn aneglur. Cyflymwch, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 17:26 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Okay. Simply having devolved control over the operating companies is not going to deliver the improvements we need because it's the lines that determine whether or not the service improves. How are we going to do that, and to what timescale?
- lawn. Yn syml, mae datganoli rheolaeth dros y cwmnïau sy'n gweithredu ddim yn mynd i gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen oherwydd y llinellau sy'n penderfynu a yw'r gwasanaeth yn gwella neu beidio. Sut ydym yn mynd i wneud hynny, ac i ba amserlen?
- 17:27 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I live in the world that we actually live in, which is what powers I've got, what money I've got, and what I can deliver on I try to deliver on, in terms of what we've got. It would be very nice to have a different set of circumstances on some of these issues, but we are where we are, and we need to make progress where we are on this. I'm actually not responsible for what Great Western Railway does, or anything to do with the tolls on the Severn bridge. I think that this is a good start in terms of getting people to change their habits. I hope, when I retire and I come back here, Deputy Presiding Officer, I won't see any Members with any cars in the underground car park because we'll have made so many substantial changes.
- Wel, rwyf yn byw yn y byd yr ydym yn byw ynddo, ac yn y byd hwn, mae gennyf y pwerau sydd gennyf, yr arian sydd gennyf, a'r hyn y gallaf ei gyflawni byddaf yn ceisio ei gyflawni, o ran yr hyn sydd gennym. Byddai'n braf iawn cael set wahanol o amgylchiadau ar rai o'r materion hyn, ond dyma'r sefyllfa yr ydym ynddi, ac mae angen i ni wneud cynnydd o ran ein sefyllfa ar hyn o bryd. Mewn gwirionedd, nid wyf yn gyfrifol am yr hyn y mae Rheilffordd y Great Western yn ei wneud, nac unrhyw beth sy'n ymwneud â thollau pont Hafren. Rwyf yn credu bod hyn yn ddechrau da o ran cael pobl i newid eu harferion. Rwyf yn gobeithio, pan fyddaf yn ymddeol ac yn dod yn ôl yma, Ddirprwy Lywydd, na fyddaf yn gweld unrhyw Aelodau â'u ceir yn y maes parcio tanddaearol gan ein bod ni wedi gwneud cymaint o newidiadau sylweddol.
- 17:27 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- A gaf i ddiolch, yn gyntaf, i'r Gweinidog am ei haraith gadarn a'i chefnogaeth i fwrdd uchelgais economaidd y gogledd yn ei chynhadledd yr wythnos diwethaf, yn enwedig y gefnogaeth i drydanu'r gogledd? Ond a wnaiff hi gytuno mai'r argyfwng presennol yn strwythur Network Rail yw cyfle Cymru i drafod gyda swyddfa y rheolwr sy'n rheoleiddio'r rheilffyrdd, yn ogystal â Llywodraeth San Steffan? Hwn yw ein cyfle mawr ni i gymryd gafael yn ein rheilffyrdd, beth y ceisiodd fy annwyl hen gyfaill, Gwynfor Evans, ei wneud hanner canrif yn ôl.
- May I, first of all, thank the Minister for her firm contribution and support to the north Wales economic ambition board's conference last week, particularly in relation to electrification in north Wales? But would she agree that the current crisis in the Network Rail structure is Wales's opportunity to hold discussions with the rail regulator, as well as the Westminster Government? This is our great opportunity to take ownership of our own railways—something that my dear old friend, Gwynfor Evans, tried to do 50 years ago.
- 17:28 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Can I say that we do have, actually, regular discussions with the rail regulator? Because we've raised many of our concerns, but I do think that the opportunity with the UK Government's review and other factors does allow us perhaps to get an edge in terms of what we want in Wales so that we can actually deal with our own railway network. We've got to be mindful that there are voices trying to take things out of the franchise along our borders that we would like to keep in the franchise, but we also need to recognise that a lot of the rail users' groups the other side of the border would rather have us running the franchise.
- A allaf ddweud ein bod yn cael, mewn gwirionedd, drafodaethau rheolaidd gyda'r rheoleiddiwr rheilffyrdd? Gan ein bod wedi codi llawer o'n pryderon, ond rwyf yn credu bod y cyfle gydag adolygiad Llywodraeth y DU a ffactorau eraill yn caniatáu i ni efallai fanteisio o ran yr hyn yr ydym am ei gael yng Nghymru fel y gallwn mewn gwirionedd ymdrin â'n rhwydwaith rheilffyrdd. Mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol bod lleisiau sy'n ceisio cymryd pethau allan o'r fasnachfaint ar hyd ein ffiniau y byddem yn hoffi eu cadw yn y fasnachfaint, ond mae angen i ni hefyd gydnabod y byddai'n well gan lawer o grwpiau defnyddwyr rheilffyrdd o ochr arall y ffin i ni redeg y fasnachfaint.
- 17:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- And, finally, Sandy Mewies.
- Ac, yn olaf, Sandy Mewies.

17:28	<p>Sandy Mewies Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm sure that all of us welcome, in north Wales and north-east Wales, the re-doubling of the line, the speeds improvement, and the support, with the north Wales economic ambition board, to strengthen the case for the north Wales main line electrification. It goes without saying, too, that improvements to the A55 are badly needed. However, Minister, can I ask you to ensure that, when these improvements, particularly to the rail infrastructure, are provided, that they cater for everyone with disabilities, including those with physical or sensory impairment and that they are not left until last when the thinking happens?</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn siŵr bod pob un ohonom yn croesawu, yn y gogledd a'r gogledd-ddwyrain, ailddyblu'r llinell, y gwelliant o ran cyflymder, a'r gefnogaeth, gyda bwrdd uchelgais economaidd y gogledd, er mwyn cryfhau'r achos dros drydaneiddio prif linell y gogledd. Mae'n rhaid dweud hefyd, bod angen gwneud gwelliannau mawr ar yr A55. Fodd bynnag, Weinidog, a allaf ofyn ichi sicrhau, pan fydd y gwelliannau hyn, yn enwedig i'r seilwaith rheilffyrdd, yn cael eu darparu, eu bod yn darparu ar gyfer pawb sydd ag anableddau, gan gynnwys y rhai sydd â nam corfforol neu synhwyraidd ac nad ydynt yn cael eu gadael tan y funud olaf pan fydd y cynllunio yn dechrau?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:29	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I think they've got to be first. As part of our dialogue with everybody that we're doing around rail, we are having the dialogue with the appropriate groups and everything, because that is integral. We've got to have a system that's fit for purpose for everyone.</p>	<p>Wel, rwyf yn meddwl bod yn rhaid iddynt fod yn gyntaf. Fel rhan o'n trafodaeth gyda phawb mewn cysylltiad â'r rheilffyrdd, rydym yn cynnal deialog gyda'r grwpiau priodol a phopeth, gan fod hynny'n hanfodol. Mae'n rhaid i ni gael system sy'n addas i'r diben i bawb.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:29	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:29	<p>7. Datganiad: Manteisio ar Fand Eang Cyflym iawn ar gyfer Busnes Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Item 7 is a statement by the Deputy Minister for Skills and Technology on superfast broadband business exploitation. Julie James.</p>	<p>7. Statement: Superfast Broadband Business Exploitation</p> <p>Mae Eitem 7 yn ddatganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ar fusnesau yn manteisio ar fand eang cyflym iawn. Julie James.</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
17:29	<p>Julie James Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology</i></p> <p>Thank you, Deputy Presiding Officer. We are investing heavily to extend the reach of superfast broadband across Wales, predominantly through the Superfast Cymru project.</p> <p>As I set out in my oral statement of 7 July, we are also providing access via the Access Broadband Cymru scheme, and a successor scheme planned for later this year. I also announced a project to bring superfast broadband to a number of business parks and industrial estates. In addition, the private sector is also investing in their own commercial roll-outs. When taken together, these initiatives will mean that superfast broadband will be available across the whole of Wales in 2016.</p> <p>To reap the economic benefit from our investment, it is simply not enough for businesses to just take up superfast broadband. To take full advantage of the superfast enabled technologies, businesses need to use them to change and improve the way they work. It is not just about doing things quicker; it is about doing things smarter. For some businesses, realising these benefits will be a natural progression, while others will need help, support and advice to really get the most of the opportunities that superfast broadband represents.</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rydym yn buddsoddi'n drwm i ymestyn cyrhaeddiad band eang cyflym iawn ledled Cymru, yn bennaf drwy'r prosiect Cyflymu Cymru.</p> <p>Fel y nodais yn fy natganiad llafar ar 7 Gorffennaf, rydym hefyd yn darparu mynediad drwy gynllun Mynediad Band Eang Cymru, ac mae cynllun olynol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer yn ddiweddarach eleni. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi prosiect i ddod â band eang cyflym iawn i nifer o barciau busnes ac ystadau diwydiannol. Yn ogystal â hyn, mae'r sector preifat hefyd yn buddsoddi yn eu cynlluniau cyflwyno masnachol eu hunain. O'u cymryd gyda'i gilydd, bydd y mentrau hyn yn golygu y bydd band eang cyflym iawn ar gael ledled Cymru gyfan yn 2016.</p> <p>I elwa ar y budd economaidd o'n buddsoddiad, nid yw'n ddigon i fusnesau i ddim ond cymryd band eang cyflym iawn. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y technolegau a alluogir gan fand eang cyflym iawn, mae angen i fusnesau eu defnyddio i newid a gwella'r ffordd y maent yn gweithio. Nid yw hyn yn ymwneud â gwneud pethau yn gynt yn unig; mae'n ymwneud â gwneud pethau'n ddoethach. I rai busnesau, bydd gwireddu'r manteision hyn yn ddilyniant naturiol, tra bydd angen cymorth, cefnogaeth a chyngor ar eraill i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae band eang cyflym iawn yn eu cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Welsh Government is in a unique position to lead on this, providing support to realise a return on public investment and to derive an economic benefit for businesses and the economy as a whole. Today, I am announcing a five-year, £12.5 million, Wales-wide superfast broadband business exploitation programme. The programme funding comes from a mix of Welsh Government, local authorities and EU ERDF funding—which is £7 million of it—and academic and private sector sources. It will support primarily small and medium-sized businesses to understand, adopt and exploit the superfast infrastructure. The programme builds on Pathfinder projects undertaken in Gwynedd, Rhondda Cynon Taf, Swansea and Blaenau Gwent. The Pathfinder projects showed that there is a real need for support. Many businesses have limited awareness of superfast enabled technologies, how they can be applied to their business, and the benefits they can generate. The projects have been well received by businesses and engaged in excess of 200 businesses over a four-month period, suggesting that there is an appetite for this type of support. Lessons learned from the evaluation report and evidence of good practice have been incorporated into the national programme.

Delivery of the programme will focus across four main functions. In addition to the wealth of material and support already online, the operational delivery of direct business support and advice will be through the existing Business Wales contract and its successor. Across a suite of support, businesses will be provided with targeted information, telemarketing engagement, online tools and content, access to workshops and clinics, and one-to-one support. The Welsh Government ICT diagnostic service will also be enhanced to include superfast exploitation as a key component, and the scale of delivery will be augmented by the programme. A research and intelligence function will ensure that there will be external and objective monitoring of the programme. It will provide invaluable insight and research to the project and create a credible evidence base. A digital maturity index will be created and maintained, including an annual digital maturity survey that will track adoption and exploitation by businesses. Horizon scanning will provide insight into emerging technologies to ensure that new opportunities can be reflected in the programme. Market intelligence will create a detailed understanding of the impact that superfast broadband can have on business success. A training and accreditation function will ensure that business advisers delivering the support on the ground fully understand not only the full range of benefits that superfast broadband can bring to SMEs, but will also have an appropriate level of knowledge about the superfast broadband roll-out.

Mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa unigryw i arwain ar hyn, darparu cymorth i wireddu elw ar fuddsoddiad cyhoeddus ac i sicrhau budd economaidd i fusnesau a'r economi yn gyffredinol. Heddiw, rwyf yn cyhoeddi rhaglen pum mlynedd gwerth £12,500,000 i fusnesau fanteisio ar fand eang cyflym iawn ledled Cymru. Mae cyllid y rhaglen yn dod o gymysgedd o ffynonellau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyllid ERDF yr UE—sef £7 miliwn ohono—a ffynonellau academiaidd a sector preifat. Bydd yn cefnogi busnesau bach a chanolig eu maint yn bennaf, i ddeall, mabwysiadu ac ymelwa ar y seilwaith cyflym iawn. Mae'r rhaglen yn adeiladu ar brosiectau Braenaru a wnaed yng Ngwynedd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Blaenau Gwent. Dangosodd y prosiectau Braenaru fod angen gwirioneddol am gymorth. Mae ymwybyddiaeth llawer o fusnesau am dechnolegau a alluogir gan fand eang cyflym iawn, sut y gellir eu defnyddio yn eu busnes, a'r manteision y gallant eu creu yn gyfyngedig. Mae'r prosiectau wedi cael derbyniad da gan fusnesau ac wedi ymgysylltu â mwy na 200 o fusnesau dros gyfnod o bedwar mis, sy'n awgrymu bod yna awydd am y math hwn o gymorth. Mae gwersi a ddysgwyd o'r adroddiad gwerthuso a thystiolaeth o arfer da wedi cael eu cynnwys yn y rhaglen genedlaethol.

Bydd darpariaeth y rhaglen yn canolbwyntio ar bedair prif swyddogaeth. Yn ychwanegol at y cyfoeth o ddeunydd a chefnogaeth sydd eisoes ar-lein, bydd y ddarpariaeth weithredol o gymorth a chynghor busnes uniongyrchol yn dod trwy gontract presennol Busnes Cymru a'i olynydd. Trwy gyfres o becynnau cymorth, bydd busnesau yn derbyn gwybodaeth wedi'i thargedu, ymgysylltiad telefarchnata, offer a chynnwys ar-lein, mynediad at weithdai a chlinigau, a chymorth un i un. Bydd gwasanaeth diagnostig TGCh Llywodraeth Cymru hefyd yn cael ei wella i gynnwys ymelwa ar fand eang cyflym iawn fel elfen allweddol, a bydd graddfa'r ddarpariaeth yn cael ei hehangu gan y rhaglen. Bydd swyddogaeth ymchwil a gwybodaeth yn sicrhau y bydd y rhaglen yn cael ei monitro'n allanol ac yn wrthrychol. Bydd yn rhoi cipolwg amhrisiadwy ac yn darparu ymchwil i'r prosiect ac yn creu sail dystiolaeth gredadwy. Bydd mynegai aeddfedrwydd digidol yn cael ei greu a'i gynnal, gan gynnwys arolwg aeddfedrwydd digidol blynyddol a fydd yn olrhain y graddau y mae busnesau yn ei fabwysiadu ac yn elwa ohono. Bydd sganio'r gorwel yn rhoi cipolwg ar dechnolegau sy'n dod i'r amlwg i sicrhau y gall cyfleoedd newydd gael eu hadlewyrchu yn y rhaglen. Bydd gwybodaeth am y farchnad yn creu dealltwriaeth fanwl o'r effaith y gall band eang cyflym iawn ei chael ar lwyddiant busnes. Bydd swyddogaeth hyfforddi ac achredu yn sicrhau bod cynghorwyr busnes sy'n cyflwyno'r gefnogaeth ar lawr gwlad yn deall yn llawn yr ystod lawn o fanteision y gall band eang cyflym iawn eu darparu i fusnesau bach a chanolig, a bydd ganddynt hefyd lefel briodol o wybodaeth am y broses o gyflwyno band eang cyflym iawn.

The ICT sector in Wales will also have a critical role to play in educating and enabling Welsh businesses to embed and exploit superfast technologies. It will be an inclusive programme with regional and local delivery plans. The delivery of the programme will be supported by a stakeholder engagement and communications function. Champions have been identified for each local authority who will help lead engagement within their authorities and within their local business communities. The communications elements will be used to encourage adoption of superfast broadband among businesses, aid understanding of the benefits and opportunities and signpost advice and support to help businesses exploit it.

Government, however, cannot deliver this alone, and many stakeholders will have an important part to play. I have already mentioned local authorities, but others including, but not restricted to, business support providers, industry representative bodies and academia will also be key. In addition to the champions, all local authorities have now signed a charter recognising the importance of superfast business broadband exploitation and expressing a commitment to bring all influence to bear in working with Welsh Government to deliver support. CompTIA, a global, not-for-profit, ICT trade association, will ensure that a co-ordinated and consistent level of continuing professional development is provided to the business adviser community delivering the project. CompTIA will also work with the Welsh Government to create an appropriate curriculum to underpin this work.

The Cardiff Business School Welsh economy research unit has already provided support for developing the business plan for the programme and will lead on the research and intelligence function. Finally, an advisory panel made up of representatives of infrastructure providers, ICT organisations and industry bodies has been established under the chairmanship of Professor Tony Davies. The panel membership includes, amongst others, the telecoms regulator Ofcom, the Institute of Directors, Welsh SMEs from the ICT sector, and some of the world's largest ICT companies, such as Microsoft, Amazon Web Services and BT.

I would like to thank all of the panel members for giving their time to help us to shape this important programme, and to ensure that it delivers the support that businesses in Wales need. I am determined that, through the programme, we will help small and medium-sized businesses to fully understand the business benefits of superfast broadband, adopt it and change the way they operate to achieve economic benefits, not only for their businesses, but for Wales as a whole.

Bydd y sector TGCh yng Nghymru hefyd â swyddogaeth allweddol i'w chwarae wrth addysgu a galluogi busnesau Cymru i ymgorffori a manteisio ar dechnolegau cyflym iawn. Bydd yn rhaglen gynhwysol gyda chynlluniau cyflawni rhanbarthol a lleol. Bydd cyflwyniad y rhaglen yn cael ei gefnogi gan swyddogaeth ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid. Mae hyrwyddwyr wedi'u nodi ar gyfer pob awdurdod lleol a fydd yn helpu i arwain y gwaith ymgysylltu o fewn eu hawdurdodau ac o fewn eu cymunedau busnes lleol. Bydd yr elfennau cyfathrebu yn cael eu defnyddio i annog mabwysiadu band eang cyflym iawn ymhlith busnesau, cynorthwyo'r ddealltwriaeth o'r manteision a'r cyfleoedd ac yn cyfeirio at gyngor a chymorth i helpu busnesau fanteisio arno.

Ni all y Llywodraeth, fodd bynnag, gyflwyno hyn ar ei phen ei hun, a bydd gan lawer o randdeiliaid ran bwysig i'w chwarae. Yr wyf eisoes wedi crybwyll awdurdodau lleol, ond bydd eraill yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, ddarparwyr cymorth busnes, cyrff cynrychioli diwydiannau a'r byd academiaidd, hefyd yn allweddol. Yn ogystal â'r hyrwyddwyr, mae pob awdurdod lleol bellach wedi llofnodi siarter yn cydnabod pwysigrwydd manteisio ar fand eang cyflym iawn at ddibenion busnes ac i fynegi ymrwymiad i ddefnyddio eu holl ddylanwad wrth weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cefnogaeth. Bydd CompTIA, cymdeithas fasnach TGCh fyd-eang, ddi-elw, yn sicrhau bod lefel cydgysylltiedig a chyson o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn cael ei ddarparu i'r gymuned o gynghorwyr busnes sy'n darparu'r prosiect. Bydd CompTIA hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i greu cwricwlwm priodol i fod yn sail i'r gwaith hwn.

Mae Uned Ymchwil Economi Cymru Ysgol Fusnes Caerdydd eisoes wedi darparu cymorth ar gyfer datblygu'r cynllun busnes ar gyfer y rhaglen a bydd yn arwain ar y swyddogaeth ymchwil a gwybodaeth. Yn olaf, mae panel cynghori yn cynnwys cynrychiolwyr o ddarparwyr seilwaith, sefydliadau TGCh a chyfrff y diwydiant wedi cael ei sefydlu o dan gadeiryddiaeth yr Athro Tony Davies. Mae aelodau'r panel yn cynnwys, ymhlith eraill, y rheoleiddiwr telathrebu Ofcom, Sefydliad y Cyfarwyddwyr, busnesau bach a chanolig yng Nghymru o'r sector TGCh, a rhai o gwmnïau TGCh mwyaf y byd, megis Microsoft, Gwasanaethau Gwe Amazon a BT.

Hoffwn ddiolch i bob un o aelodau'r panel am roi o'u hamser i'n helpu i lunio'r rhaglen bwysig hon, ac er mwyn sicrhau ei bod yn darparu'r gefnogaeth y mae ei hangen ar fusnesau yng Nghymru. Rwyf yn benderfynol, drwy'r rhaglen, y byddwn yn helpu busnesau bach a chanolig eu maint i ddeall yn llawn fanteision band eang cyflym iawn i fusnesau, eu bod yn ei fabwysiadu a bod hynny'n newid y ffordd y maent yn gweithredu er mwyn cyflawni manteision economaidd, nid yn unig ar gyfer eu busnesau, ond i Gymru gyfan.

Thank you, Deputy Minister, for your statement. I'm aware we're meeting tomorrow to discuss the issue in greater detail, and I thank you for that. As a greater proportion of businesses have access to broadband technology, it's good to see that the Welsh Government is now placing, I should say, a greater emphasis on demand stimulation—I think that's right—ensuring that businesses across Wales are informed about the potential rewards that fibre broadband can offer. I therefore do welcome the fact that Business Wales is helping to raise awareness.

I would say, however, Deputy Minister, in spite of the additional funding that you have announced for business exploitation today, the fact remains that only 0.6 per cent of the main Superfast Cymru project budget is devoted to marketing and demand stimulation, and this does seem, I would say, insufficient to encourage widespread take-up of technology among consumers across Wales. You have spoken previously about internet service providers and the industry having a commercial incentive to drive that up, and I accept that's true. However, given the fact that the Welsh Government will benefit from gain-share—which is sharing the profits made once break-even is achieved—can you talk about your plans to increase efforts to stimulate take-up for technology and achieve a return on the taxpayers' investment?

I do still have fears that the project is—. When the project is completed, Wales will have one of the best broadband infrastructures in the world—I think that's great news—but with a relatively low take-up. I would therefore welcome your views on whether additional funding is required to promote take-up of fibre broadband. I would, for example, in conjunction with answering that, say, in a written question to you on areas that have had access to fibre broadband for more than one year, you confirmed to me that 95 per cent of premises in Blaenau Gwent, 93 per cent of premises in Merthyr Tydfil, and 90 per cent of premises in Rhondda Cynon Taf now have access to superfast broadband, but take-up in those areas is at 16 per cent, 15 per cent, and 17 per cent respectively. So, I'm sure you'll agree with me that there is room for significant improvement, and I'd welcome an explanation of what the Welsh Government is doing to stimulate demand in those communities specifically.

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Rwy'n ymwybodol ein bod yn cwrdd yfory i drafod y mater yn fanylach, ac rwyf yn diolch ichi am hynny. Gan fod cyfran uwch o fusnesau yn gallu defnyddio technoleg band eang, mae'n dda gweld bod Llywodraeth Cymru bellach yn gosod, dylwn ddweud, mwy o bwyslais ar ysgogi galw—credaf fod hynny'n iawn—gan sicrhau bod busnesau ledled Cymru yn cael gwybod am y manteision posibl y gall band eang ffeibr eu cynnig. Felly, rwyf yn croesawu'r ffaith fod Busnes Cymru yn helpu i godi ymwybyddiaeth.

Byddwn yn dweud, fodd bynnag, Ddirprwy Weinidog, er gwaethaf y cyllid ychwanegol yr ydych wedi'i gyhoeddi heddiw ar gyfer manteisio ar fand eang cyflym iawn i ddibenion busnes, erys y ffaith mai dim ond 0.6 y cant o brif gyllideb y prosiect Cyflymu Cymru sydd wedi'i neilltuo ar gyfer marchnata ac ysgogi galw, a byddwn i'n dweud bod hyn yn ymddangos yn annigonol er mwyn annog llawer o ddefnyddwyr i fanteisio ar y dechnoleg ledled Cymru. Rydych wedi sôn o'r blaen bod gan ddarparwyr gwasanaeth rhyngwrwd a'r diwydiant gymhelliad masnachol i sbarduno hynny, ac rwy'n derbyn bod hynny'n wir. Fodd bynnag, o ystyried y ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn elwa trwy rannu'r gyfran—sef rhannu'r elw a wneir ar ôl talu'r costau—a wnewch chi sôn am eich cynlluniau i gynyddu'r ymdrechion i ysgogi busnesau i ddefnyddio'r dechnoleg a sicrhau elw ar fuddsoddiad y trethdalwyr?

Mae gennyf ofnau o hyd fod y prosiect yn—. Pan fydd y prosiect yn cael ei gwblhau, bydd gan Gymru un o'r seilweithiau band eang gorau yn y byd—rwy'n credu fod hynny'n newyddion gwych—ond mae nifer y rhai sy'n manteisio yn gymharol isel. Byddwn felly yn croesawu eich barn ynglŷn ag a oes angen cyllid ychwanegol i hyrwyddo'r defnydd o fand eang ffeibr. Byddwn yn dweud, er enghraifft, yn gysylltiedig ag ateb hynny, mewn cwestiwn ysgrifenedig i chi am ardaloedd sydd wedi cael mynediad i fand eang ffeibr ers dros flwyddyn, eich bod wedi cadarnhau wrthyf bod 95 y cant o adeiladau ym Mlaenau Gwent, 93 y cant o adeiladau ym Merthyr Tudful, a 90 y cant o safleoedd yn Rhondda Cynon Taf yn awr â mynediad at fand eang cyflym iawn. Ond mae'r niferoedd sy'n ei ddefnyddio yn yr ardaloedd hynny yn 16 y cant, 15 y cant, ac 17 y cant yn y drefn honno. Felly, rwy'n siwr y byddwch yn cytuno â mi bod lle i wella'n sylweddol, a byddwn yn croesawu eglurhad o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ysgogi galw yn y cymunedau hynny yn benodol.

Finally, it is welcome news that a further 42,000 premises have been brought into the scope of the Superfast Cymru project. I do have some concerns that while the target to pass the 65,000 premises by June of next year remains, BT have been allowed to bring forward some premises from those 32,000 new premises that have been added to the contract and delay other premises that were part of the original contract. Can you confirm that BT will still meet the contractual obligation that was put in place at the beginning of the project to make fibre broadband available to 96 per cent of premises by June 2016, or has that contractual obligation been downgraded to a target? I'd welcome your answer on that. Can you also confirm how many premises have been delayed in favour of new premises that have been brought within scope? I fully appreciate the engineering challenges of this very ambitious project, especially when it comes to rural premises, which require a form of fibre-to-the-premises solution. Can you ensure that there will be full transparency to ensure that communities are informed if they are among those where the roll-out has been delayed? There will be justifiable frustration from residents and businesses, especially in parts of my own constituency, who had previously been informed that they're going to receive fibre broadband by spring 2016, only to find out that they won't have access until later in the year, or 2017.

Finally, I'm sure you will agree that a number of businesses are making business-critical decisions based on assumptions that they will receive fibre broadband by a certain date, and it is important, I think, that those businesses and communities are provided with the most up-to-date information. When I held a community meeting last week in conjunction with BT, a round-table discussion, nearly every person round that table mentioned the Superfast Cymru website, and its lack of information and clarity. I would be grateful if you could agree to examine the Superfast Cymru website in that regard—about transparency and giving the most up-to-date information.

17:41

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Russell George for that very long list of questions, which goes with the 34 written questions he's asked me on this subject. I think it's a testimony to his interest in the subject that he's managed to come up with another long list, but I'll do my best to answer them.

On that last one, I share his frustration about the moving of targets on the website. That's become increasingly a problem as the programme increases; so, at the beginning it was very accurate indeed, but now, as we go towards the end of the project, or the last year of the project, I agree that it's frustrating not to have a greater depth of information on the website. To that end, we've had several discussions with BT about it already, and I'm due to meet with them very soon to continue that very important discussion. So, I entirely agree with the point he made about the frustration and the need for business planning.

Yn olaf, mae'n newyddion da bod 42,000 o adeiladau eraill wedi cael eu cynnwys yng nghwmpas prosiect Cyflymu Cymru. Mae gennyf rai pryderon, er bod y targed i fynd heibio i'r 65,000 o adeiladau erbyn mis Mehefin y flwyddyn nesaf yn parhau, mae BT wedi cael caniatâd i gyflwyno rhai adeiladau eraill o'r 32,000 safle newydd hynny sydd wedi cael eu hychwanegu at y contract ac oedi adeiladau eraill a oedd yn rhan o'r contract gwreiddiol. A allwch chi gadarnhau y bydd BT yn dal i gyflawni rhwymedigaethau'r contract a gafodd ei roi ar waith ar gychwyn y prosiect i sicrhau bod band eang ffeibr ar gael i 96 y cant o safleoedd erbyn mis Mehefin 2016, neu a yw'r rhwymedigaeth gytundebol honno wedi'i hisraddio i darged? Byddwn yn croesawu eich ateb ar hynny. A allwch chi gadarnhau hefyd faint o adeiladau sydd wedi cael eu gohirio o blaid adeiladau newydd sydd wedi cael eu cynnwys yn y cynllun? Rwyf yn llwyr werthfawrogi heriau peiranyddol y prosiect uchelgeisiol iawn hwn, yn enwedig pan ddaw i eiddo gwledig, sy'n gofyn am ryw fath o ateb ffeibr i'r adeilad. A allwch chi sicrhau y bydd tryloywder llawn i sicrhau bod cymunedau yn cael gwybod os ydynt ymhlith y rhai lle mae'r gwaith cyflwyno wedi ei ohirio? Bydd rhwystredigaeth ddealladwy gan drigolion a busnesau, yn enwedig mewn rhannau o fy etholaeth i, a oedd wedi cael gwybod yn flaenorol eu bod yn mynd i dderbyn band eang ffeibr erbyn gwanwyn 2016, dim ond i gael gwybod na fyddant yn ei gael tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn, neu yn 2017.

Yn olaf, rwy'n siwr y byddwch yn cytuno bod nifer o fusnesau yn gwneud penderfyniadau allweddol i fusnes yn seiliedig ar ragdybiaethau y byddant yn derbyn band eang ffeibr erbyn rhyw ddyddiad penodol, ac mae'n bwysig, rwy'n meddwl, bod y busnesau a'r cymunedau hynny yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf. Pan gynhaliis gyfarfod cymunedol yr wythnos diwethaf ar y cyd â BT, trafodaeth o amgylch bwrdd, soniodd bron pawb o amgylch y bwrdd am wefan Cyflymu Cymru, a'i diffyg gwybodaeth ac eglurder. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gytuno i edrych ar wefan Cyflymu Cymru yn hynny o beth—o ran tryloywder a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Rwyf yn diolch i Russell George am y rhestr hir iawn honno o gwestiynau, sy'n mynd gyda'r 34 o gwestiynau ysgrifenedig y mae wedi eu gofyn imi ar y pwnc hwn. Rwy'n credu ei fod yn dystiolaeth o'i ddiddordeb yn y pwnc ei fod wedi llwyddo i ddod o hyd i restr hir arall, ond byddaf yn gwneud fy ngorau i'w hateb.

Ynglŷn â'r un olaf yna, rwyf yn rhannu ei rwystredigaeth ynglŷn â symud targedau ar y wefan. Mae hynny wedi dod yn fwy o broblem wrth i'r rhaglen gynyddu; felly, ar y dechrau roedd yn gywir iawn yn wir, ond erbyn hyn, wrth i ni fynd tuag at ddiwedd y prosiect, neu flwyddyn olaf y prosiect, rwyf yn cytuno ei bod yn rhwystredig peidio â chael gwybodaeth fanylach ar y wefan. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi cael nifer o drafodaethau gyda BT am y peth yn barod, ac rwyf i fod i gwrdd â nhw yn fuan iawn i barhau â'r drafodaeth bwysig iawn honno. Felly, rwy'n cytuno'n llwyr â'r pwynt a wnaeth am y rhwystredigaeth a'r angen i gynllunio busnes.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of the contract itself, BT will still achieve the original contract target of 655,000 premises by next summer. Indeed, we've already passed the half million mark, so we're well on the way for that. But actually the contract build phase is now through to June of the following summer because of the addition of the extra premises, and so on. I'm afraid I don't know the answer, or even whether we have the information, as to whether any of those properties have swapped about. I'll have to write to him on that, although I will say that I don't even know whether we hold that information. But I'll write to him and confirm that point, or indeed we may be able to confirm it at the meeting that we're having shortly.

In terms of the amount of money spent, I'm extremely pleased that we're spending this amount of money on business exploitation. We do also have signage on the cabinets and local authorities themselves have put some effort into it. I take his point about the figures that he quotes, and I hope that all Assembly Members have seen those figures. I agree that 22-point-something per cent seems quite low, but actually, if you look at exploitation across the whole of Europe, it's very high. So, the raw figures do look low, but actually Wales is right up there amongst the top, both in exploitation and roll-out.

17:43

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister. I certainly agree with the broad aims of the package announced today. I've long called for a more focused Government effort to target the use of broadband. We're told that, here in Wales, we will have one of the best superfast systems in the world. We can have the very best in the world, but it would be no good unless it's actually used—by consumers here in Wales, but more importantly, in this context, by businesses in Wales.

I'll keep my questions very brief. The £12 million over five years: can I ask whether there's a plan for this to be front-loaded in any way? It strikes me that this is an area in which we need to hit the ground very hard. Related to that also, can you give us an idea—although you've mentioned several of the stakeholders that will be involved—of how Government proposes that it will be able to increase capacity in terms of increasing business engagement? You refer back to the statement you made in July. Can I ask for an update on the rolling out of broadband to industrial estates and business parks after problems had been identified there? It does seem inconceivable, though, that we have left it until now to figure out that industrial estates and business parks might be in the front line when it comes to the need for superfast broadband.

O ran y contract ei hun, bydd BT yn dal i gyflawni targed y contract gwreiddiol sef 655,000 o adeiladau erbyn yr haf nesaf. Yn wir, rydym eisoes wedi mynd heibio i hanner miliwn, felly rydym mewn sefyllfa dda i gyflawni hynny. Ond mewn gwirionedd mae cyfnod adeiladu'r contract yn awr yn mynd hyd at Fehefin yr haf canlynol oherwydd i adeiladau newydd gael eu hychwanegu, ac yn y blaen. Rwy'n ofni nad wyf yn gwybod yr ateb, neu hyd yn oed a oes gennym yr wybodaeth, ynghylch a oes unrhyw rai o'r eiddo hynny wedi cyfnewid lle. Bydd yn rhaid i mi ysgrifennu ato ynglŷn â hynny, er y byddaf yn dweud nad wyf hyd yn oed yn gwybod a oes gennym y wybodaeth honno. Ond byddaf yn ysgrifennu ato ac yn cadarnhau'r pwynt hwnnw, neu yn wir, efallai y byddwn yn gallu cadarnhau hynny yn y cyfarfod rydym yn ei gael cyn bo hir.

O ran y swm o arian a wariwyd, rwy'n hynod o falch ein bod yn gwario y swm hwn o arian er mwyn i fusnesau fanteisio. Mae gennym hefyd arwyddion ar y cypyrddau ac mae'r awdurdodau lleol eu hunain wedi rhoi rhywfaint o ymdrech i mewn i hyn. Rwyf yn derbyn ei bwynt am y ffigurau a ddyfynnir ganddo, a gobeithio bod holl Aelodau'r Cynulliad wedi gweld y ffigurau hynny. Rwyf yn cytuno bod 22 pwynt rhywbeth y cant yn ymddangos yn eithaf isel, ond mewn gwirionedd, os edrychwch ar fanteisio ledled Ewrop gyfan, mae'n uchel iawn. Felly, mae'r ffigurau amrwd yn edrych yn isel, ond mewn gwirionedd mae Cymru i fyny yn o ar y brig, o ran manteisio a chyflwyno.

Diolch, Ddirprwy Weinidog. Rwyf yn sicr yn cytuno â nodau cyffredinol y pecyn a gyhoeddwyd heddiw. Rwyf wedi galw ers amser am ymdrech â mwy o bwyslais gan y Llywodraeth i dargedu'r defnydd o fand eang. Rydym yn gwybod, yma yng Nghymru, y bydd gennym un o'r systemau cyflym iawn gorau yn y byd. Gallwn gael y gorau yn y byd, ond byddai'n dda i ddim oni chaiff ei defnyddio mewn gwirionedd—gan ddefnyddwyr yma yng Nghymru, ond yn bwysicach, yn y cyd-destun hwn, gan fusnesau yng Nghymru.

Byddaf yn cadw fy nghwestiynau'n fyr iawn. Y £12 miliwn dros bum mlynedd: a gaf i ofyn a oes 'na gynllun i hyn fod wedi'i flaen-lwytho mewn unrhyw ffordd? Mae'n fy nharo i fod hwn yn faes lle y mae angen i ni fod yn barod i weithredu ar unwaith. Yn gysylltiedig â hynny hefyd, a allwch chi roi syniad i ni—er eich bod wedi sôn am nifer o'r rhanddeiliaid a fydd yn cymryd rhan—o sut y mae'r Llywodraeth yn cynnig y bydd yn gallu cynyddu capasiti o ran cynyddu ymgysylltiad busnes? Rydych yn cyfeirio yn ôl at y datganiad a wnaethoch ym mis Gorffennaf. A allaf ofyn am ddiweddariad ar y gwaith o gyflwyno band eang i ystadau diwydiannol a pharciau busnes ar ôl i broblemau gael eu nodi yno? Mae'n ymddangos yn annirnadwy, fodd bynnag, ein bod wedi ei gadael hi tan nawr i sylweddoli y gallai ystadau diwydiannol a pharciau busnes fod yn y rheng flaen pan ddaw at yr angen am fand eang cyflym iawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

And the roll-out: now, we're told things are going very well, even if targets are met by 2017. Obviously, I regret the fact that it's a 2017 target now, not a 2016 one. Even if we hit those targets, we're still looking at a situation where one in 20 premises in Wales will not have access to superfast broadband. It's a matter of concern to me that we shouldn't be waiting until June 2017 and then saying, 'Aha, these are the 4 or 5 per cent of premises that haven't got broadband'. Can I ask what efforts the Government can make to identify, at the earliest possible opportunity, those premises that are not going to be given superfast broadband by then, in order that other options can be investigated, because that's the concern that I've spoken to businesses in my constituency and across Wales about? It's a waiting game. If at the end of the waiting game they're going to find out that they haven't got access, frankly it would be better if they knew now.

A'r broses o gyflwyno: dywedir wrthym fod pethau'n mynd yn dda iawn, hyd yn oed os caiff y targedau eu cyflawni erbyn 2017. Yn amlwg, rwyf yn gresynu at y ffaith ei fod bellach yn darged 2017, nid yn un 2016. Hyd yn oed os byddwn yn cyflawni'r targedau hynny, rydym yn dal i edrych ar sefyllfa lle na fydd gan un o bob 20 eiddo yng Nghymru fynediad at fand eang cyflym iawn. Mae'n destun pryder i mi na ddylem fod yn aros tan fis Mehefin 2017, ac yna'n dweud, 'Aha, dyma'r 4 neu 5 y cant o adeiladau nad ydynt wedi cael band eang'. A allaf ofyn pa ymdrechion y gall y Llywodraeth eu gwneud i nodi, ar y cyfle cyntaf posibl, y safleoedd hynny nad ydynt yn mynd i gael band eang cyflym iawn erbyn hynny, er mwyn gallu ystyried opsiynau eraill, oherwydd dyna'r pryder yr wyf wedi siarad â busnesau yn fy etholaeth i a ledled Cymru yn ei gylch? Mae'n gêm aros. Os, ar ddiwedd y gêm aros y maent yn mynd i gael gwybod nad ydynt wedi cael mynediad, a dweud y gwir, byddai'n well pe byddent yn gwybod nawr.

17:45 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that still quite long list of questions, I have to say—

Diolch i'r Aelod am y rhestr honno o gwestiynau a oedd yn dal yn eithaf hir, rhaid i mi ddweud—

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:46 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Only three.

Dim ond tri.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:46 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll do my best to remember them all. But that last one I'll start with: the answer is 'yes'. We are looking at what we can do to help those people who don't get reached by the current superfast programme. We're already in discussion with a number of possible alternative technology providers and also with BT and so on. So, the answer is 'yes'; we are looking at that right now with a view to people not discovering in two years that they haven't got it and then looking at it. So, I can assure him we're doing that.

Byddaf yn gwneud fy ngorau i'w cofio nhw i gyd. Ond byddaf yn dechrau gyda'r un olaf: yr ateb yw 'oes'. Rydym yn edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud i helpu'r bobl hynny nad yw'r rhaglen gyflym iawn yn eu cyrraedd ar hyn o bryd. Rydym eisoes mewn trafodaethau gyda nifer o ddarparwyr technoleg amgen posibl a hefyd gyda BT ac yn y blaen. Felly, yr ateb yw 'ydym'; rydym yn edrych ar hynny ar hyn o bryd gyda'r bwriad nad yw pobl yn darganfod mewn dwy flynedd nad yw ganddynt ac yna'n edrych arno. Felly, gallaf ei sicrhau ein bod yn gwneud hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

In terms of only just discovering that business parks are important, I'll just remind everybody in the Chamber what this programme actually is. This programme is a state intervention because of market failure. It's really easy to lose sight of that. Actually, we do have to establish where the market has failed in order to be able to do that state intervention. The difficulty with business parks was that all commercial operators were identifying those as places they would roll out superfast to themselves, and so we could not interfere. It's only when the commercial operators identify to us that they aren't going to do that that we can interfere. Actually, it's a testimony to the Welsh Government's perseverance and the hard work of the officials working on this project, who are very impressive indeed, that they persevered with those private sector operators and basically pushed them into a position of saying that they weren't going to do it. That's why we're now able to intervene. I'm actually really proud of that. It's not something that we should be shy about saying. We knew they were important, but we are not able to intervene until the market has shown itself to fail. That's not how I would run it, but that's how the system works at the moment. I do think it's important to remember that.

In terms of where we are with that, the successful contractors for that are in the process of rolling out their last design phase and all of those businesses should know exactly where they are in the next few weeks. I entirely agree with the Member that one of the biggest things of all is business planning and the need to have some certainty about when you're going to have access to these technologies.

If I just go back to the really good news that this statement is about, which is the need to make sure that people do have futureproofing, that they're able to dream and that they're able to grow their businesses into the new technologies. I'll give you all the example I always give when I'm talking about this, which is: if I could have thought of Windows I'd be Bill Gates, but when I saw Windows, I could see what I could do with it. That's the position we want to put all the businesses in Wales in.

O ran dim ond newydd ddarganfod bod parciau busnes yn bwysig, gaf i atgoffa pawb yn y Siambr beth yw'r rhaglen hon mewn gwirionedd. Mae'r rhaglen hon yn ymyrraeth gan y wladwriaeth oherwydd methiant y farchnad. Mae'n hawdd iawn colli golwg ar hynny. Mewn gwirionedd, mae'n rhaid i ni ganfod ble mae'r farchnad wedi methu er mwyn gallu gwneud yr ymyrraeth hon gan y wladwriaeth. Yr anhawster gyda pharciau busnes oedd bod yr holl weithredwyr masnachol yn nodi'r llefydd hynny yn rhai y byddent yn cyflwyno band eang cyflym iawn iddynt eu hunain, ac felly nid oeddem yn gallu ymyrryd. Dim ond pan fydd y gweithredwyr masnachol yn nodi nad ydynt yn mynd i wneud hynny y gallwn ni ymyrryd. A dweud y gwir, mae'n brawf o ddyfalbarhad Llywodraeth Cymru a gwaith caled y swyddogion sy'n gweithio ar y prosiect hwn, sydd yn dda iawn yn wir, eu bod wedi dal i bwyso ar y gweithredwyr sector preifat hynny ac yn y bôn wedi eu gwthio i sefyllfa o ddweud nad oeddent yn mynd i wneud hynny. Dyna pam rydym bellach yn gallu ymyrryd. Rwy'n falch o hynny mewn gwirionedd. Nid yw'n rhywbeth y dylem fod yn swil ynglŷn â'i ddweud. Roeddem yn gwybod eu bod yn bwysig, ond nid oeddem yn gallu ymyrryd nes bod y farchnad wedi dangos ei bod yn methu. Nid dyna sut y byddwn i yn ei redeg, ond dyna sut mae'r system yn gweithio ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cofio hynny.

O ran ein sefyllfa ar hyn o bryd, mae'r contractwyr llwyddiannus ar gyfer hynny yn y broses o gyflwyno eu cynnod dylunio diwethaf a dylai pob un o'r busnesau hynny wybod yn union ble maen nhw yn ystod yr wythnosau nesaf. Cytunaf yn llwyr â'r Aelod mai un o'r pethau mwyaf oll yw cynllunio busnes a'r angen i gael rhywfaint o sicrwydd ynghylch pryd yr ydych yn mynd i gael mynediad at y technolegau hyn.

Os byddaf yn mynd yn ôl at y newyddion da iawn yn y datganiad hwn, sef yr angen i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu paratoi ar gyfer y dyfodol, eu bod yn gallu breuddwydio a'u bod yn gallu tyfu eu busnesau yn y technolegau newydd. Gwnaf roi'r enghraifft i chi yr wyf bob amser yn ei rhoi pan rwy'n siarad am hyn, sef: os gallwn i fod wedi meddwl am Windows fi fyddai Bill Gates, ond pan welais i Windows, gallwn i weld beth y gallwn i ei wneud ag ef. Dyna'r sefyllfa yr ydym eisiau rhoi holl fusnesau yng Nghymru ynddi.

17:48

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for your statement this afternoon, Minister. It's something that I think, across the Chamber, will find a very broad and warm welcome. I'm delighted that this is a project where Blaenau Gwent received the first focus. All too often—. You were discussing there the need for market failure. Well, market failure is all too often the reality of the case in Blaenau Gwent for all too many services. I'm delighted the Welsh Government focused on Blaenau Gwent right at the beginning. Will you confirm to me that the Crown Business Park in Tredegar is covered by this project? Also, taking up the points that I thought were very well made by Russell George about the difference between connectivity and take-up, if all businesses are covered by this particular project and that this support will be available to businesses wherever they may be located, I'm very anxious that in developing a new industrial policy for the Heads of the Valleys region—we heard in the earlier statement about the opening of the A465 dualling project in Tredegar and Brynmawr next week—we are able to bring these different jigsaw pieces together and create a policy that will underpin an industrial renaissance in the Heads of the Valleys region. I'd be grateful if you could continue to support businesses operating in Blaenau Gwent and elsewhere to ensure that we can create new jobs and that we can create a very new business environment for people in Blaenau Gwent.

Diolch yn fawr iawn am eich datganiad y prynhawn yma, Weinidog. Mae'n rhywbeth yr wyf yn meddwl a gaiff groeso eang a chynnes iawn, ar draws y Siambr. Rwyf wrth fy modd bod hwn yn brosiect lle cafodd Blaenau Gwent y pwyslais cyntaf. Yn rhy aml—. Roeddech yn trafod yr angen am fethiant y farchnad. Wel, mae methiant y farchnad yn realiti yn llawer rhy aml yn achos Blaenau Gwent ar gyfer llawer gormod o wasanaethau. Rwyf wrth fy modd bod Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar Flaenau Gwent reit ar y dechrau. A wnewch chi gadarnhau wrthyf fod Parc Busnes y Crown yn Nhredeg ar cael ei gynnwys yn y prosiect hwn? Hefyd, ynglŷn â'r pwyntiau yr oeddwn o'r farn bod Russell George wedi eu nodi'n dda am y gwahaniaeth rhwng cysylltedd a'r nifer sy'n ei ddefnyddio, os yw'r holl fusnesau yn cael eu cwmpasu gan y prosiect penodol hwn ac y bydd y cymorth hwn ar gael i fusnesau lle bynnag y maent wedi'u lleoli, rwy'n bryderus iawn, wrth ddatblygu polisi diwydiannol newydd ar gyfer rhanbarth Blaenau'r Cymoedd—clywsom yn y datganiad yn gynharach am agor y prosiect deuoili'r A465 yn Nhredeg ar Brynmawr yr wythnos nesaf—rydym yn gallu dod â'r gwahanol ddarnau hyn o'r jig-so at ei gilydd a chreu polisi a fydd yn sail i ddadeni diwydiannol yn rhanbarth Blaenau'r Cymoedd. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech barhau i gefnogi busnesau sy'n gweithredu ym Mlaenau Gwent ac mewn mannau eraill er mwyn sicrhau y gallwn greu swyddi newydd ac y gallwn greu amgylchedd busnes newydd iawn i bobl ym Mlaenau Gwent.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:50

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that, Alun Davies. I can confirm—and I'm delighted, in fact, to confirm—that Crown Business Park, Tredegar is currently enabled for superfast. Businesses there should now contact an internet service provider to order the service. That's exactly the focus of my statement today, which is that, if those businesses want to access business advice as to how to grow their business, expand their business, work faster but also smarter, then they know where to go—it's Business Wales. We can help them do exactly that: to create a renaissance, which we're waiting for, which we're on the cusp of, backed with this superfast project.

Diolch yn fawr iawn am hynny, Alun Davies. Gallaf gadarnhau—ac rwyf wrth fy modd, mewn gwirionedd, i gadarnhau bod Parc Busnes y Crown, Tredegar wedi ei alluogi ar hyn o bryd ar gyfer derbyn band eang cyflym iawn. Dylai busnesau yno bellach gysylltu â darparwr gwasanaeth rhyngwyd i archebu'r gwasanaeth. Dyna'n union y mae fy natganiad heddiw yn ei bwysleisio, sef, os yw'r busnesau hynny am gael gafael ar gyngor busnes ynglŷn â sut i dyfu eu busnes, ehangu eu busnes, gweithio'n gyflymach ond hefyd yn fwy craff, yna maent yn gwybod ble i fynd—at Busnes Cymru. Gallwn ni eu helpu nhw i wneud yn union hynny: i greu adfywiad, yr ydym yn aros amdano, ac rydym ar fin ei gyflawni, wedi ei gefnogi gan y prosiect cyflym iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:50

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, thank you for the statement. Of course, we all welcome efforts to push that superfast infrastructure across Wales. It has a huge impact in terms of enabling businesses to reach customers particularly. I welcome the fact that there is an engagement programme to help encourage those businesses not only to sign up for the superfast provision that they can get, but also to help them learn how to use it and really make the most of it. I think when the Wales Audit Office identified that low take-up had been a problem with the roll-out of the superfast broadband Cymru project, of course it was very disappointing. So, the extra communications are very welcome, and I wonder if you can give us some idea of the difference in approach that you've taken from the residential roll-out to the commercial roll-out and, as I said, what lessons you've learned from that process.

Ddirprwy Weinidog, diolch i chi am y datganiad. Wrth gwrs, rydym i gyd yn croesawu ymdrechion i wthio'r seilwaith cyflym iawn ar draws Cymru. Mae'n cael effaith enfawr, yn benodol, o ran galluogi busnesau i gyrraedd cwsmeriaid. Croesawaf y ffaith bod rhaglen ymgysylltu yn bodoli er mwyn helpu i annog y busnesau hynny i gofrestru ar gyfer y ddarpariaeth band eang cyflym iawn y gallant ei gael, a hefyd i'w helpu i ddysgu sut i'w ddefnyddio a gwneud y gorau ohono. Rwy'n credu pan nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod y niferoedd isel a oedd yn manteisio arni wedi bod yn broblem gyda'r gwaith o gyflwyno prosiect band eang cyflym iawn Cymru, ac wrth gwrs roedd yn siomedig iawn. Felly, mae croeso mawr i'r cyfathrebu ychwanegol. Tybed a wnewch chi roi rhyw syniad o'r gwahaniaeth yn y dull rydych wedi ei ddefnyddio wrth ei gyflwyno i gwsmeriaid preswyl a'i gyflwyno'n fasnachol ac, fel y dywedais, pa wersi yr ydych chi wedi eu dysgu o'r broses honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In your statement, you talk about there being availability across the whole of Wales in 2016. That gives the idea that every home and every business will be covered by then, which would be wonderful, but clearly there have been issues, as we know, with various different problems. Some of the information that's gone out during the domestic roll-out has been unreliable at times. For example, you could go and type in your postcode in the Superfast Cymru website and be told that it was available in your area. That didn't necessarily mean it was available to your house in your area, and people have complained to me about that. Similarly, people have complained that they've been given a disclaimer that it is available to some houses in their area, but not necessarily all, and I note now that the website has this disclaimer. As soon as you go onto the map to try and search, it tells you that it is indicative, not definitive, which is frustrating for people, because they need reliable information and we need to know that the same situation isn't going to happen when we're working with businesses, which might be making investments, which might be employing people to do developments on their websites or to change the direction of their business on the basis that they're going to have a capability at a particular time. So, I do echo Rhun ap Iorwerth's call to make sure that we know exactly who those people who are going to be later to the party might be.

Obviously, this is really important to rural businesses, because with the loss of things like real banking and other real services in local communities, they're hugely reliant on web services, and the unreliability of traditional web services has been a problem. So, as I said, this process is very important, but the fact that we've had so many problems in urban areas has been astonishing to me. I've raised, as you know, issues on behalf of residential clients on a number of occasions about notspots in Cardiff in places like Penylan, Tremorfa and Roath, which are very close to the city centre. But, more recently, I've met with the former director of BT regarding commercial properties within the city centre of Cardiff itself. I'm told that BDUK have declared the city centre an exclusion zone, so that is going to create a whole new range of difficulties in terms of enabling there to be intervention. I understand that there is discussion ongoing about what possible intervention there can be.

Some of the new developers building commercial properties in the centre of the city are putting in the very, very high quality broadband solutions that you would expect them to—St David's 2, for example, has that—but some of the more traditional premises, for example, St Andrew's Crescent and some of the areas around Park Place that aren't part of the university, and some of those areas, are apparently too small individually to be considered commercially viable, but they're within the exclusion zone, which means they can't be tackled by an infill project. So, they're in a pincer movement, really, between two different projects, and I wonder if you could, perhaps, endeavour to have a look at that at some later stage. Obviously, I don't expect you to have a comprehensive postcode list of all of the premises that are covered and will be in the future.

Yn eich datganiad, rydych yn sôn y bydd ar gael ledled Cymru yn 2016. Mae hynny'n rhoi'r syniad y bydd pob cartref a phob busnes yn cael eu cynnwys erbyn hynny, a byddai hynny'n wych, ond mae'n amlwg bod problemau wedi bod, fel y gwyrddom, gwahanol broblemau amrywiol. Mae peth o'r wybodaeth sydd wedi mynd allan yn ystod y broses gyflwyno domestig wedi bod yn annibynadwy ar adegau. Er enghraifft, gallech fynd a theipio eich cod post ar wefan Cyflymu Cymru a chael gwybod ei fod ar gael yn eich ardal chi. Nid oedd hynny o reidrwydd yn golygu ei fod ar gael ar gyfer eich tŷ chi yn eich ardal chi, ac mae pobl wedi cwyno wrthyf am hynny. Yn yr un modd, mae pobl wedi cwyno eu bod wedi cael ymwadiad ei fod ar gael i rai tai yn eu hardal, ond nid o reidrwydd i bob un, ac rwy'n sylwi nawr bod y wefan hon yn cynnwys yr ymwadiad hwn. Cyn gynted ag y byddwch yn mynd ar y map i geisio chwilio, mae'n dweud wrthyfch ei fod yn ddangosol, nid yn ddiffiniol, sy'n rhwystredig i bobl, am fod angen gwybodaeth ddibynadwy arnynt ac mae angen i ni wybod nad yw'r sefyllfa honno yn mynd i ddigwydd pan fyddwn yn gweithio gyda busnesau, a allai fod yn gwneud buddsoddiadau, a allai fod yn cyflogi pobl i wneud datblygiadau ar eu gwefannau neu newid cyfeiriad eu busnes yn seiliedig ar y ffaith eu bod yn mynd i gael capasiti ar adeg benodol. Felly, rwyf yn adleisio galwad Rhun ap Iorwerth i wneud yn siŵr ein bod yn gwybod yn union pwy yw'r bobl hynny a allai dderbyn band eang cyflym iawn yn hwyrach.

Yn amlwg, mae hyn yn bwysig iawn i fusnesau gwledig, oherwydd gyda cholli pethau fel bancio go iawn a gwasanaethau eraill go iawn mewn cymunedau lleol, maent yn hynod ddibynnol ar wasanaethau ar y we, a natur annibynadwy y gwasanaethau ar y we traddodiadol wedi bod yn broblem. Felly, fel y dywedais, mae'r broses hon yn bwysig iawn, ond mae'r ffaith ein bod wedi cael cynifer o broblemau mewn ardaloedd trefol wedi bod yn rhyfeddol i mi. Rwyf wedi codi, fel y gwyrddoch, faterion ar ran cleientiaid preswyl ar sawl achlysur am fannau gwan yng Nghaerdydd mewn llefydd fel Penylan, Tremorfa a'r Rhath, sy'n agos iawn at ganol y ddinas. Ond, yn fwy diweddar, rwyf wedi cwrdd â chyn-gyfarwyddwr BT ynghylch eiddo masnachol yng nghanol dinas Caerdydd ei hun. Mae BDUK wedi dweud wrthyf fod canol y ddinas wedi ei ddatgan yn barth gwahardd, felly mae hynny yn mynd i greu amrywiaeth newydd o anawsterau o ran galluogi ymyrraeth. Rwyf yn deall bod trafodaeth yn parhau ynglŷn â pha ymyrraeth allai fod.

Mae rhai o'r datblygwyr newydd sy'n adeiladu eiddo masnachol yng nghanol y ddinas yn gosod atebion band eang o ansawdd uchel iawn y byddech yn disgwyl iddynt ei wneud—mae gan Dewi Sant 2 hynny, er enghraifft,—ond mae rhai o'r adeiladau mwy traddodiadol, er enghraifft, St Andrew Crescent a rhai o'r ardaloedd o gwmpas Plas y Parc nad ydynt yn rhan o'r brifysgol, ac mae rhai o'r ardaloedd hynny, yn ôl pob golwg yn rhy fach yn unigol i gael eu hystyried yn fasnachol hyfyw, ond maen nhw yn y parth gwahardd, sy'n golygu na ellir ymddrin â nhw gan brosiect mewnlenwi. Felly, maent rhwng dwy sefyllfa, mewn gwirionedd, rhwng dau brosiect gwahanol. Tybed a allwch, o bosibl, wneud ymdrech i gael golwg ar hynny rywbryd. Yn amlwg, nid wyf yn disgwyl bod gennych restr cod post gynhwysfawr o'r holl eiddo sydd wedi eu cynnwys ac a fydd yn cael eu cynnwys yn y dyfodol.

Looking at more broad geographic areas, though, I think there is a possibility, for reasons like that, for reasons like commercial operators being slow to release data to you, that there may be areas that don't get the kind of swift response that we would hope for, and we would be grateful for a better understanding of the kind of places that might be in. Maybe briefings to Members on areas affected would be very helpful. But, also, clearly, we see that some of the funding for this is coming from ERDF money, and I'd be grateful of an indication of whether that will have an impact on the places where the most investment will go to in this programme. But, thank you for your statement.

Gan edrych ar ardaloedd daearyddol mwy eang, er hynny, rwyf yn meddwl bod posibilrwydd, am resymau fel 'na, am resymau tebyg i weithredwyr masnachol yn bod yn araf i ryddhau data i chi, y gallai fod ardaloedd nad ydynt yn cael y math o ymateb cyflym y byddem yn gobeithio amdano, a byddem yn ddiolchgar o gael gwell ddealltwriaeth o'r math o lefydd y gallai hynny fod yn wir amdanynt. Efallai y byddai sesiynau briffio i Aelodau ar yr ardaloedd yr effeithir arnynt yn ddefnyddiol iawn. Ond, hefyd, yn amlwg, rydym yn gweld bod rhywfaint o'r arian ar gyfer hyn yn dod o arian ERDF, a byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod a fydd yn cael effaith ar y mannau lle y bydd y buddsoddiad mwyaf yn mynd iddynt yn y rhaglen hon. Ond, diolch i chi am eich datganiad.

17:55

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member makes a number of points that were made by other Members, and we're all sharing the same frustration, really. In terms of the website, I'll just repeat the answer I gave to Russell George and to Rhun ap Iorwerth earlier. We are in discussion with BT about the level of information available on the website, with a view to making it much more specific, and also with a view to people understanding what it is they're seeing. So, for example, when it says that an area will be enabled, what it means is that the first cabinet in that area will be enabled, and we're looking to have them have a roll-out for that area on the website as well. And that's a discussion that's ongoing with them.

In fairness to them, it's actually sometimes very difficult to do that, because although an area might be geographically small, it might have a number of different problems in it. And the problems are things like blocked ducting so they can't just rewire it, wayleave problems and geographical difficulties that occur even inside cities that might affect one street and not another. But, we are working very hard to make sure that their website gives you more, better and much more up to date information, so I share your concern.

In terms of the city centre, Cardiff is not the only city centre affected by those sorts of problems; we have a number of urban areas affected by those sorts of problems. Again, in my very regular meetings with BT, these things are always raised, and, indeed, we have an ongoing series of meetings with providers to try and discuss that sort of thing, with a view to them identifying places that are not going to be covered by the commercial roll-out, so that we can include them. And that's an ongoing process, and I share the Member's frustration with it.

On Cardiff city centre exclusion zone itself, I'll have to write to the Member with more detail. She's quite right; I don't have the postcode information in my head, so I'll write to her with some more detail on that.

Mae'r Aelod yn gwneud nifer o bwyntiau a wnaethpwyd gan Aelodau eraill, ac rydym i gyd yn rhannu'r un rhwystredigaeth, mewn gwirionedd. O ran y wefan, rwy'n ailadrodd yr ateb a roddais i Russell George ac i Rhun ap Iorwerth yn gynharach. Rydym yn cynnal trafodaethau gyda BT ynghylch lefel yr wybodaeth sydd ar gael ar y wefan, gyda'r bwriad o'i gwneud yn llawer mwy penodol, a hefyd gyda'r bwriad y bydd pobl yn deall beth y maent yn ei weld. Felly, er enghraifft, pan fydd yn dweud y bydd ardal yn cael ei galluogi, beth mae hynny'n ei olygu yw y bydd y cabinet cyntaf yn yr ardal honno yn cael ei alluogi, ac rydym yn gobeithio y byddant yn cynnwys y trefniadau ar gyfer y gwaith cyflwyno yn yr ardal honno ar y wefan hefyd. Ac mae honno'n drafodaeth sy'n parhau gyda nhw.

A bod yn deg iddynt, mewn gwirionedd mae hi weithiau'n anodd iawn i wneud hynny, oherwydd er y gallai ardal fod yn ddaearyddol fach, gallai fod nifer o wahanol broblemau yno. A'r problemau yw pethau fel pibelli wedi eu blocio fel nad yw'n fater syml o ailweirio, problemau fforddfraint ac anawsterau daearyddol sy'n digwydd hyd yn oed mewn dinasoedd a allai effeithio ar un stryd ac nid un arall. Ond rydym yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod eu gwefan yn rhoi mwy o wybodaeth, gwybodaeth well a llawer mwy diweddar, felly rwyf yn rhannu eich pryder.

O ran y canol y ddinas, nid canol Caerdydd yn unig sy'n dioddef o broblemau fel y rhain; mae gennym nifer o ardaloedd trefol yr effeithir arnynt gan broblemau fel y rhain. Unwaith eto, yn fy nghyfarfodydd rheolaidd iawn â BT, mae'r pethau hyn yn cael eu codi dro ar ôl tro, ac, yn wir, mae gennym gyfres barhaol o gyfarfodydd gyda darparwyr i geisio trafod pethau fel hyn, gyda'r bwriad eu bod yn nodi llefydd nad ydynt yn mynd i gael eu cynnwys gan y cyflwyno masnachol, fel y gallwn ni eu cynnwys nhw. Ac mae honno'n broses barhaus, ac rwy'n rhannu rhwystredigaeth yr Aelodau.

O ran parth gwahardd canol dinas Caerdydd ei hun, bydd yn rhaid imi ysgrifennu at yr Aelod gyda mwy o fanylion. Mae hi'n hollol iawn; nid oes gennyf yr wybodaeth am godau post yn fy mhen, felly byddaf yn ysgrifennu ati gyda mwy o fanylion am hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of the whole of Wales and the rest of Wales and so on, she's also quite right; what we're talking about there is that every area of Wales will have superfast in it. What we're not talking about there is that every single premises will be connected to Superfast Cymru. But, we are working on a project to ensure that good broadband is available to all premises in Wales, using a range of alternative technologies, and that's the last bit of the project that I discussed with Rhun ap Iorwerth earlier in the statement.

O ran Cymru gyfan a gweddill Cymru ac yn y blaen, mae hi hefyd yn hollol gywir; yr hyn yr ydym yn sôn amdano yw y bydd pob rhan o Gymru yn cael band eang cyflym iawn. Yr hyn nad ydym yn sôn amdano yw y bydd pob adeilad unigol wedi ei gysylltu â Chyflymu Cymru. Ond, rydym yn gweithio ar brosiect i sicrhau bod band eang da ar gael i bob adeilad yng Nghymru, gan ddefnyddio ystod o dechnolegau amgen, a dyna ran olaf y prosiect a drafodais gyda Rhun ap Iorwerth yn gynharach yn y datganiad.

17:57

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I welcome the statement you've given today on the exploitation and this is where my focus is—it's actually about using broadband to actually enhance businesses, to improve their performance, and to ensure that they are in the marketplaces of the global world we operate in today. But, I have a couple of points I want to raise. Obviously, I also welcome the Welsh Government's intervention in ensuring that industrial estates, which were not going to be included in the commercial roll-out, are now going to be in place, particularly three in my constituency, in Baglan and Kenfig. But, this is about expectation, and you mentioned the issue of exploitation champions and training up advisers to these businesses to ensure they can get the best out of it. I don't think you answered Rhun ap Iorwerth's comment as to whether you would be frontloading the issue of funding to ensure that those business advisers are skilled and are developed to be able to offer the service to businesses. And I just wondered also whether you'd been in discussions with higher education to look at whether the knowledge transfer partnerships could be used to actually put skilled young individuals who have the technology skills, who have the knowledge and also the innovation opportunities to take them forward within businesses to drive the agenda forward within those businesses.

Weinidog, rwyf yn croesawu'r datganiad yr ydych wedi ei roi heddiw ar y manteisio a dyma yw fy mhwyslais i—defnyddio band eang i wella busnesau mewn gwirionedd, i wella eu perfformiad, ac i sicrhau eu bod yn y marchnadoedd byd-eang rydym yn gweithredu ynndynt heddiw. Ond, mae gennyf un neu ddau o bwytiau yr wyf am eu codi. Yn amlwg, rwyf hefyd yn croesawu ymyrraeth Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod ystadau diwydiannol, nad oedd yn mynd i gael eu cynnwys yn y broses gyflwyno masnachol, yn awr yn mynd i fod ar waith, yn enwedig tri yn fy etholaeth i, ym Maglan a Chynffig. Ond, mae hyn yn ymwneud â disgygliad, ac roeddech yn sôn am y mater o hyrwyddwyr manteisio a hyfforddi'r cynghorwyr i'r busnesau hyn i sicrhau y gallant gael y gorau ohono. Nid wyf yn credu eich bod wedi ateb sylwadau Rhun ap Iorwerth ynghylch a fydddech yn blaenlwytho'r cyllid i sicrhau bod gan yr ymgynghorwyr busnes hynny y sgiliau a'u bod yn cael eu datblygu er mwyn gallu cynnig y gwasanaeth i fusnesau. Tybed hefyd a ydych wedi bod mewn trafodaethau ag addysg uwch i ystyried a allai'r partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth gael eu defnyddio i roi unigolion ifanc medrus sydd â'r sgiliau technoleg, sydd â'r wybodaeth a hefyd y cyfleoedd arloesi i fynd â nhw ymlaen mewn busnesau mewn gwirionedd i yrru'r agenda ymlaen yn y busnesau hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:59

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On that last point, yes, we are having those discussions and they are part of the stakeholder group that we're setting up to make sure that exactly that point happens, where you have people with the most recent knowledge—the most recent graduates—being able to assist.

Sorry, I apologise about the frontloading point—I missed it in the list there. The answer is that we haven't got a scheduled number of business to reach. We want to react to the businesses that come forward, so if the business need is there then the programme will meet that. We'll see how that goes, and then we'll have to review the programme as part of the review process as the five years continue. But, it's not our intention to say that only a certain number of businesses can receive help in the first instance—far from it—and, indeed, you would expect more businesses to come forward at first when they're first enabled or just before enablement.

Ar y pwynt olaf hwnnw, ydym, rydym yn cael y trafodaethau hynny ac maent yn rhan o'r grŵp rhanddeiliaid yr ydym yn ei sefydlu i sicrhau bod yr union bwynt hwnnw yn digwydd, lle mae gennych y bobl sydd â'r wybodaeth ddiweddaraf—y graddedigion diweddaraf—yn gallu cynorthwyo.

Mae'n ddrwg gennyf, rwyf yn ymddiheuro am y pwynt am flaenlwytho—collais hwnnw yn y rhestr. Yr ateb yw nad oes gennym nifer a drefnwyd o fusnes i'w cyrraedd. Rydym yn awyddus i ymateb i'r busnesau sy'n dod atom, felly os yw'r angen busnes yno, yna bydd y rhaglen yn bodloni hwnnw. Byddwn yn gweld sut mae hynny'n mynd, ac yna bydd rhaid i ni adolygu'r rhaglen fel rhan o'r broses adolygu wrth i'r bum mlynedd barhau. Ond, nid yw'n fwriad gennym i ddweud mai dim ond nifer benodol o fusnesau sy'n cael cymorth yn y lle cyntaf—yn sicr nid ydynt yn dweud hynny—ac, yn wir, bydddech yn disgwyl i fwy o fusnesau ddod ymlaen ar y dechrau wrth iddynt gael eu galluogi yn gyntaf neu ychydig cyn iddynt gael eu galluogi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of the point the Member makes about business parks and industrial estates, again, I did say this in my earlier statement in July that a contract was let with Airband, who are specialists in high-speed wireless broadband, to cover a large number of the industrial estates. They're just doing site surveys, planning permission and so on and finalising their detailed deployment plan, but all of that is due to be finished by summer 2016. So, the industrial estates in the Member's constituency will be part of that programme and, as soon as I have more detail on that, I will certainly let him know.

O ran y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud am barciau busnes ac ystadau diwydiannol, unwaith eto, dywedais hyn yn fy natganiad yn gynharach ym mis Gorffennaf, bod contract wedi ei osod gydag Airband, sy'n arbenigwyr mewn band eang di-wifr cyflym, i gwmpasu nifer fawr o'r ystadau diwydiannol. Maen nhw'n gwneud arolygon safle, cael caniatâd cynllunio ac yn y blaen ac yn cwblhau eu cynllun dyrannu manwl, ond mae hyn i gyd i fod i gael ei gwblhau erbyn haf 2016. Felly, bydd yr ystadau diwydiannol yn etholaeth yr Aelod yn rhan o'r rhaglen honno, a chyn gynted ag y bydd gennyf fwy o fanylion am hynny, byddaf yn sicr yn rhoi gwybod iddo.

18:00 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

A single question: you might recall that, nearly a year ago, you issued a letter to Members after I raised concerns over state aid rules, the FibreSpeed network in north Wales and the inability, then, of Superfast Cymru to be applied in those areas. In your letter, you said that the 793 postcodes within the industrial estates and business parks served by the FibreSpeed network in north Wales that were previously excluded from Superfast Cymru would now be included in the scope of the new Superfast Cymru in-fill project. How will you address concerns raised with me, therefore, at last Thursday's CBI north Wales dinner by business leaders, for example, on Deeside in Flintshire, who were unaware of this and believed that those state aid rules were still a barrier to accessing Superfast Cymru?

Un cwestiwn: efallai y byddwch yn cofio, bron i flwyddyn yn ôl, i chi anfon llythyr at yr Aelodau ar ôl i mi fynegi pryderon am reolau cymorth gwladwriaethol, y rhwydwaith FibreSpeed yng ngogledd Cymru a'r anallu, ar y pryd, i Gyflymu Cymru gael ei ddefnyddio yn yr ardaloedd hynny. Yn eich llythyr, roeddech yn dweud y byddai'r 793 o godau post yn yr ystadau diwydiannol a'r parciau busnes a wasanaethir gan y rhwydwaith FibreSpeed yng ngogledd Cymru, a gafodd eu heithrio rhag Cyflymu Cymru, bellach yn cael eu cynnwys yng nghwmpas prosiect mewnlenwi newydd Cyflymu Cymru. Sut fyddwch chi'n rhoi sylw i bryderon a godwyd gyda mi, felly, yng nghinio Cydffederasiwn Diwydiant Prydain ddydd Iau diwethaf yng ngogledd Cymru gan arweinwyr busnes, er enghraifft, ar Lannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint, nad oedd yn ymwybodol o hyn ac a oedd yn credu bod y rheolau cymorth gwladwriaethol hynny yn dal i fod yn rhwystr i gael mynediad at Gyflymu Cymru ?

18:01 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

If the Member wants to write to me with specific concerns, I'm very happy to raise them. We are rolling out the in-fill project in that area. If he has specific businesses that haven't had that information, I'd be more than happy to forward it on to them or indeed to send an information piece out across the whole area.

Os yw'r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf am bryderon penodol, rwy'n hapus iawn i godi'r pryderon hynny. Rydym yn cyflwyno'r prosiect mewnlenwi yn yr ardal honno. Os oes ganddo fusnesau penodol nad ydynt wedi cael yr wybodaeth honno, byddwn i'n fwy na pharod i'w hanfon ymlaen atynt neu yn wir i anfon darn gwybodaeth ar draws yr ardal gyfan.

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Minister.

Diolch, Ddirprwy Weinidog.

18:01 **8. Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i Amrywio Trefn Ystyried Gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru)**

8. Motion under Standing Order 26.36 to Vary the Order of Consideration of Stage 3 Amendments to the Local Government (Wales) Bill

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 8, which is a motion under Standing Order 26.36 to vary the order of consideration of Stage 3 amendments to the Local Government (Wales) Bill. I call the Minister for Public Services to move the motion. Leighton Andrews.

Symudwn yn awr at eitem 8, sydd yn gynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio'r drefn o ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i Fil Llywodraeth Leol (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig. Leighton Andrews.

Cynnig NDM5823 Jane Hutt

Motion NDM5823 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

Agrees to dispose of sections and schedules to the Local Government (Wales) Bill at Stage 3 in the following order:

a) adrannau 2-47

a) sections 2-47

b) adran 1

b) section 1

c) teitl hir.

c) long title.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

18:01

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Yn ffurfiol.

Formally.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:01

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no speakers. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig yn cael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

18:02

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 18:02.

The meeting ended at 18:02.